# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 21/01/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol
1. Questions to the Minister for Natural Resources

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Dwristiaeth
3. Debate on the Enterprise and Business Committee's Report on Tourism

4. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Awtistiaeth
4. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Autism

5. Dadl Plaid Cymru: Y Diwydiant Amaeth
5. Plaid Cymru Debate: The Farming Industry

6. Cyfnod Pleidleisio
6. Voting Time

7. Dadl Fer: Dangos y Faner Goch i Gylchffordd Cymru—Amlinellu'r Pryderon am Brosiect Cylchffordd Cymru
7. Short Debate: Giving the Circuit of Wales the Red Flag—Outlining the Concerns around the Circuit of Wales Project


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

13:30

## 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

## 1. Questions to the Minister for Natural Resources

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item this afternoon is questions to the Minister for Natural Resources. Question 1 is from Rhun ap Iorwerth.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Rhun ap Iorwerth sy'n gofyn cwestiwn 1.

### Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ystâd y Goron

### Natural Resources Wales and the Crown Estate

13:30

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ystâd y Goron? OAQ(4)0239(NR)*

*1. Will the Minister make a statement on the memorandum of understanding between Natural Resources Wales and the Crown Estate? OAQ(4)0239(NR)*

13:30

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

I thank the Member for his question. This is an operational matter between Natural Resources Wales and the Crown Estate.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae hwn yn fater gweithredol rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ystad y Goron.

13:30 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. A ydy'r Gweinidog yn sylweddoli'r poen meddwl sy'n cael ei achosi i bobl yn fy etholaeth i ar hyn o bryd, wrth i Ystâd y Goron gofrestru hawliau hynafol ar eu heiddo nhw? A ydy'r Gweinidog yn meddwl y gallai memorandwm rhwng Llywodraeth Cymru ac Ystâd y Goron gael ei ymestyn yn y dyfodol, i warchod buddiannau pobl Cymru yn wyneb cofrestriadau o'r fath, ac a ydyw'n gweld mai'r ffordd orau i warchod buddiannau pobl Cymru yn y dyfodol ydy i ddatganoli'r cyfrifoldeb am asedau Ystâd y Goron yng Nghymru?

Thank you. Does the Minister understand the anxiety caused to people in my constituency at present as the Crown Estate register ancient rights on their properties? Does the Minister believe that a memorandum between the Welsh Government and the Crown Estate could be expanded or enhanced in future to protect the interests of the people of Wales in the light of such registrations? Does he believe that the best way of protecting the interests of the people of Wales in future is to devolve responsibility for the assets of the Crown Estate in Wales?

13:31 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, the Crown Estate is a body established in perpetuity under the Crown Estate Act 1961, as a trust estate independent of Government and the monarch, with a public function to invest and manage certain property assets belonging to the monarch. I recognise the issue the Member raises in terms of the relationship between the Crown Estate and his constituents, and it is something that I would encourage the Crown Estate to take very seriously, on engagement and public engagement, and making it clear about what their remit and intention is on the island of Anglesey.

Wel, wrth gwrs, mae Ystad y Goron yn gorff a sefydlwyd am byth o dan Ddeddf Ystad y Goron 1961, fel ystâd ymddiriedolaeth yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r frenhines, gyda swyddogaeth gyhoeddus i fuddsoddi a rheoli asedau eiddo penodol sy'n perthyn i'r frenhines. Rwy'n cydnabod y mater a goda'r Aelod o ran y berthynas rhwng Ystad y Goron a'i etholwyr, ac y mae'n rhywbeth y byddwn yn annog Ystad y Goron i'w gymryd o ddifrif, o ran ymgysylltiad ac ymgysylltu â'r cyhoedd, a gwneud eu cylch gwaith a'u bwriad ar Ynys Môn yn eglur.

13:32 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, Natural Resources Wales incorporates the previous Forestry Commission. A few years ago, in Tintern, in the Wye valley, in my constituency, there was a major landslide, where the Forestry Commission actually came in for significant praise for dealing it with very well. That was in the region of the Crown Estate around Tintern abbey. Can you give us an assurance that, if a similar crisis to that happens to a village such as Tintern in future, Natural Resources Wales will take its obligations to those communities as seriously as the Forestry Commission did at that point, in providing the necessary remedial work as soon as they can?

Weinidog, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys y Comisiwn Coedwigaeth blaenorol. Ychydig flynyddoedd yn ôl, yn Nhyndyrn yn nyffryn Gwy, yn fy etholaeth i, bu tirlithriad mawr, lle y cafodd y Comisiwn Coedwigaeth gryn ganmoliaeth am ddelio â'r sefyllfa'n dda iawn. Digwyddodd hynny yn rhanbarth Ystad y Goron o amgylch abaty Tyndyrn. A allwch chi roi sicrwydd, os bydd argyfwng tebyg yn digwydd i bentref fel Tyndyrn yn y dyfodol, y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd ei rwymedigaethau i'r cymunedau hynny mor ddifrifol ag y gwnaeth y Comisiwn Coedwigaeth ar yr adeg honno, gan ddarparu'r gwaith adferol angenrheidiol cyn gynted ag y gallant?

13:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful for the Member's question. It is important to ensure that NRW work as effectively as they possibly can. I meet with them on a regular basis, and the resilience of their organisation is critical to making sure that communities feel safe, in both a preventative way and a proactive way, working with the communities. It is something that I would expect NRW, and the Forestry Commission merged in that, working with the Crown Estate, to work actively on should that activity happen again.

Rwy'n ddiolchgar iawn am gwestiwn yr Aelod. Mae'n bwysig sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio mor effeithiol ag sy'n bosibl. Rwy'n cyfarfod â hwy'n rheolaidd, ac mae cydnerthedd eu sefydliad yn hanfodol i sicrhau bod cymunedau yn teimlo'n ddiogel, mewn modd ataliol ac mewn modd rhagweithiol, gan weithio gyda'r cymunedau. Mae'n rhywbeth y byddwn yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r Comisiwn Coedwigaeth yn rhan ohono, gan weithio gydag Ystad y Goron, fynd ati i weithredu arno pe bai'r pethau hynny yn digwydd eto.

## Prosiect i Ddarparu ar gyfer Effaith Weledol

## Visual Impact Provision Project

13:33 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y prosiect i ddarparu ar gyfer effaith weledol? OAQ(4)0254(NR)*

*2. What discussions has the Minister had with the UK Government regarding the visual impact provision project? OAQ(4)0254(NR)*

13:33 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her question. I have had no meetings with the UK Government on the visual impact project. Wales is, however, represented on the stakeholder advisory group established by National Grid to advise them on identifying and mitigating the impact of existing power lines on designated landscapes in both Wales and England.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Nid wyf wedi cael cyfarfodydd â Llywodraeth y DU ar y prosiect i ddarparu ar gyfer effaith weledol. Fodd bynnag, cynrychiolir Cymru ar grŵp cynghori'r rhanddeiliaid a sefydlwyd gan y Grid Cenedlaethol i roi cyngor iddynt ar nodi a lliniaru effaith y llinellau trydan presennol ar dirweddau dynodedig yng Nghymru a Lloegr.

13:33 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for that answer, Minister. But the initial areas prioritised for use of the VIP include the Brecon Beacons and Snowdonia national parks. How, Minister, will the Welsh Government support park authorities to help secure a fair share of that funding in Wales?

Diolch i chi am yr ateb, Weinidog. Ond mae'r meysydd cychwynnol a flaenoriaethwyd i ddefnyddio'r prosiect i ddarparu ar gyfer effaith weledol yn cynnwys parciau cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Eryri. Weinidog, sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i gefnogi awdurdodau'r parciau i helpu i sicrhau cyfran deg o'r arian i Gymru?

13:33 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her supplementary question. Two of the 12 shortlisted projects are in national parks in Wales. Pembrokeshire Coast National Park Authority intends to submit proposals for a £25 million-bid for soft landscaping funding, when that becomes available. Welsh Government does provide financial support to the national park authorities in Wales to deliver on their first purpose of conserving and enhancing these special landscapes.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn atodol. Mae dau o'r 12 prosiect sydd ar y rhestr fer mewn parciau cenedlaethol yng Nghymru. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn bwriadu cyflwyno argymhellion ar gyfer cais gwerth £25 miliwn am gyllid tirlunio meddal, pan fydd ar gael. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol i awdurdodau'r parciau cenedlaethol yng Nghymru i gyflawni eu pwrpas cyntaf, sef gwarchod a gwella'r tirweddau arbennig hyn.

13:34 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm sure you'll agree with me that it's important to help reduce the impact of existing transmission lines in all rural areas, not just in Welsh areas of outstanding natural beauty and national parks. Given the circumstances, what support can the Welsh Government offer to rural areas of significant interest that aren't eligible for funding from the visual impact provision project, to help mitigate the visual impact of transmission lines?

Weinidog, rwy'n sicr y byddwch yn cytuno â mi ei bod yn bwysig helpu i leihau effaith llinellau trawsyrru presennol ym mhob ardal wledig, nid yn unig yn yr ardaloedd yng Nghymru sydd o harddwch naturiol eithriadol a pharciau cenedlaethol. O ystyried yr amgylchiadau, pa gefnogaeth y gall Llywodraeth Cymru ei chynnig i ardaloedd gwledig o ddiddordeb arwyddocaol nad ydynt yn gymwys i gael arian gan y prosiect darparu ar gyfer effaith weledol, er mwyn helpu i liniaru effaith weledol llinellau trawsyrru?

13:34 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, this is a matter for National Grid in these proposals, in terms of how they allocate and input. But it is something that the policy for major infrastructure, including electricity transmission lines, as the Member knows, which now rests with the Minister for Economy, Science and Transport.

Wel, wrth gwrs, mater i'r Grid Cenedlaethol yw'r argymhellion hyn, o ran sut y maent yn dyrannu ac o ran mewnbwn. Ond mae'n rhywbeth i'r polisi ar gyfer seilwaith mawr, gan gynnwys llinellau trawsyrru trydan, sydd bellach, fel y mae'r Aelod yn gwybod, yng ngofal Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

13:35 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r grid cenedlaethol wedi argymell y bydd y gwifrau trydan newydd o Wylfa B ar Ynys Môn yn cael eu gosod o dan afon Menai, sydd, wrth gwrs, yn ardal o harddwch arbennig. Ar ochr Arfon i'r Fenai, dim ond ychydig filltiroedd sydd yna i'r is-orsaf ym Mhentir, a pheth o hwnnw ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. A wnewch chi ymuno â mi i ddwyn pwysau ar y grid i danddaearu'r llinellau hyn o'r Fenai i Bentir?

The National Grid has recommended that the new electric lines for Wylfa B on Anglesey will be placed under the Menai straits, which is, of course, an area of outstanding natural beauty. On the Arfon side of the Menai, there are only a few miles to the substation at Pentir, and some of that is National Trust land. Will you join with me to bring pressure to bear on the National Grid to underground these lines from the Menai straits to Pentir?

13:35 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, as the Member will be aware, many of these applications are non-devolved, to decisions taken by Welsh Ministers. The Member makes his views well known and is consistent in that process.

Wel, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, mae llawer o'r ceisiadau hyn heb eu datganoli, i benderfyniadau a wnaed gan Weinidogion Cymru. Mae'r Aelod yn gwneud ei farn yn hysbys ac mae'n gyson o ran y broses honno.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party spokespeople. First this afternoon is the opposition spokesperson, Russell George.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd yr wrthblaid, Russell George.

13:36 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Deputy Minister, I welcome your work consulting with farmers, and indeed with me, on the current situation with the CAP basic payment scheme, but I have to say that this represents a serious failure on behalf of the Welsh Government to instigate early modelling work, which has caused massive uncertainty and confusion for farmers. So, following this fiasco—and that's what it is, I'm afraid—what lessons have the Welsh Government learned from this, and will the Deputy Minister confirm that the Welsh Government must accept responsibility for this failure?

Diolch i chi, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, croesawaf eich gwaith yn ymgynghori gyda ffermwyr a chyda mi, yn wir, ar y sefyllfa bresennol o ran cynllun taliad sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin, ond rhaid i mi ddweud bod hyn yn fethiant difrifol ar ran Llywodraeth Cymru i gychwyn gwaith modelu cynnar, sydd wedi achosi ansicrwydd a dryswch enfawr i ffermwyr. Felly, yn dilyn y methiant—a dyna ydyw, yn anffodus—pa wersi y mae Llywodraeth Cymru wedi'u dysgu o hyn, ac a wnaiff y Dirprwy Weinidog gadarnhau bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru dderbyn cyfrifoldeb am y methiant?

13:36 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Well, I have to say that contrary to what some spokespeople have been saying, there has been no u-turn or a change of heart on the part of the Welsh Government. The original proposals do represent the best possible result for the industry in Wales as a whole. The policy intent from the start was sound; proposals were designed to cause the least disruption to the industry as a whole and to reflect the productivity of the land. So, as far as possible, those remain my aims going forward, although the reduced timescales available, and the risk of further legal challenge, will also feature large in any decision that I make.

Wel, rhaid i mi ddweud, yn groes i'r hyn y mae rhai llefarwyr wedi bod yn ei ddweud, ni fu unrhyw dro pedol na newid meddwl ar ran Llywodraeth Cymru. Y cynigion gwreiddiol yw'r canlyniad gorau posibl i'r diwydiant yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. Roedd bwriad y polisi o'r cychwyn yn gadarn; cynlluniwyd cynigion i achosi'r aflonyddwch lleiaf i'r diwydiant yn ei gyfanrwydd ac i adlewyrchu cynhyrchiant y tir. Felly, cyn belled ag y bo modd, dyna yw fy nod wrth symud ymlaen, er y bydd yr amserlenni byrrach a'r risg o her gyfreithiol bellach hefyd yn dylanwadu'n fawr ar unrhyw benderfyniad a wnaf.

The Welsh Government's decisions and our proposals thus far were actually the result of a huge amount of modelling work that went on in partnership with the industry. There were many public meetings and much close stakeholder working. The industry, with a few exceptions, accepted that those proposals were reasonable and acceptable as a means of moving to the new area-based system.

Roedd penderfyniadau Llywodraeth Cymru a'n cynigion hyd yn hyn yn ganlyniad gwaith modelu sylweddol a wnaed mewn partneriaeth â'r diwydiant. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd cyhoeddus a chryn dipyn o gydweithio agos â rhanddeiliaid. Gyda rhai eithriadau, roedd y diwydiant yn derbyn bod y cynigion hynny'n rhesymol ac yn dderbyniol fel ffordd o symud at y system newydd sy'n seiliedig ar arwynebedd.

13:37 **Russell George** Bywgraffiad Biography

I think that part of the issue, Deputy Minister, is that you only withdrew from a legal challenge at the eleventh hour, and there were three months where you could have received legal advice, which could have given you more time to deal with the issues that you're facing now. But, it is imperative that, although the process for a new payment scheme needs to be undertaken swiftly, we ensure that this is a rigorous and thorough process to ensure that past mistakes, which have heaped untold pressure on Welsh farmers, aren't repeated. It is coming up now to one of the busiest periods of the year in the farming calendar, so it is vital that farmers can respond and consult and be consulted accordingly on the new proposals that the Welsh Government brings forward. Can I ask the Deputy Minister what assurances you can give that the process will be undertaken speedily, but with a comprehensive process, to ensure that farmers' voices are heard strongly in future consultation?

Credaf mai rhan o'r broblem, Ddirprwy Weinidog, yw na thynnoch chi'n ôl o her gyfreithiol tan yr unfed awr ar ddeg, ac roedd tri mis lle y gallech fod wedi cael cyngor cyfreithiol, a allai fod wedi rhoi mwy o amser i chi ymdrin â'r problemau rydych yn eu hwynebu yn awr. Ond er bod angen cyflawni'r broses o gael cynllun taliad newydd yn gyflym, mae'n hanfodol inni sicrhau ei bod yn broses drylwyr a thrwyadl er mwyn gwneud yn siŵr nad yw camgymeriadau'r gorffennol, sydd wedi rhoi pwysau ofnadwy ar ffermwyr Cymru, yn cael eu hailadrodd. Rydym yn agosáu at un o gyfnodau prysuraf y flwyddyn yn y calendr ffermio, felly mae'n rhaid i ffermwyr allu ymateb a bod yn rhan o broses ymgynghori yn unol â hynny ar y cynigion newydd y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno. A gaf fi ofyn i'r Dirprwy Weinidog pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd y broses yn cael ei chynnal yn gyflym, ond yn gynhwysfawr, er mwyn sicrhau bod lleisiau ffermwyr yn cael eu clywed yn gryf mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol?

Senedd.tv
Fideo Video

13:38 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

I am more than happy to give you those reassurances, and I will say that the legal advice that we had when the claim was received was that the Welsh Government had a good defence. There are plenty of lawyers in this Chamber to know that it's only really when you see the skeleton case before you that you can really take a view as to what the outcome might be. Work has already begun, you will be pleased to know, on the alternative options and these are being considered already by the CAP data modelling group. That meeting took place last Friday, and that modelling group involves stakeholders right across the farming industry and beyond. So, that work is already ongoing. They will be meeting again shortly, and I expect them to agree what the possible options are for the way forward, because we must consider what's possible within the reduced timescales that are available to us and, again, what's safe against a future legal challenge.

Rwyf yn fwy na pharod i roi'r sicrwydd hwnnw i chi, a dywedaf mai'r cyngor cyfreithiol a gawsom pan ddaeth y cais i law oedd bod gan Lywodraeth Cymru amddiffyniad da. Mae digon o gyfreithwyr yn y Siambr i wybod mai pan welwch yr achos bras o'ch blaenau yn unig y gallwch farnu mewn gwirionedd ynglŷn â'r hyn y gallai'r canlyniad fod. Fe fyddwch yn falch o wybod bod y gwaith wedi dechrau eisoes ar yr opsiynau amgen ac mae'r rhain yn cael eu hystyried eisoes gan grŵp modelu data'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Cynhaliwyd y cyfarfod ddydd Gwener diwethaf, ac mae'r grŵp modelu yn cynnwys rhanddeiliaid ar draws y diwydiant ffermio a thu hwnt. Felly, mae'r gwaith yn mynd rhagddo eisoes. Byddant yn cyfarfod eto cyn bo hir, ac rwy'n disgwyl iddynt gytuno ar yr opsiynau posibl ar gyfer y ffordd ymlaen, oherwydd rhaid i ni ystyried beth sy'n bosibl o fewn yr amserlenni byrrach sydd ar gael i ni ac unwaith eto, yr hyn sy'n ddiogel rhag her gyfreithiol yn y dyfodol.

Senedd.tv
Fideo Video

13:39 **Russell George** Bywgraffiad Biography

As we know, farmers are unsure over what payments they will receive for December. Therefore, it's difficult for farmers to plan and invest in their businesses, and it is clear that the quicker the proposals are sent off to the European Commission, the more likely it is that farmers will receive some form of payment in December. So, when does the Deputy Minister hope to send the new proposals to the Commission, and can she state today whether or not farmers will receive the December payments, whether in part or in full?

Fel y gwyddom, mae ffermwyr yn ansicr ynglŷn â pha daliadau y byddant yn eu cael ar gyfer mis Rhagfyr. O'r herwydd, mae'n anodd i ffermwyr gynllunio a buddsoddi yn eu busnesau, ac mae'n amlwg po gyflymaf yr anfonir y cynigion at y Comisiwn Ewropeaidd, y mwyaf tebygol yw hi y bydd ffermwyr yn cael rhyw fath o daliad ym mis Rhagfyr. Felly, pryd y mae'r Dirprwy Weinidog yn gobeithio anfon y cynigion newydd at y Comisiwn, ac a all hi ddweud heddiw a fydd ffermwyr yn cael taliadau mis Rhagfyr ai peidio, boed yn rhannol neu'n llawn?

Senedd.tv
Fideo Video

13:40 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Commission is fully aware of our situation and they're awaiting our new proposals. You talk about the importance of business planning for farmers, but that was what was behind our original proposals in a sense, in terms of not creating a great amount of disruption to the industry so that farmers could take that long-term view. We've been clear throughout that all payment rates have been indicative only, although I know that this is clearly going to be of concern to the farmers of Wales, because the pot is only so large in terms of the euros that we have to distribute, and, inevitably now, there will be some movement of money.

Mae'r Comisiwn yn gwbl ymwybodol o'n sefyllfa ac maent yn aros am ein cynigion newydd. Rydych yn sôn am bwysigrwydd cynllunio busnes i ffermwyr, ond dyna oedd yn sail i'n cynigion gwreiddiol ar un ystyr, o ran peidio ag aflonyddu llawer ar y diwydiant er mwyn i ffermwyr allu ystyried y darlun hirdymor. Rydym wedi bod yn eglur drwy gydol yr amser mai dangosol yn unig yw pob cyfradd dalu, er y gwn y bydd hyn yn amlwg yn destun pryder i ffermwyr Cymru, gan nad yw'r pot yn fawr o ran yr ewros sydd gennym i'w dosbarthu, ac mae'n anochel yn awr y bydd rhywfaint o symud arian.

There's likely to be some knock-on effect in terms of our ability to make payments, but that does depend on the model that we decide to take forward in terms of the area-based system. Some of the proposed models that the data-modelling group are looking at are more simple to administer than others, so this will all factor into our decision. I hope to be able to go out to public consultation in the coming weeks—end of February or, at the latest, early March.

Mae'n debygol y bydd rhywfaint o effaith ganlyniadol o ran ein gallu i wneud taliadau, ond mae hynny'n dibynnu ar y model rydym yn ei ddewis o ran system sy'n seiliedig ar arwynebedd. Mae rhai o'r modelau arfaethedig y mae'r grŵp modelu data yn edrych arnynt yn symlach i'w gweinyddu nag eraill, felly bydd hyn i gyd hefyd yn cael ei ystyried wrth i ni ddod i benderfyniad. Rwy'n gobeithio gallu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod yr wythnosau nesaf—ddiwedd mis Chwefror, neu ddechrau mis Mawrth fan bellaf.

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, William Powell.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.

13:41 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Lywydd. Deputy Minister, recent research has shown that some 3% of calves die within the first three hours of life, and almost 15% fail to reach first lactation. What is the Welsh Government doing to assist in driving down calf mortality and promoting resilience in cattle husbandry in Wales?

Diolch yn fawr, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, mae gwaith ymchwil diweddar wedi dangos bod tua 3% o loi yn marw o fewn teirawr gyntaf eu bywyd, a bron i 15% yn methu â chyrraedd y cyfnod llaetha cyntaf. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i leihau marwolaethau ymysg lloi a hybu cydnerthedd ym maes ffermio gwartheg yng Nghymru?

13:41 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm more than happy to take the question, Presiding Officer, although I wasn't aware that I was having questions from the Liberal Democrat spokesperson today. Our approach to animal health and welfare is clearly set out through our animal health and welfare framework, and we have a framework group that backs up that particular piece of work. On that, we have vets and so on who do offer particular advice in terms of the health and welfare of cattle in Wales. I'm more than happy to ask our welfare group to look at this particular issue and report back to you.

Rwy'n fwy na pharod i dderbyn y cwestiwn, Lywydd, er nad oeddwn yn ymwybodol fy mod yn cael cwestiynau gan lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol heddiw. Mae ein hymagwedd tuag at iechyd a lles anifeiliaid wedi ei nodi'n glir yn ein fframwaith iechyd a lles anifeiliaid, ac mae gennym grŵp fframwaith sy'n ategu'r gwaith penodol hwnnw. Ar hynny, mae gennym filfeddygon ac yn y blaen sy'n cynnig cyngor penodol ar iechyd a lles gwartheg yng Nghymru. Rwy'n fwy na pharod i ofyn i'n grŵp lles edrych ar y mater penodol hwn ac adrodd yn ôl wrthych.

13:42 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Minister. I apologise for any misunderstanding on that front. I'm also grateful for that response.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Weinidog. Rwy'n ymddiheuro am unrhyw gamddealltwriaeth yn hynny o beth. Rwy'n ddiolchgar am yr ateb hefyd.

As young calves can ingest a large number of harmful pathogens, such as salmonella and E.coli, before enjoying the vital benefits of colostrum from their mother's milk, early protection from disease is clearly vital. Given this and the need to promote only the responsible use of antibiotics within Welsh agriculture, what is the Government doing in partnership with the Department for Environment, Food and Rural Affairs to explore the potential benefits of probiotics as a safer and more effective alternative?

Gan fod lloi ifanc yn gallu amlyncu nifer fawr o bathogenau niweidiol, fel salmonela ac E.coli, cyn mwynhau manteision hanfodol colostrwm o laeth eu mam, mae amddiffyniad cynnar rhag clefyd yn amlwg yn hanfodol. O ystyried hyn a'r angen i hyrwyddo defnydd cyfrifol yn unig o wrthfiotigau mewn amaethyddiaeth yng Nghymru, beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud mewn partneriaeth ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i ymchwilio i fanteision posibl cynnyrch probiotig fel dewis mwy diogel a mwy effeithiol?

13:42 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm familiar with the article to which you're referring, which demonstrated how important it is for calves to receive this within the first few hours of birth. I'm more than happy, again, to explore with the framework group what we can do in order to help farmers understand this better themselves, if you like. Perhaps we can look at how we can use our 'Gwlad' online newsletter and so on to share this information with farmers. But, as I say, I will come back to you on this general issue when I've had a chance to explore it in further detail.

Rwy'n gyfarwydd â'r erthygl rydych chi'n cyfeirio ati, a oedd yn dangos pa mor bwysig yw hi i loi gael hyn o fewn ychydig oriau ar ôl eu geni. Unwaith eto, rwy'n fwy na pharod i archwilio gyda'r grŵp fframwaith yr hyn y gallwn ei wneud i helpu ffermwyr i ddeall hyn yn well eu hunain, os dymunwch. Efallai y gallwn edrych y posibilrwydd o ddefnyddio ein cylchlythyr ar-lein, 'Gwlad', ac ati i rannu'r wybodaeth gyda ffermwyr. Ond fel y dywedais, byddaf yn adrodd yn ôl ar y mater cyffredinol hwn pan fyddaf wedi cael cyfle i'w archwilio'n fanylach.

13:43 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, Deputy Minister, thank you very much for that response. Given the importance of diversification in Welsh farming, will you join with me in welcoming the success of Shann and Rich Jones of Ceredigion in developing a prize-winning probiotics enterprise, Chuckling Goat, on their traditional family farm in southern Ceredigion, and, subject to diary pressure, Deputy Minister, will you consider the possibility of visiting their premises to assess the benefits that could accrue at first hand and to explore the potential for growth and roll-out of good practice?

Unwaith eto, Ddirprwy Weinidog, diolch yn fawr iawn am yr ymateb. O ystyried pwysigrwydd arallgyfeirio yn niwydiant ffermio Cymru, a wnewch chi ymuno â mi i groesawu llwyddiant Shann a Rich Jones o Geredigion yn datblygu menter brobiotig, Chuckling Goat, sydd wedi ennill gwobrau, ar eu fferm deuluol draddodiadol yn ne Ceredigion, ac os nad yw eich dyddiadur yn rhy llawn, Ddirprwy Weinidog, a wnewch chi ystyried y posibilrwydd o ymweld â'u safle i asesu'r manteision drosoch eich hun ac i archwilio'r potensial am dwf a lledaenu arfer da?

13:43 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, I'm always keen to hear about good practice and innovation wherever that exists, so I'd be more than happy to see whether we can accommodate a visit with you to that particular farm. Thank you.

Lywydd, rwyf bob amser yn awyddus i glywed am arferion da ac arloesedd lle bynnag y maent i'w cael, felly byddwn yn fwy na pharod i weld a allwn drefnu ymweliad â'r fferm honno gyda chi. Diolch yn fawr.

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We know move to Plaid Cymru's spokesperson, Llyr Gruffydd.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.

13:44 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Weinidog, rydych chi wedi cadarnhau i'r Cynulliad yma yn y gorffennol eich bod chi yn cefnogi'r alwad i ddatganoli y cyfrifoldeb am drwyddedu ffracio i Gymru. A gaf I ofyn pa drafodaethau rydych chi wedi eu cael gyda Llywodraeth San Steffan I bwyso am ddatganoli'r cyfrifoldeb yma?

Thank You, Presiding Officer. Minister, you have confirmed to the Assembly in the past that you support the call to devolve responsibility for fracking licensing to Wales. May I ask what negotiations you have had with the Westminster Government in order to press for the devolution of that responsibility?

13:44 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is something that the First Minister and I and my department have many conversations on across departments, including the Department of Energy and Climate Change, in Westminster.

Mae hyn yn rhywbeth y mae'r Prif Weinidog a minnau a fy adran yn ei drafod yn aml ar draws yr adrannau, gan gynnwys yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn San Steffan.

13:44 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, mae'n ddiddorol eich bod chi'n dweud hynny, oherwydd mae'n amlwg nad yw Llywodraeth San Steffan yn ymwybodol o'r trafodaethau hynny, oherwydd mi wnaeth y Gweinidog ynni, Matt Hancock gadarnhau i Aelod Seneddol Plaid Cymru, Jonathan Edwards, yn ddiweddar nad oedd trafodaethau wedi bod gyda Llywodraeth Cymru ar ddatganoli'r pwerau yma i ni fan hyn. Rydych chi'n dweud ar yr un llaw eich bod chi eisiau'r cyfrifoldeb, ond mae'n amlwg, mewn gwirionedd, nad ydych yn gwneud digon ynglŷn â'r peth. A yw hynny, felly, yn awgrymu, efallai, eich bod, mewn gwirionedd, yn reit 'relaxed' am bolisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig o annog a hyrwyddo ffracio yng Nghymru?

Well, it is interesting that you say that, because the Westminster Government clearly is not aware of those discussions, because the energy Minister, Matt Hancock, confirmed to the Plaid Cymru Member of Parliament, Jonathan Edwards, recently that there had been no discussions with the Welsh Government on devolution of these powers to us here. You say on the one hand that you want the responsibility, but it is clear that the truth is that you are not doing enough about it. Does that, therefore, suggest, perhaps, that you are, in reality, quite relaxed about the UK Government's policy of encouraging and facilitating fracking in Wales?

13:45 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think what's really important, Presiding Officer, is that we, again, don't make fracking a political objective, as the Member seeks to do. I think what's really important is making sure we protect our communities, at all costs, from things that may be, potentially, harmful. We operate a very clear procedure on the aspect of fracking, and our position has been very clear and public in this Chamber.

Credaf mai'r hyn sy'n wirioneddol bwysig unwaith eto, Lywydd, yw nad ydym yn gwneud ffracio yn amcan gwleidyddol, fel y mae'r Aelod yn ceisio ei wneud. Credaf mai'r hyn sy'n wirioneddol bwysig yw sicrhau ein bod yn diogelu ein cymunedau, ar bob cyfrif, rhag pethau a all fod yn niweidiol o bosibl. Rydym yn gweithredu gweithdrefn glir iawn ar fater ffracio, ac mae ein safbwynt wedi bod yn glir ac yn gyhoeddus iawn yn y Siambr hon.

13:45 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, un ffordd o amddiffyn cymunedau Cymru, wrth gwrs, fyddai sicrhau eithriad yn debyg i'r Alban i'r Bil Isadeiledd—yr 'Infrastructure Bill'—sydd yn mynd i gyflymu'r broses o chwilio am nwy siâl, ac, wrth gwrs, sy'n mynd i ganiatáu drilio o dan gartrefi pobl yma yng Nghymru. Mae'r Alban wedi cael eithriad, a byddwn yn dadlau, os yw'ch rhesymeg chi ynglŷn â safbwynt y Llywodraeth yma yn un gwir, neu wirioneddol, y byddech chithau hefyd yn dadlau dros eithriad i Gymru. Ond a yw'r ffaith nad yw Llywodraeth Lafur Cymru, nac yn wir Aelodau Seneddol Llafur o Gymru, wedi mynnu'r un eithriad i Gymru o safbwynt y Bil Isadeiledd yn awgrymu eich bod chi, mewn gwirionedd, yn hapus i weld drilio yn digwydd o dan gartrefi pobl Cymru heb eu caniatâd?

Well, one way of defending the communities of Wales, of course, is to secure an exemption similar to Scotland's to the Infrastructure Bill, which will speed up the process of seeking shale gas and, of course, allow drilling under people's homes here in Wales. Scotland has an exemption, and I would argue that if your rationale on the Government's stance here holds, then you too would argue for an exemption for Wales. But does the fact that the Welsh Labour Govermment, and Welsh Labour Members of Parliament, did not insist on such an exemption for Wales in terms of the Infrastructure Bill suggest that, in reality, you are content to see drilling under people's homes in Wales without their permission?

13:46 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, it is rather presumptuous of the Member to suggest what he may think I'm thinking. Currently, oil and gas licensing is a matter for the UK Government. I've been very clear about the precautionary approach to fracking that the Welsh Government takes on all applications.

Wel, mae'r Aelod braidd yn rhyfygus yn awgrymu beth y mae'n ei feddwl sydd ar fy meddwl i. Ar hyn o bryd, mae trwyddedu olew a nwy yn fater i Lywodraeth y DU. Rwyf wedi bod yn glir iawn ynglŷn ag agwedd ragofalus Llywodraeth Cymru tuag at bob cais mewn perthynas â ffracio.

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur yn awr.

## Prosiectau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Fach

## Small-scale Renewable Energy Projects

13:46 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach? OAQ(4)0249(NR)*

*3. What discussions has the Minister had with the UK Government regarding small-scale renewable energy projects? OAQ(4)0249(NR)*

13:46 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for his question. I regularly engage with the UK Government on this matter. For example, I met Baroness Randerson on 17 November, and wrote to her last week on this very issue.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Rwy'n ymgysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth y DU ar y mater. Er enghraifft, fe gyfarfûm â'r Farwnes Randerson ar 17 Tachwedd, ac ysgrifennais ati'r wythnos ddiwethaf ar yr union fater hwn.

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Rwy'n gobeithio, hefyd, Weinidog, eich bod chi wedi cael trafodaethau gyda'r Gweinidog ynni yn San Steffan, Greg Barker. Sut ydych chi'n ymateb i'r hyn a ddywedodd e, sydd wedi'i ddyfynnu yn 'The Clitheroe Advertiser and Times':

'We put certain projects in the wrong place... Some planners have been too insensitive to the impact on the landscape... There's enough wind projects in the system now so we don't need to see any more on-shore expansion'?

A ydych chi'n teimlo, hefyd, fod cynllunwyr yn rhy ansensitif i gymunedau lleol, ac, felly, a fyddech chi yn cefnogi cymunedau yn sir Fôn, ac yn sir Gaerfyrddin, sydd am weld y llinellau pŵer wedi'u gosod o dan ddaear? A fyddech chi yn cefnogi cymunedau sydd eisiau gweld awdurdodau lleol yn paratoi yn fanwl ar gyfer faint o gynlluniau y maent yn mynd i ganiatáu o fewn eu siroedd?

I hope, Minister, that you have also had discussions with the Westminster energy Minister, Greg Barker. How do you respond to what he said, as reported in 'The Clitheroe Advertiser and Times':

'Rydym yn rhoi rhai prosiectau yn y lle anghywir... Mae rhai cynllunwyr wedi bod yn rhy ansensitif i'r effaith ar y tirlun... Mae digon o brosiectau gwynt yn y system erbyn hyn fel nad oes angen i ni weld unrhyw ehangu pellach ar y tir'?

Do you also feel that planners are too insensitive to local communities, and, therefore, would you support communities in Anglesey and Carmarthenshire that want to see power cables laid underground? Would you support communities that want to see local authorities prepare carefully for how many schemes they permit within their counties?

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I think the generic term the Member uses about planners being insensitive to local communities is unfortunate; I do not agree with him. Planners are professional, running on guidance issued to planning authorities. I believe, in most cases, they operate in a very professional manner.

Rwy'n meddwl bod y term generig y mae'r Aelod yn ei ddefnyddio ynglŷn â chynllunwyr yn bod yn ansensitif i gymunedau lleol yn anffodus; nid wyf yn cytuno ag ef. Mae cynllunwyr yn broffesiynol, yn dilyn canllawiau a roddwyd i awdurdodau cynllunio. Credaf eu bod yn gweithredu mewn modd proffesiynol iawn yn y rhan fwyaf o achosion.

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

In discussions that you have, Minister, with regard to local and community benefit from renewable energy schemes, will you work with local authorities so that they explore the possibilities of using schools and leisure centres, for example, for solar energy, which would deliver that local benefit, and, also, perhaps, with employers in terms of their social responsibilities, and whether any expansive roof space that they have might be made available for local community schemes?

Yn y trafodaethau rydych yn eu cael, Weinidog, ynghylch budd lleol a chymunedol cynlluniau ynni adnewyddadwy, a wnewch chi weithio gydag awdurdodau lleol er mwyn iddynt archwilio'r posibiliadau o ddefnyddio ysgolion a chanolfannau hamdden, er enghraifft, ar gyfer ynni solar, a fyddai'n cyflawni budd lleol o'r fath, a hefyd, efallai, gyda chyflogwyr o ran eu cyfrifoldebau cymdeithasol, a pha un a oes ganddynt unrhyw ofod to eang a allai fod ar gael ar gyfer cynlluniau cymunedau lleol?

Senedd.tv Fideo Video

13:48 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I think the Member is right to raise this issue. We've got many public assets across Wales. It is something that I will have further conversations about with the Minister for Public Services and the Minister for finance.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn iawn i godi'r mater. Mae gennym nifer o asedau cyhoeddus ledled Cymru. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ei drafod ymhellach gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweinidog Cyllid.

Senedd.tv Fideo Video

13:49 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as you know, I've spoken many times in support of small-scale renewable energy projects, but one of the big barriers to take-up is the cost of connection, often in the below-10 MW or between 5 MW and 10 MW projects, to the grid, particularly the costs of the district network operators. It's not only connection for renewable projects, but, for example, businesses in rural areas experience high costs in getting that DNO connection. I've raised it with you a number of times; have you approached Scottish Power and Wales & West Utilities to discuss with them the DNO costs that are being imposed in various communities across Wales?

Weinidog, fel y gwyddoch, rwyf wedi siarad lawer gwaith dros gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, ond un o'r rhwystrau mawr o ran y niferoedd sy'n ymuno â chynlluniau o'r fath yw cost cysylltu â'r grid, yn aml mewn prosiectau o dan 10 MW, neu brosiectau rhwng 5 MW a 10 MW, yn enwedig costau gweithredwr rhwydwaith dosbarthu. Nid cysylltu prosiectau adnewyddadwy yn unig sy'n ddrud, ond er enghraifft, mae busnesau mewn ardaloedd gwledig yn wynebu costau uchel am gysylltiad â'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu. Rwyf wedi dwyn hyn i'ch sylw sawl gwaith; a ydych chi wedi siarad â Scottish Power a Wales & West Utilities i drafod costau Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu sy'n cael eu codi mewn gwahanol gymunedau ledled Cymru?

13:49 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I share the Member's concern in terms of cost, but also access points. I have raised this with Ofgem to see what the ability is to look at the licensing regime and whether there is any opportunity for released capacity already in the licensing sector that hasn't been used that we can offset to schemes that may be able to join on the basis of the ability of the threshold number within the licensing system. I accept, and agree with the Member, that there are many things and many advantages that we could work on to get a better offer for Wales.

Rwy'n rhannu pryder yr Aelod o ran cost, ond hefyd o ran pwyntiau mynediad. Rwyf wedi codi hyn gydag Ofgem i weld a yw'n bosibl edrych ar y drefn drwyddedu ac a oes cyfle i ryddhau capasiti sydd eisoes yn y sector trwyddedu nad yw wedi'i ddefnyddio, i ni ei osod yn erbyn cynlluniau a allai ymuno ar sail gallu'r nifer trothwy o fewn y system drwyddedu. Rwy'n cytuno â'r Aelod ac yn derbyn bod llawer o bethau a nifer o fanteision y gallem weithio arnynt er mwyn cael cynnig gwell i Gymru.

13:50 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, there are many small-scale hydro schemes being developed in north Wales currently. There are proposals, however, from Natural Resources Wales to increase the fee for abstraction from £135 to £1,500. What assessment has the Welsh Government undertaken of the impact of such fees on the attractiveness of small hydro schemes, going into the future?

Weinidog, mae nifer o gynlluniau ynni dŵr ar raddfa fach yn cael eu datblygu yng ngogledd Cymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae cynigion gan Cyfoeth Naturiol Cymru i godi'r ffi tynnu dŵr o £135 i £1,500. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal ar effaith ffioedd o'r fath ar atyniad cynlluniau ynni dŵr bach yn y dyfodol?

13:50 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I met with the group that represents the hydro schemes across the UK only this week to talk about these very issues. I think NRW have worked with them proactively in understanding the fee structures and the consultation around that. I have asked them to review the service in terms of whether that would be scaleable to the size of the hydro scheme in referring to the licensing schemes that are applicable to them.

Cyfarfûm â'r grŵp sy'n cynrychioli cynlluniau ynni dŵr ledled y DU yr wythnos hon i siarad am yr union faterion hyn. Credaf fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gweithio gyda hwy yn rhagweithiol o ran deall strwythurau'r ffioedd a'r ymgynghori ynghylch hynny. Rwyf wedi gofyn iddynt adolygu'r gwasanaeth i weld a fyddai modd graddio yn ôl maint y cynllun ynni dŵr wrth gyfeirio at y cynlluniau trwyddedu sy'n gymwys ar eu cyfer.

## Cynhyrchwyr Bwyd a Diod

## Food and Drink Producers

13:51 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi i helpu cynhyrchwyr bwyd a diod yng Nghymru i hyrwyddo eu cynnyrch? OAQ(4)0244(NR)*

*4. What support is the Welsh Government giving to help food and drink producers in Wales to promote their produce? OAQ(4)0244(NR)*

13:51 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

'Towards Sustainable Growth: An Action Plan for the Food and Drink Industry 2014-2020' reinforces our robust system of support to the food and drink industry, based on specific producer needs, supporting business growth and enabling producers to further promote their produce, delivering growth of 30% in the sector by 2020.

Mae 'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020' yn atgyfnerthu ein system gadarn ar gyfer cefnogi'r diwydiant bwyd a diod yn seiliedig ar anghenion cynhyrchwyr penodol, gan gefnogi twf busnesau a galluogi cynhyrchwyr i hyrwyddo eu cynnyrch ymhellach, er mwyn sicrhau twf o 30% yn y sector erbyn 2020.

13:51 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, you and I, and others had the pleasure yesterday, in the Great Taste Awards Wales in the Pierhead, of tasting many fine examples of food and drink that are produced here in Wales, which were representative of many others. So, first of all, will you join me in congratulating two companies from my Delyn constituency, Simply Relish and Bim's Kitchen, on winning awards, but can I ask what further things you think you could do to promote produce, not just in this country, but abroad?

Ddirprwy Weinidog, fe gawsoch chi a finnau ac eraill y pleser ddoe, yng ngwobrau Great Taste Cymru yn y Pierhead, o flasu llawer o enghreifftiau gwych o fwyd a diod sy'n cael eu cynhyrchu yma yng Nghymru, ac a oedd yn cynrychioli llawer o rai eraill. Felly, yn gyntaf oll, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch dau gwmni o Delyn, fy etholaeth, sef Simply Relish a Bim's Kitchen, ar ennill gwobrau, ond a gaf fi ofyn pa bethau pellach rydych chi'n meddwl y gallech eu gwneud i hyrwyddo cynnyrch, nid yn unig yn y wlad hon, ond dramor hefyd?

13:52 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that question. I was also very proud yesterday at the event to showcase some of our Welsh winners of the Great Taste Awards. Wales won an incredible 120 awards altogether, and I certainly join you in congratulating Bim's Kitchen and Simply Relish on their successes. I would also particularly like to pass on my congratulations to the Patchwork Traditional Food Company, the Coconut Kitchen and Dawn Meats, all of which won three gold-star awards. So, I think that is a significant achievement that we should be recognising.

Diolch yn fawr am y cwestiwn. Roeddwn innau'n falch iawn o fod yn y digwyddiad ddoe i arddangos rhai o'n henillwyr Cymreig yng ngwobrau Great Taste. Enillodd Cymru 120 o wobrau i gyd, sy'n nifer anhygoel, ac rwy'n sicr yn ymuno â chi i longyfarch Bim's Kitchen a Simply Relish ar eu llwyddiannau. Hoffwn hefyd longyfarch Patchwork Traditional Food Company, Coconut Kitchen a Dawn Meats, a enillodd dair gwobr seren aur. Felly, credaf fod hynny'n llwyddiant sylweddol y dylem ei gydnabod.

Supporting the food and drink industry in Wales to promote their products internationally is a key part of our approach to supporting the industry, and that includes helping them to attend organised trade events, both in the UK but also overseas, to develop new contacts, enhance their profile and maximise their potential market sales. We have a comprehensive programme of support to fully prepare companies to take the best advantage of those opportunities.

Mae cynorthwyo'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru i hyrwyddo eu cynnyrch yn rhyngwladol yn rhan allweddol o'n dull o fynd ati i gefnogi'r diwydiant, ac mae hynny'n cynnwys eu helpu i fynychu digwyddiadau masnachu yn y DU, a thramor hefyd, i ddatblygu cysylltiadau newydd, gwella eu proffil a sicrhau'r gwerthiant mwyaf posibl yn y farchnad. Mae gennym raglen gymorth gynhwysfawr i baratoi cwmnïau'n llawn i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny.

13:53 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, your predecessor launched the food and drink strategy for Wales in June last year, and part of the strategy was to create a website to support brand identity. I am sure you're aware of the importance of websites for promotion for international sales abroad, where producers, for example those that have been successful in achieving those Great Taste Awards, can advertise the fact that they have done so. In response to a Freedom of Information Act 2000 request, which was published this month, it was indicated that the website that was proposed to be set up still hadn't been set up yet, and that it was due to be set up in early 2015. What does 'early 2015' mean? Given the importance of that brand identity and that web presence, when can we see the launch of that site?

Ddirprwy Weinidog, lansiodd eich rhagflaenydd y strategaeth bwyd a diod i Gymru ym mis Mehefin y llynedd, a rhan o'r strategaeth oedd creu gwefan i gefnogi hunaniaeth brand. Rwy'n sicr eich bod yn ymwybodol o bwysigrwydd gwefannau ar gyfer hyrwyddo gwerthiant rhyngwladol dramor, lle y gall cynhyrchwyr, megis y rhai a lwyddodd i ennill gwobrau Great Taste, hysbysebu'r ffaith eu bod wedi'u hennill. Mewn ymateb i gais Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a gyhoeddwyd y mis hwn, nodwyd nad yw'r wefan y bwriadwyd ei sefydlu ar waith eto, a'i bod i fod i gael ei sefydlu yn gynnar yn 2015. Beth y mae 'cynnar yn 2015' yn ei olygu? O ystyried pwysigrwydd hunaniaeth brand a phresenoldeb ar y we, pryd y cawn ni weld y safle'n cael ei lansio?

13:54 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You'll see the launch of that site in early 2015. I would join you, really, in recognising the importance of the Welsh food and drink brand identity, because when we sell our food and drink, we also sell Wales. We have our wonderful Welsh landscape, our culture, our heritage, our language, and all of that comes together to sell something quite special to the rest of the world, I think. That action plan set out 48 different actions that the Welsh Government would take in order to develop our food and drink industry, growing the sector to £7 billion by 2020. Other key actions in that include setting up a food and drink industry board. We have an excellent interim chair in Robin Jones of the Village Bakery, and I'll be making an announcement very shortly on the other members of that board as well.

Byddwch yn gweld lansio'r safle hwnnw'n gynnar yn 2015. Hoffwn ymuno â chi, yn wir, i gydnabod pwysigrwydd hunaniaeth brand bwyd a diod o Gymru, oherwydd pan fyddwn yn gwerthu ein bwyd a diod, rydym hefyd yn gwerthu Cymru. Mae gennym ein tirwedd fendigedig yng Nghymru, ein diwylliant, ein treftadaeth, ein hiaith, a daw'r holl bethau hynny at ei gilydd i werthu rhywbeth eithaf arbennig i weddill y byd, rwy'n meddwl. Roedd y cynllun gweithredu hwnnw'n nodi 48 o gamau gweithredu gwahanol y byddai Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith er mwyn datblygu ein diwydiant bwyd a diod, gan dyfu'r sector i £7 biliwn erbyn 2020. Mae camau gweithredu allweddol eraill yn cynnwys sefydlu bwrdd diwydiant bwyd a diod. Mae gennym gadeirydd dros dro rhagorol, Robin Jones o gwmni Village Bakery, a byddaf yn gwneud cyhoeddiad yn fuan iawn ar aelodau eraill y bwrdd hwnnw hefyd.

13:55 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

The Plaid Cymru-run Gwynedd Council has to be commended for procuring 100% of their school meals from within the local area. Contrast that with neighbouring Ynys Môn council, which spends 100% of its school meals budget in companies in Reading. What is your Government doing to ensure that more councils follow Plaid Cymru policies and Gwynedd Council's good practice on procurement, so that more food and drink can benefit producers and suppliers within Wales, and that they can benefit from public sector contracts?

Mae Cyngor Gwynedd, dan arweiniad Plaid Cymru, yn haeddu canmoliaeth am gaffael 100% o'u prydau ysgol o'r ardal leol. Cymharwch hynny â chyngor cyfagos Ynys Môn, sy'n gwario 100% o'i gyllideb prydau ysgol mewn cwmnïau yn Reading. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod mwy o gynghorau yn dilyn polisïau Plaid Cymru ac arfer da Cyngor Gwynedd o ran caffael, fel y gall mwy o wariant ar fwyd a diod o fod o fudd i gynhyrchwyr a chyflenwyr yng Nghymru, a'u bod yn gallu cael budd o gontractau yn y sector cyhoeddus?

13:55 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government recognises the importance of public procurement to the industry in Wales, and I think there is certainly more that we can do. The recent survey of public sector food purchasing estimated that 63% of purchases were from Welsh companies, including processors and distributors, so there's certainly room in which we can grow that. That's actually part of our action plan as well, because there are specific actions in there relating to that.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd caffael cyhoeddus i'r diwydiant yng Nghymru, ac rwy'n sicr yn credu fod mwy y gallwn ei wneud. Roedd yr arolwg diweddar o bryniant bwyd yn y sector cyhoeddus yn amcangyfrif bod 63% o'r pryniadau gan gwmnïau o Gymru, gan gynnwys prosesyddion a dosbarthwyr, felly mae lle i wella hynny, yn sicr. Mae hynny'n rhan o'n cynllun gweithredu hefyd, mewn gwirionedd, gan fod camau gweithredu penodol ynddo sy'n ymwneud â hynny.

One thing that we're doing specifically is the development of a national procurement service, which will open up opportunities for Welsh producers, large and small, to supply to the public sector in Wales.

Un peth yr ydym yn ei wneud yn benodol yw datblygu gwasanaeth caffael cenedlaethol, a fydd yn cynnig cyfleoedd I gynhyrchwyr Cymreig mawr a bach gyflenwi cynnyrch i'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

### Diogelwch Cyrff Dŵr Gwneuthuredig

### The Safety of Man-made Bodies of Water

13:56 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch cyrff dŵr gwneuthuredig mawr? OAQ(4)0252(NR)*

*5. Will the Minister make a statement on the safety of large man-made bodies of water? OAQ(4)0252(NR)*

13:56 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Reservoirs Act 1975 provides the current legal framework for the safety of large raised reservoirs in Wales.

Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer diogelwch cyforgronfeydd dŵr mawr yng Nghymru.

13:56 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, Minister. As you are well aware, there is a proposal for the restoration of the East Pit site in my constituency that involves the construction of a large artificial lake from the voids created by decades of coaling. I would not expect you to comment on a live planning application; I would, however, like to ask a more general question about the monitoring of the safety of these sorts of man-made lakes. Since the Reservoirs Act 1975 that you mentioned, there has fortunately been no loss of life caused by reservoir failure, but the precautionary evacuation of Pennal in 2012 reminds us of the potentially catastrophic consequences of reservoir flooding. Last summer, the then Minister consulted on the commencement of Schedule 4 to the Flood and Water Management Act 2010, which would update the regulatory scheme for large raised reservoirs. Minister, what action do you intend to take following this consultation, and will you be looking at man-made lakes that, as they may not be raised, do not fall under this Act but nonetheless may contain tens of thousands of cubic metres of water?

Diolch am hynny, Weinidog. Fel y gwyddoch yn iawn, mae yna argymhelliad i adfer safle East Pit yn fy etholaeth sy'n golygu adeiladu llyn artiffisial mawr yn y gwagleoedd a grëwyd gan ddegawdau o gloddio am lo. Ni fuaswn yn disgwyl i chi roi sylwadau ar gais cynllunio byw; fodd bynnag, hoffwn ofyn cwestiwn mwy cyffredinol ynglŷn â monitro diogelwch y mathau hyn o lynnoedd gwneuthuredig. Ers Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 a grybwyllwyd gennych, yn ffodus ni fu unrhyw farwolaethau o ganlyniad i gronfa'n methu, ond mae'r camau rhagofalus a roddwyd ar waith i symud holl drigolion Pennal yn 2012 yn ein hatgoffa o ganlyniadau llifogydd o gronfa ddŵr, sy'n gallu bod yn drychinebus. Yr haf diwethaf, ymgynghorodd y Gweinidog ar y pryd ar gychwyn Atodlen 4 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a fyddai'n diweddaru'r cynllun rheoleiddio ar gyfer cyforgronfeydd dŵr mawr. Weinidog, pa gamau rydych yn bwriadu eu rhoi ar waith yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, ac a fyddwch yn edrych ar lynnoedd gwneuthuredig nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Ddeddf hon, gan nad ydynt yn gyforgronfeydd, ond a allai gynnwys degau o filoedd o fetrau ciwbig o ddŵr serch hynny?

13:58 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her question, and again I will be non-specific regarding any application if I may, Presiding Officer, in a general context. The Member is right; the amendment to the Reservoirs Act 1975, amended by Schedule 4 to the Flood and Water Management Act 2010, only does cover large raised reservoirs as defined in the Act, and this doesn't include mine or quarry lagoon. The Member is right to raise this anomaly. Under the Act, a raised reservoir is one that is built and designed to hold or be capable of holding water above the natural level to any part of the surrounding land. Following on from the consultation, it is something that I've asked my team to look at. Ultimately, the responsibility that falls outside of this Act will be a matter for the landowner, and it's something that will be covered by varying pieces of legislation, including that of the Health and Safety Executive and managed also by Natural Resources Wales.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn, ac unwaith eto byddaf yn amhenodol ynglŷn ag unrhyw gais os caf, Lywydd, mewn cyd-destun cyffredinol. Mae'r Aelod yn iawn; nid yw'r diwygiad i Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975, a ddiwygiwyd gan Atodlen 4 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, ond yn cynnwys cyforgronfeydd mawr fel y'u diffinnir yn y Ddeddf, ac nid yw hyn yn cynnwys lagwnau mwynfeydd neu chwareli. Mae'r Aelod yn iawn i dynnu sylw at yr anghysondeb hwn. O dan y Ddeddf, cyforgronfa ddŵr yw un a godwyd ac a gynlluniwyd i ddal neu i allu dal dŵr uwchben lefel naturiol unrhyw ran o'r tir o'i amgylch. Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae'n rhywbeth y gofynnais i fy nhîm ei ystyried. Yn y pen draw, bydd y cyfrifoldeb sy'n disgyn oddi allan i gwmpas y Ddeddf hon yn fater i'r tirfeddiannwr, ac mae'n rhywbeth a fydd yn cael ei gynnwys mewn deddfwriaeth amrywiol, gan gynnwys yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'i reoli hefyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

13:58 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, concern has been expressed by Severn Trent Water about Schedule 4 to the Flood and Water Management Act 2010, which you just mentioned, and the Welsh Government consultation document makes reference to certain reservoirs as being at 'high risk'. They believe this terminology is misleading and could potentially alarm the public, given that the probability of failure of our reservoirs is exceedingly low. Will the Minister consider replacing the term 'high risk reservoirs' with 'regulated reservoirs', as recommended by Severn Trent Water?

Weinidog, mynegwyd pryder gan Severn Trent Water ynglŷn ag Atodlen 4 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, y sonioch amdani yn awr, ac mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at rai cronfeydd fel rhai 'risg uchel'. Maent o'r farn fod y derminoleg hon yn gamarweiniol a gallai ddychryn y cyhoedd, o bosibl, o gofio bod y tebygolrwydd y bydd ein cronfeydd yn methu yn eithriadol o isel. A wnaiff y Gweinidog ystyried defnyddio'r term 'cronfeydd dŵr rheoledig' yn lle'r term 'cronfeydd risg uchel', fel yr argymhellir gan Severn Trent Water?

13:59 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I met with Severn Trent Water around about 11:00 this morning; they did not raise this with me. That makes it quite interesting. But I will take the Member's question very seriously and raise that with them.

Cyfarfûm â Severn Trent Water tua 11:00 y bore yma; ni chodwyd y mater ganddynt. Mae hynny'n eithaf diddorol. Ond byddaf yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i gwestiwn yr Aelod ac yn tynnu eu sylw at hyn.

13:59 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as my colleague the Member for Neath has already identified, the restoration of East Pit is critical. Whereas East Pit is proposed to be a man-made lake, Parc Slip currently is a man-made lake, because I understand the depth is almost 52m of water there , and health and safety are major issues. So, what action can NRW take now to ensure the health and safety of people? It's clear in this particular case. What onus can you put upon the landowners to ensure that it's made safe? And, in future, will you look at guidance to ensure that any opencast planning application has a restoration plan that ensures their safety, and the avoidance of these man-made lakes being filled?

Weinidog, fel y mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Gastell-nedd, eisoes wedi ei nodi, mae adfer East Pit yn hanfodol. Bwriedir i East Pit fod yn llyn gwneuthuredig, ond mae Parc Slip yn llyn gwneuthuredig eisoes, gan fod y dŵr yn cyrraedd dyfnder o bron i 52m yno yn ôl yr hyn a ddeallaf, ac mae iechyd a diogelwch yn faterion o bwys mawr. Felly, pa gamau y gall Cyfoeth Naturiol Cymru eu cymryd yn awr i sicrhau iechyd a diogelwch pobl? Mae'n amlwg yn yr achos penodol hwn. Pa gyfrifoldeb y gallwch ei roi ar ysgwyddau'r tirfeddianwyr i sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn ddiogel? Ac yn y dyfodol, a fyddwch yn edrych ar ganllawiau i sicrhau bod gan bob cais cynllunio glo brig gynllun adfer sy'n sicrhau ei ddiogelwch, ac osgoi llenwi'r llynnoedd gwneuthuredig hyn?

14:00 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My comments from earlier apply to this question too; however, I recognise the issue the Member raises in a more general context. I think he's absolutely right in terms of ensuring that long-term restoration has to be built into the planning application upfront. But, it is the current situation where the landowner does have responsibility at this moment in time, and this is also supported by health and safety regulation. If the Member wishes to write to me specifically on the issue, then I would be more than happy to write to him with a formal response.

Mae fy sylwadau yn gynharach yn berthnasol i'r cwestiwn hwn hefyd; fodd bynnag, rwy'n cydnabod y mater y mae'r Aelod yn ei godi mewn cyd-destun mwy cyffredinol. Rwy'n credu ei fod yn hollol gywir o ran sicrhau bod yn rhaid cynnwys gwaith adfer hirdymor yn y cais cynllunio ymlaen llaw. Ond y sefyllfa bresennol yw bod y cyfrifoldeb ar y tirfeddiannwr ar hyn o bryd, a chaiff hyn ei gefnogi hefyd gan reoliad iechyd a diogelwch. Os yw'r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf yn benodol ar y mater, yna byddwn yn fwy na pharod i ysgrifennu ato gydag ymateb ffurfiol.

### Bwyd a gaiff ei Wastraffu

### Food Waste

14:01 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i leihau faint o fwyd a gaiff ei wastraffu? OAQ(4)0242(NR)*

*6. What actions has the Welsh Government taken to reduce food waste? OAQ(4)0242(NR)*

14:01 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Reducing food waste is a priority for the Welsh Government. We fund food waste reduction initiatives, such as the Love Food Hate Waste campaign, the hospitality and food service agreement, and the Courtauld commitment. We have also provided funding to FareShare for the redistribution of surplus edible food.

Mae lleihau gwastraff bwyd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rydym yn ariannu mentrau lleihau gwastraff bwyd, fel yr ymgyrch Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff, y cytundeb gwasanaeth bwyd a lletygarwch, ac ymrwymiad Courtauld. Rydym hefyd wedi darparu cyllid i FareShare ar gyfer ailddosbarthu bwyd bwytadwy sydd dros ben.

14:01 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. As you rightly acknowledge, Wales has the most comprehensive food waste recycling service in the UK. According to figures released by Waste Awareness Wales, approximately 47.4% of food waste was captured in Wales in 2013-14. What action has the Welsh Government taken to raise awareness of the importance of recycling food waste and encourage Welsh households to use the local council food waste recycling facilities?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Fel rydych yn ei gydnabod yn briodol, Cymru sydd â'r gwasanaeth ailgylchu gwastraff bwyd mwyaf cynhwysfawr yn y DU. Yn ôl ffigurau a ryddhawyd gan Gynllun Craff am Wastraff, cafodd tua 47.4% o wastraff bwyd i gasglu yng Nghymru yn 2013-14. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ailgylchu gwastraff bwyd ac annog teuluoedd yng Nghymru i ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu gwastraff bwyd y cyngor lleol?

14:01 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the question. It's another important factor in terms of reducing our impact on the environment. The Welsh Government has funded Waste Awareness Wales to deliver food waste behaviour change campaigns collaboratively with local authorities, and at least 11 authorities in Wales have been supported. I was recently with Councillor Mike Priestley in Conwy, looking at the very successful campaign that they've organised there in terms of changing the way attitudes work in their constituency areas. Again, I look forward to working with the Member in his constituency on how we can encourage people to recycle more.

Diolch am y cwestiwn. Mae'n ffactor pwysig arall o ran lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r Cynllun Craff am Wastraff i gynnal ymgyrchoedd er mwyn newid ymddygiad pobl tuag at wastraff bwyd ar y cyd ag awdurdodau lleol, ac mae o leiaf 11 awdurdod yng Nghymru wedi cael cymorth. Bûm gyda'r Cynghorydd Mike Priestley yng Nghonwy yn ddiweddar, yn edrych ar yr ymgyrch llwyddiannus iawn a drefnwyd ganddynt yno o ran newid agweddau yn yr ardaloedd. Unwaith eto, rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Aelod yn ei etholaeth ac edrych ar sut y gallwn annog pobl i ailgylchu mwy.

14:02 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Further to my colleague's question, according to WRAP Cymru, Minister, household food waste in Wales reduced, between 2007 and 2012, by some 65,000 tonnes, or 15% of the total. What is the Minister doing to increase public awareness—in hospitality, in catering and in other households—of the cost and the environmental impact of food waste in order to reduce this figure even further?

Yn dilyn cwestiwn fy nghyd-Aelod, yn ôl WRAP Cymru, Weinidog, gwelwyd gostyngiad o tua 65,000 tunnell neu 15% o'r cyfanswm mewn gwastraff bwyd cartref yng Nghymru rhwng 2007 a 2012. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd—ym maes lletygarwch, arlwyo ac ar aelwydydd eraill—o gost ac effaith amgylcheddol gwastraff bwyd er mwyn lleihau'r ffigur hwn ymhellach eto?

14:03 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think the Member's right to raise the issue about recycling rates and the amount—. Actually, what we're trying to do is encourage people not to create waste in the first place, so a reduction at the other end is also a positive step, and making sure people don't have that waste, and that's why we have these projects in train. We work with WRAP programmes, the hospitality and food service voluntary agreement—it aims to reduce food waste and ensure that waste food is recycled for the catering sector—and, of course, the Courtauld commitment voluntary agreement to deliver the issue around UK grocery supply chains and how that operates too. On the impact of the output in terms of recycling, we aim to look to reduce by virtue of not having the input in the first place, and it's something that I know Members in this Chamber are all committed to.

Wel, rwy'n meddwl bod yr Aelod yn iawn i godi'r mater ynghylch cyfraddau ailgylchu a faint ohono sydd—. A dweud y gwir, yr hyn rydym yn ceisio ei wneud yw annog pobl i beidio â chreu gwastraff yn y lle cyntaf, felly mae lleihad ar y pen arall yn gam cadarnhaol hefyd, a gwneud yn siŵr nad oes gwastraff i'r fath gan bobl, a dyna pam rydym yn cynnal y prosiectau hyn. Rydym yn gweithio gyda rhaglenni WRAP, cytundeb gwirfoddol y gwasanaeth lletygarwch a bwyd—ei nod yw lleihau gwastraff bwyd a sicrhau bod gwastraff bwyd yn cael ei ailgylchu yn y sector arlwyo—ac wrth gwrs, cytundeb gwirfoddol ymrwymiad Courtauld i dynnu sylw cadwyni cyflenwi bwyd y DU at y mater a sut y mae hynny'n gweithredu hefyd. O ran effaith yr allbwn o ran ailgylchu, ein nod yw ceisio lleihau drwy beidio â chael y mewnbwn yn y lle cyntaf, ac mae'n fater y gwn fod holl Aelodau'r Siambr hon wedi ymrwymo iddo.

14:03 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Given your answers, Minister, you'll be very disappointed to learn that there've been no food waste recycling bags available at Cardiff County Hall yet this year, and they have run out in leisure centres, libraries and shops across the city as well. The situation is made worse because if people do actually want to recycle their food waste and they go to one of the recycling centres, they won't accept food waste either, they instruct people to throw it in the general household waste bins. Now, I'm sure you'll agree with me that this shambles is going to do nothing to improve Cardiff's worsening food recycling rates, and that if people find it impossible to recycle in the short term, they're going to get out of the habit of doing it in the long term. What action can you take to get Cardiff back on track, because this simply isn't acceptable?

O ystyried eich atebion, Weinidog, fe fyddwch yn siomedig iawn i wybod nad oes bagiau ailgylchu gwastraff bwyd wedi bod ar gael yn Neuadd y Sir Caerdydd eto eleni, ac maent wedi rhedeg allan mewn canolfannau hamdden, llyfrgelloedd a siopau ar draws y ddinas hefyd. Mae'r sefyllfa'n gwaethygu oherwydd os yw pobl mewn gwirionedd yn awyddus i ailgylchu eu gwastraff bwyd a'u bod yn mynd i un o'r canolfannau ailgylchu, nid ydynt yn derbyn gwastraff bwyd yno ychwaith. Maent yn cyfarwyddo pobl i'w daflu i'r biniau gwastraff cyffredinol o'r cartref. Yn awr, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi fod y sefyllfa'n draed moch ac nad yw'n mynd i wneud dim i wella cyfraddau ailgylchu bwyd Caerdydd, sy'n gwaethygu, ac os yw pobl yn ei chael yn amhosibl ailgylchu yn y tymor byr, maent yn mynd i golli'r arfer o wneud hynny yn y tymor hir. Pa gamau y gallwch eu rhoi ar waith i roi Caerdydd yn ôl ar y trywydd cywir, oherwydd, yn syml iawn, nid yw hyn yn dderbyniol?

14:04 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I think there is no excuse not to recycle just because you haven't got recycling bags. The issue is the ability for people to recycle in many other ways. I am not aware of the issue, particularly, that the Member raises, but I will ask my officials to look at that.

Credaf nad oes esgus dros beidio ag ailgylchu yn syml am nad oes gennych fagiau ailgylchu. Y mater dan sylw yw gallu pobl i ailgylchu mewn llawer o ffyrdd eraill. Nid wyf yn ymwybodol o'r broblem benodol y mae'r Aelod yn tynnu sylw ati, ond byddaf yn gofyn i fy swyddogion edrych ar hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 7, OAQ(4)0250(NR), is withdrawn. Question 8, Paul Davies.

Mae Cwestiwn 7, OAQ(4)0250(NR), wedi cael ei dynnu'n ôl. Cwestiwn 8, Paul Davies.

Senedd.tv Fideo Video

## Llifogydd yng Ngorllewin Cymru

## Flooding in West Wales

14:05 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â llifogydd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0238(NR)*

*8. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to tackle flooding problems in west Wales? OAQ(4)0238(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for his question. Flood and coastal erosion risk management remain a priority across Wales and we are continuing to invest in this area. Over the lifetime of this Government, we will invest over £245 million in flood and coastal risk management to build resilience to flooding in communities right across the country.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn parhau i fod yn flaenoriaeth ledled Cymru ac rydym yn parhau i fuddsoddi yn y maes hwn. Yn ystod oes y Llywodraeth hon, byddwn yn buddsoddi mwy na £245 miliwn tuag at reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol er mwyn adeiladu'r gallu i wrthsefyll llifogydd mewn cymunedau ar draws y wlad.

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, I'm sure you are aware that the people of lower town Fishguard in my constituency have faced some seriously challenging flooding conditions in recent times, which have had a serious impact on local homes and on local businesses. Unfortunately, the community is prone to flooding, given the position of that part of the town. In the circumstances, will you commit to looking at the specific problems facing my constituents, and can I invite you to visit the area with me to see for yourself some of the challenges facing the local community?

Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol fod pobl gwaelod y dref yn Abergwaun yn fy etholaeth wedi wynebu llifogydd heriol difrifol yn ddiweddar, sydd wedi cael effaith ddifrifol ar gartrefi lleol ac ar fusnesau lleol. Yn anffodus, mae'r gymuned yn un sy'n dueddol o ddioddef llifogydd, o ystyried lleoliad y rhan honno o'r dref. O dan yr amgylchiadau, a wnewch chi ymrwymo i edrych ar y problemau penodol sy'n wynebu fy etholwyr, ac a gaf eich gwahodd i ymweld â'r ardal gyda mi i chi gael gweld rhai o'r heriau sy'n wynebu'r gymuned leol â'ch llygaid eich hun?

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I think this is a partnership approach to resolving issues that affect communities like the Member's. I am very familiar with Fishguard and the community that the Member represents, but I will ask my officials to look at this with NRW and the local authority to see what actions possibly could be taken in future.

Rwy'n credu bod angen defnyddio dull partneriaeth ar gyfer ddatrys materion sy'n effeithio ar gymunedau fel cymuned yr Aelod. Rwy'n gyfarwydd iawn ag Abergwaun a'r gymuned y mae'r Aelod yn ei chynrychioli, ond byddaf yn gofyn i fy swyddogion edrych ar hyn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdod lleol i weld pa gamau y gellid eu cymryd yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, fe wnaeth y Prif Weinidog ymuno â fi yn Ysgol Gynradd Stebonheath ar ddechrau'r flwyddyn i weld gwaith Dŵr Cymru i leihau llifogydd yn Llanelli. Roedd buddsoddiad Dŵr Cymru yn yr ardal yn rhannol drwy Fanc Buddsoddi Ewrop. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod gallu i fuddsoddi mewn seilwaith o'r fath, er lles cymunedol, yn rhywbeth na ddylem droi'n cefnau arno fel mantais aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd?

Minister, the First Minister joined me in Stebonheath Primary School at the beginning of the year to see the work of Welsh Water Dŵr Cymru to reduce flooding in Llanelli. The investment of Dŵr Cymru Welsh Water in the area was partially through the European Investment Bank. Does the Minister agree with me that the ability to invest in infrastructure of this sort, for the benefit of our communities, is something that we shouldn't turn our backs on as a benefit of being members of the European Union?

14:06 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed. As the Member does, I fully support being a member of the European Union. I welcome your support for investment for programmes like RainScape, which is now a Welsh solution that is gaining much momentum across the UK and the globe in terms of opportunities that are being brought about by working together. Dŵr Cymru's investment in your community is having a major effect in terms of dealing with flooding and pollution and reducing the risk to the community.

Yn wir. Fel yr Aelod, rwy'n llwyr gefnogi'r ffaith ein bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Croesawaf eich cefnogaeth i fuddsoddi mewn rhaglenni fel RainScape, sydd bellach yn ateb Cymreig sy'n magu llawer o fomentwm ledled y DU a'r byd o ran y cyfleoedd sy'n cael eu creu drwy gydweithio. Mae buddsoddiad Dŵr Cymru yn eich cymuned yn cael effaith sylweddol o ran delio â llifogydd a llygredd a lleihau'r risg i'r gymuned.

14:07 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, certain properties in west Wales have become difficult to insure due to flood risk. Now, as you know, there's been an agreement between UK Government and insurance companies to guarantee affordable insurance for residential properties, but not it seems for business properties, and there are businesses in my constituency that cannot get insurance cover for flood risk and may need to relocate as a result of this. Will you raise with the UK Government the importance of ensuring affordable insurance also for business premises?

Weinidog, mae rhai safleoedd yng ngorllewin Cymru wedi mynd yn anodd eu hyswirio oherwydd y perygl o lifogydd. Yn awr, fel y gwyddoch, mae cytundeb wedi bod rhwng Llywodraeth y DU a chwmnïau yswiriant i warantu yswiriant fforddiadwy ar gyfer eiddo preswyl, ond nid yw'n ymddangos bod hyn yn wir ar gyfer eiddo busnes, ac mae busnesau yn fy etholaeth i'n methu â chael yswiriant ar gyfer perygl llifogydd a gallai fod angen iddynt adleoli o ganlyniad i hyn. A wnewch chi dynnu sylw Llywodraeth y DU at bwysigrwydd sicrhau yswiriant fforddiadwy ar gyfer safleoedd busnes hefyd?

14:07 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think the Member raises an important point. I think we have to look at issues of retrospective planning and where businesses are placed now and how the effects of flooding impact on business. It is something I will raise with the Minister in Westminster. We haven't quite resolved the issue regarding flood relief and its application in Wales, but it's something that I'm confident that we can do. I will also raise the issue that the Member raised with me today.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn gwneud pwynt pwysig. Rwy'n credu y bydd yn rhaid inni edrych ar faterion cynllunio ôl-weithredol a lle y caiff busnesau eu lleoli yn awr, a sut y mae effeithiau llifogydd yn cael effaith ar fusnesau. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ei ddwyn i sylw'r Gweinidog yn San Steffan. Nid ydym wedi datrys mater lleddfu llifogydd a'i gymhwysiad yng Nghymru yn llwyr, ond mae'n rhywbeth rwy'n hyderus y gallwn ei wneud. Byddaf hefyd yn tynnu sylw at y mater y soniodd yr Aelod amdano heddiw.

## Datblygu Cynaliadwy

## Sustainable Development

14:08 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. Sut y mae'r Gweinidog yn cyflawni ei gyfrifoldeb trawsbynciol am ddatblygu cynaliadwy ar draws Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0247(NR)*

*9. How is the Minister meeting his cross-cutting responsibility for sustainable development across the Welsh Government? OAQ(4)0247(NR)*

14:08 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for his question. Since becoming Minister for Natural Resources, I have led on the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. This provides a strong basis for sustainable development across all of Government and the wider public service in Wales.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Ers i mi ddod yn Weinidog Cyfoeth Naturiol, rwyf wedi arwain ar Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Bil yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu cynaliadwy ar draws y Llywodraeth yn ogystal â'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei ymateb. Heb fynd i drafod y Bil arbennig hwnnw ymlaen llaw, a fyddai'r Gweinidog yn esbonio i mi yn union sut y mae'r golwg trawsbynciol yn cael ei ddarparu gan wahanol adrannau o fewn y Llywodraeth? A oes yna dîm trawsbynciol yn gwasanaethu iddo fo neu'n atebol iddo fo? A oes yna swyddogion unigol sy'n cymryd gofal am gwestiynau trawsbynciol? Oherwydd mae'n hanfodol, buaswn i'n tybio, er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad hwn am ddatblygiad cynaliadwy, fod y trosolwg yn weithredol.

I thank the Minister for his response, but without discussing that particular Bill now, would the Minister explain to me exactly how this cross-cutting approach is provided by various departments within Government? Is there a cross-cutting team serving him or accountable to him? Are there individual officials who take responsibility for cross-cutting issues? Because it's crucial, I would have thought, in order to achieve the statutory responsibilities of the Welsh Government and this Assembly for sustainable development, that that overview is in place.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

The principle of sustainable development is at the heart of the finance budget of the Welsh Government and it's something that is considered by all Ministers and the First Minister as we move forward, integral to our planning processes for policy, and it is something that will be strengthened indeed by evidencing through the future generations Bill and an appointed commissioner to test the Welsh Government on those proposals.

Mae'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn ganolog i gyllideb Llywodraeth Cymru ac mae'n fater sy'n cael ei ystyried gan yr holl Weinidogion a'r Prif Weinidog wrth i ni symud ymlaen, yn rhan annatod o'n prosesau cynllunio ar gyfer polisi, a rhywbeth yn wir a fydd yn cael ei gryfhau drwy dystiolaeth a ddaw yn sgil Bil cenedlaethau'r dyfodol a phenodi comisiynydd i brofi Llywodraeth Cymru ar yr argymhellion hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

In a similar vein, Minister, Natural Resources Wales has a duty to ensure that any development is sustainable, but also to protect our natural landscapes. You meet Natural Resources Wales regularly, so what questions do you ask them to satisfy yourself that they are getting the right balance between protecting our natural heritage and meeting your renewable energy targets?

Yn yr un modd, Weinidog, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd i sicrhau bod unrhyw ddatblygiad yn gynaliadwy, ond hefyd i amddiffyn ein tirweddau naturiol. Rydych yn cyfarfod â Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheolaidd, felly pa gwestiynau rydych yn eu gofyn iddynt i fodloni eich hun eu bod yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng diogelu ein treftadaeth naturiol a chyrraedd eich targedau ynni adnewyddadwy?

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I think it's incumbent on all public bodies to consider their impact on our communities, both in the planning stages or any policy development, and I am confident that NRW take their responsibilities very seriously. I meet them on a regular basis, as the Member is aware. But, if there is any specific questioning behind her question today that she would like to make me aware of, I'd be happy to receive a letter from her.

Rwy'n credu ei bod yn ddyletswydd ar bob corff cyhoeddus i ystyried eu heffaith ar ein cymunedau, yn ystod y camau cynllunio neu yn ystod unrhyw ddatblygiad polisi, ac rwy'n hyderus fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Rwy'n eu cyfarfod yn rheolaidd, fel y mae'r Aelod yn gwybod. Ond os oes unrhyw gwestiynau penodol yn sail i'w chwestiwn heddiw y buasai'n hoffi ei rannu â mi, byddwn yn hapus i dderbyn llythyr oddi wrthi.

Senedd.tv Fideo Video

## Ffermio ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed

## Farming in Brecon and Radnorshire

14:10 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant ffermio ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0251(NR)*

*10. Will the Minister make a statement regarding the Welsh Government's priorities for the farming industry in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)0251(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:10

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our priority is to ensure that the farming industry in Brecon and Radnorshire—and across the rest of Wales—is profitable, sustainable, resilient and professionally managed.

Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod y diwydiant ffermio ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed—ac yng ngweddill Cymru—yn broffidiol, yn gynaliadwy, yn wydn ac yn cael ei reoli'n broffesiynol.

14:10

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, you'll be aware that there is much relief in farming communities in the Elan valley in my constituency regarding the Government's change of heart with regard to payments for farming above the moorland line. However, there is great bemusement that it took those farmers and others in Wales to point out to the Welsh Government that its plans simply were not compatible with EU regulations. What's important now, of course, is that we move forward and secure a future for those families, many of whom are tenanted farmers, not rich landowners—a future for them and their families in the uplands. Could you outline to me, in your new negotiations and discussions of support for farming in the uplands, what you will be doing to ensure the survival of those family farms in what are very environmentally sensitive parts of Wales?

Ddirprwy Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol fod cryn dipyn o ryddhad i'w deimlo mewn cymunedau ffermio yng Nghwm Elan yn fy etholaeth ynglŷn â'r ffaith fod y Llywodraeth wedi newid ei barn ynghylch taliadau am ffermio uwchben y llinell rhostir. Fodd bynnag, mae yna gryn ryfeddod nad oedd Llywodraeth Cymru'n ymwybodol fod ei chynlluniau, yn syml, yn anghydnaws â rheoliadau'r UE nes i'r ffermwyr hynny ac eraill yng Nghymru dynnu ei sylw at y ffaith. Yr hyn sy'n bwysig yn awr, wrth gwrs, yw ein bod yn symud ymlaen ac yn sicrhau dyfodol i'r teuluoedd hyn. Tenantiaid ffermydd yw llawer ohonynt, nid tirfeddianwyr—rhaid sicrhau dyfodol iddynt hwy a'u teuluoedd yn yr ucheldir. Yn eich trafodaethau newydd ar gymorth i ffermwyr yr ucheldir, a wnewch chi amlinellu beth a wnewch i sicrhau goroesiad y ffermydd teuluol hyn mewn rhannau o Gymru sy'n sensitif iawn yn amgylcheddol?

14:11

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In case I wasn't clear enough in my response to Russell George earlier, there hasn't been a u-turn or a change of heart, and the original proposals were the best result for the industry as a whole.

Rhag ofn nad oeddwn yn ddigon clir yn fy ymateb i Russell George yn gynharach, nid oes tro pedol na newid barn wedi bod, a'r argymhellion gwreiddiol oedd y canlyniad gorau ar gyfer y diwydiant cyfan.

In terms of how we can support farmers who will be affected by the new area-based system that we will move to, I would imagine that our approach to the RDP will be a particular way in which we can support those farmers in terms of bringing investment onto their farms, both capital investment and also investment through Farming Connect, in terms of supporting those farms to become more resilient, more profitable and to develop their knowledge and innovation.

O ran sut y gallwn gefnogi ffermwyr a fydd yn cael eu heffeithio gan y system newydd yn seiliedig ar arwynebedd y byddwn yn newid iddi, byddwn yn dychmygu y bydd ein dull o weithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cynnig ffordd benodol i'n galluogi i gefnogi'r ffermwyr hynny o ran buddsoddi yn eu ffermydd, ar ffurf buddsoddiadau cyfalaf yn ogystal â buddsoddi drwy Cyswllt Ffermio, er mwyn cynorthwyo'r ffermydd hynny i fod yn fwy gwydn, yn fwy proffidiol ac i ddatblygu eu gwybodaeth a'u harloesedd.

14:12

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the RDP aims to improve the competitiveness of agriculture, as well as ensuring the management of our natural resources. But, can I ask how the Welsh Government will implement, monitor and evaluate the process to ensure that every pound of the RDP is properly invested and generates the maximum benefit for our rural economies?

Weinidog, amcan y Cynllun Datblygu Gwledig yw gwella cystadleurwydd amaethyddiaeth, yn ogystal â sicrhau rheolaeth ar ein hadnoddau naturiol. Ond a gaf fi ofyn sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu, yn monitro ac yn gwerthuso'r broses i sicrhau bod pob punt o'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cael ei fuddsoddi'n briodol ac yn cynhyrchu'r budd mwyaf posibl i'n heconomïau gwledig?

14:12

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I completely share your concern that the RDP should deliver for every single penny of it in terms of driving forward our ambition—I think it's our shared ambition across the Chamber—for a resilient industry that's profitable in the future and less reliant on public subsidies, because we know that, in future, we will not have the same level of pillar 1 subsidies, particularly, available to our farmers. The programme monitoring committee, of course, plays an absolutely crucial role in terms of holding to account our spending of European programme money, and I would expect them to continue that excellent work.

Rwy'n rhannu eich pryder yn llwyr y dylai'r Cynllun Datblygu Gwledig ddangos cyflawniad am bob ceiniog goch o ran gyrru ein huchelgais—rwy'n credu ein bod yn rhannu'r uchelgais ar draws y Siambr—i sicrhau diwydiant gwydn sy'n broffidiol yn y dyfodol ac sy'n llai dibynnol ar gymorthdaliadau cyhoeddus, oherwydd gwyddom na fydd yr un lefel o gymorthdaliadau colofn 1, yn benodol, ar gael i'n ffermwyr yn y dyfodol. Mae'r pwyllgor monitro rhaglen, wrth gwrs, yn chwarae rhan gwbl allweddol yn rhoi cyfrif am y modd y gwariwn arian rhaglenni Ewrop, a byddwn yn disgwyl iddynt barhau â'r gwaith rhagorol hwnnw.

14:13 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae yna drafferthion penodol ar hyn o bryd, wrth gwrs, y tu mewn i'r diwydiant llaeth a chyda ffermwyr llaeth yng Nghymru, fel ym Maesyfed a Brycheiniog yn arbennig. Y tu mewn i'r cyd-destun hwnnw, mae sawl awgrym wedi cael eu gwneud y dylai fod gan yr ombwdsmon archfarchnadoedd mwy o rym a mwy o 'remit' i ymchwilio mewn i gytundebau llaeth, ac yn enwedig y tueddiad newydd yma o beidio ag adnewyddu cytundebau llaeth o gwbl, gan adael i ffermwyr llaeth fod yn dibynnu ar y farchnad sbot, neu'n gyrru rhyw fath o ias o ansicrwydd drwy'r diwydiant. Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd, felly, i roi pwysau ar Lywodraeth San Steffan i wella gwaith yr ombwdsmon yn y cyd-destun yma, a hefyd i wella'r diwydiant llaeth yn gyffredinol?

There are specific difficulties at the moment within the dairy industry and with dairy farmers in Wales, such as those in Brecon and Radnorshire particularly. In that context, a number of suggestions have been made that the supermarkets ombudsman should have more power and greater remit to look into milk contracts, particularly this new trend of not renewing contracts at all, leaving dairy farmers to be dependent on the spot market, or sending a shiver of uncertainty throughout the whole industry. What steps is the Government taking, therefore, to put pressure on the Westminster Government to improve the work of the ombudsman in this area, and to improve the milk industry in general?

14:14 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I share your concerns on this issue. It's been our position, as a Welsh Government, for some time that the adjudicator should be given the powers that she needs to ensure fairness right across the business supply chain in dairy. The Welsh Government originally pressed for the Groceries Code Adjudicator to have the power to fine from the outset, to hear complaints anonymously and to ensure the widest possible access to her services, and those services should include indirect suppliers, as well as farmers and trade organisations.

Rwy'n rhannu eich pryderon ynglŷn â'r mater hwn. Ers peth amser, ein barn ni, fel Llywodraeth Cymru, yw y dylai'r dyfarnwr gael y pwerau y mae arni eu hangen i sicrhau tegwch ar draws y gadwyn gyflenwi cynnyrch llaeth. Yn wreiddiol, roedd Llywodraeth Cymru wedi gwasgu am bwerau i'r Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd allu gosod dirwyon o'r cychwyn, gwrando ar gwynion yn ddienw a sicrhau bod ei gwasanaethau mor hygyrch â phosibl, a dylai'r gwasanaethau hynny gynnwys cyflenwyr anuniongyrchol yn ogystal â ffermwyr a sefydliadau masnach.

The role has been in place now for two years, so I think that now is an opportune time for the UK Government to reassess those powers and to ensure that she has the power that she needs. The previous Minister met with the adjudicator and it's my intention to do so too. I'll be seeing Liz Truss, Secretary of State, on Monday, and we'll be in Brussels at the Council of Ministers meeting, which has the Russian trade ban on the agenda. Within that, obviously, discussion on dairy will be key. So, I'll take that opportunity to raise those issues precisely with her.

Mae'r rôl wedi bodoli ers dwy flynedd bellach, felly rwy'n meddwl ei bod yn adeg dda i Lywodraeth y DU ailasesu'r pwerau hynny yn awr a sicrhau bod ganddi'r pŵer sydd ei angen arni. Cyfarfu'r Gweinidog blaenorol gyda'r dyfarnwr ac mae'n fwriad gennyf innau wneud hynny hefyd. Byddaf yn gweld Liz Truss, yr Ysgrifennydd Gwladol, ddydd Llun, a byddwn ym Mrwsel yng nghyfarfod Cyngor y Gweinidogion, sy'n cynnwys gwaharddiad masnach Rwsia ar yr agenda. Yn rhan o hynny, yn amlwg, bydd trafodaeth ar gynnyrch llaeth yn allweddol. Felly, byddaf yn manteisio ar y cyfle i ddwyn yr union faterion hyn i'w sylw.

### Parciau Solar ar Raddfa Fach

### Small-scale Solar Parks

14:15 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gofyniad bod parciau solar ar raddfa fach yn darparu manteision cymunedol? OAQ(4)0241(NR)*

*11. Will the Minister make a statement on the requirement for small-scale solar parks to provide community benefits? OAQ(4)0241(NR)*

14:15 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Monmouth for his question. There is currently no requirement for small-scale solar parks to provide community benefits. However, I'm very keen to see renewable energy developers working with local communities to maximise all the potential of social and economic benefits these developments can create.

Diolch i'r Aelod dros Fynwy am ei gwestiwn. Nid oes unrhyw ofyniad i barciau solar ar raddfa fach ddarparu manteision cymunedol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n awyddus iawn i weld datblygwyr ynni adnewyddadwy yn gweithio gyda chymunedau lleol i wneud y gorau o'r holl fanteision cymdeithasol ac economaidd posibl y gall y datblygiadau hyn eu creu.

14:15 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. The Minister will be aware that there's a proposal to extend the register of economic and community benefits from onshore wind to solar farms. I asked the question, Minister, because residents of the village of Llanvapley, between Abergavenny and Monmouth, in my constituency, fought a long battle against a solar farm, which has since been granted permission. They accept that decision, but they had hoped to negotiate some community benefits in retrospect; however, those have not been forthcoming. Can you look at this area and make sure that, if communities are going to have developments like this, then the least they can expect is that there will be a retrospective requirement for negotiations with the community to try and get some benefits?

Diolch i chi, Weinidog. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol fod yna argymhelliad i ymestyn y gofrestr o fuddion economaidd a chymunedol gwynt ar y tir i gynnwys ffermydd solar. Gofynnais y cwestiwn, Weinidog, am fod trigolion pentref Llanfable, rhwng y Fenni a Threfynwy, yn fy etholaeth, wedi ymladd brwydr hir yn erbyn fferm solar, sydd wedi cael caniatâd ers hynny. Maent yn derbyn y penderfyniad hwnnw, ond roeddent wedi gobeithio trafod rhai buddion cymunedol yn ôl-weithredol; fodd bynnag, nid yw hynny wedi digwydd. A allwch chi edrych ar y maes hwn a gwneud yn siŵr, os yw cymunedau yn mynd i gael datblygiadau fel hyn, eu bod o leiaf yn gallu disgwyl y bydd gofyniad ôl-weithredol i gynnal trafodaethau gyda'r gymuned i geisio cael rhai buddion?

14:16 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, non-specific to any application, I think it's a valid point the Member raises about where community generation can have positive benefits in communities. It is something that I will give further consideration to, but it is a matter for the local planning authority in the first instance.

Unwaith eto, heb gyfeirio at unrhyw gais penodol, rwy'n credu bod yr Aelod yn tynnu sylw at bwynt dilys ynglŷn â lle y gall cynhyrchu cymunedol sicrhau buddion cadarnhaol mewn cymunedau. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ei ystyried ymhellach, ond mater yw hwn i'r awdurdod cynllunio lleol yn y lle cyntaf.

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

14:16

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

## 2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty. Question 1 is from Joyce Watson.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Daw Cwestiwn 1 gan Joyce Watson.

### Tlodi Bwyd

### Food Poverty

14:16 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dlodi bwyd? OAQ(4)0282(CTP)*

*1. Will the Minister make a statement on food poverty? OAQ(4)0282(CTP)*

14:16 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The Welsh Government is taking action across a number of departments to address the growing problem of food poverty. My officials are leading work to bring strands together and ensure maximum impact. The revised child poverty strategy identifies food poverty as an area where we will take further action.

Diolch yn fawr. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar draws nifer o adrannau i fynd i'r afael â phroblem gynyddol tlodi bwyd. Mae fy swyddogion yn arwain gwaith i ddod ag elfennau at ei gilydd a sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Mae'r strategaeth tlodi plant ddiwygiedig yn nodi tlodi bwyd fel maes lle y byddwn yn cymryd camau pellach.

14:17 **Joyce Watson** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I am pleased, Minister, by your answer, because it is the case that food poverty was missing from the first child poverty strategy, so I welcome that. But there is an anomaly: whereas charities that rely on cash donations can take advantage of schemes like Gift Aid to get tax rebates, food banks, which mostly rely on donations of food, miss out. So, would you explore with Cabinet colleagues—and make the case to Westminster—options for tax rebate designed especially for food banks based on the value of goods given?

Rwy'n falch o glywed eich ateb, Weinidog, gan fod tlodi bwyd ar goll o'r strategaeth tlodi plant gyntaf, felly rwy'n croesawu hynny. Ond mae yna anghysondeb: er bod elusennau sy'n dibynnu ar roddion ariannol yn gallu manteisio ar gynlluniau fel Cymorth Rhodd i gael ad-daliadau treth, nid yw hynny'n wir am fanciau bwyd, sy'n dibynnu'n bennaf ar roddion bwyd. Felly, a wnewch chi archwilio opsiynau gyda'ch cydweithwyr yn y Cabinet—a chyflwyno'r achos i San Steffan—i gynllunio ad-daliad treth yn arbennig ar gyfer banciau bwyd yn seiliedig ar werth y nwyddau a roddwyd?

14:17 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Yes, thank you. As I said, food poverty is a growing problem, and I do accept that, you know, it wasn't in the 2011 strategy. I think that shows it's much more of an acute problem now, and I think it's absolutely right that we do take action now to address it. I'm certainly very happy to—. I'll write to the relevant Minister in Westminster regarding the issue around Gift Aid that you raise.

Ie, diolch. Fel y dywedais, mae tlodi bwyd yn broblem gynyddol, ac rwy'n derbyn, wyddoch chi, nad oedd wedi'i gynnwys yn strategaeth 2011. Credaf fod hynny'n dangos ei bod yn broblem lawer mwy difrifol yn awr, ac rwy'n meddwl ei bod yn hollol gywir inni roi camau ar waith yn awr i fynd i'r afael â hyn. Rwy'n sicr yn hapus iawn i—. Fe ysgrifennaf at y Gweinidog perthnasol yn San Steffan ynglŷn â mater Cymorth Rhodd y soniwch amdano.

14:18 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, I find myself in complete agreement with Joyce Watson, for once, on this issue. [Interruption.] Good question, Joyce. According to Save the Children, one third of children in Wales are affected by poverty; I'm sure you're aware of the statistics. Joyce Watson mentioned food banks. In Monmouth, one food bank has handed out more than 2,000 meals since it was launched almost a year ago, feeding 145 adults and 89 children. Now, whatever people's opinions on food banks and the position we're in with regard to them, there are many hard-working volunteers in communities across Wales putting a lot of effort into those food banks. Can you do what you can to support them and also carry forward Joyce Watson's suggestion on tax rebates?

Weinidog, am unwaith rwy'n cytuno'n llwyr â Joyce Watson ar y mater hwn. [Torri ar draws.] Cwestiwn da, Joyce. Yn ôl Achub y Plant, mae un rhan o dair o blant Cymru yn cael eu heffeithio gan dlodi; rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r ystadegau. Crybwyllodd Joyce Watson y banciau bwyd. Yn Nhrefynwy, mae un banc bwyd wedi dosbarthu mwy na 2,000 o brydau bwyd ers ei lansio bron i flwyddyn yn ôl, gan fwydo 145 o oedolion ac 89 o blant. Yn awr, beth bynnag yw barn pobl am fanciau bwyd a'r sefyllfa rydym ynddi mewn perthynas â hwy, mae llawer o wirfoddolwyr sy'n gweithio'n galed mewn cymunedau ledled Cymru yn rhoi llawer o ymdrech i mewn i'r banciau bwyd hynny. A allwch chi wneud yr hyn a allwch i'w cefnogi a gweithredu ar awgrym Joyce Watson ynghylch ad-daliadau treth?

14:18 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Yes, I will certainly write to the Minister, as I said. I think you're absolutely right: the food banks are run by, you know, an army of volunteers here in Wales, and we're very grateful to them. Certainly, having had discussions with the Trussell Trust, it's very clear that the majority of people who approach the Trussell Trust for help are doing so because of the changes in welfare reform, so perhaps you could lobby your own Government in Westminster around that.

Gallaf, byddaf yn sicr yn ysgrifennu at y Gweinidog, fel y dywedais. Rwy'n credu eich bod yn hollol gywir: mae'r banciau bwyd yn cael eu rhedeg, wyddoch chi, gan fyddin o wirfoddolwyr yma yng Nghymru, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt. Yn sicr, ar ôl cael trafodaethau gydag Ymddiriedolaeth Trussell, mae'n glir iawn fod y rhan fwyaf o bobl sy'n mynd at Ymddiriedolaeth Trussell am gymorth yn gwneud hynny oherwydd y newidiadau yn sgil diwygio lles, felly efallai y gallech lobïo eich Llywodraeth eich hun yn San Steffan ynglŷn â hynny.

14:19 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Minister, the increase in the use of food banks in Wales is nothing short of an absolute scandal, in my view. When I first became aware of the food bank network in 2010 and helped to raise awareness of their work, the network fed just 4,000 people in that particular financial year in Wales. In the last financial year, that number has risen to 79,000, and nearly 28,000 of those are children. The politics of austerity has a lot to answer for. Were you, therefore, undermined as Minister for communities and embarrassed as a Labour party member when your colleagues signed up, en masse, last week to the Tory austerity charter in Westminster, and, Minister, if you were, would you have voted differently?

Weinidog, mae'r cynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd yng Nghymru yn sgandal llwyr, yn fy marn i. Pan ddeuthum yn ymwybodol gyntaf o'r rhwydwaith banciau bwyd yn 2010 a helpu i godi ymwybyddiaeth o'u gwaith, 4,000 o bobl yn unig a fwydodd y rhwydwaith yn ystod y flwyddyn ariannol benodol honno yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae'r nifer wedi codi i 79,000 ac mae bron i 28,000 o'r rheini'n blant. Mae gan wleidyddiaeth caledi lawer i ateb drosto. Felly, a gawsoch eich tanseilio fel Gweinidog cymunedau a'ch gwneud i deimlo embaras eich bod yn aelod o'r blaid Lafur pan gefnogodd eich cydweithwyr siarter caledi y Toriaid yn San Steffan yn un llu yr wythnos diwethaf, ac os cawsoch, Weinidog, a fyddech chi wedi pleidleisio'n wahanol?

Senedd.tv Fideo Video

14:20 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Well, I'm not a Member of Parliament, so I think it's a bit of a hypothetical question to ask how I would've voted. For me, as Minister for Communities and Tackling Poverty, it's absolutely vital we do something in the here and now in relation to food poverty. As I said, it wasn't in the child poverty strategy; it wasn't in our tackling poverty action plan. For the reasons I've outlined, it's become much more of an acute problem. I think it's really important that, as I take the annual report of the tackling poverty action plan forward—we'll be refreshing that in July—we ensure that this issue is addressed then.

Wel, nid wyf yn Aelod Seneddol, felly rwy'n meddwl mai cwestiwn braidd yn ddamcaniaethol yw gofyn sut y byddwn wedi pleidleisio. I mi, fel y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, mae'n gwbl hanfodol ein bod yn gwneud rhywbeth yn y fan hon ac yn awr mewn perthynas â thlodi bwyd. Fel y dywedais, nid oedd wedi'i gynnwys yn y strategaeth tlodi plant; nid oedd yn ein cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi. Am y rhesymau a amlinellais, mae wedi dod yn broblem lawer mwy difrifol. Wrth i mi symud ymlaen ar adroddiad blynyddol y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi—byddwn yn ei adnewyddu ym mis Gorffennaf—rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn inni sicrhau bod y mater hwn yn cael sylw bryd hynny.

Senedd.tv Fideo Video

## Plant o Gartrefi Difreintiedig

## Children from Disadvantaged Homes

14:20 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

*2. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi i helpu plant o gartrefi difreintiedig? OAQ(4)0269(CTP)*

*2. What measures are being taken to tackle poverty to help children from disadvantaged homes? OAQ(4)0269(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

14:20 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Diolch. Significant investment in the early years and action to improve educational outcomes, through programmes such as Flying Start and the pupil deprivation grant, will all contribute to supporting children from low-income households. Our revised child poverty strategy and tackling poverty action plan set out our overall approach to tackling poverty.

Diolch. Bydd buddsoddiad sylweddol yn y blynyddoedd cynnar a gweithredu i wella canlyniadau addysgol drwy raglenni fel Dechrau'n Deg a'r grant amddifadedd disgyblion oll yn cyfrannu at gefnogi plant o gartrefi incwm isel. Mae ein strategaeth tlodi plant ddiwygiedig a'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi yn nodi ein dull cyffredinol o drechu tlodi.

Senedd.tv Fideo Video

14:21 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr. Rydych wedi cyfeirio at y grant amddifadedd disgyblion, wrth gwrs, sy'n cael ei roi i blant o gartrefi difreintiedig i wella eu cyraeddiadau addysgol nhw, ond mae'r grant yma, wrth gwrs, yn dibynnu ar y plentyn yn derbyn cinio am ddim. Mewn ysgol yn fy etholaeth i, mae 40% o'r plant yn dod o gefndir gyda'r mwyaf difreintiedig, ond dim ond hanner y rheini sydd yn derbyn cinio am ddim. Felly, mae hanner y plant difreintiedig hyn yn colli allan ac mae'r ysgol yn colli allan. Beth mae'r Llywodraeth yn mynd i'w wneud i sicrhau cefnogaeth deilwng i'r plant yma?

Thank you very much. You've alluded to the pupil deprivation grant, of course, which is given to children from disadvantaged homes to improve their educational attainment, but this grant, of course, is dependent on the child being in receipt of free school meals. In a school in my constituency, 40% of the children come from some of the most disadvantaged backgrounds, but only half of those are in receipt of free school meals. So, half of these disadvantaged children are missing out and the school is missing out. What will the Government do to secure the deserved support for these children?

Senedd.tv Fideo Video

14:22 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, it's something that I'll be very happy to discuss with my colleague the Minister for Education and Skills. You will be aware he's made closing the attainment gap his absolutely top priority and the pupil deprivation grant is very important to him in coming to that achievement. So, I will have discussions with my colleague, the Minister.

Wel, mae'n rhywbeth y byddaf yn hapus iawn i'w drafod â'm cydweithiwr, y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Fe fyddwch yn ymwybodol ei fod yn gwneud cau'r bwlch cyrhaeddiad yn flaenoriaeth uchaf un ac mae'r grant amddifadedd disgyblion yn bwysig iawn iddo ar gyfer sicrhau cyflawniad o'r fath. Felly, byddaf yn cael trafodaethau gyda fy nghyd-Aelod, y Gweinidog.

14:22 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as we're talking about the pupil deprivation grant, I'm sure you, like me, are very grateful that schools in our constituencies are receiving this additional grant. More importantly now, for three-year-olds going in for the first time, the pupil deprivation grant will be applied. How are you ensuring that schools and education authorities will be working alongside your other colleagues in Welsh Government to make sure that they do actually tackle the issues of educational disadvantage among those children from poorer backgrounds, and that we can do the best? That means not cutting the school library services and not cutting uniform grants as part of an overall education authority's strategy to save money.

Weinidog, gan ein bod yn sôn am y grant amddifadedd disgyblion, rwy'n siŵr eich bod, fel finnau, yn ddiolchgar iawn bod ysgolion yn ein hetholaethau yn derbyn y grant ychwanegol. Yn bwysicach yn awr, bydd y grant amddifadedd disgyblion yn cael ei gymhwyso ar gyfer plant tair oed sy'n mynd i mewn am y tro cyntaf. Sut rydych yn sicrhau y bydd ysgolion ac awdurdodau addysg yn gweithio gyda'ch cydweithwyr eraill yn Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael mewn gwirionedd â phroblemau anfantais addysgol ymhlith y plant o gefndiroedd tlotach, a'n bod yn gallu gwneud ein gorau? Golyga hynny beidio â thorri gwasanaethau llyfrgell i ysgolion a pheidio â thorri grantiau gwisg ysgol yn rhan o strategaeth gyffredinol awdurdod addysg i arbed arian.

14:23 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. It is very important that—. You know, whilst I've got tackling poverty, obviously, in my title, it is absolutely vital that we work across Government. One of the things we do is that I chair the tackling poverty implementation board, which is made up of senior officials from right across Government who are accountable for the targets and milestones that we have in the tackling poverty action plan. So, for instance, the Minister for Public Services will have his officials there, and that's the message that they'll be able to take back to local authorities.

Diolch yn fawr. Mae'n bwysig iawn fod—. Wyddoch chi, er mai yn fy nheitl i y mae trechu tlodi, mae'n amlwg, mae'n gwbl hanfodol ein bod yn gweithio ar draws y Llywodraeth. Un o'r pethau rydym yn ei wneud yw fy mod yn cadeirio'r bwrdd gweithredu ar gyfer trechu tlodi sy'n cynnwys uwch-swyddogion o bob rhan o'r Llywodraeth sy'n atebol am y targedau a'r cerrig milltir yn y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi. Felly, er enghraifft, bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn sicrhau bod ei swyddogion yno, a dyna'r neges y gallant ei chyfleu i awdurdodau lleol.

One of the things I've done since I came into portfolio is that I've restructured that board, because I think it's very important that we focus, perhaps, on one topic per board. The Minister comes along to that board, and I think that will send out a very important message to everyone that it is absolutely a priority for this Government.

Un o'r pethau a wnes ers i mi gael y portffolio yw ailstrwythuro'r bwrdd, oherwydd credaf ei bod yn bwysig iawn inni ganolbwyntio, efallai, ar un pwnc i bob bwrdd. Daw'r Gweinidog at y bwrdd, ac rwy'n meddwl y bydd hynny'n anfon neges bwysig iawn i bawb ei fod yn flaenoriaeth bendant i'r Llywodraeth hon.

14:23 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, a good education is a crucial weapon against poverty and a great motivator for social mobility. Given Estyn's concerns that the education system is failing bright young people from poor backgrounds, what conversations have you had with the education Minister to ensure that leaders in schools with a large cohort of children with free school meals believe that his Oxbridge hub is for them just as much as schools in affluent areas, and that they are expected to use it?

Weinidog, mae addysg dda yn arf hollbwysig yn erbyn tlodi ac yn ysgogydd mawr i symudedd cymdeithasol. O ystyried pryderon Estyn bod y system addysg yn methu â chyflawni dros bobl ifanc ddisglair o gefndiroedd tlawd, pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Gweinidog addysg i sicrhau bod arweinwyr mewn ysgolion gyda chohort mawr o blant sy'n cael prydau ysgol am ddim yn credu bod ei ganolfan Oxbridge ar eu cyfer hwy lawn cymaint ag ar gyfer ysgolion mewn ardaloedd cefnog, a bod disgwyl iddynt ei defnyddio?

14:24 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I haven't had specific discussions on that topic, although it is something—. The Minister for Education and Skills and I co-chair the early years partnership board and it's something that we can look at within that board.

Nid wyf wedi cael trafodaethau penodol ar y pwnc hwnnw, er ei fod yn rhywbeth—. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau yn cyd-gadeirio bwrdd partneriaeth y blynyddoedd cynnar ac mae'n rhywbeth y gallwn edrych arno o fewn y bwrdd hwnnw.

14:24 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I understand that the wording of the pupil deprivation grant is such that it is available to those who are eligible for a free school meal, not in receipt of a free school meal. I understand that it is possible for local authorities to assess those individuals who are eligible and passport the money straight across without those individuals having to actually receive the said free school meal. Could you write to the local authorities in Wales and ask them how many of them are automatically passporting the money across, how many of them are requiring schools to chase after pupils and find out those who are eligible, and, if they are not currently doing that, to please share best practice so that money is getting to those children who need it most?

Weinidog, rwy'n deall bod geiriad y grant amddifadedd disgyblion yn golygu ei fod ar gael i rai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim. Rwy'n deall ei bod yn bosibl i awdurdodau lleol asesu pa unigolion sy'n gymwys a throsglwyddo'r arian yn syth heb i'r unigolion dan sylw orfod cael y cyfryw bryd ysgol am ddim mewn gwirionedd. A allech chi ysgrifennu at yr awdurdodau lleol yng Nghymru i ofyn iddynt faint ohonynt sy'n trosglwyddo'r arian yn awtomatig, faint ohonynt sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion fynd ar ôl disgyblion a darganfod pwy sy'n gymwys, ac os nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd, i rannu arfer gorau fel bod yr arian yn mynd i'r plant sydd fwyaf o'i angen?

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I think you raise a very important point, and I will be very happy to get that information and share it with Members.

Gallaf, rwy'n meddwl eich bod yn codi pwynt pwysig iawn, a byddaf yn hapus iawn i gael y wybodaeth honno a'i rhannu gyda'r Aelodau.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party spokespeople, and, first this afternoon, opposition spokesperson Mohammad Asghar.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd yr wrthblaid, Mohammad Asghar.

14:25 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, madam Presiding Officer. Minister, it was deeply moving to see the support offered from around the world, including from Wales, to the French people following the horrific events in Paris a couple of weeks ago. The danger of radicalisation of some sections of society is all too apparent, and we in Wales have seen the effect on communities of individuals being influenced by this extremism. What plans does the Minister have to improve engagement with our minority communities to root out extremism and promote a peaceful and tolerant society, which is in everybody's interests in Wales?

Diolch i chi, fadam Llywydd. Weinidog, profiad dirdynnol oedd gweld y gefnogaeth a gynigiwyd o bob cwr o'r byd, gan gynnwys o Gymru, i bobl Ffrainc yn dilyn y digwyddiadau erchyll ym Mharis ychydig wythnosau yn ôl. Mae'r peryglon sy'n deillio o radicaleiddio rhai rhannau o gymdeithas yn amlwg iawn, ac yng Nghymru rydym wedi gweld yr effaith ar gymunedau wrth i unigolion gael eu dylanwadu gan eithafiaeth o'r fath. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella ymgysylltiad â'n cymunedau lleiafrifol i ddiwreiddio eithafiaeth a hyrwyddo cymdeithas heddychlon a goddefgar er lles pawb yng Nghymru?

14:26 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that question. I think you're right—the peace vigil here in Cardiff bay, outside the Senedd, certainly demonstrated, I think, the very strong feeling of unity from our communities throughout Wales. I am absolutely committed to working across faith communities, and all communities, to promote messages of mutual understanding and respect across Wales. We have several fora—there is the race forum, which I met with, I think, last week or the week before; we have the faith forum, which the First Minister chairs, and, obviously, my colleague, the Minister for Public Services, takes the lead regarding extremism for the Government.

Diolch yn fawr am eich cwestiwn. Rwy'n meddwl eich bod yn iawn—rwy'n credu bod yr wylnos heddwch yma ym mae Caerdydd, y tu allan i'r Senedd, wedi dangos yn bendant y teimlad cryf iawn o undod sydd yna ymhlith ein cymunedau ledled Cymru. Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i weithio ar draws cymunedau ffydd, a phob cymuned, i hyrwyddo negeseuon o gyd-ddealltwriaeth a pharch ar draws Cymru. Mae gennym nifer o fforymau—y fforwm hil, y cyfarfûm â hwy yr wythnos diwethaf neu'r wythnos cynt rwy'n credu; y fforwm ffydd, y mae'r Prif Weinidog yn ei gadeirio, ac yn amlwg, mae fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, yn arwain ar eithafiaeth ar ran y Llywodraeth.

14:26 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that reply, Minister. Fourteen years after the launch of Communities First, Wales has the second-highest child poverty rate of the United Kingdom nations and regions. In Wales today, almost three quarters of children eligible for free school meals fail to achieve five good GCSEs, higher than, again, in any English region. What guarantee can the Minister give that the nearly £32 million of funding allocated for Communities First in 2015-16 will target the deep-rooted causes of poverty in Wales, and not just the symptoms?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Bedair blynedd ar ddeg ar ôl lansio Cymunedau yn Gyntaf, Cymru sydd â'r gyfradd tlodi plant ail uchaf o holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Yng Nghymru heddiw, mae bron i dri chwarter y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn methu â chael pump TGAU da, cyfradd sydd, unwaith eto, yn uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr. Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi y bydd y bron i £32 miliwn o arian a ddyrannwyd ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf yn 2015-16 yn targedu achosion tlodi sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn yng Nghymru, ac nid y symptomau'n unig?

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think you raise a very important point. The Communities First programme is—. The evaluation that is coming out now is showing us that we are targeting the right areas, and we are looking at the priorities. I think that educational attainment is absolutely critical. It's the early years of a child's life that then will show us what their future chances are. So, the funding that goes into Communities First, the evaluation that we have—and I'm going to publish the next—. The next evaluation will be published next month, and I will be publishing that, the national performance data for the programme, during the next month. It will show that the Communities First programme has made some very significant impacts and improvements, particularly around those young people who were not in education, employment or training. So, I think we do need to look at the earlier years, and that will be something—. Once I have those data through we can look to ensure that our strategy is correct and that those targets are correct also.

Rwy'n credu eich bod yn tynnu sylw at bwynt pwysig iawn. Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn—. Mae'r gwerthusiad sy'n dod allan yn awr yn dangos i ni ein bod yn targedu'r meysydd cywir, ac rydym yn edrych ar y blaenoriaethau. Credaf fod cyrhaeddiad addysgol yn gwbl hanfodol. Blynyddoedd cynnar bywyd plentyn fydd yn dangos inni beth fydd eu cyfleoedd yn y dyfodol. Felly, mae'r cyllid sy'n mynd i mewn Cymunedau yn Gyntaf, y gwerthusiad sydd gennym—ac rwy'n mynd i gyhoeddi'r nesaf—. Bydd y gwerthusiad nesaf yn cael ei gyhoeddi y mis nesaf, a byddaf yn cyhoeddi hwnnw, y data perfformiad cenedlaethol ar gyfer y rhaglen, yn ystod y mis nesaf. Bydd yn dangos bod rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi cael effaith ac wedi creu gwelliannau sylweddol iawn, yn enwedig yng nghyswllt pobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Felly, rwy'n meddwl bod angen inni edrych ar y blynyddoedd cynharach, a bydd hynny'n rhywbeth—. Ar ôl i mi gael y data hwn allan, gallwn geisio sicrhau bod ein strategaeth yn gywir a bod y targedau hynny'n gywir hefyd.

14:28 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. According to Stonewall Cymru, 87% of secondary school teachers say homophobic bullying happens in their schools. Eighty-five per cent of school staff have not received specific training on how to tackle homophobic bullying. What discussion has the Minister had with the Minister for Education and Skills on how to tackle homophobic bullying in our schools in Wales?

Diolch i chi, Weinidog. Yn ôl Stonewall Cymru, mae 87% o athrawon ysgol uwchradd yn dweud bod bwlio homoffobig yn digwydd yn eu hysgolion. Ni chafodd wyth deg pump y cant o staff ysgolion hyfforddiant penodol ar sut i fynd i'r afael â bwlio homoffobig. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar sut i fynd i'r afael â bwlio homoffobig yn ein hysgolion yng Nghymru?

14:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is an issue for the Minister for Education and Skills. I haven't had any specific discussions since I've been in post, but I will be very happy to support him whichever way I can.

Mater i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yw hynny. Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol ers i mi fod yn y swydd, ond byddaf yn hapus iawn i'w gynorthwyo ym mha bynnag ffordd y gallaf.

14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to Plaid Cymru spokesperson Rhodri Glyn Thomas.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.

14:29 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, dydd Llun diwethaf fe wnaeth gangen sir Caerfyrddin o Unison anfon llythyr at arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin, ac fe ddyfynnaf yn uniongyrchol o'r llythyr:

Minister, last Monday the Carmarthenshire branch of UNISON sent a letter to the leader of Carmarthenshire County Council, and I'll quote directly from the letter:

The stark consequences of Carmarthenshire's Labour-led council passively implementing ConDem cuts meekly passed on by a Labour Welsh Assembly Government will soon become apparent to the people of Carmarthenshire, in particular, young people and the dedicated professionals who work with them. If the council is successful in implementing the cuts, senior management implementing on behalf of elected members a slash and burn policy of council services, and, as a result, this will inevitably lead to less services, poorer services, outsourcing services, or no services where they currently exist. There is no hiding the fact that this will be the case. It is a fallacy to claim, as some councils do, that you can do more with less.

Bydd y canlyniadau llym sy'n deillio o'r ffaith fod cyngor dan arweiniad Llafur Sir Gaerfyrddin yn mynd ati'n oddefol i weithredu toriadau'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol a drosglwyddwyd yn ufudd gan Lywodraeth Cynulliad Llafur Cymru yn dod yn amlwg yn fuan i bobl Sir Gaerfyrddin, yn enwedig pobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol ymroddedig sy'n gweithio gyda hwy. Os llwydda'r cyngor i weithredu'r toriadau, bydd uwch-reolwyr yn gweithredu polisi o dorri a llosgi ar wasanaethau'r cyngor ar ran yr aelodau etholedig, ac o ganlyniad, bydd hyn yn arwain yn anochel at lai o wasanaethau, gwasanaethau gwaeth, gwasanaethau ar gontract allanol, neu golli gwasanaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Nid oes cuddio rhag y ffaith mai dyma fydd yn digwydd. Twyll yw hawlio, fel y mae rhai cynghorau yn ei wneud, y gallwch wneud mwy gyda llai.

A ydych chi'n cytuno, Weinidog, â barn cangen Unison sir Gaerfyrddin, ac y bydd y toriadau yma yn cael effaith ar y bobl mwyaf bregus yn ein cymunedau ni?

Do you agree, Minister, with the views of the Carmarthenshire branch of Unison, and that these cuts will have an impact on the most vulnerable people in our communities?

14:30

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, those decisions that are taken by Carmarthenshire County Council are for them, to say what they think is best for the local population. I know that local authorities right across Wales have had an extremely difficult financial settlement this time. You'll be aware that the Welsh Government's budget has been cut in real terms by £1.5 billion over this term. We can only give the money we've got to local authorities, and it's up to the local council to decide on the way they spend on their services, for the local population.

Wel, mater i Gyngor Sir Caerfyrddin yw'r penderfyniadau a wneir ganddynt, a dweud beth y credant sydd orau ar gyfer y boblogaeth leol. Gwn fod awdurdodau lleol ledled Cymru wedi cael setliad ariannol eithriadol o anodd y tro hwn. Fe fyddwch yn ymwybodol fod £1.5 biliwn wedi ei dorri mewn termau real oddi ar gyllideb Llywodraeth Cymru dros y tymor hwn. Ni allwn ond rhoi'r arian sydd gennym i awdurdodau lleol, a mater i'r cyngor lleol yw penderfynu sut y maent yn ei wario ar eu gwasanaethau ar gyfer y boblogaeth leol.

14:31

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n cymryd, felly, Weinidog, nad ŷch chi ddim yn cytuno â barn cangen sir Gaerfyrddin o Unison. Y pwynt y maen nhw'n ei wneud ydy mai'r bobl mwyaf bregus yn ein cymunedau ni fydd yn dioddef o ganlyniad i hyn, bod llawer iawn o'r bobl yma, mewn gwirionedd, mewn gwaith, ond ar gyflogau isel iawn. Mae'r pwynt a wnaeth Alun Ffred Jones yn gwbl gywir yn gynharach: y mae'r rhan fwyaf o'ch polisïau chi i daclo tlodi yn ymwneud â phobl ar lwfansau. Beth ŷch chi'n ei wneud ynglŷn â phobl sydd ar gyflogau isel, ond sy'n dioddef yn wirioneddol oherwydd y toriadau yma?

I take it, therefore, Minister, that you do not agree with the views of the Carmarthenshire branch of Unison. The point they are making is that it is the most vulnerable people in our communities who will suffer as a result of this, that many of these people, in fact, are in employment, but on very low wages. The point that Alun Ffred Jones made earlier is absolutely right: most of your policies to tackle poverty appertain to people on allowances. What are you doing about people who are on low pay, but who are really suffering because of these cuts?

14:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

In-work poverty is certainly becoming a real issue in Wales. You know, we've only got so many levers; we can only deal with issues that we have the levers for, and we can't plug the gaps on the funding cuts from Westminster. You know, one area where I think we can really help is advice services. Whilst we've put approximately, I think, about £4 million additional funding into advice services, to try and help people from getting into debt in the first place, and, for those who are in debt, who are hard-working families but find themselves in debt, it's very difficult to plug all those gaps that are coming from Westminster. If you look at legal aid, for instance, our advice services are having an increased number of people who are looking for, you know, assistance from a legal point of view. So, I think we have to be very pragmatic, and very realistic, work within the levers we have, and do all we can to protect the most vulnerable in our deprived areas.

Mae tlodi mewn gwaith yn sicr yn dod yn broblem go iawn yng Nghymru. Wyddoch chi, hyn a hyn o ddulliau sydd gennym; ni allwn ond delio â'r materion y mae gennym ddulliau ar gyfer ymdrin â hwy, ac ni allwn lenwi'r bylchau yn sgil y toriadau yn y cyllid o San Steffan. Wyddoch chi, un maes lle y credaf y gallwn helpu mewn gwirionedd yw gwasanaethau cynghori. Er ein bod wedi rhoi tua £4 miliwn o gyllid ychwanegol, rwy'n credu, tuag at wasanaethau cynghori i geisio helpu pobl rhag mynd i ddyled yn y lle cyntaf, ac ar gyfer y rhai sydd mewn dyled, teuluoedd sy'n gweithio'n galed ond sy'n mynd i ddyled, mae'n anodd iawn llenwi pob un o'r bylchau sy'n dod o San Steffan. Os edrychwch ar gymorth cyfreithiol, er enghraifft, mae nifer cynyddol o bobl sy'n chwilio am gymorth o safbwynt cyfreithiol, wyddoch chi, yn troi at ein gwasanaethau cynghori. Felly, rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni fod yn bragmatig iawn, yn realistig iawn, gweithio o fewn y dulliau sydd gennym, a gwneud popeth yn ein gallu i amddiffyn y mwyaf agored i niwed yn ein hardaloedd difreintiedig.

Senedd.tv
Fideo Video

14:32 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Ai yr hyn rych chi'n ei ddweud wrthym ni y prynhawn yma, Weinidog, ydy mai'r unig bobl rŷch chi'n gallu eu cynorthwyo ydy'r bobl hynny ar lwfansau, a bod pobl sydd ar incwm isel yng Nghymru, felly, yn mynd i dderbyn dim cefnogaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru, oherwydd nid oes gennych yr adnoddau i wneud dim amdanyn nhw?

Are you telling us this afternoon, Minister, that the only people you can support and assist are those people on allowances, and that people who are on low incomes in Wales, therefore, will receive no support from the Welsh Government, because you do not have the resources to do anything about them?

Senedd.tv
Fideo Video

14:32 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

No, that's not what I said at all. I said, for a lot of people who find themselves in work poverty—you know, hard-working families—we are doing what we can, with advice services, for instance, to support them, and, also with our other programmes.

Na, nid dyna a ddywedais o gwbl. I lawer o bobl sy'n wynebu tlodi mewn gwaith—wyddoch chi, teuluoedd sy'n gweithio'n galed—yr hyn a ddywedais oedd ein bod yn gwneud yr hyn a allwn, gyda gwasanaethau cynghori, er enghraifft, i'w cefnogi, a hefyd gyda'n rhaglenni eraill.

Senedd.tv
Fideo Video

14:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

Senedd.tv
Fideo Video

14:33 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you, Presiding Officer. Minister, almost a year ago today, your predecessor wrote to the Communities, Equality and Local Government Committee, in response to their inquiry into barriers to home building in Wales. In relation to the issue that had been highlighted to that committee, around the cost of utility connections, your predecessor said that he was keen to see Welsh Water and other utility companies support development with appropriate infrastructure investment, and was going to take that forward with his ministerial colleagues. Could you give us an update on that, please?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, bron i flwyddyn yn ôl i heddiw, ysgrifennodd eich rhagflaenydd at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, mewn ymateb i'w ymchwiliad i rwystrau i adeiladu cartrefi yng Nghymru. O ran y mater a amlygwyd i'r pwyllgor hwnnw, ynghylch cost cysylltu cyfleustodau, fe ddywedodd eich rhagflaenydd ei fod yn awyddus i weld Dŵr Cymru a chwmnïau cyfleustodau eraill yn cefnogi datblygiadau drwy fuddsoddi'n briodol yn y seilwaith, ac roedd yn bwriadu bwrw ymlaen gyda'i gyd-Weinidogion. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynny, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv
Fideo Video

14:33 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am aware that, following the committee's recommendations, some research was undertaken in conjunction with Welsh Water, housing associations, registered social landlords, and Community Housing Cymru. I think that work has progressed; certainly, the meeting I had last month with the Home Builders Federation did assure me that turnaround times, and costs, have improved over the last year.

Yn dilyn argymhellion y pwyllgor, rwy'n ymwybodol fod rhywfaint o waith ymchwil wedi'i wneud ar y cyd â Dŵr Cymru, cymdeithasau tai, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a Cartrefi Cymunedol Cymru. Credaf fod y gwaith wedi symud ymlaen; yn sicr, cefais sicrwydd o'r cyfarfod a gefais gyda'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi fod amseroedd cyflawni, a chostau, wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf.

14:34 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. I'd be interested in a comparison of costs. A constituent came to see me only last week to complain that, when he was building five properties, the connection cost for those five properties was £4,615—just under £1,000 for each property—with Welsh Water, when he and his company had, effectively, done all the work of digging the trenches. All they had to do was to put the piping and the water meters in. I'd be grateful if you could give us an indication as to whether, in conversations with Welsh Water, there is any attempt by them to reduce the costs, so as to encourage the house building that we do need in our communities.

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Byddwn â diddordeb mewn gweld cymhariaeth o gostau. Daeth etholwr i fy ngweld yr wythnos diwethaf i gwyno oherwydd ei fod yn adeiladu pump o dai, ac roedd cost cysylltu'r pump yn £4,615—ychydig o dan £1,000 ar gyfer pob adeilad—gyda Dŵr Cymru, er mai ef a'i gwmni i bob pwrpas oedd wedi gwneud yr holl waith o gloddio'r ffosydd. Y cyfan oedd ganddynt i'w wneud oedd gosod y pibellau a'r mesuryddion dŵr yn eu lle. Fe fyddwn yn ddiolchgar pe gallech roi rhyw syniad inni, mewn trafodaethau â Dŵr Cymru, a fu unrhyw ymgais ar eu rhan i leihau'r costau er mwyn annog pobl i adeiladu'r tai sydd eu hangen arnom yn ein cymunedau.

14:34 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think this issue lies with my colleague, the Minister for Natural Resources, but I'd be very happy to find that information and write to the Member.

Rwy'n credu mai mater i fy nghydweithiwr, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yw hwn, ond byddwn yn hapus iawn i ddod o hyd i'r wybodaeth ac i ysgrifennu at yr Aelod.

14:35 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, I'd be very grateful for that answer, Minister. The issue that I think has been highlighted to me in terms of trying to encourage new build around Wales is that some of the costs, which the small local builders in particular are having to meet, are quite extortionate and are making their profit margins very small. As a result, they're not able to build as many houses as we need. Given the issues we have with house building, can I ask you to revisit the recommendations of the committee, and the response of your predecessor, to see what else can be done to help those small house builders in terms of trying to reduce the costs that they face, and trying to encourage more affordable homes to be built?

Unwaith eto, byddwn yn ddiolchgar iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. Y mater rwy'n meddwl sydd wedi'i amlygu i mi o ran ceisio annog adeiladu o'r newydd ledled Cymru yw bod rhai o'r costau sy'n rhaid i adeiladwyr bach lleol yn arbennig eu talu yn eithaf afresymol ac yn cyfyngu'n fawr ar faint eu helw. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu adeiladu cynifer o dai ag sydd eu hangen arnom. O ystyried y problemau sy'n ein hwynebu ym maes adeiladu tai, a gaf fi ofyn i chi edrych eto ar argymhellion y pwyllgor, ac ymateb eich rhagflaenydd, i weld beth arall y gellir ei wneud i helpu adeiladwyr bach o'r fath o ran ceisio lleihau'r costau a wynebant, ac o ran ceisio annog adeiladu mwy o dai fforddiadwy?

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely. If we're going to reach our target of 10,000 affordable homes over the lifetime of this Government, we need the support of the small companies to which you refer, so I'd be very happy to revisit the recommendations from the committee.

Yn bendant. Os ydym yn mynd i gyrraedd ein targed o 10,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod oes y Llywodraeth hon, mae arnom angen cefnogaeth y cwmnïau bach y cyfeiriwch atynt, felly fe fyddwn i'n hapus iawn i edrych eto ar argymhellion y pwyllgor.

14:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to the questions on the paper, and question 3 is from Peter Black.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur yn awr, a daw cwestiwn 3 gan Peter Black.

### Cymunedau yn Gyntaf

### Communities First

14:36

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*3. A wnaiff y Gweinidog ddarparu asesiad o berfformiad ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0266(CTP)*

*3. Will the Minister provide an assessment of the performance of Communities First areas? OAQ(4)0266(CTP)*

14:36

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. The Communities First outcomes framework enables each cluster to demonstrate the contribution its work is making to the three main themes of prosperous communities, healthier communities, and learning communities. I've previously undertaken to publish national performance data in February.

Diolch yn fawr. Mae fframwaith canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf yn galluogi pob clwstwr i ddangos y cyfraniad y mae ei waith yn ei wneud tuag at y tair prif thema: cymunedau ffyniannus, cymunedau iachach, a chymunedau sy'n dysgu. Rwyf wedi ymrwymo'n flaenorol i gyhoeddi data ar berfformiad cenedlaethol ym mis Chwefror.

14:36

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. Can you give us an indication as to what this national performance data is going to be based on? As you will know, the indicators that have so far been published give some assessment of the impact of Communities First, but if you were to look for instance at the Marmot indicators and how they apply to the various communities, it's very difficult to see how the tens of millions of pounds that have been spent are having an impact. Will you be basing that performance assessment on those Marmot indicators?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. A allwch roi syniad inni ar beth y seilir y data perfformiad cenedlaethol? Fel y gwyddoch, mae'r dangosyddion sydd wedi'u cyhoeddi hyd yn hyn yn rhoi rhywfaint o asesiad o effaith Cymunedau yn Gyntaf, ond pe baech yn edrych er enghraifft ar y dangosyddion Marmot a sut y maent yn berthnasol i'r gwahanol gymunedau, mae'n anodd iawn gweld sut y mae'r degau o filiynau o bunnoedd a wariwyd yn cael effaith. A fyddwch yn seilio'r asesiad o berfformiad ar y dangosyddion Marmot hynny?

14:36

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The key performance indicators measure the main outcome or the contribution that the programme makes, or aims to make, in the priority areas, such as someone entering employment, improving school attendance or increasing their physical activity. We've also got the healthier aspects of the programme as well. So, what I want to see is a sort of consistent set of performance indicators for all the clusters within the programme, because I think that will help me ensure, as I said in my answer before to Mohammad Asghar, that we are getting the strategy right and we are getting the targeting right.

Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn mesur y prif ganlyniad neu'r cyfraniad y mae'r rhaglen yn ei wneud, neu'n anelu i'w wneud, yn y meysydd blaenoriaeth, megis rhywun yn cael gwaith cyflogedig, yn gwella eu lefelau presenoldeb ysgol neu'n cynyddu eu gweithgarwch corfforol. Hefyd, mae gennym agweddau iachach y rhaglen yn ogystal. Felly, yr hyn rwyf am ei weld yw rhyw fath o set gyson o ddangosyddion perfformiad ar gyfer yr holl glystyrau yn y rhaglen, oherwydd credaf y bydd yn fy helpu i sicrhau, fel y dywedais yn fy ateb blaenorol i Mohammad Asghar, ein bod yn cael y strategaeth yn iawn a'n bod yn targedu'n gywir.

14:37

## Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

In Swansea East, Communities First is working to improve the health of people via a healthy lifestyle, including exercise, improved diet and smoking cessation, to improve the educational attainment of the young and the old, to reduce family outgoings, as well as helping to get people into work. Can I ask the Minister to visit one of the Communities First clusters in Swansea East?

Yn Nwyrain Abertawe, mae Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio i wella iechyd pobl drwy ffordd iach o fyw, gan gynnwys ymarfer corff, gwella diet a rhoi'r gorau i ysmygu, er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol yr ifanc a'r hen, er mwyn lleihau costau teuluoedd, yn ogystal â helpu i gael gwaith i bobl. A gaf fi ofyn i'r Gweinidog ymweld ag un o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn Nwyrain Abertawe?

14:37

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, I'd be very happy to meet one of the clusters in Swansea East. I know there are five Communities First clusters across Swansea. They've had £7 million awarded to them. I think it is really important that I get out there and see what's happening within the Communities First programme, so yes, I'd be very happy to visit with the Member.

Cewch, fe fyddwn yn hapus iawn i gwrdd ag un o'r clystyrau yn Nwyrain Abertawe. Rwy'n gwybod bod pum clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ar draws Abertawe. Mae £7 miliwn wedi cael ei ddyrannu iddynt. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn fy mod yn mynd yno i weld yr hyn sy'n digwydd yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, felly byddwn, fe fyddwn i'n hapus iawn i fynd yno gyda'r Aelod.

14:38

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Janet Finch-Saunders.

Janet Finch-Saunders.

14:38 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. No—sorry, it's the wrong—

Diolch i chi, Lywydd. Na—mae'n ddrwg gennyf, mae'n anghywir—

14:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No? John Griffiths.

Na? John Griffiths.

14:38 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, it's very important that allocated resource is used to the full for Communities First areas. Where clusters such as in Newport are using their resource to the full, will it be possible to allocate underspends elsewhere to those particular areas?

Weinidog, mae'n bwysig iawn fod adnoddau a ddyrennir yn cael eu defnyddio i'r eithaf ar gyfer ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Lle y mae clystyrau fel yng Nghasnewydd yn defnyddio eu hadnoddau i'r eithaf, a fydd hi'n bosibl dyrannu tanwariant mewn mannau eraill i'r ardaloedd penodol hynny?

14:38 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think you raise a very important point. It's absolutely vital that every penny is spent in the Communities First areas, and, since I came into portfolio, I've been asking my officials to monitor the financial returns and compare them with what the planned spend was, compare them to previous spend history, and also have a look at the performance against the outcome framework, so I can then make decisions about whether any funding could be transferred to ensure that any projected underspend can be deployed in the most appropriate manner.

Rwy'n credu eich bod yn codi pwynt pwysig iawn. Mae'n gwbl hanfodol fod pob ceiniog yn cael ei wario yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac ers i mi gael y portffolio, rwyf wedi bod yn gofyn i fy swyddogion fonitro'r elw ariannol a'i gymharu â'r gwariant a gynlluniwyd, eu cymharu â hanes gwariant blaenorol, ac edrych hefyd ar y perfformiad yn erbyn y fframwaith canlyniadau, er mwyn imi wneud penderfyniadau wedyn ynglŷn ag a ellid trosglwyddo cyllid i sicrhau y gellir defnyddio unrhyw danwariant a ragwelir yn y modd mwyaf priodol.

## Mynd i'r Afael â Thlodi yng Ngogledd Cymru

## Tackling Poverty in North Wales

14:39 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi yng Ngogledd Cymru dros y 12 mis nesaf? OAQ(4)0280(CTP)*

*4. Will the Minister outline her priorities for tackling poverty in North Wales over the next 12 months? OAQ(4)0280(CTP)*

14:39 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Reducing the number of workless households, increasing skills and reducing inequalities in health and educational outcomes are critical to tackling poverty. A range of programmes, including Flying Start, Communities First, Lift and Families First, are making an important contribution to tackling poverty in north Wales.

Diolch yn fawr. Mae lleihau nifer y cartrefi di-waith, cynyddu sgiliau a lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd ac addysg yn hanfodol i drechu tlodi. Mae ystod o raglenni, gan gynnwys Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf, Esgyn a Teuluoedd yn Gyntaf, yn gwneud cyfraniad pwysig i drechu tlodi yng ngogledd Cymru.

14:39 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I was interested in your reference to Flying Start in that answer, because the most recent evaluation indicated that the analysis showed no difference between parents in Flying Start areas and parents in comparison areas on parenting, self-confidence, mental health or home environment measures. Similarly, there was no statistically significant difference between Flying Start and non-Flying Start areas, in terms of child cognitive and language skills, their social and emotional development and their independence or self-regulation. Given that, and the fact that 49% of rural Welsh communities don't have access to out-of-school groups, and the majority of communities in rural Wales with populations of below 1,000 have no access to nursery provision, should you not be looking at tackling the areas where there is a complete absence of provision in terms of any underspends, or, indeed, in terms of the programme that you're developing now?

Weinidog, roedd gennyf ddiddordeb yn eich cyfeiriad at Dechrau'n Deg yn eich ateb, oherwydd nododd y gwerthusiad mwyaf diweddar nad oedd y dadansoddiad yn dangos unrhyw wahaniaeth rhwng rhieni mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a rhieni mewn ardaloedd cymharol o ran magu plant, hunanhyder, iechyd meddwl neu fesurau amgylchedd y cartref. Yn yr un modd, nid oedd unrhyw wahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd heb Dechrau'n Deg o ran sgiliau gwybyddol ac iaith plant, eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a'u hannibyniaeth neu hunanreoleiddio. O gofio hynny, a'r ffaith nad oes grwpiau y tu allan i oriau ysgol ar gael ar gyfer 49% o gymunedau gwledig yng Nghymru, ac nad oes darpariaeth feithrin ar gael i'r rhan fwyaf o gymunedau yng nghefn gwlad Cymru sydd â phoblogaeth o lai na 1,000, oni ddylech fod yn edrych ar fynd i'r afael â'r ardaloedd lle na cheir darpariaeth o gwbl o ran unrhyw danwariant, neu'n wir, o ran y rhaglen rydych yn ei datblygu yn awr?

14:40 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Perhaps, Presiding Officer, I should've taken Antoinette Sandbach with me on Monday to the inaugural Flying Start awards, where I just came across the most fantastic work being undertaken by very dedicated and committed Flying Start teams in all our settings, right across Wales. If you have a look in Pembrokeshire, for instance, where the first cohort of Flying Start children are now reaching high school, I think it's very clear to see that Flying Start is an excellent programme, and I'm very pleased that we're well on target to delivering our commitment to double the number of children benefitting from Flying Start from 18,000 to 36,000 during this term.

Efallai, Lywydd, y dylwn fod wedi mynd ag Antoinette Sandbach gyda mi ddydd Llun i wobrau cyntaf Dechrau'n Deg, lle y gwelais y gwaith mwyaf ardderchog sy'n cael ei wneud gan dimau ymroddedig ac ymrwymedig iawn Dechrau'n Deg yn ein holl ardaloedd, ym mhob rhan o Gymru. Os edrychwch ar Sir Benfro, er enghraifft, lle y mae'r cohort cyntaf o blant Dechrau'n Deg yn awr yn cyrraedd yr ysgol uwchradd, rwy'n credu ei bod yn amlwg iawn fod Dechrau'n Deg yn rhaglen wych, ac rwy'n falch iawn ein bod yn bendant ar y trywydd cywir i gyflawni ein hymrwymiad i ddyblu nifer y plant sy'n elwa yn sgil Dechrau'n Deg o 18,000 i 36,000 yn ystod y tymor hwn.

14:41 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last week, I spoke to the Trussell Trust north Wales conference on food banks, and I know your support for the food bank in the Wrexham area was very much appreciated when it was mentioned. It's a sad fact that we know that so many of the working families, particularly in our constituencies, are having to use the emergency food parcels from food banks. Do you not believe it's time for some of the opposition Tory Members here to be going back to their colleagues to stop them saying things like, 'The only people who use food banks are those who are too thick to manage their own money', or, 'They are drug addicts who have to be helped', which is what has been said by many of the Conservative MPs in the House of Commons? Do we—[Interruption.] Alun Cairns did say it. So, I think what we have to do is we have to make sure that we support all those people who do have to use food banks, but we do also have to tell them that one of the reasons is the pernicious cuts from the Tory Government led by Conservatives in London?

Weinidog, yr wythnos diwethaf, bûm yn siarad â chynhadledd Ymddiriedolaeth Trussell yng ngogledd Cymru am fanciau bwyd, a gwn fod eich cefnogaeth i'r banc bwyd yn ardal Wrecsam wedi cael ei werthfawrogi'n fawr pan gafodd ei grybwyll. Mae'n ffaith drist ein bod yn gwybod bod cynifer o'r teuluoedd sy'n gweithio, yn enwedig yn ein hetholaethau, yn gorfod defnyddio parseli bwyd argyfwng o fanciau bwyd. Oni chredwch ei bod yn bryd i rai o Aelodau Torïaidd yr wrthblaid yma fynd yn ôl at eu cydweithwyr i'w hatal rhag dweud pethau fel, 'Yr unig bobl sy'n defnyddio banciau bwyd yw'r rhai sy'n rhy dwp i reoli eu harian eu hunain', neu, 'Pobl sy'n gaeth i gyffuriau yw'r rhai sy'n gorfod cael cymorth', sef yr hyn sy'n cael ei ddweud gan lawer o'r Aelodau Seneddol Ceidwadol yn Nhŷ'r Cyffredin? A oes—[Torri ar draws.] Dywedodd Alun Cairns hynny. Felly, rwy'n meddwl mai'r hyn sy'n rhaid inni ei wneud yw sicrhau ein bod yn cefnogi'r holl bobl sy'n gorfod defnyddio banciau bwyd, ond rhaid inni ddweud wrthynt hefyd mai un o'r rhesymau yw'r toriadau dinistriol gan y Llywodraeth Dorïaidd o dan arweiniad y Ceidwadwyr yn Llundain?

14:42 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Absolutely. Ann Jones raises a very important point, and, as I said before in my answer to Rhodri Glyn Thomas, we know in-work poverty is on the increase, and it is hard-working families who now, sadly, are having to use food banks. I absolutely recognise the invaluable role that food banks do play, but—yes, you're right—I do often think that one way of tackling poverty certainly would be for our Tory colleagues to go back to their Government in London and tell them of the damage their welfare reform is doing.

Yn hollol. Mae Ann Jones yn gwneud pwynt pwysig iawn, ac fel y dywedais o'r blaen yn fy ateb i Rhodri Glyn Thomas, rydym yn gwybod bod tlodi mewn gwaith ar gynnydd, ac mae teuluoedd sy'n gweithio'n galed bellach, yn anffodus, yn gorfod defnyddio banciau bwyd. Rwy'n llawn sylweddoli'r rôl amhrisiadwy sydd i fanciau bwyd, ond—ie, rydych yn iawn—rwy'n aml yn meddwl mai un ffordd o drechu tlodi, yn sicr, fyddai i'n cydweithwyr Torïaidd fynd yn ôl at eu Llywodraeth yn Llundain a dweud wrthynt am y difrod y mae eu diwygiadau lles yn ei wneud.

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Weinidog, rydych chi wedi sôn am y gwerthusiad a fydd ar gael fis nesaf ynglŷn â Cymunedau'n Gyntaf. Rydych chi hefyd wedi awgrymu bod yna fonitro agos yn cymryd lle o ran y cynlluniau yma. Rwy'n edrych ar sefyllfa ystâd Caia yn Wrecsam, o fewn eich etholaeth chi, lle mae Queensway, wrth gwrs, wedi gwaethygu o fod yn nawfed o ran y ward dlotaf yng Nghymru i fod y drydedd ward dlotaf. Mae yna ganran uchel o arian Cymunedau'n Gyntaf yn cael ei wario yn yr ardal yna ar gynlluniau chwarae, felly, a ydych chi'n fodlon efo'r ffaith bod y sefyllfa mewn rhai o'r ardaloedd yma yn gwaethygu yn hytrach na'n gwella?

Minister, you've alluded to the evaluation that will be available next month on Communities First. You've also suggested that there is very close monitoring taking place of these schemes. I'm looking at the situation at the Caia estate in Wrexham, within your constituency, where Queensway, of course, has gone down from being ninth of the poorest wards in Wales to being the third poorest ward. A high percentage of Communities First funding is being spent in that area on play schemes, so are you satisfied with the fact that the situation in some of these areas is deteriorating rather than improving?

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

No, I think that's rather a silly rhetorical question. Of course I'm not happy. However, you know, there are certainly very stubborn areas of poverty. Someone is always going to be the worst when you have that relative measure; somebody is always going to be top. You will have heard me saying—sorry, no, you're not on that committee. Last week, in committee, when I was giving evidence, in the ward that came top this time in the Welsh index of multiple deprivation, a lot of people were very indignant that they were the top—the most deprived ward in Wales—but you're always going to have somebody top, and it is very unfortunate when you see these stubborn areas. I think that is why evaluation is so important, and I think the evaluation that we're going to have next month will help me have a look at why there are these very stubborn areas and what we can do to assist.

Na, rwy'n credu bod hwnnw'n gwestiwn rhethregol braidd yn wirion. Wrth gwrs nad ydw i'n hapus. Fodd bynnag, wyddoch chi, mae'n sicr bod rhai ardaloedd lle y ceir tlodi ystyfnig iawn. Mae rhywun bob amser yn mynd i fod yn waethaf pan fydd gennych fesur cymharol o'r fath; mae rhywun bob amser yn mynd i fod ar y brig. Fe fyddwch wedi fy nghlywed yn dweud—mae'n ddrwg gennyf, na, nid ydych ar y pwyllgor hwnnw. Yr wythnos diwethaf, yn y pwyllgor, pan oeddwn yn rhoi tystiolaeth, yn y ward a ddaeth ar y brig y tro hwn ym mynegai amddifadedd lluosog Cymru, roedd llawer o bobl yn ddig iawn eu bod ar y brig—y ward fwyaf difreintiedig yng Nghymru—ond rydych bob amser yn mynd i gael rhywun ar y brig, ac mae'n anffodus iawn pan fyddwch yn gweld yr ardaloedd ystyfnig hyn. Rwy'n meddwl mai dyna pam y mae hi mor bwysig gwerthuso, ac rwy'n credu y bydd y gwerthusiad rydym yn mynd i'w gael y mis nesaf yn fy helpu i weld pam y mae'r ardaloedd ystyfnig iawn hyn yn bodoli a'r hyn y gallwn ei wneud i gynorthwyo.

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Pa gyfran o'r gyllideb adrannol ar gyfer mudiadau gwirfoddol a ddyrennir yn uniongyrchol iddynt yn hytrach nag i gyrff cyfryngol megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru?

What proportion of the departmental budget for voluntary organisations is directly allocated to them rather than to mediatory bodies such as the Wales Council for Voluntary Action?

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Sorry. The Member's asking his tabled question further on.

Mae'n ddrwg gennyf. Mae'r Aelod yn gofyn y cwestiwn a gyflwynodd yn nes ymlaen.

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Oh, sorry.

O, mae'n ddrwg gennyf.

Senedd.tv Fideo Video

14:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I've got Dafydd Elis-Thomas down as asking a supplementary question on whether the Minister would outline the priorities of tackling poverty.

Dafydd Elis-Thomas sydd i lawr gennyf i ofyn cwestiwn atodol ynglŷn ag a wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau trechu tlodi.

14:45

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I must apologise for that error, then, in that case.

Os felly, rhaid i mi ymddiheuro am y camgymeriad.

14:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay, we'll move on, then, to question 5 from Mohammad Asghar.

Iawn, symudwn ymlaen felly at gwestiwn 5 gan Mohammad Asghar.

### Undebau Credyd

### Credit Unions

14:45

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo undebau credyd yng Nghymru yn 2015? OAQ(4)0267(CTP)*

*5. What action will the Welsh Government take to promote credit unions in Wales in 2015? OAQ(4)0267(CTP)*

14:45

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will be refreshing our financial inclusion strategy and, as part of this, we will be looking at what needs to be taken forward to strengthen our support for credit unions. In addition, I am currently considering holding a credit union conference to build on the successful one last year.

Fe fyddwn yn adnewyddu ein strategaeth cynhwysiant ariannol ac yn rhan o hyn, fe fyddwn yn edrych ar yr hyn sydd angen ei symud ymlaen er mwyn cryfhau ein cefnogaeth i undebau credyd. Yn ogystal, rwyf ar hyn o bryd yn ystyried cynnal cynhadledd undebau credyd ar gyfer adeiladu ar gynhadledd lwyddiannus y flwyddyn diwethaf.

14:45

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. The chair of the North Wales Credit Union recently raised concerns that credit unions found it impossible to compete with the marketing budgets of pay-day lenders. What action will the Minister take to build awareness among communities of credit unions as an alternative to pay-day lenders?

Diolch i chi, Weinidog. Yn ddiweddar, mynegodd cadeirydd Undeb Credyd Gogledd Cymru bryderon fod undebau credyd yn ei chael yn amhosibl cystadlu gyda chyllidebau marchnata benthycwyr diwrnod cyflog. Pa gamau fydd y Gweinidog yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau undebau credyd fel dewis arall yn lle benthycwyr diwrnod cyflog?

14:46

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, he also raised it with me, and I think it's a very important point, and certainly we are doing all we can to support credit unions and to promote credit unions. You'll be aware that my predecessor, Jeff Cuthbert, committed almost £1.9 million to supporting credit unions over the next three years to do just that. That built on the previous good work that the credit unions did. It's important, as Ministers—and, certainly, all my ministerial colleagues do this—that we promote it within our own portfolios, within the public sector, to make sure that people are aware of this, because they are in a different position to pay-day lenders.

Do, fe'i mynegodd wrthyf innau hefyd, ac rwy'n creu ei fod yn bwynt pwysig iawn, ac yn sicr rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi undebau credyd ac i hyrwyddo undebau credyd. Fe fyddwch yn ymwybodol fod fy rhagflaenydd, Jeff Cuthbert, wedi ymrwymo bron i £1.9 miliwn i gefnogi undebau credyd yn ystod y tair blynedd nesaf er mwyn gwneud yn union hynny. Adeiladodd hyn ar y gwaith da blaenorol a wnaed gan yr undebau credyd. Mae'n bwysig, fel Gweinidogion—ac yn sicr, mae fy holl gyd-weinidogion yn gwneud hyn—ein bod yn ei hyrwyddo o fewn ein portffolios ein hunain, yn y sector cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o hyn, oherwydd eu bod mewn sefyllfa wahanol i fenthycwyr diwrnod cyflog.

14:46 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the credit union movement, of course, has a long history in Wales, with roots in the co-operative and mutual movement. They, as you've outlined, provide a much more affordable and socially conscious alternative to pay-day lenders. Now, last year, we did indeed launch an advertising and awareness-raising campaign, led by the North Wales Credit Union, to help boost membership of credit unions. Recent figures show a decline in numbers, so there's still work to be done, but I agree that this is more to do with the closure of dormant accounts and not, as some have claimed, a sign of public money going down the drain. I am a member of the Smart Money Cymru Credit Union, based in Caerphilly, and I am sure you would join with me in urging colleagues and people in all walks of life to join their local credit union, to support the invaluable work that they do.

Weinidog, mae hanes hir i'r mudiad undebau credyd yng Nghymru wrth gwrs, gyda gwreiddiau yn y mudiad cydweithredol a chydfuddiannol. Fel rydych wedi amlinellu, maent yn darparu dewis amgen llawer mwy fforddiadwy a chymdeithasol- ymwybodol yn hytrach na benthycwyr diwrnod cyflog. Yn awr, y llynedd, fe lansion ni ymgyrch hysbysebu a chodi ymwybyddiaeth wedi'i harwain gan Undeb Credyd Gogledd Cymru er mwyn helpu i hybu aelodaeth undebau credyd. Mae ffigurau diweddar yn dangos gostyngiad yn y niferoedd, felly mae gwaith i'w wneud o hyd, ond rwy'n cytuno bod hyn yn ymwneud mwy â chau cyfrifon segur ac nid ag arian cyhoeddus yn mynd i lawr y draen, fel y mae rhai wedi honni. Rwy'n aelod o Undeb Credyd Smart Money Cymru yng Nghaerffili, ac rwy'n sicr y byddech yn ymuno â mi i annog cydweithwyr a phobl o bob cefndir i ymuno â'u hundeb credyd lleol, i gefnogi'r gwaith amhrisiadwy y maent yn ei wneud.

14:47 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely; I share your sentiment. I'm a member, a long-standing member, of the North Wales Credit Union. I think, in fact, that probably most Members in the Chamber are members of credit unions, but I think it is important that we all go out there in our communities and encourage people to become members of credit unions, and I certainly want to do all I can to encourage membership and to promote the work of credit unions, particularly, as I said in my original answer, to the public sector workforce.

Yn hollol; rwy'n rhannu eich teimladau. Rwy'n aelod, aelod hirsefydlog, o Undeb Credyd Gogledd Cymru. Rwy'n meddwl, mewn gwirionedd, fod y rhan fwyaf o Aelodau'r Siambr, yn ôl pob tebyg, yn aelodau o undebau credyd, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig i bawb ohonom fynd allan i'n cymunedau ac annog pobl i ddod yn aelodau o undebau credyd, ac rwy'n sicr am wneud popeth yn fy ngallu i annog pobl i ddod yn aelodau ac i hyrwyddo gwaith undebau credyd, yn arbennig, fel y dywedais yn fy ateb gwreiddiol, i weithlu'r sector cyhoeddus.

14:48 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gwnaf innau ddatgan diddordeb fel aelod o undeb credyd ym Môn sy'n cael ei redeg gan Môn CF dan adain Undeb Credyd Gogledd Cymru. Fel rhan o'r gwaith o hyrwyddo undebau credyd, a ydy'r Gweinidog yn cytuno bod angen eu hyrwyddo nhw i'r ystod fwyaf eang o bobl â phosibl, oherwydd, er mwyn i undebau credyd allu cynnig gwasanaeth i'r rhai mwyaf bregus, mae hefyd angen cynilwyr a'r rheini sy'n cymryd benthyciadau efo llai o risg? Felly, mae'n rhaid taro cymdeithas gyfan wrth fynd ati i hyrwyddo undebau fel hyn.

I declare an interest as a member of a credit union in Anglesey, which is run by Môn CF under the auspices of the North Wales Credit Union. As part of the work of promoting credit unions, does the Minister agree that there is a need to promote them to the widest range of people as possible, because, in order for credit unions to be able to offer services to the most vulnerable, you also need savers and those who take low-risk loans? So, you have to hit the whole of society in promoting credit unions.

14:48 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely. I think a lot of people aren't aware that they can approach their credit union for such a loan, and certainly that they save millions of pounds in interest when they do have loans from credit unions. I think that there are a few difficulties that we need to look at, such as the one that Mohammad Asghar raised, but also something that I've picked up is that, for instance, I know that—and I am just about to write to the Westminster Government on this—the Ministry of Defence, I am told, has put out a tender for payroll, and credit unions cannot tender for this because their assets are below £10 million. So, again, they're in a disadvantaged position. So, I think there are lots of things that we can all do to help, support and promote credit unions.

Yn hollol. Rwy'n credu nad yw llawer o bobl yn ymwybodol y gallant fynd at eu hundeb credyd am fenthyciad o'r fath, ac yn sicr eu bod yn arbed miliynau o bunnoedd mewn llog pan fyddant yn cael benthyciadau gan undebau credyd. Credaf fod yna rai anawsterau y mae angen inni edrych arnynt, fel yr un a gododd Mohammad Asghar, ond hefyd un peth rwyf wedi sylwi arno, er enghraifft—ac rwyf ar fin ysgrifennu at Lywodraeth San Steffan ynglŷn â hyn—yw fy mod yn gwybod bod y Weinyddiaeth Amddiffyn, yn ôl yr hyn a ddeallaf, wedi rhoi tendr allan am y gyflogres, ac ni all undebau credyd dendro amdani oherwydd bod eu hasedau'n llai na £10 miliwn. Felly, unwaith eto, maent dan anfantais. Felly, rwy'n meddwl bod llawer o bethau y gall pawb ohonom ei wneud i helpu, cynorthwyo a hyrwyddo undebau credyd.

### Cydlyniant Cymunedol

### Community Cohesion

14:49 **William Graham** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo cydlyniant cymunedol? OAQ(4)0276(CTP)*

*6. Will the Minister make a statement on the promotion of community cohesion? OAQ(4)0276(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

14:49 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Welsh Government published a national community cohesion delivery plan in June 2014. Delivery of the plan across Wales is supported by eight regional community cohesion co-ordinators. I will be reporting on progress against the delivery plan this summer.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun cyflawni cydlyniant cymunedol cenedlaethol ym mis Mehefin 2014. Caiff y gwaith o gyflwyno'r cynllun ledled Cymru ei gefnogi gan wyth o gydgysylltwyr cydlyniant cymunedol rhanbarthol. Byddaf yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun cyflawni yn ystod yr haf.

Senedd.tv Fideo Video

14:49 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Thank you very much for your answer, Minister. You will know that, in August 2014, the Wales Migration Partnership published a second briefing indicating that more than two thirds from ethnic minority backgrounds report experiences of racism in Wales, and around three quarters of all hate crimes are race hate-related. Minister, you will know that this is a rather sensitive time for this issue, and I would ask what your Government is doing to reduce the amount of race hate crimes in Wales.

Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Fe wyddoch fod Partneriaeth Ymfudo Cymru wedi cyhoeddi ail gyfarwyddyd ym mis Awst 2014 sy'n dangos bod mwy na dwy ran o dair o bobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn adrodd am brofiadau o hiliaeth yng Nghymru, ac mae tua thri chwarter yr holl droseddau casineb yn gysylltiedig â chasineb hiliol. Weinidog, fe wyddoch fod hwn yn gyfnod braidd yn sensitif o ran y mater hwn, a hoffwn ofyn beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i leihau troseddau casineb hiliol yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:50 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. Last October, we had our Hate Crime Awareness Week, which I think was very successful; each day, we focused on a different type of hate crime, and it's work that I've continued to take forward. Last week, I mentioned I had met with the Wales race forum, and certainly they are very keen to continue the excellent work that was undertaken that week, taking it forward. I met with the co-ordinators recently to hear about what work they were doing in each of their regions, and I think it's certainly something that we can be very proud of in Wales.

Diolch yn fawr. Fis Hydref diwethaf, cawsom ein Hwythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a fu'n llwyddiannus iawn yn fy marn i; bob diwrnod, buom yn canolbwyntio ar wahanol fath o drosedd casineb, ac mae'n waith rwyf wedi parhau i'w ddatblygu. Yr wythnos diwethaf, soniais fy mod wedi cyfarfod â fforwm hil Cymru, ac yn sicr, maent yn awyddus iawn i barhau â'r gwaith rhagorol a wnaed yn ystod yr wythnos honno, a'i ddatblygu. Cefais gyfarfod â'r cydgysylltwyr yn ddiweddar i glywed am y gwaith y maent yn ei wneud ym mhob un o'u rhanbarthau, ac rwy'n meddwl ei fod yn bendant yn rhywbeth y gallwn fod yn falch iawn ohono yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:50 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Does the Minister agree that it's very important that British Muslims should not have to go out of their way to prove their loyalty to the UK, and that we should no more ask Muslims to go about explaining and demonstrating how faith and Islam can be part of British identity than we should ask Christians, Buddhists, Jews, Hindus or indeed atheists to explain and demonstrate how their beliefs fit in with being British? Surely, being British means that we should treat everyone equally and fairly and not make unfounded assumptions about any community?

A yw'r Gweinidog yn cytuno ei bod yn bwysig iawn na ddylai Mwslimiaid Prydain orfod mynd allan o'u ffordd i brofi eu teyrngarwch i'r DU, ac na ddylem ofyn i Fwslimiaid esbonio a dangos sut y gall ffydd ac Islam fod yn rhan o hunaniaeth Brydeinig fwy nag y dylem ofyn i Gristnogion, Bwdhyddion, Iddewon, Hindŵiaid neu yn wir anffyddwyr i egluro a dangos sut y mae eu credoau hwy yn cydweddu â bod yn Brydeinwyr? Onid yw bod yn Brydeinwyr yn golygu y dylem drin pawb yn gyfartal ac yn deg a pheidio â gwneud rhagdybiaethau di-sail ynghylch unrhyw gymuned?

Senedd.tv Fideo Video

14:51 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

What I think has been very helpful is the way Muslims in Wales sent out a very clear message condemning the actions of extremists, and I really welcome that very spontaneous and willing expression of our shared horror at recent events.

Yr hyn sydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn, rwy'n meddwl, yw'r ffordd y mae Mwslimiaid yng Nghymru wedi anfon neges glir iawn allan yn condemnio gweithredoedd eithafwyr, ac rwy'n bendant yn croesawu'r mynegiant digymell a pharod hwnnw o'r arswyd rydym yn ei rannu tuag at ddigwyddiadau diweddar.

Senedd.tv Fideo Video

14:51 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Does the Minister agree that much of the debate in Wales regarding cohesion and integration, particularly regarding ethnic and religious minorities, is fuelled by a media that is completely unrepresentative of the situation here in Wales, causing a dangerous level of distance between public perceptions relating to ethnic minorities and the reality here in our country as opposed to England? Do you agree that this is another argument in favour of the full devolution of broadcasting here to Wales?

A yw'r Gweinidog yn cytuno bod llawer o'r drafodaeth yng Nghymru o ran cydlyniant ac integreiddio, yn enwedig o ran lleiafrifoedd ethnig a chrefyddol, yn cael ei danio gan gyfryngau sy'n gwbl anghynrychioliadol o'r sefyllfa yma yng Nghymru, gan achosi lefel beryglus o bellter rhwng canfyddiadau cyhoeddus mewn perthynas â lleiafrifoedd ethnig a'r realiti yma yn ein gwlad ni yn hytrach nag yn Lloegr? A ydych yn cytuno bod hon yn ddadl arall o blaid datganoli darlledu'n llawn yma i Gymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:52 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I think the media certainly have a role to play; I think they need to be very respectful and they need to be very honest with their readers. But, I think certainly they do have a very clear role to play.

Rwy'n meddwl bod y cyfryngau yn sicr â rôl i'w chwarae; rwy'n credu bod angen iddynt fod yn barchus iawn ac mae angen iddynt fod yn onest iawn gyda'u darllenwyr. Ond rwy'n credu bod ganddynt rôl glir iawn i'w chwarae, yn bendant.

Senedd.tv Fideo Video

14:52 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Minister, last week, in the wake of the 'Charlie Hebdo' rally, I raised with the First Minister the Mosaic programme that has been developed by national parks in Wales. The programme engages with some of Wales's most hard-to-reach groups, including BME communities in our cities, introducing them to the splendid expanse of our protected landscapes as well as giving them valuable insights into where their food comes from. Minister, in that context, will you commit to discussing with your Cabinet colleague, the Deputy Minister for culture, the potential for extending this scheme, which has evident benefits both in terms of building community cohesion as well as encouraging inclusion and the active lifestyles agenda?

Weinidog, yr wythnos diwethaf, yn sgil rali 'Charlie Hebdo', soniais wrth y Prif Weinidog am raglen Mosaic a ddatblygwyd gan y parciau cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn ymgysylltu â rhai o'r grwpiau mwyaf anodd eu cyrraedd yng Nghymru, gan gynnwys cymunedau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ein dinasoedd, ac yn eu cyflwyno i ehangder ysblennydd ein tirweddau gwarchodedig yn ogystal â rhoi cipolwg gwerthfawr iddynt ar y lleoedd y daw eu bwyd ohonynt. Weinidog, yn y cyd-destun hwn, a wnewch chi ymrwymo i drafod gyda'ch cydweithiwr yn y Cabinet, y Dirprwy Weinidog diwylliant, y potensial ar gyfer ymestyn y cynllun hwn, sydd â manteision amlwg o ran datblygu cydlyniant cymunedol yn ogystal ag annog cynhwysiant ac agenda ffyrdd gweithgar o fyw ?

Senedd.tv Fideo Video

14:53 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. My colleague, the Deputy Minister for culture and sport is in the Chamber and has heard your question. Certainly, I'd be very happy to have that discussion.

Diolch yn fawr. Mae fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog diwylliant a chwaraeon yn y Siambr ac wedi clywed eich cwestiwn. Yn sicr, byddwn yn hapus iawn i gael y drafodaeth honno.

Senedd.tv Fideo Video

14:53 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Minister, would you join me in congratulating the Muslim communities in Newport who were featured in the 'South Wales Argus' this week for their very good work in helping to educate their communities to guard against the dangers of extremism, and work with a range of agencies in Newport to take forward policy that is of benefit to the whole community?

Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch y cymunedau Mwslimaidd yng Nghasnewydd a ymddangosodd yn y 'South Wales Argus' yr wythnos hon am eu gwaith da iawn yn helpu i addysgu eu cymunedau i warchod rhag peryglon eithafiaeth, a gweithio gydag ystod o asiantaethau yng Nghasnewydd i ddatblygu polisïau sydd o fudd i'r gymuned gyfan?

Senedd.tv Fideo Video

14:53 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. I am aware of the work being undertaken in Newport and I think it is very important, as I mentioned in my answer to Julie Morgan, that they came forward with that very clear message. Certainly, it's something that we can take forward in the faith forum too.

Diolch yn fawr. Rwy'n ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghasnewydd ac rwy'n credu ei fod yn bwysig iawn, fel y soniais yn fy ateb i Julie Morgan, eu bod yn cyflwyno'r neges glir iawn honno. Yn sicr, mae'n rhywbeth y gallwn ei ddatblygu yn y fforwm ffydd hefyd.

Senedd.tv Fideo Video

## Y Sector Gwirfoddol mewn Ardaloedd Gwledig

## The Voluntary Sector in Rural Areas

14:53 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad y sector gwirfoddol mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0279(CTP)*

*7. Will the Minister make a statement on the contribution of the voluntary sector in rural areas? OAQ(4)0279(CTP)*

14:54 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The Welsh Government is committed to supporting community organisations making a vital contribution in rural areas. Across Wales, £3.9 million is committed in 2014-15 to support county voluntary councils and volunteer centres across Wales, which includes those in rural areas.

Diolch yn fawr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi mudiadau cymunedol sy'n gwneud cyfraniad hanfodol mewn ardaloedd gwledig. Ar draws Cymru, neilltuwyd £3.9 miliwn yn 2014-15 i gefnogi cynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddoli ledled Cymru, sy'n cynnwys rhai mewn ardaloedd gwledig.

14:54 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un o'r cyrff allweddol yn yr ardaloedd gwledig hynny yw clybiau ffermwyr ifanc, ac mi fyddwch chi, rwy'n siŵr, yn ymwybodol o'r heriau ariannol difrifol sydd yn wynebu y mudiad hwnnw ar lefel genedlaethol yn y flwyddyn ariannol i ddod. A wnewch chi felly ymrwymo i weithio yn agos gyda'r Dirprwy Weinidog ar yr amgylchedd i sicrhau bod pob carreg yn cael ei throi er mwyn sicrhau bod yna ddyfodol llewyrchus a diogel i'r mudiad hwnnw ar lefel genedlaethol yn y flwyddyn i ddod?

One of the key bodies in those rural areas is young farmers' clubs, and I'm sure that you will be aware of the serious financial challenges facing that organisation at a national level in the ensuing financial year. Will you therefore commit to work closely with the Deputy Minister for the environment to ensure that no stone is left unturned in order to ensure that there is a prosperous and secure future for that organisation at a national level in the coming year?

14:54 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know that all voluntary organisations are facing difficult times, and that particular organisation hasn't been identified to me as one of them. But, yes, I'm very happy to work with my colleague, the Deputy Minister.

Gwn fod pob sefydliad gwirfoddol yn wynebu cyfnod anodd, ac na chafodd y sefydliad penodol hwnnw ei ddwyn i fy sylw fel un ohonynt. Ond ydw, rwy'n hapus iawn i weithio gyda fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog.

14:55 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Could I endorse the sentiments that Llyr Huws Gruffydd expressed about the young farmers movement? It is a movement that obviously embraces all social aspects of rural Wales and, in particular, it goes beyond the misconception that people are involved solely in agriculture in the young farmers movement—it reaches out to all young people in the rural communities of Wales. That's why I think it's very important that the Welsh Government do work nationally with the young farmers movement here in Wales to support it in its endeavours to create greater social cohesion. Have you met with the young farmers movement since you've been appointed as Minister, and, if you haven't, will you commit to doing that, Minister, to see where your department might be able to meet some of its goals through the channels that the young farmers have across Wales?

A gaf fi gefnogi'r sylwadau a fynegodd Llyr Huws Gruffydd am y mudiad ffermwyr ifanc? Mae'n fudiad sy'n amlwg yn cynnwys pob agwedd gymdeithasol ar y Gymru wledig ac yn benodol, mae'n mynd y tu hwnt i'r camsyniad mai cymryd rhan mewn amaethyddiaeth yn unig y bydd pobl yn y mudiad ffermwyr ifanc—mae'n estyn allan at yr holl bobl ifanc yng nghymunedau gwledig Cymru. Dyna pam rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i Lywodraeth Cymru weithio'n genedlaethol gyda'r mudiad ffermwyr ifanc yma yng Nghymru i'w gefnogi yn ei ymdrechion i greu mwy o gydlyniant cymdeithasol. A ydych wedi cyfarfod â'r mudiad ffermwyr ifanc ers i chi gael eich penodi'n Weinidog, ac os nad ydych, a wnewch chi ymrwymo i wneud hynny, Weinidog, i weld lle y gallai eich adran gwrdd â rhai o'i nodau trwy'r sianeli sydd gan y ffermwyr ifanc ar draws Cymru?

14:55 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, as I mentioned in my answer to Llyr Gruffydd, that hasn't been raised with me—that organisation—at all, so, no, I haven't met with them. But, I will have a discussion with my colleague, the Deputy Minister, and, if they want to meet with me, I'd be very happy to do so.

Wel, fel y soniais yn fy ateb i Llyr Gruffydd, ni chafodd hynny ei ddwyn i fy sylw—y mudiad hwnnw—o gwbl, felly na, nid wyf wedi cyfarfod â hwy. Ond fe fyddaf yn cael sgwrs gyda fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog, ac os ydynt am gwrdd â mi, fe fyddwn yn hapus iawn i wneud hynny.

14:55 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Minister, one of the stated goals of your Government is to ensure that there is equality of opportunity for young people across Wales. Would you acknowledge that statutory services, such as youth services provided by local authorities, simply would not be able, or be in a position, to provide services for young people across rural communities in some of our deep rural and small communities in the way that the young farmers' clubs movement do? There are 26 individual young farmer clubs in Brecon and Radnorshire providing services for over 1,000 young people—and I declare an interest, with my two eldest daughters being two of them. The club provides training, international travel, builds capacity within young people. It's run by young people on behalf of other young people, and supported by lots and lots of adult volunteers. In having those discussions with the Deputy Minister, will you look again at ensuring that young people, wherever they live in Wales, have opportunities to learn and develop themselves via youth service movements?

Weinidog, un o nodau datganedig eich Llywodraeth yw sicrhau bod cyfle cyfartal i bobl ifanc ledled Cymru. A fyddech yn cydnabod na fyddai gwasanaethau statudol, megis y gwasanaethau ieuenctid a ddarperir gan awdurdodau lleol, yn syml iawn yn gallu darparu gwasanaethau, neu mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc ar draws y cymunedau gwledig yn rhai o'n cymunedau gwledig lleiaf a mwyaf anghysbell yn y ffordd y mae mudiad y clybiau ffermwyr ifanc 'yn ei wneud? Mae yna 26 o glybiau ffermwyr ifanc unigol ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed yn darparu gwasanaethau i dros 1,000 o bobl ifanc—ac rwy'n datgan buddiant, gan mai fy nwy ferch hynaf yw dwy ohonynt. Mae'r clwb yn darparu hyfforddiant, teithio rhyngwladol, ac yn meithrin gallu mewn pobl ifanc. Mae'n cael ei redeg gan bobl ifanc ar ran pobl ifanc eraill, ac yn cael ei gefnogi gan lawer iawn o wirfoddolwyr sy'n oedolion. Wrth gael y trafodaethau hyn gyda'r Dirprwy Weinidog, a wnewch chi edrych eto ar sicrhau bod pobl ifanc, lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru, yn cael cyfleoedd i ddysgu a datblygu eu hunain drwy fudiadau gwasanaethau ieuenctid?

Senedd.tv Fideo Video

14:57 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes, I'd certainly be very happy to do that.

Gwnaf, fe fyddwn i'n sicr yn hapus iawn i wneud hynny.

Senedd.tv Fideo Video

## Model Asedau o Werth Cymunedol i Gymru

## An Assets-of-community-value Model for Wales

14:57 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd tuag at ddatblygu model asedau o werth cymunedol i Gymru? OAQ(4)0270(CTP)*

*8. Will the Minister make a statement on progress towards configuring an assets of community value model for Wales? OAQ(4)0270(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

14:57 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. Since my statement about community assets last October, my officials have held meetings with a number of stakeholders, including local government, the third sector and representatives of sports clubs and pubs. I am considering a range of options and will make a further statement before Easter.

Diolch yn fawr. Ers fy natganiad ynghylch asedau cymunedol fis Hydref diwethaf, mae fy swyddogion wedi cynnal cyfarfodydd gyda nifer o randdeiliaid, gan gynnwys llywodraeth leol, y trydydd sector a chynrychiolwyr o glybiau chwaraeon a thafarndai. Rwy'n ystyried amrywiaeth o opsiynau a byddaf yn gwneud datganiad pellach cyn y Pasg.

Senedd.tv Fideo Video

14:57 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Minister, I very much welcome that statement, because, at the time, there were those of us who thought, well, perhaps it was being put on the back burner, but very clearly it isn't. For those of us who are particularly keen on the sporting Supporters Direct model, and on the community assets and the greater public engagement and ownership of assets, this is a very important step forward. Are you able to give any further information about the potential timescale or the nature of the reforms that are being considered?

Weinidog, croesawaf y datganiad yn fawr iawn, oherwydd, ar y pryd, roedd rhai ohonom yn meddwl, wel, efallai ei fod yn cael ei roi o'r neilltu, ond yn amlwg iawn, nid yw hynny'n wir. I'r rhai ohonom sy'n arbennig o hoff o'r model chwaraeon Supporters Direct, a'r asedau cymunedol a mwy o ymgysylltiad â'r cyhoedd a pherchnogaeth y cyhoedd ar asedau, mae hwn yn gam pwysig iawn ymlaen. A allwch roi unrhyw wybodaeth bellach am yr amserlen bosibl neu natur y diwygiadau sy'n cael eu hystyried?

Senedd.tv Fideo Video

14:57 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. I declare that I'm a Member of the Wrexham Supporters Trust, so I absolutely share your sentiments, and I do want to reassure Members that it hasn't been put on the back burner. In fact, the discussions that my officials have been having on my behalf—. You know, many of the stakeholders that we have engaged with have actually said that the model in England is not working, so I think it's absolutely right that we find something that's right for Wales. On the timescale, whilst I recognise there is an element of urgency around this, I think we have to be pragmatic. I don't want to generate unrealistic expectations either; I think that's very important. As I said, I will make a statement before Easter.

Diolch yn fawr. Rwy'n datgan fy mod yn Aelod o Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Wrecsam, felly rwy'n rhannu eich teimladau'n llwyr, ac rwyf am dawelu meddwl yr Aelodau nad yw wedi cael ei roi o'r neilltu. Yn wir, mae'r trafodaethau y mae fy swyddogion wedi bod yn eu cael ar fy rhan—. Wyddoch chi, mae llawer o'r rhanddeiliaid rydym wedi ymgysylltu â hwy wedi dweud mewn gwirionedd nad oedd y model yn Lloegr yn gweithio, felly rwy'n meddwl ei bod hi'n hollol iawn inni ddod o hyd i rywbeth sy'n iawn i Gymru. O ran yr amserlen, er fy mod yn cydnabod bod elfen o frys ynglŷn â hyn, rwy'n meddwl bod yn rhaid inni fod yn bragmatig. Nid wyf am greu disgwyliadau afreal ychwaith; credaf fod hynny'n bwysig iawn. Fel y dywedais, byddaf yn gwneud datganiad cyn y Pasg.

14:58 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, the National Lottery currently has a second round of funding open to deliver a community asset transfer programme in Wales, totalling around £9 million. What support is your department offering to ensure that projects in north Wales gain a fair share of that funding and also have the capacity, and are in a position to know how to access it?

Weinidog, ar hyn o bryd mae gan y Loteri Genedlaethol ail rownd ariannu ar agor i gyflwyno rhaglen trosglwyddo asedau cymunedol yng Nghymru, sy'n werth cyfanswm o tua £9 miliwn. Pa gymorth y mae eich adran yn ei gynnig i sicrhau bod prosiectau yng ngogledd Cymru yn ennill cyfran deg o'r arian a hefyd â'r gallu i gael gafael arno, ac i fod mewn sefyllfa i wybod sut i wneud hynny?

14:59 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I was aware of the launch here in the Senedd yesterday, and I think it's absolutely vital that we harness other sources of support, such as the new Community Asset Transfer 2 programme. That's obviously, as I say, only just been launched, yesterday, but working with my colleague, the Deputy Minister for culture and sport, we will ensure that that programme is used as much as possible. It's for, obviously, communities to come forward. As I mentioned in my answer to Mick Antoniw, I think it's really important that we don't generate unrealistic expectations. I think we need to be very clear about the challenges that are involved where people are taking over community assets.

Ie, roeddwn yn ymwybodol o'r lansiad yma yn y Senedd ddoe, ac rwy'n meddwl ei bod yn gwbl hanfodol ein bod yn manteisio ar ffynonellau eraill o gefnogaeth, megis rhaglen newydd Trosglwyddo Asedau Cymunedol 2. Yn amlwg, fel y dywedais, newydd gael ei lansio ddoe y mae honno, ond byddaf yn gweithio gyda fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog diwylliant a chwaraeon, i sicrhau y bydd y rhaglen yn cael ei defnyddio gymaint ag y bo modd. Yn amlwg, mater i'r cymunedau yw dod ymlaen. Fel y crybwyllais yn fy ateb i Mick Antoniw, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn nad ydym yn creu disgwyliadau afreal. Rwy'n credu bod angen inni fod yn glir iawn ynglŷn â'r heriau sy'n gysylltiedig pan fo pobl yn cymryd meddiant ar asedau cymunedol.

14:59

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I welcome what you said today, Minister, and say that I think the Government does need a national model and something that works for Wales? It's not just for local community assets; it's also assets held by Welsh Government that could be used better by local communities. If I can give you an example, land was freed up with the new bypass in Pembrokeshire around Red Roses. The community there, the Eglwyscummin community and the community in Red Roses, wanted to use some of that land as a community asset to go with the community asset they already had, which was a village hall and a very successful village hall indeed. Now, there was difficulty, I have to say, with the other Minister, the transport Minister, to get this on the agenda. I now understand there is some good news coming to that community and things have moved on, which is excellent, but, if you could look at that example and others like it, Minister, because I didn't get the impression that officials were necessarily up to speed, shall we say, with the principle of transferring national assets into community assets and sweating those assets, in a way, better, because I think, very often, local communities will make better use of things that may be held by national Government. They would make better use of them and have better ideas to do it. So, if that does come off, I hope you will take the opportunity to look at it and visit it, but, in the meantime, please look at examples like that as ways of improving a national model for this.

A gaf fi groesawu'r hyn a ddywedoch heddiw, Weinidog, a dweud fy mod yn credu bod y Llywodraeth angen model cenedlaethol a rhywbeth sy'n gweithio i Gymru? Nid ar gyfer asedau cymunedol lleol yn unig y mae; byddai'n cynnwys asedau a ddelir gan Lywodraeth Cymru y gallai cymunedau lleol wneud gwell defnydd ohonynt. Os caf fi roi enghraifft i chi, cafodd tir ei ryddhau gyda'r ffordd osgoi newydd yn Sir Benfro o amgylch Rhos-goch. Roedd y gymuned yno, cymuned Eglwys Gymyn a chymuned Rhos-goch, yn awyddus i ddefnyddio rhywfaint o'r tir fel ased cymunedol i fynd gyda'r ased cymunedol a oedd ganddynt eisoes, sef neuadd bentref a honno'n neuadd bentref lwyddiannus iawn yn wir. Yn awr, roedd anhawster, rhaid imi ddweud, gyda'r Gweinidog arall, y Gweinidog trafnidiaeth, i gael hyn ar yr agenda. Rwyf bellach yn deall bod rhywfaint o newyddion da yn dod i'r gymuned honno a bod pethau wedi symud ymlaen, sy'n rhagorol, ond tybed a allwch edrych ar yr enghraifft honno a rhai tebyg iddi, Weinidog, gan na chefais yr argraff fod swyddogion o angenrheidrwydd yn gwbl gyfarwydd, ddywedwn ni, â'r egwyddor o newid asedau cenedlaethol yn asedau cymunedol a gwneud defnydd gwell o'r asedau hynny, mewn ffordd, oherwydd credaf, yn aml iawn, y bydd cymunedau lleol yn gwneud gwell defnydd o bethau a ddelir gan Lywodraeth genedlaethol. Byddent yn gwneud gwell defnydd ohonynt ac mae ganddynt syniadau gwell ynglŷn â sut i wneud hynny. Felly, os yw hynny'n digwydd, rwy'n gobeithio y byddwch yn manteisio ar y cyfle i edrych arno a mynd i'w weld, ond yn y cyfamser, a wnewch chi edrych ar enghreifftiau o'r fath fel ffyrdd o wella model cenedlaethol ar gyfer hyn.

15:01

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes. I think Simon Thomas raises a very important point. It's not just me who needs to do this. It needs to be very much across Government. You mentioned the work being undertaken by the Minister for Economy, Science and Transport. I know that the Minister for Finance and Government Business looks at the community assets toolkit. The Minister for Public Services is very mindful of this when looking at future models. So, it is very much a cross-Government piece of work.

Gwnaf. Rwy'n credu bod Simon Thomas yn gwneud pwynt pwysig iawn. Nid mater i mi'n unig yw hyn. Mae angen pendant iddo ddigwydd ar draws y Llywodraeth. Fe sonioch am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Gwn fod y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn edrych ar y pecyn asedau cymunedol. Mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwybodol iawn o hyn wrth edrych ar fodelau ar gyfer y dyfodol. Felly, mae'n sicr yn waith ar draws y Llywodraeth.

15:01

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

15:01

# 3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Dwristiaeth

# 3. Debate on the Enterprise and Business Committee's Report on Tourism

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move on to item 3, which is a debate on the Enterprise and Business Committee's report on tourism, and I call on the Chair of the committee, William Graham, to move the motion.

Rydym yn awr yn symud ymlaen at eitem 3, sef dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar dwristiaeth, a galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, William Graham, i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5670 William Graham

Motion NDM5670 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Dwristiaeth, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2014.

Notes the report of the Enterprise and Business Committee on its Inquiry into Tourism, which was laid in the Table Office on 20 November 2014.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:01

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer. I am delighted to open today's debate on the Enterprise and Business Committee's report into tourism. Tourism is worth £6.9 billion a year to Wales, or 13.2% of our GVA. It supports over 200,000 jobs, and since 2005 has been the fastest growing sector of our economy. Wales has successfully reversed the recent downward trend in tourism. While Britain as a whole has seen a slight decline in visits and spending in the first half of 2014, Wales has seen impressive growth. Wales is an attractive and unique tourism destination. The Welsh Government needs to build on recent successes so that the tourism industry may flourish and make an even greater contribution to the economy.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Rwy'n falch iawn o agor y ddadl heddiw ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar dwristiaeth. Mae twristiaeth yn werth £6.9 biliwn y flwyddyn i Gymru, neu 13.2% o'n GYC. Mae'n cefnogi dros 200,000 o swyddi, ac ers 2005 dyma'r sector sydd wedi bod yn tyfu gyflymaf yn ein heconomi. Mae Cymru wedi llwyddo i wrthdroi'r duedd ar i lawr yn ddiweddar mewn twristiaeth. Er bod Prydain yn ei chyfanrwydd wedi gweld gostyngiad bach yn nifer ymweliadau a gwariant yn ystod hanner cyntaf 2014, mae Cymru wedi gweld twf trawiadol. Mae Cymru yn gyrchfan twristaidd deniadol ac unigryw. Mae angen i Lywodraeth Cymru adeiladu ar lwyddiannau diweddar er mwyn i'r diwydiant twristiaeth allu ffynnu a chyfrannu mwy fyth tuag at yr economi.

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 15:02.*

*Sandy Mewies took the Chair at 15:02.*

## William Graham Bywgraffiad Biography

The committee is very grateful to all the people who took the time and effort to contribute to our inquiry. We received 27 written submissions to our inquiry and held nine oral evidence sessions with a range of witnesses, including the Welsh Centre for Tourism Research, VisitBritain and Wales Tourism Alliance. I would like to thank the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism and the then Minister for Culture and Sport for their evidence. I would also like to thank the tourism stakeholders who took part in the three focus group sessions we held—one at the National Museum Cardiff, one at Oriel y Parc in St Davids, and one at the Llechwedd slate caverns in Blaenau Ffestiniog. The first groups at Cardiff and St Davids met simultaneously and key messages were tweeted between the two groups throughout by the Assembly's outreach and communications teams, to whom we owe a debt of gratitude. The sorts of issues raised with us at these groups included branding of Wales and Cardiff as a tourist destination, transport links, support provided by the Welsh Government and Visit Wales, broadband and mobile phone connectivity and road signage. A number of our recommendations are a direct result of what we heard during these sessions.

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i'r holl bobl a roddodd o'u hamser a'u hymdrech i gyfrannu at ein hymchwiliad. Cawsom 27 o gyflwyniadau ysgrifenedig i'n hymchwiliad a chynhaliwyd naw sesiwn dystiolaeth lafar gydag amrywiaeth o dystion, gan gynnwys Canolfan Ymchwil Twristiaeth Cymru, VisitBritain a Chynghrair Twristiaeth Cymru. Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth a'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon am eu tystiolaeth. Hoffwn hefyd ddiolch i'r rhanddeiliaid twristiaeth a gymerodd ran yn y tair sesiwn grŵp ffocws a gynhaliwyd gennym—un yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, un yn Oriel y Parc yn Nhyddewi, ac un yn chwareli llechi Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog. Cyfarfu'r grwpiau cyntaf yng Nghaerdydd a Thyddewi ar yr un pryd a chafodd negeseuon allweddol eu trydar rhwng y ddau grŵp drwy gydol y cyfarfodydd gan dimau allgymorth a chyfathrebu y Cynulliad, ac mae ein diolch yn fawr iddynt. Roedd y mathau o faterion a godwyd gyda ni yn y grwpiau hyn yn cynnwys brandio Cymru a Chaerdydd fel cyrchfan i dwristiaid, cysylltiadau trafnidiaeth, cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a Croeso Cymru, cysylltedd band eang a ffonau symudol ac arwyddion ffyrdd. Mae nifer o'n hargymhellion yn deillio'n uniongyrchol o'r hyn a glywsom yn ystod y sesiynau hyn.

Our third session was held at Llechwedd slate caverns, where we heard many of the same messages from stakeholders. We were given a tour of the facilities, which included the slate caverns, Antur Stiniog downhill mountain bike tracks, Zip World Titan and Bounce Below, which to quote their website is

Cynhaliwyd y drydedd sesiwn yn chwareli llechi Llechwedd, lle y clywsom lawer o'r un negeseuon gan randdeiliaid. Cawsom daith o amgylch y cyfleusterau, a oedd yn cynnwys y chwareli llechi, traciau beicio mynydd lawr allt Antur Stiniog, Zip World Titan a Bounce Below sef, a dyfynnu o'u gwefan

'the world's first ever subterranean playground with giant bouncy trampoline like nets to jump around in. Unlike anything seen before.'

'maes chwarae tanddaearol cyntaf y byd gyda rhwydi sboncio enfawr fel trampolinau i neidio o gwmpas ynddyn nhw. Gwahanol i unrhyw beth a welwyd o'r blaen.'

And having seen Members and staff participating on that trampoline, I endorse that remark, 'unlike anything seen before'.

Ac ar ôl gweld Aelodau a staff yn cymryd rhan ar y trampolîn hwnnw, ategaf y sylw, 'gwahanol i unrhyw beth a welwyd o'r blaen'.

Our report came shortly after the report by the House of Commons Welsh Affairs Committee on international representation and promotion of Wales by UK bodies, which was published in October. There was some conformity of views between the reports. Like us, they felt that one of the key issues was Wales's lack of a coherent and distinctive brand that tourism businesses of all sizes can tap into, particularly through the Visit Wales website, which should be the hub of our marketing activity. They too questioned the relationship between VisitBritain and Visit Wales, calling for a coherent strategy for promoting Wales as a first-choice destination for international visitors to the United Kingdom. That said, we did hear lots of positive messages about tourism during the course of our inquiry.

Daeth ein hadroddiad yn fuan ar ôl yr adroddiad gan Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ar gynrychiolaeth ryngwladol a hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol gan gyrff yn y DU, a gyhoeddwyd ym mis Hydref. Roedd yr adroddiadau'n cynnwys rhywfaint o safbwyntiau tebyg. Fel ninnau, teimlent mai un o'r materion allweddol oedd diffyg brand cydlynol ac unigryw i Gymru y gall busnesau twristiaeth o bob maint fanteisio arno, yn enwedig trwy wefan Croeso Cymru, a ddylai fod yn ganolbwynt i'n gweithgarwch marchnata. Roeddent hwy hefyd yn cwestiynu'r berthynas rhwng VisitBritain a Croeso Cymru, ac yn galw am strategaeth gydlynol ar gyfer hyrwyddo Cymru fel cyrchfan dewis cyntaf i ymwelwyr rhyngwladol â'r Deyrnas Unedig. Wedi dweud hynny, fe glywsom lawer o negeseuon cadarnhaol am dwristiaeth yn ystod ein hymchwiliad.

In our report, we made 28 recommendations to the Welsh Government aimed at helping to further develop an industry that is an increasingly important economic driver for Wales. I am grateful to the Deputy Minister for his very positive response to our report, fully accepting 26 of our recommendations, with the other two being accepted in principle.

Yn ein hadroddiad, gwnaethom 28 o argymhellion i Lywodraeth Cymru gyda'r nod o helpu i ddatblygu diwydiant sy'n sbardun economaidd cynyddol bwysig i Gymru. Rwy'n ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ei ymateb cadarnhaol iawn i'n hadroddiad, ac am dderbyn 26 o'n hargymhellion yn llawn, gyda'r ddau arall yn cael eu derbyn mewn egwyddor.

There are a large number of recommendations, but too many for me to cover this afternoon, so I will limit my comments to six key areas. The marketing and Wales's tourism brand. One of our key conclusions was the need for a stronger, clearer and more coherent tourism brand to make the most of Wales's significant tourism potential.

Ceir nifer fawr o argymhellion, ond mae gormod i mi roi sylw iddynt y prynhawn yma, felly rwyf am gyfyngu fy sylwadau i chwe maes allweddol. Marchnata a brand twristiaeth Cymru. Un o'n casgliadau allweddol oedd yr angen am frand twristiaeth cryfach, cliriach a mwy cydlynol i wneud y gorau o botensial twristiaeth pwysig Cymru.

Witnesses told us that the Wales tourism brand is almost non-existent, and tourism businesses are generally dissatisfied with it. It fails to give Wales a clear identity. We also heard that, compared with Britain's other nations, Wales is the least known internationally. We welcome the recent branding work undertaken by the Ashton Brand Consulting Group for the Welsh Government. Good things are starting to come out of this. The 'Have you packed for Wales?' campaign is a positive step forward, but this work now needs to be accelerated.

Yn ôl yr hyn a ddywedodd tystion wrthym, prin y mae brand twristiaeth Cymru yn bodoli o gwbl, ac yn gyffredinol mae busnesau twristiaeth yn anfodlon ag ef. Mae'n methu â rhoi hunaniaeth glir i Gymru. Clywsom hefyd, o gymharu â gwledydd eraill Prydain, mai Cymru yw'r un leiaf adnabyddus yn rhyngwladol. Rydym yn croesawu'r gwaith brandio diweddar a wnaed gan y grŵp ymgynghori ar frandiau, Ashton, ar ran Llywodraeth Cymru. Mae pethau da yn dechrau dod allan o hyn. Mae ymgyrch 'A ydych chi wedi pacio ar gyfer Cymru?' yn gam cadarnhaol ymlaen, ond yn awr mae angen cyflymu'r gwaith hwn.

I welcome the Deputy Minister's assurance that the key branding principles established as part of this work are being taken forward through marketing campaigns and other tourism and marketing activities.

Rwy'n croesawu sicrwydd y Dirprwy Weinidog fod yr egwyddorion brandio allweddol a sefydlwyd yn rhan o'r gwaith hwn yn cael eu datblygu drwy ymgyrchoedd marchnata a gweithgareddau twristiaeth a marchnata eraill.

We were concerned about the lack of connected working between Welsh Government departments in developing a coherent tourism brand. Cultural and heritage tourism make a significant contribution to both the domestic and international markets, so we are pleased that culture and heritage now fall within the economy, science and transport portfolio. We trust that this will result in greater co-ordination between departments that contribute to Wales's tourism appeal internationally.

Roeddem yn pryderu am y diffyg gweithio cysylltiedig rhwng adrannau Llywodraeth Cymru ar ddatblygu brand twristiaeth cydlynol. Mae twristiaeth diwylliant a threftadaeth yn cyfrannu'n sylweddol at y marchnadoedd domestig a rhyngwladol, felly rydym yn falch fod diwylliant a threftadaeth bellach yn rhan o bortffolio yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth. Hyderwn y bydd hyn yn arwain at fwy o gydgysylltiad rhwng adrannau sy'n cyfrannu at apêl twristiaeth Cymru yn rhyngwladol.

Major events. Members will recall that the Welsh Music Foundation was disbanded in July last year, after its three-year core-funding agreement with the Welsh Government expired. Prior to this, the WMF had been instrumental in organising the WOMEX international world music trade expo that was held in Cardiff in October 2013. The economic impact on Wales of hosting WOMEX 2013 was estimated to be some £3 million. The committee held an evidence session with the WMF in January 2014, and concluded that the event had been a great success for Cardiff and Wales. The committee heard during our tourism inquiry that there was

Digwyddiadau mawr. Bydd yr Aelodau'n cofio bod y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig wedi cael ei ddirwyn i ben ym mis Gorffennaf y llynedd ar ôl i'w gytundeb tair blynedd o gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru ddod i ben. Cyn hyn, roedd y Sefydliad wedi bod yn allweddol yn y gwaith o drefnu expo masnach rhyngwladol cerddoriaeth y byd WOMEX a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Hydref 2013. Amcangyfrifwyd bod yr effaith economaidd i Gymru a ddeilliodd o gynnal WOMEX 2013 oddeutu £3 miliwn. Cynhaliodd y pwyllgor sesiwn dystiolaeth gyda'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig ym mis Ionawr 2014, a daeth i'r casgliad bod y digwyddiad wedi bod yn llwyddiant mawr i Gaerdydd a Chymru. Clywodd y pwyllgor yn ystod ein hymchwiliad i dwristiaeth fod

'substantial unmet demand from potential visitors to Wales for cultural activity';

'galw sylweddol heb ei ddiwallu gan ymwelwyr posibl i Gymru am weithgaredd diwylliannol';

this from the Arts Council of Wales.

hyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Recommendation 8 of our report asked the Welsh Government to explain how it will continue the work carried out by the Welsh Music Foundation to promote Wales and Welsh culture internationally following its disbandment. Whilst this recommendation is accepted in principle, there is no detail of how this work will be undertaken. Perhaps the Deputy Minister could provide a more detailed response on this point this afternoon.

Gofynnodd argymhelliad 8 yn ein hadroddiad i Lywodraeth Cymru esbonio sut y bydd yn parhau â'r gwaith a wnaed gan y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig i hyrwyddo Cymru a diwylliant Cymru yn rhyngwladol yn sgil ei ddirwyn i ben. Er bod yr argymhelliad hwn wedi ei dderbyn mewn egwyddor, nid oes manylion ynglŷn â sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud. Efallai y gallai'r Dirprwy Weinidog roi ymateb mwy manwl ar y pwynt hwn y prynhawn yma.

Recommendation 13 came as a result of feedback from stakeholders at our focus group events. Industry representatives told us that effective signposting was a key and underrated problem for tourism businesses, and that the application process for a brown and white tourism destination sign is complicated and slow, and the cost prohibitive. The Deputy Minister accepts our recommendation, saying

Deilliodd argymhelliad 13 o ganlyniad i adborth gan randdeiliaid yn ein grwpiau ffocws. Dywedodd cynrychiolwyr y diwydiant wrthym fod arwyddion effeithiol yn broblem allweddol i fusnesau twristiaeth, nad yw'n cael digon o sylw, a bod y broses o wneud cais am arwydd cyrchfan twristiaeth brown a gwyn yn gymhleth ac yn araf, a'r gost yn rhwystr. Mae'r Dirprwy Weinidog yn derbyn ein hargymhelliad, gan ddweud bod

'the Welsh Government has introduced revised guidelines that tourism businesses can benefit from in relation to white and brown tourism signage'.

'Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno canllawiau diwygiedig y gall busnesau twristiaeth fanteisio arnynt mewn perthynas ag arwyddion twristiaeth brown a gwyn'.

However, the guidance relating to brown and white tourism destination signs available on the Welsh Government website was issued in August 2013, some 14 months prior to the publication of our report. It is hard to see, therefore, how this guidance can address the concerns that were raised with the Committee by stakeholders almost a year ago.

Fodd bynnag, cyhoeddwyd y canllawiau ar arwyddion cyrchfannau twristiaeth brown a gwyn sydd i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2013, tua 14 mis cyn cyhoeddi ein hadroddiad. Mae'n anodd gweld, felly, sut y gall y cyfarwyddyd hwn fynd i'r afael â'r pryderon a ddygwyd i sylw'r Pwyllgor gan randdeiliaid bron i flwyddyn yn ôl.

We were concerned about VisitBritain and whether it's delivering for Wales. We noted that the relationship between Visit Wales and VisitBritain was not sufficiently working to Wales's advantage. During our inquiry, we heard that the Google summary for VisitBritain stated 'Official UK tourism and places to visit: England, Scotland and Britain'—no mention of Wales. This was changed after we highlighted the issue, but we heard other evidence that opportunities were being missed by VisitBritain to promote Wales as a distinct destination within the United Kingdom.

Roeddem yn pryderu am VisitBritain ac a yw'n cyflawni dros Gymru. Nodwyd gennym nad yw'r berthynas rhwng Croeso Cymru a VisitBritain yn gweithio'n ddigon da i fod o fantais i Gymru. Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom fod crynodeb Google ar gyfer VisitBritain yn datgan 'Official UK tourism and places to visit: England, Scotland and Britain'—dim sôn am Gymru. Cafodd hyn ei newid ar ôl i ni dynnu sylw at y mater, ond clywsom dystiolaeth arall fod cyfleoedd yn cael eu colli gan VisitBritain i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan penodol yn y Deyrnas Unedig.

Many people told us they thought VisitBritain's work focused too heavily on London. Indeed, although VisitBritain state that

Mae llawer o bobl yn dweud wrthym eu bod yn meddwl bod gwaith VisitBritain yn canolbwyntio ormod ar Lundain. Yn wir, er bod VisitBritain yn datgan bod

'encouraging visits to Wales and promoting regional spread more broadly'

'annog ymweliadau â Chymru a hyrwyddo lledaeniad rhanbarthol yn fwy cyffredinol'

is a key aspect of their strategy, overseas visitors to Wales—and all regions of the United Kingdom outside London—have been declining since 1999.

yn agwedd allweddol ar eu strategaeth, mae niferoedd ymwelwyr tramor â Chymru—a phob rhanbarth o'r Deyrnas Unedig y tu allan i Lundain—wedi bod yn gostwng ers 1999.

We heard that VisitBritain's targets and priorities have changed, and a lot more effort is being put into driving up London tourism, but this is at the expense of elsewhere in the United Kingdom.

Clywsom fod targedau a blaenoriaethau VisitBritain wedi newid, ac mae llawer mwy o ymdrech yn cael ei wneud i hybu twristiaeth Llundain, ond mae hyn yn digwydd ar draul rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

We welcome the secondment of a second member of Visit Wales staff to the VisitBritain London office, but believe that further steps are needed to improve the level of knowledge that VisitBritain staff have of Wales and the Welsh tourism offer. We believe the Welsh Government must do more to increase and improve VisitBritain's promotion of Wales, and work with them to establish challenging growth targets for VisitBritain to increase tourism in Wales. While I welcome the Deputy Minister's acceptance of our recommendations in this regard, I am not convinced that the activity he describes in his response constitutes the step-change we were calling for.

Rydym yn croesawu secondiad ail aelod o staff Croeso Cymru i swyddfa VisitBritain Llundain, ond yn credu bod angen camau pellach i wella lefel y wybodaeth sydd gan staff VisitBritain am Gymru a'r hyn sydd gan dwristiaeth Cymru i'w gynnig. Rydym yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i gynyddu a gwella'r modd y mae VisitBritain yn hyrwyddo Cymru, a gweithio gyda hwy i sefydlu targedau twf heriol er mwyn i VisitBritain gynyddu twristiaeth yng Nghymru. Er fy mod yn croesawu'r ffaith fod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn ein hargymhellion yn hyn o beth, nid wyf yn argyhoeddedig fod y gweithgaredd y mae'n ei ddisgrifio yn ei ymateb yn cyflawni'r newid sylweddol yr oeddem yn galw amdano.

Finally, I'd like to turn to the Welsh Government's engagement with the industry. We heard from industry representatives of a lack of clarity around what Visit Wales does and how it spends its money. There was also a feeling that Visit Wales needs to improve its overall communication with the industry. The Welsh Government has recently restructured the support it offers to tourism businesses at a regional level, but we heard there was a lack of clarity around how the new arrangements would work and this was causing obvious concern.

Yn olaf, hoffwn droi at ymgysylltiad Llywodraeth Cymru gyda'r diwydiant. Clywsom gan gynrychiolwyr y diwydiant am ddiffyg eglurder ynghylch yr hyn y mae Croeso Cymru yn ei wneud a sut y mae'n gwario ei arian. Roedd teimlad hefyd bod angen i Croeso Cymru wella'r modd y mae'n cyfathrebu'n gyffredinol â'r diwydiant. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ailstrwythuro'r gefnogaeth y mae'n ei chynnig i fusnesau twristiaeth ar lefel ranbarthol, ond clywsom fod diffyg eglurder ynglŷn â sut y byddai'r trefniadau newydd yn gweithio ac mae hyn yn achosi pryder amlwg.

We were also told that the Visit Wales website was hard to navigate, and some witnesses reported difficulties in getting up-to-date information about their businesses onto the website. We made a number of recommendations aimed at improving the relationship between the Welsh Government and the industry, but I note from the Deputy Minister's response that tourism officials engage with the industry in a variety of ways but there was a very strong view among stakeholders that this was an area for significant improvement. I urge the Deputy Minister to ensure this work is escalated. I look forward to Members' views and the Deputy Minister's response to the points I have raised.

Dywedwyd wrthym hefyd fod gwefan Croeso Cymru yn anodd ei defnyddio, a soniodd rhai tystion am anawsterau gyda rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu busnesau ar y wefan. Gwnaethom nifer o argymhellion gyda'r nod o wella'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r diwydiant. Sylwaf o ymateb y Dirprwy Weinidog fod swyddogion twristiaeth yn ymgysylltu â'r diwydiant mewn amryw o ffyrdd, ond roedd barn gref iawn ymhlith rhanddeiliaid fod hwn yn faes y dylid ei wella'n sylweddol. Rwy'n annog y Dirprwy Weinidog i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael mwy o flaenoriaeth. Edrychaf ymlaen at glywed barn yr Aelodau ac at ymateb y Dirprwy Weinidog i'r pwyntiau a godais.

15:10

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to very much welcome this report, and also to say how enjoyable it was to actually participate and, I think, how much we all actually learnt about what is going on in Wales within tourism and its relevance to, not only Wales, but also to the creation of jobs, and the actual enormous return there is from every £1 that's invested in tourism.

Hoffwn groesawu'r adroddiad hwn yn gynnes, a dweud hefyd pa mor bleserus yn wir oedd cymryd rhan a chymaint y mae pawb ohonom, rwy'n credu, wedi'i ddysgu mewn gwirionedd am yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru ym maes twristiaeth a'i berthnasedd nid yn unig i Gymru, ond hefyd i greu swyddi, a'r enillion enfawr a geir o bob £1 a fuddsoddir mewn twristiaeth.

When the investigation was under way, I rang my son, who lives in Los Angeles, and asked him what the people out there know about Wales, and he said, 'Well, they know the Princess of Wales'. He said, 'They know 'Downton Abbey', because they think everybody in Wales lives like that, and they also think that Wales is part of England'. And hence, I think that highlights the challenge that we actually face in promoting Wales within the world. I think it is worth putting on record, actually, the considerable progress that has been made.

Pan oedd yr ymchwiliad ar y gweill, ffoniais fy mab, sy'n byw yn Los Angeles, i ofyn iddo beth oedd y bobl yno yn ei wybod am Gymru, a dywedodd 'Wel, maent yn gwybod am Dywysoges Cymru'. Dywedodd, 'Maent yn gwybod am Downtown Abbey, oherwydd eu bod yn credu bod pawb yng Nghymru yn byw fel hynny, ac maent hefyd yn meddwl bod Cymru yn rhan o Loegr'. Ac felly, credaf fod hynny'n amlygu'r her sy'n ein hwynebu mewn gwirionedd wrth hyrwyddo Cymru yn y byd. Credaf ei bod yn werth cofnodi, mewn gwirionedd, y cynnydd sylweddol a wnaed.

It was also interesting, during the inquiry, that when we started considering social media and websites and we looked at the VisitBritain website, the main introduction to Wales was that it's a rather dull, wet, gloomy place but not so bad when you get there. And, of course, listening to the debate, within a matter of days, we were able to have that changed, so there was a more positive—. But I think this also highlights the level of, perhaps, engagement and joined-up thinking in respect of a lot of our tourist activities.

Roedd hefyd yn ddiddorol, yn ystod yr ymchwiliad, pan ddechreuon ni ystyried cyfryngau cymdeithasol a gwefannau ac edrych ar wefan VisitBritain, y prif gyflwyniad i Gymru oedd ei fod yn lle gwlyb a diflas braidd, ond heb fod mor wael â hynny wedi i chi gyrraedd yno. Ac wrth gwrs, wrth wrando ar y ddadl, mewn mater o ddiwrnodau, gallasom newid hynny, felly roedd yn fwy cadarnhaol—. Ond rwy'n credu bod hyn hefyd yn tynnu sylw at lefel yr ymgysylltiad, efallai, a meddwl cydgysylltiedig mewn perthynas â llawer o'n gweithgarwch twristiaeth.

I think the area on the report that I would probably most like to focus on is something that I've raised consistently in this Chamber, and that is, around Wales, as well as the major attractions—the castles, the major museums and so on—we have a large number of incredibly important heritage sites run by volunteers, run by communities, but have a diverse range of incredible interests. So, for example, within my constituency alone, we have the only hot spring —the only thermal spring—in the whole of Wales, in Taff's Well. We also have an incredible former well-established crockery and contributor to ceramics during the seventeenth and eighteenth centuries, which is still being run by volunteers. We have the oldest steam operated—compression operated now—winding gear in the whole of Britain, going back to, I think, 1873. That is now operating and the site is being restored, again, by volunteers. There's also very much the sort of support that we've had from the Welsh Government for the Llantrisant Trust proposals to completely restore the ancient Guildhall there and tie it in, of course, with the tourism from the visitor centre from the Royal Mint.

Rwy'n credu mai'r rhan o'r adroddiad y byddwn yn hoffi canolbwyntio arno fwyaf, mae'n debyg, yw'r hyn rwyf wedi ei godi'n gyson yn y Siambr hon, sef, o gwmpas Cymru, yn ogystal â'r prif atyniadau—y cestyll, y prif amgueddfeydd ac yn y blaen—mae gennym nifer fawr o safleoedd treftadaeth hynod o bwysig sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr, gan gymunedau, ond maent yn cynnwys ystod amrywiol o ddiddordebau trawiadol. Felly, er enghraifft, yn fy etholaeth i yn unig, mae gennym yr unig ffynnon boeth—yr unig ffynnon thermol—yng Nghymru gyfan, yn Ffynnon Taf. Mae gennym hefyd hen waith llestri enwog gwych a chyfraniad at gerameg yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif, sy'n dal i gael ei redeg gan wirfoddolwyr. Mae gennym yr injan weindio hynaf ym Mhrydain gyfan a arferai weithio drwy ddefnyddio ager—ond sy'n gweithio drwy gywasgedd bellach—yn mynd yn ôl, rwy'n meddwl, i 1873. Mae honno bellach ar waith ac mae'r safle yn cael ei adfer, unwaith eto, gan wirfoddolwyr. Hefyd, mae yna lawer o'r math o gefnogaeth a gawsom gan Lywodraeth Cymru i argymhellion Ymddiriedolaeth Llantrisant i adfer y Guildhall hynafol yno yn gyfan gwbl a chysylltu hynny, wrth gwrs, â thwristiaeth y ganolfan ymwelwyr yn y Bathdy Brenhinol.

The dilemma they've faced of course is integrating that within a broader tourist programme and policy, and ensuring that, when people come to visit sites, they're able also to access and identify where there are the most specialist sites. And that, of course, brings us on to recommendation 13, which relates to signage. There was some discussion of that yesterday, but, for example, there is no signage off the A470 for the Nantgarw pottery. How does anybody know how to get there and where it is? So, we need more consistent and more joined-up thinking, I think, as regards improving our signage and access. I think that also includes the use of websites and social media as well.

Y drafferth y maent wedi ei hwynebu wrth gwrs yw integreiddio hyn mewn rhaglen a pholisi twristiaeth ehangach, a sicrhau, pan fydd pobl yn ymweld â safleoedd, eu bod yn gallu nodi ble mae'r safleoedd mwyaf arbenigol, a gallu eu cyrraedd. A daw hynny â ni, wrth gwrs, at argymhelliad 13, sy'n ymwneud ag arwyddion. Cafwyd peth trafodaeth ar hyn ddoe, ond nid oes unrhyw arwyddion, er enghraifft, oddi ar yr A470 gogyfer â chrochenwaith Nantgarw. Sut y gall neb wybod ble y mae a sut i gyrraedd yno? Felly, rwy'n credu bod angen meddwl yn fwy cyson a mwy cydgysylltiedig ynghylch gwella ein harwyddion a hygyrchedd. Credaf fod hynny'n cynnwys y defnydd o wefannau a chyfryngau cymdeithasol hefyd.

The promotion on websites and social media was very interesting because—

Roedd hyrwyddo ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol yn ddiddorol iawn oherwydd—

15:14 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you give way?

A wnewch chi ildio?

15:14 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry. Yes, of course.

Mae'n ddrwg gennyf. Gwnaf, wrth gwrs.

15:14 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Mick, for giving way. You've hit on my favourite subject of brown tourist signage. It's worse than you say, because, actually, some of those original signs are also in the wrong place and you can miss some of the tourist attractions that you're looking for. So, I think you'd agree with me that we need a review of those signs, urgently.

Diolch i chi am ildio, Mick. Rydych chi wedi taro ar fy hoff bwnc, sef arwyddion twristiaeth brown. Mae'n waeth nag y dywedwch, oherwydd mewn gwirionedd, mae rhai o'r arwyddion gwreiddiol yn y llefydd anghywir hefyd a gallwch golli rhai o'r atyniadau twristiaeth rydych yn chwilio amdanynt. Felly, rwy'n meddwl y byddech yn cytuno â mi fod angen i ni adolygu'r arwyddion hynny ar frys.

15:14 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely, and with that one example, which was the Nantgarw trust, it is the one issue that they continually raise, and that is, 'We've got a fantastic heritage facility here, but no-one knows how actually to get here'. Perhaps as equally important, of course, is that the accessibility of this information on websites. So, I think the progress and the focus on the use of the Visit Wales and the VisitBritain websites are things that are extremely important. But, I think it is worth, perhaps just in conclusion, on the few points I've made, actually recognising that so much of our tourist heritage and so much of the value part of our tourist business are, and continue to be, run by volunteers. I would only reiterate the point there that we really have to ensure that support for them, as part of our tourist and business strategy, is really at the top of the agenda.

Yn hollol, a chyda'r un enghraifft honno, sef ymddiriedolaeth Nantgarw, yr un broblem sy'n cael sylw ganddynt yn barhaus, sef 'Mae gennym gyfleuster treftadaeth gwych yma, ond nid oes neb yn gwybod sut i gyrraedd yma'. Mae'n bosibl fod hygyrchedd y wybodaeth hon ar wefannau yr un mor bwysig, wrth gwrs. Felly, rwy'n meddwl bod y cynnydd a'r ffocws ar y defnydd o wefannau Croeso Cymru a VisitBritain yn bethau sy'n hynod o bwysig. Ond rwy'n credu efallai ei bod hi'n werth tynnu sylw i gloi at yr ychydig bwyntiau a wnes, a chydnabod bod cymaint o'n treftadaeth dwristaidd a chymaint o werth ein busnes twristiaeth yn parhau i gael ei rhedeg gan wirfoddolwyr. Hoffwn ailadrodd y pwynt fod gwir angen inni sicrhau bod cymorth ar eu cyfer, fel rhan o'n strategaeth twristiaeth a busnes, ar frig yr agenda mewn gwirionedd.

15:15 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Can I just tell Members that there are a long list of speakers, including committee members and others, and if people don't keep it brief, I will not get everybody in? So, if I can ask you to be succinct, I'd be very grateful. Byron Davies.

Diolch yn fawr. A gaf fi ddweud wrth yr Aelodau fod yna restr hir o siaradwyr, gan gynnwys aelodau'r pwyllgor ac eraill, ac os nad yw pobl am fod yn fyr, ni fyddaf yn cynnwys pawb? Felly, os caf fi ofyn i chi fod yn gryno, byddwn yn ddiolchgar iawn. Byron Davies.

15:15 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer—Chair.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd—Gadeirydd.

15:15 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Chair.

Cadeirydd.

15:16 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Members, thank you for the opportunity to contribute to this debate today on tourism. As has already been highlighted, we can't overestimate the importance of the industry to Wales. We often discuss the engine room of the Welsh economy in south Wales and the M4 corridor, but, of course, the tourism industry is what really drives much of the Welsh economy across Wales, whether it is north, south, mid or west Wales, rather than one specific area. I know the huge reliance, as someone born and raised in south Gower—. The beaches there, the wonderful beaches that we have—. We take this sector for granted at our peril. Swansea city council often refers to Gower as the jewel in the crown.

Aelodau, diolch i chi am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon heddiw ar dwristiaeth. Fel sydd eisoes wedi cael ei amlygu, ni allwn oramcangyfrif pwysigrwydd y diwydiant i Gymru. Rydym yn aml yn trafod injan economi Cymru yn ne Cymru a choridor yr M4, ond wrth gwrs, y diwydiant twristiaeth yw'r hyn sy'n gyrru llawer o'r economi ledled Cymru mewn gwirionedd, boed yn y gogledd, y de, y canolbarth neu'r gorllewin, yn hytrach nag un ardal benodol. Rwy'n gwybod am y ddibyniaeth enfawr, fel rhywun sydd wedi ei eni a'i fagu yn ne Gŵyr—. Mae'r traethau yno, y traethau gwych sydd gennym—. Gwae ni os cymerwn y sector yn ganiataol. Mae cyngor dinas Abertawe yn aml yn cyfeirio at Gŵyr fel y trysor pennaf.

The report is a substantial piece of work, and, like other Members, I'm delighted the recommendations were all accepted by the Government. I do, however, note some caution, as with most reports the Government responses imply that there could be funding implications. Now, this, for me, highlights the notion that I mentioned a moment ago: that taking this sector of our economy for granted would be a grave mistake. We need to invest in our brand Wales, as recommendation 1 says, and we need to finally establish our brand, stick with it and invest heavily. I know reassurances about key branding principles are already established, but I want to see a high-visibility campaign that resonates around the world. It can be done.

Mae'r adroddiad yn waith sylweddol, ac fel yr Aelodau eraill, rwyf wrth fy modd fod yr argymhellion i gyd wedi cael eu derbyn gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, rwy'n nodi peth gofal, gan fod ymatebion y Llywodraeth i'r rhan fwyaf o adroddiadau yn awgrymu y gallai fod goblygiadau o ran cyllido. Yn awr, i mi mae hyn yn tynnu sylw at y syniad y soniais amdano funud yn ôl: y byddai cymryd y sector hon o'n heconomi yn ganiataol yn gamgymeriad difrifol. Mae angen inni fuddsoddi ym mrand Cymru, fel y mae argymhelliad 1 yn ei ddweud, ac mae angen i ni sefydlu ein brand o'r diwedd, glynu ato a buddsoddi'n helaeth. Rwy'n gwybod bod sicrwydd eisoes wedi ei roi ynghylch egwyddorion brandio allweddol, ond rwyf am weld ymgyrch amlwg iawn sy'n atseinio o amgylch y byd. Mae'n bosibl gwneud hyn.

Our tourist offer is second to none here, as we've already heard from the Member for Pontypridd, in Wales. But, report after report highlight the failure to capitalise on it. If you look at the analysis, it shows visitors are more often day visitors. Our accommodation is, perhaps, substandard in terms of both quality and quantity, and other cities across the UK and Europe are outperforming us. If you look at rural Wales, some of our most treasured castles, beaches, gardens and other cultural centres are undersold, I believe, or worryingly absent from any tourist advertising. We see today the terrific news about the refurbishment of Harlech castle entrance, and I'd like to see visitors landing in Heathrow to see pictures of Harlech, Gower and Pembrokeshire and clear information about how to get there.

Mae gennym gynnig heb ei ail i dwristiaid yma yng Nghymru, fel y clywsom eisoes gan yr Aelod dros Bontypridd. Ond mae adroddiad ar ôl adroddiad yn tynnu sylw at y methiant i fanteisio arno. Os edrychwch ar y dadansoddiad, mae'n dangos mai ymwelwyr dydd sy'n fwyaf niferus. Mae ein cyfleusterau llety, efallai, o safon rhy isel o ran ansawdd a maint, ac mae dinasoedd eraill ar draws y DU ac Ewrop yn gwneud yn well na ni. Os edrychwch ar gefn gwlad Cymru, nid wyf yn credu bod rhai o'n cestyll mwyaf annwyl, ein traethau, ein gerddi a'n canolfannau diwylliannol eraill yn cael eu gwerthu, neu mae hysbysebion twristaidd ar eu cyfer yn boenus o brin. Heddiw, gwelwn y newyddion gwych am adnewyddu mynedfa castell Harlech, a hoffwn weld ymwelwyr yn glanio yn Heathrow i weld lluniau o Harlech, Gŵyr a Sir Benfro a gwybodaeth glir ynglŷn â sut i gyrraedd yno.

On the subject of airports, I just wanted to use this debate to highlight the Government's, I think, perhaps, failure to tie in aviation strategies—if, indeed, there is one—with tourism. I am just looking at recommendation 4 here, where it says that the Welsh Government,

Ar bwnc meysydd awyr, hoffwn ddefnyddio'r ddadl hon efallai i dynnu sylw at fethiant y Llywodraeth, rwy'n meddwl, i gydgysylltu strategaethau hedfan—os oes un ar gael, yn wir—â thwristiaeth. Rwy'n edrych ar argymhelliad 4 yma, lle y mae'n dweud y dylai Llywodraeth Cymru,

'should involve tourism businesses more closely with its advertising campaigns'.

'gynnwys busnesau twristiaeth yn fwy agos yn ei hymgyrchoedd hysbysebu'.

In the response, it accepts that,

Yn yr ymateb, mae'n derbyn,

'there were a series of industry road shows in November 2014 which shared our plans',

'fod cyfres o sioeau teithiol y diwydiant wedi eu cynnal yn Nhachwedd 2014 a rannodd ein cynlluniau',

with plans for more next year. Perhaps you could tell us what you've got planned for Cardiff Airport, because I really do think that we're focusing on helping people leave this country, here in Wales, rather than focusing on getting visitors into Wales through Cardiff Airport. This is exceptionally clear if you look at the priorities currently at Cardiff Airport. Sadly, there are no more excuses now. You cannot blame others for it, because you operate the site, you own it, so, let's see some work in that direction, please.

gyda chynlluniau i gynnal rhagor y flwyddyn nesaf. Efallai y gallech ddweud wrthym beth rydych wedi ei gynllunio ar gyfer Maes Awyr Caerdydd, gan fy mod yn credu'n wirioneddol ein bod yn canolbwyntio ar helpu pobl i adael y wlad hon, yma yng Nghymru, yn hytrach na chanolbwyntio ar gael ymwelwyr i Gymru drwy Faes Awyr Caerdydd. Mae hyn yn eithriadol o glir os edrychwch ar y blaenoriaethau ar hyn o bryd ym Maes Awyr Caerdydd. Yn anffodus, nid oes rhagor o esgusodion yn awr. Ni allwch feio pobl eraill amdano, gan mai chi sy'n gweithredu'r safle, chi sy'n berchen arno, felly, gadewch inni weld rhywfaint o waith yn hynny o beth, os gwelwch yn dda.

So, if I could just end on the heartened note that the Government has accepted this report in its entirety, I'm just sad that we debate this subject tirelessly and I'm yet to be convinced that brand Wales is coherent enough to convince those in this Chamber, let alone compete in what is becoming a hugely competitive global industry out there. Thank you.

Felly, os caf fi ddod i ben ar y nodyn calonogol fod y Llywodraeth wedi derbyn yr adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd, rwy'n drist ein bod yn trafod y pwnc hwn yn ddiflino ac rwyf eto i gael fy argyhoeddi fod brand Cymru yn ddigon cydlynol i argyhoeddi'r rhai yn y Siambr hon, heb sôn am gystadlu yn yr hyn sy'n dod yn ddiwydiant byd-eang hynod o gystadleuol. Diolch yn fawr.

15:19

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae gennym ni ddiwydiant twristiaeth cryf iawn yng Nghymru yn barod, wrth gwrs, gwerth rhyw £7 biliwn, bron iawn, yn flynyddol. Mae yna ddatblygiadau diweddar, datblygiadau cyffrous iawn, sy'n rhoi hyder inni ar gyfer y dyfodol. Mi wnaf gymryd y cyfle yma i ymddiheuro wrth Suzy Davies am ei llorio hi ar Bounce Below efo slap i'w gên hi, ymhell dan ddaear ym Mlaenau Ffestiniog. Ond, gobeithio eich bod yn meddwl ei fod o werth o er mwyn gweld yr adnodd ffantastig, ychwanegol yna i dwristiaeth yng Nghymru. Ond, er bod yna gryfder yna'n barod, nid fi, wrth gwrs, yw'r unig yma sy'n teimlo nad ydy'r diwydiant twristaidd yng Nghymru yn cyrraedd ei lawn botensial.

We have a strong tourism industry in Wales already, of course, which is worth almost £7 billion annually. There are recent developments, very exciting developments, that give us confidence for the future. I will take this opportunity to apologise to Suzy Davies for flooring her on Bounce Below with a slap to her jaw, way underground in Blaenau Ffestiniog. But, I hope that you thought that it was worth it to see that fantastic resource, which is a boon to tourism in Wales. Although we do have strength in place already, I'm not the only one here who feels that the tourism industry in Wales isn't reaching its full potential.

Mi allwch chi gael y cynnyrch gorau yn y byd, ond oni bai eich bod chi'n ei farchnata'n iawn, nid ydych chi'n mynd i'w werthu fo. Ar y llaw arall, mi allwch chi gael yr ymgyrch farchnata orau yn y byd, ond oni bai bod eich cynnyrch yn werth ei brynu, wel mae'r gair yn mynd i fynd o gwmpas yn ddigon buan fod pobl yn gwastraffu'u harian ar y cynnyrch hwnnw.

You can have the best product in the world, but unless you market it properly, you are not going to sell it. On the other hand, you can have the finest marketing campaign on earth, but if your product isn't worthwhile, then word is going to get around quickly that people are wasting their money on that particular product.

Felly, mae'r argymhellion yn yr adroddiad yma, rwy'n meddwl, yn taro cydbwysedd da iawn rhwng y ddau beth yna: gwella'r cynnyrch a chryfhau marchnata. O ran gwella'r cynnyrch, mae yna sawl argymhelliad ar wella cydweithio rhwng gwahanol adrannau y Llywodraeth. Rydym yn galw am ddefnyddio cyllid Ewropeaidd i fuddsoddi yn y diwydiant. Rydym yn galw ar Ofcom i sicrhau bod yr isadeiledd ffonau symudol cywir ar gael ar gyfer yr ymwelwyr modern, ac yn y blaen, ac yn y blaen.

Therefore, the recommendations in this report, I believe, strike a very good balance between those two issues: improving the product and improving the marketing. In terms of improving the product, there are a number of recommendations on improving collaboration between various departments within Government. We call for the use of European funding to invest in the industry. We call on Ofcom to ensure that the appropriate mobile phone infrastructure is available to modern tourists, and so on, and so forth.

O ran y marchnata, yn amlwg, rwy'n meddwl yn gyntaf, er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol presennol, mae'n rhaid inni chwilio am ffyrdd i fuddsoddi mwy mewn marchnata Cymru i farchnadoedd tramor. Mi ddywedodd y Dirprwy Weinidog, wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor, fod yna ffyrdd amgen i farchnata Cymru, heb wario arian—ei bod yn bosib defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac ati—ac, wrth gwrs, mae o'n hollol, hollol iawn i ddweud hynny. Ond, cwpwl o funudau'n ddiweddarach yn ystod yr un sesiwn, mi ddywedodd o fod yr Almaen wedi cael ei hadnabod fel marchnad lle y gallwn weld twf mewn ymwelwyr i Gymru, a'i fod o, oherwydd hynny, am roi rhagor o arian i farchnata Cymru yn y farchnad honno. Mae yna gysylltiad amlwg iawn rhwng gwariant ar farchnata a'r hyn y gallwn ei ddisgwyl yn ôl. Nid oeddem ni fel pwyllgor yn gyfforddus o gwbl yn gweld Glasgow fel dinas yn gwario cymaint ar farchnata ag yr ydym ni fel gwlad.

In terms of marketing, clearly, I think that first of all, despite the current financial limitations, we have to seek ways to invest more in marketing Wales to foreign markets. The Deputy Minister, in giving evidence to the committee, stated that there are alternative ways of marketing Wales without having to spend money—that we could use social media and so on—and, of course, he is entirely right in making that point. But, a few minutes later during that same session, he said that Germany had been identified as a market where we could see growth in visitors to Wales, and, because of that, he was going to provide greater funding to market Wales in that particular market. There is a clear link between expenditure on marketing and what we can expect in return. As a committee, we weren't at all comfortable in seeing Glasgow, as a city, spending as much on marketing as we do as a nation.

Mae yna, wrth gwrs, bethau eraill sydd ddim â phris arnyn nhw. Mae Mick Antoniw wedi cyfeirio'n barod at ein methiant ni, a methiant y Llywodraeth, i sicrhau bod gan Gymru y 'clout'. Er enghraifft, o ran VisitBritain, mi ddywedodd Mick Antoniw mor llwm oedd y wefan yna. Fe welsom, wrth fynd ar Google yn ystod yr ymchwiliad i chwilio am wefan VisitBritain, y disgrifiad yma:

Of course, there are other issues that you can't put a price on. Mick Antoniw has already referred to our failure, and the Government's failure, to ensure that Wales has the clout. For example, in terms of VisitBritain, Mick Antoniw said how poor that website was. What we saw, in going on to Google during the inquiry to search for the VisitBritain website, was this description:

'Official UK tourism and places to visit: England, Scotland and Britain'.

Dyma'r corff sydd i fod i roi sylw cyfartal i wahanol wledydd yr ynysoedd yma. Mi wnaeth galwad ffôn neu ddwy i'r lle iawn yn ystod yr ymchwiliad sortio hynny, ac mi newidiwyd hynny. Ond, mi ddylai fod gennym hyder yn y Llywodraeth i fod â'r 'clout' i sicrhau nad ydy'r math yna o beth sylfaenol yn digwydd. Ac os oes camgymeriad sylfaenol, gweledol fel yna'n digwydd, nid yw'n rhoi hyder i bobl yn yr hyn sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni, os liciwch chi, fod Cymru yn cael ei thrin yn gyfartal ac yn cael parch cyfartal wrth werthu'r ynysoedd yma dramor.

This is the organisation that is supposed to be giving equal coverage to the various nations of these isles. A few phone calls to the right place during the inquiry sorted that out, and that was changed. But, we should have confidence in the Government having the clout to ensure that that sort of fundamental issue doesn't occur in the first place. If a fundamental, very obvious mistake like that can happen, it doesn't give people confidence in terms of what's happening behind the scenes, if you like, that Wales is being treated equally and given its due respect when these isles are promoted abroad.

Mae'n rhaid cryfhau y brand. Mae William Graham, fel Cadeirydd y pwyllgor, wedi cyfeirio at un o'r pethau a ddywedodd tyst:

We have to strengthen the brand. William Graham, as committee Chair, has already referred to one of the things said by a witness:

'The Wales tourism brand is almost non existent'.

'Bron nad yw brand twristiaeth Cymru yn bodoli o gwbl'.

Mi ddywedodd un arall:

Another said that:

'Brand Wales is at a tipping point.'

'Mae Brand Cymru ar fin cyrraedd pwynt di-droi'n-ôl.'

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi'r arweiniad yna i sicrhau ein bod yn gwybod yn union beth ydy'r brand rydym am ei werthu ar gyfer Cymru.

The Welsh Government must give that lead to ensure that we know exactly what the brand is that we're trying to sell for Wales.

Mi wnaf gloi efo un pwnc a fu'n destun cryn drafod, sef y teimlad gan aelodau'r pwyllgor nad ydy'r Llywodraeth yn ddigon uchelgeisiol—y targed yma o gynyddu enillion twristiaeth o 10% erbyn 2020. Efallai mai dim ond ni fel pwyllgor sy'n optimistaidd ar gyfer y dyfodol, ond rydym yn gobeithio y bydd hynny'n cael ei adolygu, ac mae addewid, rwy'n meddwl, wedi dod gan y Llywodraeth y byddant yn edrych ar y ffigwr yna eto.

I will conclude with one issue that was discussed widely in committee, and that was the feeling among committee members that the Government isn't ambitious enough—this target of increasing tourism earnings by 10% by 2020. Perhaps we, as a committee, are the only ones who are optimistic for the future, but we do hope that that will be reviewed, and I think that there has been a pledge made by Government that they will review that 10% figure again.

Chair, this is a vital industry. It's one of our three main employers. It's one of our top exports as a nation, too. We've got to get it right. We've got a package of measures as a party that we'd like to see investing in the tourism industry. But, I certainly commend this report as an important weapon in the fight to make sure that we can make more out of our tourism potential.

Gadeirydd, mae hwn yn ddiwydiant hanfodol. Mae'n un o'n tri chyflogwr mwyaf. Mae'n un o'n prif allforion fel cenedl, hefyd. Mae'n rhaid inni ei gael yn iawn. Mae gennym becyn o fesurau fel plaid yr hoffem eu gweld yn cael eu buddsoddi yn y diwydiant twristiaeth. Ond rwy'n sicr yn cymeradwyo'r adroddiad hwn fel arf pwysig yn y frwydr i sicrhau y gallwn wneud mwy o'n potensial twristiaeth.

15:24 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The fact that tourism has been categorised as a key sector to the economy by the Government confirms the wider realm of what we know to be at stake. Against a background of squeezed living standards and austerity, it remains all the more important that our focus on a sector so economically crucial remains steadfast. Amongst the facts is that Wales's tourism generates 13.2% of gross value added and 206,000 jobs, and is one of Wales's three largest employers—figures that are higher in west Wales. Carmarthenshire's 2013 report showed just shy of 6,000 full-time equivalent jobs supported and created by the industry, with an economic impact of between £130 million and £360 million since 2007.

Mae'r ffaith fod twristiaeth wedi cael ei gategoreiddio'n sector allweddol i'r economi gan y Llywodraeth yn cadarnhau pa mor eang yw'r hyn y gwyddom ei fod yn y fantol. Yn erbyn cefndir o wasgu ar safonau byw a mesurau caledi, mae'n parhau'n bwysicach fyth fod ein ffocws yn dal yn gadarn ar sector sydd mor allweddol yn economaidd. Un ffaith yw bod twristiaeth Cymru yn cynhyrchu 13.2% o werth ychwanegol gros a 206,000 o swyddi, ac mae'n un o dri chyflogwr mwyaf Cymru—ffigurau sy'n uwch yng ngorllewin Cymru. Dangosodd adroddiad Sir Gaerfyrddin yn 2013 fod ychydig yn llai na 6,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi cael eu cefnogi a'u creu gan y diwydiant, gydag effaith economaidd o rhwng £130 miliwn a £360 miliwn ers 2007.

I welcome progress made towards the Welsh Labour Government's target of 10%. Perhaps it should be higher, as Rhun has just said, but even against the background of decreasing visits and spending by tourists in other parts of the UK, we are making progress. However, I do also note the committee's call for strengthened support partnerships and cross-ministerial working.

Rwy'n croesawu'r cynnydd a wnaed tuag at darged Llywodraeth Lafur Cymru o 10%. Efallai y dylai fod yn uwch, fel y mae Rhun newydd ei ddweud, ond hyd yn oed yn erbyn cefndir o ostyngiad yn nifer yr ymweliadau a gwariant gan dwristiaid mewn rhannau eraill o'r DU, rydym yn gwneud cynnydd. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn sylwi ar alwad y pwyllgor am gryfhau partneriaethau cymorth a chydweithio rhwng gweinidogion.

Just three points I wish to make: firstly, jobs and training. Issues at stake are the quality of the workers in the industry, ample educational opportunities and the availability of work-based training. In my research, I was pleased to note that University of Wales Trinity St David and Swansea Business School offer five connected Master's courses—campus or online, full or part time. The course content appears strong, and introduces the vocational element needed through industry engagement and personal employment context.

Hoffwn wneud tri phwynt yn unig: yn gyntaf, swyddi a hyfforddiant. Y materion sydd yn y fantol yw ansawdd y gweithwyr yn y diwydiant, digon o gyfleoedd addysgol ac argaeledd hyfforddiant yn y gwaith. Yn fy ymchwil, roeddwn yn falch o nodi bod Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac Ysgol Fusnes Abertawe yn cynnig pum cwrs Meistr cysylltiedig—ar y campws neu ar-lein, amser llawn neu ran-amser. Mae cynnwys y cyrsiau i'w weld yn gryf, ac yn cyflwyno'r elfen alwedigaethol sydd ei hangen drwy ymgysylltiad â'r diwydiant a chyd-destun gwaith personol.

Secondly, local activity. I know of several organisational bodies and partnerships working collaboratively and strategically, for example, our annual tourist summit that brings stakeholders together with industry leaders and expert panels to discuss strategy, branding and best practice, filtering these ideas to SMEs and microbusinesses for which tourism is the difference between success and failure. I've given Kidwelly castle a few more of its almost 3,000 Cadw YouTube hits. We do have a plethora of activities and scenes to offer Wales-wide, yet the best way to promote it is by building up and engaging a technological narrative, which I'm pleased Cadw and the Welsh Government have been doing through Castles and Princes, Castles from the Clouds, and Follow the Romans. The nature of generation Y and its focus on speed and technology inevitably means people want information fast and easily. Historical narratives sell. Not all are within my constituency, so expansion is to be welcomed.

Yn ail, gweithgarwch lleol. Gwn am sawl corff sefydliadol a phartneriaethau sy'n gweithio'n gydweithredol ac yn strategol, er enghraifft ein huwchgynhadledd dwristiaeth flynyddol sy'n dod â rhanddeiliaid i gysylltiad ag arweinwyr yn y diwydiant a phaneli arbenigol i drafod strategaeth, brandio ac arfer gorau, gan hidlo'r syniadau hyn i fusnesau bach a chanolig a microfusnesau, lle y mae twristiaeth yn gwneud y gwahaniaeth rhwng llwyddiant a methiant. Rwyf wedi rhoi ychydig yn rhagor o'i bron i 3,000 o ymweliadau â chastell Cydweli ar YouTube Cadw. Mae gennym lu o weithgareddau a golygfeydd i'w cynnig ledled Cymru gyfan, ac eto, y ffordd orau o'i hyrwyddo yw drwy ddatblygu a defnyddio naratif technolegol, ac rwy'n falch fod Cadw a Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud hynny trwy Cestyll a Thywysogion, Cestyll o'r Cymylau, a Dilynwch y Rhufeiniaid. Mae natur cenhedlaeth Y a'i ffocws ar gyflymder a thechnoleg yn anochel yn golygu bod pobl am gael gwybodaeth yn gyflym ac yn hawdd. Mae naratifau hanesyddol yn gwerthu. Nid yw pob un o fewn fy etholaeth, felly mae'r gwaith o'i ehangu i'w groesawu.

Finally, on branding, I welcome the brand consulting group, commissioned by the Welsh Government. I must emphasise communication of businesses. The offer will vary from north, south, east and west, and that ought to be reflected regionally as well as combined nationally. Use of the 'Wales: the Brand' website, other online resources and conferences strike me as particularly good practice for communicating to large businesses, but also, crucially, those rural-based, small microbusinesses that naturally have more difficulties in sending staff to training events. We can learn from the Irish experience of using the Gaelic language for another unique dimension to brand Wales. Figures show success for Welsh-language brands, notably because they create a USP and tap into locally produced or gourmet markets. I'd like to see this maximised, and an ideas workshop within tourism headquarters on how to achieve and promote it.

Yn olaf, ar frandio, croesawaf y grŵp ymgynghori ar frandiau, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhaid i mi bwysleisio cyfathrebu rhwng busnesau. Bydd y cynnig yn amrywio rhwng y gogledd, y de, y dwyrain a'r gorllewin, a dylai hynny gael ei adlewyrchu yn rhanbarthol, yn ogystal â'i gyfuno'n genedlaethol. Mae'r defnydd o wefan 'Cymru: y Brand', ac adnoddau a chynadleddau ar-lein eraill yn fy nharo'n arfer arbennig o dda ar gyfer cyfathrebu â busnesau mawr, ond hefyd, yn hollbwysig, y microfusnesau bach gwledig yng nghefn gwlad sy'n naturiol yn cael mwy o anhawster i yrru staff i ddigwyddiadau hyfforddi. Gallwn ddysgu o brofiad Iwerddon o ddefnyddio'r Wyddeleg i gael dimensiwn unigryw arall i frand Cymru. Mae'r ffigurau'n dangos llwyddiant brandiau Cymraeg eu hiaith, yn enwedig am eu bod yn creu pwynt gwerthu unigryw ac yn manteisio ar farchnadoedd i gynnyrch lleol neu gourmet. Hoffwn weld manteisio i'r eithaf ar hyn, a gweithdy syniadau yn y pencadlysoedd twristiaeth ar sut i'w gyflawni a'i hyrwyddo.

Finally, I'm very glad that the Government accepts almost all of the recommendations of the committee. Thank you.

Yn olaf, rwy'n falch iawn bod y Llywodraeth yn derbyn bron bob un o argymhellion y pwyllgor. Diolch yn fawr.

15:28

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The importance of tourism has been well explored by the Members, but with specific reference to Wales, I think its relative value is all the greater, because it can act as a great leveller for us. The peripherality of Wales in terms of Europe as a whole, but also our dispersed population, is a really major challenge for the Welsh economy, and tourism is one of those few industries that can deliver jobs in the remotest places—in fact, actually, where a remote and beautiful location is positively a key selling point. But, the flipside of that is that those jobs can often be temporary, seasonal in nature, low-skilled and very low-paid as well. So, for me, when looking at the tourism industry, it's not only a question of how many people come, and how much money they spend when they get here, although of course those things are very important; it's also about how, in the long term, we need to improve the structure of the industry to not only bring those higher value visitors, but also the higher skills and more highly valued jobs, as well.

Mae pwysigrwydd twristiaeth wedi cael ei archwilio'n drylwyr gan yr Aelodau, ond gan gyfeirio'n benodol at Gymru, rwy'n meddwl bod ei gwerth cymharol hyd yn oed yn fwy, oherwydd gall weithredu fel lefelwr mawr i ni. Mae natur ymylol Cymru mewn perthynas ag Ewrop yn gyffredinol, a hefyd ein poblogaeth wasgaredig, yn her wirioneddol fawr i economi Cymru, ac mae twristiaeth yn un o'r ychydig ddiwydiannau sy'n gallu darparu swyddi yn y mannau mwyaf anghysbell—a dweud y gwir, mewn mannau lle y mae lleoliad anghysbell a hardd yn bwynt gwerthu allweddol cadarnhaol. Ond ochr arall y geiniog yw y gall y swyddi hynny'n aml fod yn rhai dros dro, yn dymhorol o ran eu natur, neu'n rhai nad ydynt yn galw am lawer o sgiliau na'n cynnig llawer o gyflog. Felly, i mi, wrth edrych ar y diwydiant twristiaeth, nid mater o faint o bobl sy'n dod a faint o arian y maent yn ei wario yn unig ydyw, er bod y pethau hynny'n bwysig iawn wrth gwrs; mae'n ymwneud hefyd â sut y mae angen i ni wella strwythur y diwydiant yn hirdymor, nid yn unig er mwyn denu ymwelwyr gwerth uwch, ond hefyd y sgiliau uwch a swyddi sy'n talu'n well, yn ogystal.

To do that, I think we need to understand the market a little better. The issue of data and information was one that was raised by the industry in our inquiry. We often have some data, but we haven't really drilled into those data for useful information that the industry can use. To give you an example, one of the figures quoted in the Welsh Government's response to the committee was that, year on year, between the first six months of 2013 and 2014, there was a 21% increase in visitors to Wales, which is wonderful news, but there was only a 1% increase in expenditure. It inspires the question: well, why aren't those figures similar? Why aren't they tracking the expenditure to the visitor numbers? We have to ask ourselves those deeper questions, you know.

I wneud hynny, rwy'n credu bod angen inni ddeall y farchnad ychydig yn well. Roedd mater data a gwybodaeth yn un a godwyd gan y diwydiant yn ein hymchwiliad. Mae gennym ddata'n aml, ond nid ydym wedi tyrchu i'r data hwnnw mewn gwirionedd i gael gafael ar wybodaeth ddefnyddiol y gallai'r diwydiant wneud defnydd ohoni. I roi enghraifft i chi, un o'r ffigurau a ddyfynnwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyllgor oedd bod cynnydd wedi bod o un flwyddyn i'r llall rhwng chwe mis cyntaf 2013 a 2014 yn nifer yr ymwelwyr â Chymru, sy'n newyddion gwych, ond cynnydd o 1% yn unig a gafwyd yn y gwariant. Mae'n gwneud i ni ofyn: wel, pam nad yw'r ffigurau'n debyg? Pam nad ydynt yn olrhain y gwariant yn ôl nifer yr ymwelwyr? Mae'n rhaid inni ofyn y cwestiynau dyfnach hyn, wyddoch chi.

Is it that the overseas visitors are not staying in Wales? Are they just popping over the border as part of a tour that, basically, stays in England and spends most of its value in England for most of the time? And how can we ensure that they come here for longer? If we know that, we can start to formulate plans accordingly. We can start to work with those tour operators who are doing these guided tours and say to them, 'Actually, the castles of Wales are worth two days of your time here: you need to stay here, you need to spend here, you need to show people the history and the heritage that we have.'

Ai'r rheswm yw'r ffaith nad yw ymwelwyr tramor yn aros yng Nghymru? A ydynt yn picio dros y ffin fel rhan o daith sydd, yn y bôn, yn aros yn Lloegr ac yn gwario'r rhan fwyaf o'i harian yn Lloegr am y rhan fwyaf o'r amser? A sut y gallwn sicrhau eu bod yn dod yma am fwy o amser? Os ydym yn gwybod hynny, gallwn ddechrau llunio cynlluniau yn unol â hynny. Gallwn ddechrau gweithio gyda'r cwmnïau teithio sy'n cynnig y teithiau tywys hyn a dweud wrthynt, "A dweud y gwir, mae cestyll Cymru yn werth dau ddiwrnod o'ch amser yma: mae angen i chi aros yma, mae angen i chi wario yma, mae angen i chi ddangos yr hanes a'r dreftadaeth sydd gennym i bobl.'

With that more nuanced understanding of what the problem is, in terms of that expenditure, I think we can start thinking about how we can improve the development of those year-round visitors, who we want to attract, and the kind of niche market development that is going to support the higher-value jobs that I've been talking about. And also to understand, of course, what training is going to be needed, and what perhaps financial support is going to be needed to encourage entrepreneurs to set up these new, niche businesses. Because we have some wonderful niche businesses all over Wales in the tourism industry. They're thriving, but we could also, obviously, encourage more.

Gyda dealltwriaeth fwy trylwyr o'r fath o natur y broblem, o ran y gwariant hwnnw, rwy'n meddwl y gallwn ddechrau meddwl sut y gallwn wella datblygiad o ran yr ymwelwyr rydym yn awyddus i'w denu drwy gydol y flwyddyn, a'r math o waith datblygu marchnadoedd arbenigol sy'n mynd i gefnogi'r swyddi gwerth uwch y soniais amdanynt. A deall hefyd, wrth gwrs, pa hyfforddiant fydd ei angen, ac o bosibl, pa gymorth ariannol fydd ei angen i annog entrepreneuriaid i sefydlu'r busnesau newydd, arbenigol hyn. Oherwydd mae gennym fusnesau arbenigol gwych ar hyd a lled Cymru yn y diwydiant twristiaeth. Maent yn ffynnu, ond mae'n amlwg y gallem hefyd annog mwy ohonynt.

One way in which we could assist the tourism industry in Wales—and I hope, Deputy Minister, you'll agree with me—is looking at a VAT cut on accommodation and attractions to 5%. There are calls to look at this; it's something that many European nations do. Now, clearly, this is not something that's in the Welsh Government's control, but I hope that you would join with me in lobbying the UK Government to look at this, because, over a period of 10 years, studies show that it could create 80,000 jobs and generate £2.6 billion extra for the Treasury, and, as I say, it's not something that's against European rules.

Un ffordd y gallem helpu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru—ac rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno â mi, Ddirprwy Weinidog—yw ystyried torri TAW ar lety ac atyniadau i 5%. Mae yna alwadau arnom i edrych ar hyn; mae'n rhywbeth y mae llawer o wledydd Ewropeaidd yn ei wneud. Yn awr, mae'n amlwg nad yw hyn yn rhywbeth sydd o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru, ond rwy'n gobeithio y byddech yn ymuno â mi i lobïo Llywodraeth y DU i edrych ar hyn, oherwydd dros gyfnod o 10 mlynedd, dengys astudiaethau y gallai greu 80,000 o swyddi a chynhyrchu £ 2.6 biliwn yn ychwanegol i'r Trysorlys, ac fel y dywedais, nid yw'n rhywbeth sy'n mynd yn erbyn rheolau Ewropeaidd.

Finally, on recommendation 10, we focused on last year's centenary of the birth of Dylan Thomas, and a great success story, in many ways, that was. We are, of course, proud of our famous sons. There is another famous son who I am particularly proud of, representing Cardiff and our local region, and that's, of course, Roald Dahl. The centenary of his birth is next year, and I hope it's something that the Welsh Government and Cardiff Council will really work proactively to achieve. Because, you know, Roald Dahl to me, and to many others, is the greatest children's author of all time. He was born right here in Cardiff, he was christened in the Norwegian Church, right outside this building, and, yes, we've named a plaza for him, but how sad it is that we don't have a way really of reflecting that wicked, irreverent sense of humour that characterises his literature, and that we all engaged with as children. Cardiff has changed, of course, over all of those years. With his home, it's not so much a case of hiding a light under a bushel, but a blue plaque under a rose bush, and the sweet shop in 'Boy' is no longer a sweet shop; sadly, it's now a chip shop in Llandaff village, but I can assure you, Deputy Minister, it's still as full of children at lunchtime as I think it ever was.

Yn olaf, ar argymhelliad 10, fe ganolbwyntion ni y llynedd ar ganmlwyddiant geni Dylan Thomas, ac roedd hynny'n llwyddiant mawr mewn sawl ffordd. Rydym yn falch iawn o'n meibion enwog wrth gwrs. Mae gennym fab arall enwog rwy'n arbennig o falch ohono, sy'n cynrychioli Caerdydd a'n rhanbarth lleol, sef Roald Dahl wrth gwrs. Mae canmlwyddiant ei eni y flwyddyn nesaf, ac rwy'n gobeithio y bydd yn rhywbeth y bydd Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd yn gweithio'n rhagweithiol yn wir i'w gyflawni. Oherwydd, wyddoch chi, Roald Dahl i mi, ac i lawer o bobl eraill, yw'r awdur plant mwyaf a fu erioed. Cafodd ei eni yma yng Nghaerdydd, a'i fedyddio yn yr Eglwys Norwyaidd, yn union y tu allan i'r adeilad hwn, ac rydym wedi enwi sgwâr ar ei ôl, ond mae hi mor drist nad oes gennym ffordd go iawn o adlewyrchu'r synnwyr digrifwch drygionus ac amharchus sy'n nodweddu ei lenyddiaeth, ac a oedd mor atyniadol inni fel plant. Mae Caerdydd wedi newid, wrth gwrs, dros yr holl flynyddoedd. O ran ei gartref, nid yw'n fater o guddio golau dan lestr, yn gymaint â chuddio plac glas o dan lwyn rhosyn, ac nid yw'r siop losin yn 'Boy' bellach yn siop losin; yn anffodus, mae bellach yn siop sglodion ym mhentref Llandaf, ond gallaf eich sicrhau, Ddirprwy Weinidog, mae'n dal i fod mor llawn o blant amser cinio ag y bu erioed, rwy'n credu.

But isn't this centenary a wonderful opportunity to celebrate that immense contribution to children's literature? Let's have a festival, and let's see what we can do with that. And, in the long term, let's work with people like the Heritage Lottery Fund. Why don't we have a museum dedicated to children's literature, celebrating Roald Dahl, right here in Cardiff? What a wonderful attraction something like that could be for us here in Wales.

Ond onid yw'r canmlwyddiant yn gyfle gwych i ddathlu'r cyfraniad aruthrol hwnnw i lenyddiaeth plant? Gadewch i ni gael gŵyl, a gadewch inni weld beth y gallwn ei wneud â hynny. Ac yn y tymor hir, gadewch inni weithio gyda phobl fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Pam nad oes gennym amgueddfa arbennig ar gyfer llenyddiaeth plant, yn dathlu Roald Dahl, yma yng Nghaerdydd? Am atyniad rhyfeddol fyddai rhywbeth fel hynny yma yng Nghymru.

15:33

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Could I also thank the committee, and its support team, for their work on this inquiry? As well as new evidence, it confirms some of the concerns that I, as opposition spokesperson, have been hearing from within the tourism industry since I became an Assembly Member, and even before that. So, I do welcome the Government's positive response to the report.

A gaf fi hefyd ddiolch i'r pwyllgor, a'i dîm cymorth, am eu gwaith ar yr ymchwiliad hwn? Yn ogystal â thystiolaeth newydd, mae'n cadarnhau rhai o'r pryderon rwyf fi, fel llefarydd yr wrthblaid, wedi bod yn eu clywed o'r diwydiant twristiaeth ers imi ddod yn Aelod o'r Cynulliad, a hyd yn oed cyn hynny. Felly, rwy'n croesawu ymateb cadarnhaol y Llywodraeth i'r adroddiad.

Now, even though I don't sit on this committee routinely, I was able to do so for some of the evidence sessions this time, and I have to say that going out of this building and meeting with a variety of businesses across Wales was not only bouncy, on one particular occasion, but particularly insightful. There was some very frank evidence given by the more obvious representatives of the industry, but also, in the course of the inquiry, by other witnesses, whose primary purpose may not have seemed, at first glance, to have had much to do with tourism. But it did become clear, in the course of discussion, how important to them the visitor economy was. I mean, the Government's own figures estimate that over 200,000 jobs rely on tourism, but, with perhaps a broader definition of visitor economy, I suspect it's more than that. And that's why strategic decision makers—in this case, the Welsh Government—must consider what it actually means when it says that it consults with industry.

Yn awr, er nad wyf yn aelod o'r pwyllgor hwn fel mater o drefn, roeddwn yn gallu gwneud hynny ar gyfer rhai o'r sesiynau tystiolaeth y tro hwn, ac mae'n rhaid imi ddweud bod mynd allan o'r adeilad hwn a chyfarfod ag amrywiaeth o fusnesau ledled Cymru nid yn unig yn brofiad sbonciog, ar un achlysur penodol, ond yn un arbennig o addysgiadol yn ogystal. Rhoddwyd tystiolaeth onest iawn gan gynrychiolwyr mwy amlwg y diwydiant, ond hefyd, yn ystod yr ymchwiliad, gan dystion eraill, er nad oedd eu prif ddiben i'w weld ar yr olwg gyntaf efallai â llawer i'w wneud â thwristiaeth. Ond daeth yn glir, yn ystod y drafodaeth, pa mor bwysig oedd yr economi ymwelwyr iddynt hwy. Hynny yw, mae ffigurau'r Llywodraeth ei hun yn amcangyfrif bod dros 200,000 o swyddi yn dibynnu ar dwristiaeth, ond gyda diffiniad ehangach o'r economi ymwelwyr o bosibl, rwy'n amau ei fod yn fwy na hynny. A dyna pam y mae'n rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau strategol—Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn—ystyried yr hyn y mae'n ei olygu mewn gwirionedd pan fydd yn dweud eu bod yn ymgynghori â'r diwydiant.

Now, I have made the point in this Chamber before that significant numbers of tourism practitioners were unhappy about the consultation that informed 'Partnership for Growth', and, in response, the Welsh Conservatives have launched our Wales-wide consultation with wider industry to allow points of view, including on branding, and dismissed by Government, to be aired and, hopefully, Deputy Minister, acted upon. That survey is available online at www.yourvoiceintheassembly.co.uk. I urge all Members to publicise that survey in constituencies and regions and its findings will, I hope, be of interest to the Deputy Minister, and, indeed, the committee.

Yn awr, rwyf wedi gwneud y pwynt yn y Siambr hon o'r blaen fod niferoedd sylweddol o weithredwyr twristiaeth yn anhapus ynglŷn â'r ymgynghoriad a oedd yn sail i 'Partneriaeth ar gyfer Twf', ac yn eu hymateb, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi lansio ein hymgynghoriad ar gyfer Cymru gyfan gyda'r diwydiant ehangach er mwyn caniatáu i safbwyntiau, gan gynnwys ar frandio, a ddiystyrwyd gan y Llywodraeth, i gael eu gwyntyllu a gobeithio, Ddirprwy Weinidog, y gweithredir arnynt. Mae'r arolwg ar gael ar-lein yn www.yourvoiceintheassembly.co.uk. Rwy'n annog pob Aelod i roi cyhoeddusrwydd i'r arolwg yn eu hetholaethau a'u rhanbarthau a bydd ei ganfyddiadau, rwy'n gobeithio, o ddiddordeb i'r Dirprwy Weinidog, ac i'r pwyllgor yn wir.

I am very pleased to see that the Deputy Minister has accepted the committee's various recommendations, actually, on data sharing and communicating more effectively with the industry. I think perhaps a gesture of good faith would be to perhaps make the Ashton branding report public, for example. The private sector has very strong views on how it expects further communication to unfold, and, while making no criticism at all of the individuals on the tourism advisory panel, for example, being hand-picked by the Minister rather than nominated by say, tourism councils, it does give rise to the idea that you, Deputy Minister, are being shielded—and it is a perception—from constructive criticism about the role and performance of Visit Wales.

Rwy'n falch iawn o weld bod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn nifer o argymhellion y pwyllgor, mewn gwirionedd, ar rannu data a chyfathrebu yn fwy effeithiol â'r diwydiant. Rwy'n meddwl efallai mai un arwydd o ewyllys da o bosibl fyddai cyhoeddi adroddiad brandio Ashton, er enghraifft. Mae gan y sector preifat safbwyntiau cryf iawn ar sut y mae'n disgwyl i gyfathrebu pellach ddatblygu, a heb feirniadu'r holl unigolion ar y panel cynghori ar dwristiaeth o gwbl, er enghraifft, am gael eu dewis gan y Gweinidog yn hytrach na'u henwebu gan y cynghorau twristiaeth, dyweder, mae'n creu'r syniad eich bod chi, Ddirprwy Weinidog, yn cael eich gwarchod—ac mae'n ganfyddiad—rhag beirniadaeth adeiladol ynglŷn â rôl a pherfformiad Croeso Cymru.

Now, something that has surprised everyone I've spoken to about the channels of communication is the fact that they can speak directly to Visit Wales or Cadw officials and I can't. They find the idea of a potential broker of negotiation and sharer of information not being allowed at the table most baffling. Understandably so when I can speak to, say, Natural Resources Wales, Finance Wales or any other number of Government agencies with which I might be asked to take up an issue on behalf of constituents or, indeed, tourism providers. We are where we are with Visit Wales and Cadw being part of the Executive for now, and, in that environment, I'm pleased that the responsibility for both now is clearly in the hands of one individual—yourself, Deputy Minister—and being viewed through the lens of economic development. So, I'm encouraged by your response to recommendation 5 and recommendations 2, 6, 16, 17 and 18 in particular—a position reinforced by your responses to questions on yesterday's heritage statement. We will be following your progress on that aim with positive expectations.

Yn awr, rhywbeth sydd wedi synnu pawb y siaradais â hwy am y sianeli cyfathrebu yw'r ffaith y gallant siarad yn uniongyrchol â swyddogion Croeso Cymru neu Cadw ac ni allaf fi wneud hynny. Maent yn teimlo bod y syniad nad yw brocer posibl o ran trafod a rhannu gwybodaeth yn cael caniatâd i ddod at y bwrdd yn ddryslyd ar y naw. Mae hynny'n ddealladwy a minnau'n cael siarad â Cyfoeth Naturiol Cymru, dyweder, neu Cyllid Cymru, neu unrhyw rai eraill o asiantaethau'r Llywodraeth y gallai fod gofyn i mi drafod â hwy ar ran etholwyr, neu'n wir, darparwyr twristiaeth. Rydym yn y sefyllfa rydym ynddi gyda Croeso Cymru a Cadw yn rhan o'r Weithrediaeth am y tro, ac mewn amgylchedd o'r fath, rwy'n falch fod y cyfrifoldeb dros y ddau bellach yn amlwg yn nwylo un unigolyn—eich rhai chi, Ddirprwy Weinidog—ac yn cael eu gweld drwy lens datblygu economaidd. Felly, rwy'n cael fy annog gan eich ymateb i argymhelliad 5 ac argymhellion 2, 6, 16, 17 a 18 yn benodol—safbwynt a atgyfnerthwyd gan eich ymatebion i gwestiynau ar y datganiad treftadaeth ddoe. Byddwn yn dilyn eich cynnydd ar y nod hwnnw gyda disgwyliadau cadarnhaol.

Just briefly, on two further points, on the relationship between Visit Wales and VisitBritain, I think there have clearly been weaknesses on both sides, but I was encouraged by VisitBritain's speedy response to the criticism levelled at it, but I'm still confused as to why it took 18 months for Visit Wales to get a secondment to VisitBritain and also Visit Wales's failure to take advantage of the GREAT campaign, which is actually referenced in the recommendations, at the time of the London Olympics. I hope that the transfer of immediate responsibility for tourism to you, Deputy Minister, may improve the effectiveness of that relationship.

Yn fyr, ar ddau bwynt pellach, ar y berthynas rhwng Croeso Cymru a VisitBritain, rwy'n meddwl bod yna wendidau clir wedi bod ar y ddwy ochr, cefais fy nghalonogi gan ymateb cyflym VisitBritain i'r feirniadaeth a anelwyd tuag ato, ond rwy'n dal yn ddryslyd pam ei bod wedi cymryd 18 mis i Croeso Cymru gael secondiad i VisitBritain a methiant Croeso Cymru i fanteisio ar yr ymgyrch GREAT, sy'n cael sylw yn yr argymhellion mewn gwirionedd, adeg Gemau Olympaidd Llundain. Gobeithio y bydd trosglwyddo cyfrifoldeb dros dwristiaeth yn uniongyrchol i chi, Ddirprwy Weinidog, yn gwella effeithiolrwydd y berthynas honno.

On the tourism investment support scheme, I do challenge your assertion that the £20 million that you say is spent on tourism primarily supports this scheme. You know that funding to approve projects has halved since 2011-12 to under £1.5 million this year, so it's hardly a majority of the budget. A Government statement on its future—and I hope you will commit to that today—would be very helpful, and, in view of some of the very generous six-figure support for some businesses, I would be grateful if you'd report on the recuperation of part of those grants, and where the recovered moneys go, along with the details of business achievements as measured against the approved business case. Thank you very much.

Ar y cynllun cymorth ar gyfer buddsoddi mewn twristiaeth, rwy'n herio eich honiad bod yr £20 miliwn y dywedwch sy'n cael ei wario ar dwristiaeth yn cefnogi'r cynllun hwn gan mwyaf. Fe wyddoch fod cyllid i gymeradwyo prosiectau wedi haneru ers 2011-12 i lai na £1.5 miliwn y flwyddyn hon, felly prin ei fod yn fwyafswm o'r gyllideb. Byddai datganiad gan y Llywodraeth am ei ddyfodol—gobeithiaf y byddwch yn ymrwymo i hynny heddiw—yn ddefnyddiol iawn, ac o ystyried peth o'r gefnogaeth chwe ffigur hael iawn i rai busnesau, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn adrodd ar y gwaith o adfer rhan o'r grantiau hynny, ac i ble mae'r arian a adferwyd yn mynd, ynghyd â manylion am gyflawniadau busnes fel y'u mesurir yn erbyn yr achos busnes a gymeradwywyd. Diolch yn fawr iawn.

15:39 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I remember at the time of the foot and mouth crisis, and it was indeed a terrible time, coming to understand just how much tourism means to mid and west Wales. Suddenly, the knock-on effects and the connections between every corner of the local economy became crystal clear. It's a lesson I've not forgotten. In mid and west Wales especially, tourism is about survival, not just branding. It's also about confidence. Tourism campaigns are, like a job interview, where you've really got to sell yourself. As a country, we've grown in confidence and that has translated to greater confidence in selling Wales to the rest of Britain and the rest of the world. The report does reflect that, and I'm pleased that the Government has responded so positively and constructively to the committee's 28 recommendations.

Ar adeg argyfwng clwy'r traed a'r genau, a oedd yn amser ofnadwy yn wir, rwy'n cofio dod i ddeall yn union cymaint y mae twristiaeth yn ei olygu i ganolbarth a gorllewin Cymru. Yn sydyn, daeth effeithiau canlyniadol a'r cysylltiadau rhwng pob congl o'r economi leol yn glir fel gwydr. Mae'n wers nad wyf wedi ei hanghofio. Yng nghanolbarth a gorllewin Cymru yn arbennig, mae twristiaeth yn ymwneud â goroesi, nid â brandio'n unig. Mae'n ymwneud hefyd â hyder. Mae ymgyrchoedd twristiaeth yn debyg i gyfweliadau am swyddi, lle y mae'n rhaid i chi werthu eich hun o ddifrif. Fel gwlad, rydym wedi tyfu o ran hyder ac mae hynny wedi trosi'n fwy o hyder wrth werthu Cymru i weddill Prydain a gweddill y byd. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu hynny, ac rwy'n falch fod y Llywodraeth wedi ymateb mor gadarnhaol ac adeiladol tuag at 28 argymhelliad y pwyllgor.

Looking ahead, the report signposts where we can further develop our pitch to a new and emerging tourism market, for example, activity and wildlife tourism.

Gan edrych ymlaen, mae'r adroddiad yn cyfeirio at ble y gallwn ddatblygu ein hachos ymhellach i farchnadoedd twristiaeth newydd sy'n datblygu, er enghraifft twristiaeth gweithgareddau a bywyd gwyllt.

'Infinite riches in a little room'—now, that's a good description of what Wales has to offer the world. Yesterday, the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism outlined new plans to protect our past with a law to better care for our historic environment. That is significant; our historic sites are one of Wales's biggest draws. But if Wales is the overarching brand, we must also continue to strengthen the regional brands below that, and tap into the trend for, if you like, tailored tourism. We live in an atomised age, and, by that, I mean people will pursue their own special interests. The tourism industry must not get left behind in that respect.

'Neuadd fawr mewn cyfyng furiau'—yn awr, mae hwnnw'n ddisgrifiad da o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig i'r byd. Ddoe, amlinellodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth gynlluniau newydd i ddiogelu ein gorffennol gyda chyfraith i ofalu am ein hamgylchedd hanesyddol yn well. Mae hynny'n arwyddocaol; ein safleoedd hanesyddol yw un o atyniadau mwyaf Cymru. Ond os mai Cymru yw'r brand cyffredinol, mae'n rhaid inni hefyd barhau i gryfhau'r brandiau rhanbarthol islaw hynny, a manteisio ar y duedd, os mynnwch, i deilwra twristiaeth. Rydym yn byw mewn oes ddarniog, ac wrth hynny, yr hyn rwy'n ei olygu yw y bydd pobl yn dilyn eu diddordebau arbennig eu hunain. Ni ddylai'r diwydiant twristiaeth gael ei adael ar ôl yn hynny o beth.

Our domestic market remains the most important, and the news here is good. Overnight stays by British residents went up nearly 5% between 2013 and 2014, and spending was up 4%. In terms of overseas visitors, I was very interested to learn from the Government's response to the report that figures from the Office for National Statistics' international passenger survey for the first half of last year did show a 21% increase compared with the same period in 2013. So, the graph here is heading in the right direction. As we would expect, there is room for improvement. There was broad support throughout our evidence session for the support of Government and the management of Visit Wales.

Ein marchnad ddomestig yw'r bwysicaf o hyd, ac mae'r newyddion yn dda yn hyn o beth. Cododd niferoedd preswylwyr o Brydain sy'n aros dros nos bron i 5% rhwng 2013 a 2014, a chododd y gwariant 4%. O ran ymwelwyr tramor, roeddwn yn awyddus iawn i ddysgu o ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad fod ffigurau o arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar deithwyr rhyngwladol ar gyfer hanner cyntaf y llynedd yn dangos cynnydd o 21% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2013. Felly, mae'r graff yma'n anelu i'r cyfeiriad cywir. Fel y byddem yn ei ddisgwyl, mae lle i wella. Cafwyd cefnogaeth eang drwy gydol ein sesiwn dystiolaeth i gymorth gan y Llywodraeth a rheolaeth gan Croeso Cymru.

Turning briefly to the recommendations, 16 to 18 include the challenge for every organisation to communicate better. I am pleased that Visit Wales and the tourism industry recognise the need for better lines of communication. Visit Wales and other tourist organisations should always be in partnership and never competition. The website ought to be a means of resource, not simply an end in itself. The Minister has urged acceptance of these recommendations, and has accepted that communications can be improved. In that way, we promote partnership and co-operation, and that way success lies.

Gan droi yn fyr at yr argymhellion, mae 16 i 18 yn cynnwys yr her i bob sefydliad gyfathrebu'n well. Rwy'n falch bod Croeso Cymru a'r diwydiant twristiaeth yn cydnabod yr angen am gyfathrebu gwell. Dylai Croeso Cymru a sefydliadau twristaidd eraill fod mewn partneriaeth bob amser a pheidio â chystadlu â'i gilydd byth. Dylai'r wefan fod yn adnodd, nid yn nod ynddo'i hun. Mae'r Gweinidog wedi annog derbyn yr argymhellion hyn, ac wedi derbyn y gellid gwella cyfathrebu. Yn y ffordd honno, rydym yn hyrwyddo partneriaeth a chydweithrediad, a dyna sut y mae llwyddo.

15:42 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I remember the initial discussions around whether to transfer the tourism brief to the Enterprise and Business Committee in the review of committees. It seemed a logical decision at the time, given the ministerial responsibility—now deputy ministerial responsibility. I do think that this report has justified that decision and provided some interesting pointers for the future direction of tourism policy.

Rwy'n cofio'r trafodaethau cychwynnol ynglŷn ag a ddylid trosglwyddo'r briff twristiaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes yn yr adolygiad o'r pwyllgorau. Ymddangosai'n benderfyniad rhesymegol ar y pryd, o ystyried y cyfrifoldeb gweinidogol—cyfrifoldeb y dirprwy weinidog yn awr. Rwy'n meddwl bod yr adroddiad hwn wedi cyfiawnhau'r penderfyniad ac wedi rhoi rhai awgrymiadau diddorol ar gyfeiriad polisi twristiaeth yn y dyfodol.

Recommendation 1 highlights the need, as many Members—all Members—have said, for a strong, cohesive Welsh tourism brand. I don't propose to say much on this, because other Members have covered this effectively, other than to agree, once again, with Joyce Watson—I don't know what's going on today there; I should be worried, maybe. You were the only Member to mention tailored tourism, which my ears pricked up at; I agree with you on that, and, you know, what is a Welsh brand? I agree with what you said, Joyce, in that a Welsh brand, if it's going to really work properly, should build on smaller brand blocks, if you like, that exist across Wales and you would expect in a diverse country; there isn't really one size that fits all.

Mae argymhelliad 1 yn tynnu sylw at yr angen, fel y mae llawer o Aelodau—pob Aelod—wedi dweud, i gael brand twristiaeth cydlynol a chryf i Gymru. Nid wyf yn bwriadu dweud llawer am hyn, am fod Aelodau eraill wedi cyfeirio'n effeithiol ato, ar wahân i gytuno, unwaith eto, gyda Joyce Watson—nis gwn beth sy'n digwydd heddiw o ran hynny; efallai y dylwn boeni. Chi oedd yr unig Aelod i sôn am dwristiaeth wedi'i theilwra, a chododd fy nghlustiau wrth glywed hynny; rwy'n cytuno â chi ar hynny, a wyddoch chi, beth yw brand Cymreig? Cytunaf â'r hyn a ddywedoch, Joyce, gan y dylai brand Cymreig, os yw'n mynd i weithio'n wirioneddol dda, adeiladu ar flociau o frandiau llai, os mynnwch, sy'n bodoli ledled Cymru, fel y byddech yn ei ddisgwyl mewn gwlad amrywiol; nid oes y fath beth ag un maint sy'n addas i bawb.

It was interesting reading some of the criticisms in the bulk of the report on Visit Wales's current advertising approach, including the 'Have you packed for Wales?' campaign. One criticism that I read was that the tv ads are not promoting Wales's uniqueness—other areas are just as good for things like mountain biking, dolphins and ruined castles. Well, okay, on biking and dolphin watching, if that takes your fancy, you probably can do that in many other places in the UK, but I do take issue with the second part, and agree with Mick Antoniw, Keith Davies and Eluned Parrott, that Wales's castles are a fantastic asset, not just in terms of their architecture but what they demonstrate about the Welsh character, as well, that required so many fortifications by different invaders to try to subdue us.

Roedd yn ddiddorol darllen rhai o'r beirniadaethau ym mhrif ran yr adroddiad ar ddull hysbysebu cyfredol Croeso Cymru, gan gynnwys yr ymgyrch 'A ydych chi wedi pacio ar gyfer Cymru?'. Un feirniadaeth a ddarllenais oedd nad oedd yr hysbysebion teledu yn hyrwyddo natur unigryw Cymru—mae ardaloedd eraill lawn cystal ar gyfer pethau fel beicio mynydd, dolffiniaid ac adfeilion cestyll. Wel, iawn, o ran beicio a gwylio dolffiniaid, os yw hynny'n mynd â'ch bryd, mae'n debyg y gallech wneud hynny mewn llawer o leoedd eraill yn y DU, ond rwy'n anghytuno â'r ail ran, ac yn cytuno â Mick Antoniw, Keith Davies ac Eluned Parrott fod cestyll Cymru yn ased gwych, nid yn unig o ran eu pensaernïaeth, ond yr hyn y maent yn ei ddangos am y cymeriad Cymreig hefyd, a oedd yn galw am gymaint o amddiffynfeydd gan wahanol oresgynwyr i geisio ein darostwng.

My own area of Monmouthshire is particularly blessed in this regard—not with invaders; I mean, with an estimated 26 castle sites, and a number of Roman fortress sites as well. Monmouthshire's emblem is, in fact, a castellated M, a sign of the importance of castles as part of the identity of my county and a selling point to tourists. The Welsh Government's branding should certainly take advantage of the best practice in different parts of Wales and build on that branding.

Mae fy ardal i, sef Sir Fynwy, yn arbennig o ffodus yn hyn o beth—nid o ran y goresgynwyr; yr hyn rwy'n ei olygu yw'r tua 26 o gestyll, a nifer o geiri Rhufeinig hefyd. Arwyddlun Sir Fynwy mewn gwirionedd, yw M castellog, arwydd o bwysigrwydd cestyll fel rhan o hunaniaeth fy sir a phwynt gwerthu i dwristiaid. Yn sicr, dylai gwaith brandio Llywodraeth Cymru fanteisio ar yr arfer gorau mewn gwahanol rannau o Gymru ac adeiladu ar frandio o'r fath.

Data—I think, again, Joyce Watson mentioned data. Only this morning in Finance Committee, we heard of the ongoing problems with data collection in the area of complaints to the Public Services Ombudsman for Wales. Insufficient data affects many areas and this area before us today, too, so I was pleased to see recommendation 26 calling on the Welsh Government to improve the transparency of information. It is very difficult currently to see how funding here compares with funding across the border.

Data—rwy'n credu, unwaith eto, fod Joyce Watson wedi crybwyll data. Mor ddiweddar â'r bore yma yn y Pwyllgor Cyllid, clywsom am y problemau parhaus gyda chasglu data ar gwynion i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae data annigonol yn effeithio ar sawl maes yn cynnwys y maes hwn heddiw hefyd, felly roeddwn yn falch o weld argymhelliad 26 yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella tryloywder gwybodaeth. Mae'n anodd iawn gweld ar hyn o bryd sut y mae cyllido yma yn cymharu gyda chyllido dros y ffin.

Can I say, on the issue of the border, I think there is an opportunity, not just to advertise Wales to the world, but also, as other Members have said, to the people living closer to home? The Minister often tells us she's very conscious of her 'porous border' with England. That lengthy border, relative to the size of Wales, does provide an opportunity for border tourism, where we can do more to attract the large number of people living in close proximity to the border to hop over it to another country with a lot to offer and come here and visit us.

A gaf fi ddweud, ar fater y ffin, rwy'n credu bod cyfle, nid yn unig i hysbysebu Cymru i'r byd, ond hefyd, fel y mae Aelodau eraill wedi'i ddweud, i'r bobl sy'n byw yn nes adref? Mae'r Gweinidog yn aml yn dweud wrthym ei bod hi'n ymwybodol iawn o'r 'ffin hydraidd' â Lloegr. Mae'r ffin hir honno, o gymharu â maint Cymru, yn rhoi cyfle i hybu twristiaeth y ffin, lle y gallwn wneud mwy i ddenu'r nifer fawr o bobl sy'n byw yn agos at y ffin i gamu drosodd i wlad arall gyda llawer i'w gynnig ac i ddod yma i ymweld â ni.

15:46

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to make a few points on tourism. I think most people would agree that we are very fortunate in Wales in terms of the beauty of the country and the wonderful outdoors that we have, and that rightly features in the committee report. It's a great strength for our tourism offer and, indeed, I think tourism is doing quite well in Wales, but obviously there's always more to be done, and we always have to build on progress made.

Hoffwn wneud rhai pwyntiau am dwristiaeth. Rwy'n credu y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno ein bod yn ffodus iawn yng Nghymru o ran harddwch y wlad a'r amgylchedd awyr agored gwych sydd gennym, ac mae hynny'n cael lle priodol yn adroddiad y pwyllgor. Mae'n gryfder mawr o ran ein cynnig twristiaeth ac yn wir, rwy'n meddwl bod twristiaeth yn gwneud yn eithaf da yng Nghymru, ond yn amlwg mae yna bob amser fwy i'w wneud, ac rydym bob amser yn gorfod adeiladu ar y cynnydd a wnaed.

One way in which I think we could further enhance our great outdoors is by achieving better access, and I think there are issues in terms of widening access to land and, indeed, water in Wales. I think these are issues that we cannot shy away from, and we should continue to consider and, hopefully, beneficially address. I certainly would like to see that great strength of the quality of the Welsh outdoors better used for tourism advantage and, indeed, for people living within Wales, for their own recreational, leisure and quality-of-life purposes. So, I hope we can make progress on that matter.

Un ffordd rwy'n credu y gallem wella ein hamgylchedd awyr agored ymhellach yw drwy sicrhau mynediad gwell, ac rwy'n meddwl bod yna faterion yn codi o ran ehangu mynediad i dir ac yn wir, i ddŵr yng Nghymru. Rwy'n meddwl bod y rhain yn faterion na allwn eu hosgoi, a dylem barhau i'w hystyried, a mynd i'r afael â hwy'n fuddiol, gobeithio. Yn sicr, byddwn yn hoffi gweld gwell defnydd yn cael ei wneud o gryfder ansawdd amgylchedd awyr agored Cymru er mantais twristiaeth ac yn wir, i bobl sy'n byw yng Nghymru, at eu dibenion hamdden a'u hansawdd bywyd eu hunain. Felly, rwy'n gobeithio y gallwn gamu ymlaen ar y mater hwnnw.

One other matter I'd like to mention is the Wales coastal path, which, again, as part of that outdoor offer, is an amazing strength for Wales and our tourism offer. It was launched with a fantastic amount of international publicity across the world: 'The New York Times' and 'The Washington Post'. The Lonely Planet said that Wales was the place to visit during the year of the opening of the coast path because of its creation. So, we need to continue to realise those opportunities in terms of marketing and enhancing our tourism offer around the Wales coast path, and I think part of that is building an anniversary event—the anniversary of the opening of the Wales coast path. We could have the whole length of the path walked on every anniversary month, we could have different groups, schools, et cetera, perhaps a relay event involving the passing of a baton. There are many things that could be done, but we certainly need to have a very strong anniversary event every year, and that would be very beneficial, I believe, to our tourism offer.

Un mater arall yr hoffwn sôn amdano yw llwybr arfordir Cymru, sydd unwaith eto, fel rhan o'r cynnig awyr agored, yn gryfder anhygoel i Gymru a'n cynnig twristiaeth. Fe'i lansiwyd gyda chyhoeddusrwydd rhyngwladol enfawr ar draws y byd: 'The New York Times' a 'The Washington Post'. Dywedodd y Lonely Planet mai Cymru oedd y lle i ymweld ag ef yn ystod blwyddyn agor llwybr yr arfordir yn sgil ei greu. Felly, mae angen i ni barhau i wireddu'r cyfleoedd hynny o ran marchnata a gwella ein cynnig twristiaeth yng nghyswllt llwybr arfordir Cymru, ac rwy'n meddwl mai rhan o hynny yw cynnal digwyddiad—pen-blwydd agor llwybr arfordir Cymru. Gallem gerdded holl hyd y llwybr dros y mis pen-blwydd bob tro, gallem gael gwahanol grwpiau, ysgolion, ac ati, ras gyfnewid efallai yn cynnwys digwyddiad pasio'r baton. Mae yna nifer o bethau y gellid eu gwneud, ond yn sicr mae angen i ni gael digwyddiad cryf i ddathlu'r pen-blwydd bob blwyddyn, a byddai hynny'n fuddiol iawn, rwy'n credu, i'n cynnig twristiaeth.

The other matter I'd like to mention, Cadeirydd, is major events, because again I think this has been a considerable strength for Wales. We have quite a track record now in terms of holding major events in Wales, and doing it very successfully. There's quite a slick process in operation in Wales around major events that works very well and involves all the necessary components. So, in terms of using that experience in the future, we obviously have to look out for other major events that we could attract to Wales that would continue that success. Every new major event adds to our reputation and takes forward that aspect of tourism in Wales.

Y mater arall yr hoffwn sôn amdano, Gadeirydd, yw digwyddiadau mawr, oherwydd unwaith eto rwy'n credu bod hyn wedi bod yn gryfder sylweddol i Gymru. Mae gennym dipyn o hanes bellach o ran cynnal digwyddiadau mawr yng Nghymru, a'i wneud yn llwyddiannus iawn. Mae yna broses eithaf slic ar waith yng Nghymru o gynnal digwyddiadau mawr sy'n gweithio'n dda iawn ac yn cynnwys yr holl elfennau angenrheidiol. Felly, o ran defnyddio'r profiad hwnnw yn y dyfodol, yn amlwg mae'n rhaid inni edrych am ddigwyddiadau mawr eraill y gallem eu denu i Gymru a fyddai'n parhau'r llwyddiant hwnnw. Mae pob digwyddiad mawr newydd yn ychwanegu at ein henw da ac yn datblygu'r agwedd honno ar dwristiaeth yng Nghymru.

One possible future event I'd like to see us look at very seriously—and I know that Welsh Government has—is hosting the Commonwealth Games. We've just had the experience of the Glasgow games, which was very successful in many ways, I believe, and I know that Welsh Government was in Glasgow and will be looking at the lessons to be learned in the evaluation to take place, but I see very many benefits in terms of tourism but more widely as well in terms of our sport, physical activity and recreational offer. If we were to host a future Commonwealth Games in Wales, then it would also involve new facilities that would be of longstanding and continuing benefit.

Un digwyddiad posibl yn y dyfodol yr hoffwn inni edrych arno o ddifrif—a gwn fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud hynny—yw cynnal Gemau'r Gymanwlad. Rydym newydd gael profiad gemau Glasgow, a oedd yn llwyddiannus iawn mewn nifer o ffyrdd, yn fy marn i, a gwn fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn Glasgow ac yn edrych ar y gwersi i'w dysgu yn y gwerthusiad sydd i'w gynnal, ond rwy'n gweld llawer iawn o fanteision o ran twristiaeth, ond yn ehangach hefyd o ran ein cynnig chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden. Pe baem yn cynnal Gemau'r Gymanwlad yn y dyfodol yng Nghymru, byddai hefyd yn golygu cyfleusterau newydd a fyddai o fudd hirdymor a pharhaus.

So, those are the matters that I wanted to mention, Cadeirydd. I believe we do have a very good rate of progress in terms of our tourism offer in Wales, which is so important to us, but obviously we must look at ways of building on that and strengthening our offer.

Felly, dyna'r materion roeddwn am eu crybwyll, Gadeirydd. Credaf ein bod yn gweld cynnydd da iawn o ran ein cynnig twristiaeth yng Nghymru, sydd mor bwysig i ni, ond yn amlwg mae'n rhaid inni edrych ar ffyrdd o adeiladu ar hynny a chryfhau ein cynnig.

15:50

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Of course, tourism is one of our biggest export industries, contributing £6.9 billion a year to the Welsh economy, which is 13.2% of GVA, supporting 206,000 jobs. As the committee report has noted, whilst this has been our fastest-growing industry since 2005, much more needs to be done.

Wrth gwrs, mae twristiaeth yn un o'n diwydiannau allforio mwyaf, ac mae'n cyfrannu £6.9 biliwn y flwyddyn i economi Cymru, sef 13.2% o'r gwerth ychwanegol gros, ac yn cynnal 206,000 o swyddi. Fel y nododd adroddiad y pwyllgor, er mai hwn yw'r diwydiant sydd wedi tyfu gyflymaf ers 2005, mae angen gwneud llawer mwy.

In my own constituency, Aberconwy, tourism accounts for 10,820 full-time jobs, equating to £559 million annually. It is actually a quarter of the industry in Wales. Though already successful, many of the hospitality businesses are run by the private sector, and on many occasions are microbusinesses and sole traders. We are very diverse as a constituency: we have waterfalls, we have the rural beauty, we have fabulous beaches, Conway castle—a UNESCO world heritage site and, of course, Snowdonia national park, again, contributing £134 million to our economy in 2012. I was really pleased to visit there last week. It has fantastic facilities. We have the Ogwen walking centre, and in Betws y Coed visitor centre, for those of you who don't want to climb Snowdon, you can actually see the 360 degree vista.

Yn fy etholaeth fy hun, Aberconwy, twristiaeth sy'n gyfrifol am 10,820 o swyddi amser llawn, sy'n cyfateb i £559 miliwn yn flynyddol. Mewn gwirionedd, mae'n chwarter y diwydiant yng Nghymru. Er eu bod yn llwyddiannus eisoes, mae llawer o'r busnesau llety yn cael eu rhedeg gan y sector preifat, ac mewn sawl achos, microfusnesau ac unig fasnachwyr yw'r rhain. Rydym yn amrywiol iawn fel etholaeth: mae gennym raeadrau, mae gennym harddwch cefn gwlad, mae gennym draethau gwych, castell Conwy—sy'n safle treftadaeth y byd UNESCO ac wrth gwrs, parc cenedlaethol Eryri, a gyfrannodd £134 miliwn i'n heconomi yn 2012. Roeddwn yn falch o ymweld â'r ardal yr wythnos diwethaf. Mae ganddi gyfleusterau gwych. Mae gennym ganolfan gerdded Ogwen, ac yng nghanolfan ymwelwyr Betws y Coed, i'r rhai ohonoch nad ydych am ddringo'r Wyddfa, gallwch weld yr olygfa 360 gradd.

Thirty five per cent of visits to Wales are made to take part in outdoor activities, and the total estimated spend of just the outdoor activity alone is £172 million. We've seen good news today: passenger numbers on ferries to and from Holyhead are set to increase by 40% this year. I'm really proud to announce that TripAdvisor's 2015 Travellers' Choice award for the best bargain accommodation in the world was this week named as Lawton Court in Llandudno. You know, these people in this industry should be applauded for the work they do, for the quality service, excellent Welsh food and produce, and the fantastic job in just keeping up appearances—you know, the facades of many of our hotels.

Mae tri deg pump y cant o ymweliadau â Chymru yn digwydd er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, ac mae cyfanswm y gwariant amcangyfrifedig ar y gweithgaredd awyr agored yn unig yn £172 miliwn. Rydym wedi gweld y newyddion da heddiw: nifer y teithwyr ar longau fferi i ac o Gaergybi yn mynd i gynyddu 40% eleni. Rwy'n falch iawn o gyhoeddi bod gwobr Travellers' Choice TripAdvisor yn 2015 ar gyfer y fargen orau o ran lle i aros yn y byd yr wythnos hon yn mynd i Lawton Court yn Llandudno. Wyddoch chi, dylai'r bobl yn y diwydiant hwn gael eu cymeradwyo am y gwaith y maent yn ei wneud, am y gwasanaeth o ansawdd, y bwyd a'r cynnyrch Cymreig gwych, a'r gwaith aruthrol o ran cynnal ymddangosiad—wyddoch chi, edrychiad allanol llawer o'n gwestai.

But I believe that those in the tourist industry need a break themselves: a break from bureaucracy, a break from red tape and a break from rising business rates. I know of one hotelier paying £52,000, another one £38,000 and another local hotelier in my constituency paying £112,000 a year annually in business rates. It doesn't matter if I say it quickly—it doesn't lessen the blow to that particular business.

Ond rwy'n credu bod y bobl yn y diwydiant twristiaeth angen seibiant eu hunain: seibiant rhag biwrocratiaeth, seibiant rhag y tâp coch a seibiant rhag talu ardrethi busnes cynyddol. Gwn am un gwestywr sy'n talu £52,000, ac un arall £38,000, a gwestywr lleol arall yn fy etholaeth sy'n talu £112,000 y flwyddyn mewn ardrethi busnes. Nid yw o bwys os wyf yn ei ddweud yn gyflym-nid yw'n lleihau'r ergyd i'r busnesau penodol hynny.

I am pleased to note that progress is being made towards the Welsh Government's 2013 target to achieve a 10% real-terms growth by 2020, but we've a lot to do. The recommendations put forward by the committee give clear guidance to the Welsh Government as to how the potential for economic growth through tourism must be maximised, and, as highlighted by the report, the Welsh Government itself must do more to engage with the industry by involving businesses more closely with advertising campaigns. Visit Wales—fantastic. I absolutely love watching those adverts on TV, but how is there any co-ordination with any campaigns with those running their own hospitality businesses?

Rwy'n falch o nodi bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at darged 2013 Llywodraeth Cymru i gyflawni 10% o dwf mewn termau real erbyn 2020, ond mae gennym lawer i'w wneud. Mae'r argymhellion a gyflwynwyd gan y pwyllgor yn rhoi arweiniad clir i Lywodraeth Cymru ynglŷn â sut y mae'n rhaid manteisio i'r eithaf ar y potensial ar gyfer twf economaidd drwy dwristiaeth, ac fel yr amlygodd yr adroddiad, rhaid i Lywodraeth Cymru ei hun wneud rhagor i ymgysylltu â'r diwydiant drwy gynnwys busnesau'n fwy agos ag ymgyrchoedd hysbysebu. Croeso Cymru—ffantastig. Rwyf wrth fy modd yn gwylio'r hysbysebion ar y teledu, ond a oes unrhyw gydlynu'n digwydd rhwng yr ymgyrchoedd â'r rhai sy'n rhedeg eu busnesau llety eu hunain?

There also need to be steps taken to make life for those who work or want to work in the tourist industry less challenging. Now, I talk about terms of broadband and mobile phone coverage in rural tourism areas. I welcome the response to recommendation 15, stating that the UK Government have invested £150 million in mobile infrastructure to address the so-called 'notspots', but there is still confusion remaining, and many questions—I'm inundated—as to who's going to have or have not in terms of business support. Dialogue with Superfast Cymru indicates it is not an exact science, so the 96% target may not even be reached. There are no guarantees.

Mae angen rhoi camau ar waith hefyd i wneud bywyd yn llai heriol i'r rhai sy'n gweithio neu sydd am weithio yn y diwydiant twristiaeth. Yn awr, rwy'n sôn am gysylltiad band eang a ffonau symudol mewn ardaloedd twristaidd gwledig. Rwy'n croesawu'r ymateb i argymhelliad 15, sy'n dweud bod Llywodraeth y DU wedi buddsoddi £150 miliwn mewn seilwaith symudol i fynd i'r afael â'r 'mannau gwan' fel y'u gelwir, ond mae'r dryswch, a llawer o gwestiynau, yn parhau—rwy'n boddi ynddynt—ynglŷn â phwy sy'n mynd i gael neu beidio â chael o ran cymorth busnes. Mae deialog gyda Superfast Cymru yn nodi nad yw'n wyddor fanwl, felly efallai na fydd y targed o 96% yn cael ei gyrraedd hyd yn oed. Nid oes sicrwydd.

The recent Visit Wales—oh, I've mentioned that, about Visit Wales, and the advertising campaign. 'Have you packed for Wales?' it was called. Excellent.

Mae Croeso Cymru yn ddiweddar—o, rwyf i wedi sôn am hynny, am Croeso Cymru, a'r ymgyrch hysbysebu, 'A ydych chi wedi pacio ar gyfer Cymru?'. Ardderchog.

Now, according to Professor Annette Pritchard:

Yn awr, yn ôl yr Athro Annette Pritchard:

'Brand Wales is at a tipping point. It needs greater clarity, stakeholder buy-in and consumer and media resonance.'

'Mae Brand Cymru ar fin cyrraedd pwynt di-droi'n-ôl. Mae angen mwy o eglurder, cefnogaeth gan randdeiliaid a chyd-asio rhwng defnyddwyr a'r cyfryngau. '

One area that requires significant improvement is how Wales is marketed to potential overseas tourists. Last year, a Welsh Affairs Committee report warned that Wales still has a low profile overseas compared with other parts of the UK, and despite the apparent growth in the industry, it found that the number of international tourists visiting Wales has slumped from 1.14 million in 2006 to 854,000 in 2012.

Un maes sydd angen ei wella'n sylweddol yw'r modd y caiff Cymru ei marchnata i dwristiaid tramor posibl. Y llynedd, rhybuddiodd adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cymreig fod proffil rhyngwladol Cymru yn parhau'n isel dramor o gymharu â rhannau eraill o'r DU, ac er gwaethaf y twf ymddangosiadol yn y diwydiant, gwelodd fod nifer y twristiaid rhyngwladol sy'n ymweld â Chymru wedi disgyn o 1.14 miliwn yn 2006 i 854,000 yn 2012.

Minister, accepting the recommendations of this report to unlock further potential is one thing, but delivery is the key.

Weinidog, mae derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad i ddatgloi potensial pellach yn un peth, ond mae'n allweddol eu bod yn cael eu cyflawni.

15:56 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism to speak, Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i siarad, Ken Skates.

15:56 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

Thank you, acting Deputy Presiding Officer. I'd like to thank the Chair of the Enterprise and Business Committee and its members for their work on this report. I do think that it is a well-balanced report and a fair report, which acknowledges the substantial progress being made towards the tourism strategy's target of a 10% growth in earnings by 2020, with current figures for 2014 showing an increase in both visits and spending by tourists. For example, holiday and leisure visits to Wales by British residents in the 2014 January to August period were up 4.8% and well ahead—well ahead—of results for Britain as a whole, where visits were 4.3% down. Expenditure during these visits was more than £1 billion pounds and represents an enormous 9.5% increase, while, for GB as a whole, spending on holiday and leisure trips was simply on a par with 2013. Thirdly, in terms of overseas visitors to Wales, as Joyce Watson rightly stated, figures for the first half of 2014 show that Wales had an increase of 21% in the volume of visitors from abroad, compared with the first half of 2013. Clearly, we await the end-year figures, but this is a particularly encouraging picture, given that it seems that Britain overall has seen a decrease in both visits and spend over this period.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd dros dro. Hoffwn ddiolch i Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes a'i aelodau am eu gwaith ar yr adroddiad hwn. Rwy'n meddwl ei fod yn adroddiad cytbwys ac yn adroddiad teg, sy'n cydnabod y cynnydd sylweddol a wnaed tuag at darged y strategaeth dwristiaeth o gynnydd o 10% mewn enillion erbyn 2020, gyda ffigurau cyfredol ar gyfer 2014 yn dangos cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a gwariant gan dwristiaid. Er enghraifft, roedd nifer ymweliadau gwyliau a hamdden i Gymru gan drigolion o Brydain yn y cyfnod rhwng Ionawr ac Awst 2014 i fyny 4.8% ac ymhell ar y blaen-ymhell ar y blaen-i ganlyniadau ar gyfer Prydain yn ei chyfanrwydd, lle'r oedd nifer yr ymweliadau 4.3% i lawr. Roedd gwariant yn ystod yr ymweliadau hyn yn fwy na £1 biliwn sy'n gynnydd enfawr o 9.5 %, ac ar gyfer Prydain yn ei chyfanrwydd, roedd gwariant ar deithiau gwyliau a hamdden ar yr un lefel â 2013. Yn drydydd, o ran ymwelwyr tramor â Chymru, fel y nododd Joyce Watson yn gywir, mae ffigurau ar gyfer hanner cyntaf 2014 yn dangos bod Cymru wedi gweld cynnydd o 21% yn y nifer yr ymwelwyr o dramor o gymharu â hanner cyntaf 2013. Yn amlwg, rydym yn aros i weld y ffigurau diwedd blwyddyn, ond mae'n ddarlun arbennig o galonogol, o gofio ei bod yn ymddangos bod Prydain yn gyffredinol wedi gweld gostyngiad o ran nifer ymweliadau a gwariant dros y cyfnod hwn.

Of the 28 recommendations in the report, we accept 26, and accept two in principle, and I'd like to respond to some of the queries and points raised by Members. William Graham rightly identified that, traditionally, Wales has been the least known of the British nations, and that's why major events are so critically important. They potentially reach hundreds of millions of television viewers globally, often portraying their host nations and host cities in the best possible light. That's why I was so pleased with the success of DT100, and why it was so valuable, and why I'm especially excited about the Roald Dahl celebrations. Can I assure Eluned Parrot that my plans for 2016 are far more ambitious and adventurous than hers may suggest? In terms of major events coming up in future months and years, we also have the world half marathon, the Volvo Ocean Race and the Rugby World Cup. Last year, it's worth just reminding ourselves that major events contributed £61 million to the Welsh economy and supported more than 1,400 full-time jobs.

O'r 28 argymhelliad yn yr adroddiad, rydym yn derbyn 26, ac yn derbyn dau mewn egwyddor, a hoffwn ymateb i rai o'r cwestiynau a'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau. Nododd William Graham yn gywir mai Cymru, yn draddodiadol, yw'r lleiaf adnabyddus o wledydd Prydain, a dyna pam y mae digwyddiadau mawr mor hanfodol bwysig. Mae potensial ganddynt i gyrraedd cannoedd o filiynau o wylwyr teledu yn fyd-eang, sy'n aml yn portreadu'r gwledydd a'r dinasoedd sy'n eu cynnal yn y ffordd orau posibl. Dyna pam yr oeddwn mor falch o lwyddiant DT100, a pham yr oedd mor werthfawr, a pham rwy'n arbennig o gyffrous am ddathliadau Roald Dahl. A gaf fi sicrhau Eluned Parrot fod fy nghynlluniau ar gyfer 2016 yn llawer mwy uchelgeisiol a mentrus nag y mae eu rhai hi'n ei awgrymu? O ran digwyddiadau mawr sydd i ddod yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, rydym hefyd yn cael hanner marathon byd, Ras Volvo Ocean a Chwpan Rygbi'r Byd. Y llynedd, mae'n werth atgoffa ein hunain bod digwyddiadau mawr wedi cyfrannu £61 miliwn i economi Cymru ac wedi cynnal dros 1,400 o swyddi amser llawn.

A number of Members raised the relationship of the Welsh Government and Visit Wales with that of VisitBritain. I think some of the criticism was fair, which is why I'm very pleased that a secondee from the Welsh Government tourism marketing team now works within VisitBritain to support closer co-operation. We are feeding into the VisitBritain Great campaign, in terms of what products and experiences Wales has to offer visitors, and discussions are ongoing with other 'visit' bodies on how VisitBritain can improve its strategic support for destinations within the UK, and, most certainly, outside of London.

Mae nifer o Aelodau wedi cyfeirio at berthynas Llywodraeth Cymru a Croeso Cymru â VisitBritain. Rwy'n credu bod peth o'r feirniadaeth yn deg, a dyna pam rwy'n falch iawn bod gweithiwr ar secondiad o dîm marchnata twristiaeth Llywodraeth Cymru bellach yn gweithio yn VisitBritain i gefnogi cydweithredu agosach. Rydym yn bwydo i mewn i ymgyrch Great VisitBritain, o ran y cynnyrch a'r profiadau sydd gan Gymru i'w cynnig i ymwelwyr, ac mae trafodaethau'n parhau gyda chyrff 'ymweld' eraill ynglŷn â sut y gall VisitBritain wella ei gefnogaeth strategol i gyrchfannau yn y DU, ac yn bendant, y tu allan i Lundain.

Digital technology is essential in promoting our visitor economy, as identified by Keith Davies and Janet Finch-Saunders, which is why I was particularly pleased to accept recommendations 14, 15 and 17, and why I'm also very proud that this Government is making Wales one of the most digitally connected countries anywhere on the planet.

Mae technoleg ddigidol yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo ein heconomi i ymwelwyr, fel y nododd Keith Davies a Janet Finch-Saunders, a dyna pam yr oeddwn yn arbennig o falch o dderbyn argymhellion 14, 15 a 17, a pham rwy'n falch iawn hefyd fod y Llywodraeth hon yn gwneud Cymru yn un o'r gwledydd gyda'r cysylltiad digidol gorau o bobman ar y blaned.

In response to Byron Davies's points about Cardiff Airport, I was actually there on Monday, and I was delighted to experience, for the first time, the new arrivals area. Indeed, I walked through the Wales coastal path, which John Griffiths rightly identified as being one of Wales's unique selling points. I climbed through a re-creation of one of our iconic castles and passed video screens showing some of the best beaches we have in our country, and I also travelled from one level of the airport to another in a Big Pit lift. My view is that Cardiff now has the best arrival experience of any airport in the world.

Mewn ymateb i bwyntiau Byron Davies am Faes Awyr Caerdydd, mewn gwirionedd roeddwn i yno ddydd Llun, ac roeddwn yn falch iawn o ymweld, am y tro cyntaf, â'r ardal gyraeddiadau newydd. Yn wir, cerddais lwybr arfordir Cymru, y nododd John Griffiths yn gywir ei fod yn un o bwyntiau gwerthu unigryw Cymru. Dringais drwy ailgread o un o'n cestyll eiconig a phasio heibio i sgriniau fideo yn dangos rhai o'r traethau gorau sydd gennym yn ein gwlad. Hefyd, teithiais o un lefel yn y maes awyr i lefel arall mewn lifft Big Pit. Yn fy marn i, mae gan Gaerdydd y profiad gorau o gyrraedd a geir yn unrhyw faes awyr yn y byd.

Several Members spoke about marketing, regional engagement and capital support. In terms of capital support, we've provided over £2 million to businesses in 2013-14. During this period, 119 jobs—[Interruption.]

Siaradodd nifer o Aelodau am farchnata, ymgysylltiad rhanbarthol a chymorth cyfalaf. O ran cymorth cyfalaf, rydym wedi darparu dros £2 filiwn i fusnesau yn 2013-14. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd 119 o swyddi—[Torri ar draws.]

16:00

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Excuse me, Minister. Can I ask people to give the courtesy to the Minister of listening to what he has to say? It is extremely interesting and valuable.

Esgusodwch fi, Weinidog. A gaf fi ofyn i bobl ddangos cwrteisi at y Gweinidog drwy wrando ar yr hyn sydd ganddo i'w ddweud? Mae'n hynod ddiddorol ac yn werthfawr.

16:00 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'm sorry, the leader of the opposition was too busy doing down Cardiff Airport. [Interruption.] During this period 119 jobs were created and 98 safeguarded, and figures for 2014-15 to the end of December already exceed this at 248 jobs. We've already heard about Zip World and Bounce Below and how they are challenging perceptions of Wales. Indeed, these are schemes that have been supported by the Welsh Government, and I look forward this summer to seeing the opening of a world first in Wales in the form of the new inland water-based activity attraction Surf Snowdonia. With regard to regional engagement, Suzy Davies raised this very issue, and I am aware of the Conservative party's survey online, which offers as a prize for filling it in a four-star luxury caravan holiday, which I'm sure the National Caravan Council and the Caravan Club, both of which do fantastic work here in Wales, will be most pleased with. I think it's worth saying that the restructuring of our regional engagement work has largely been completed with teams now in place and with the tourism advisory board also now having regional representation. Its regional structure will be supported by a new tourism forum, looking at a range of specific tourism sectors and markets, which will report to the tourism advisory board and on to me, as appropriate, ensuring that I am most certainly not shielded from constructive criticism.

Mae'n ddrwg gen i, roedd arweinydd yr wrthblaid yn rhy brysur yn lladd ar Faes Awyr Caerdydd. [Torri ar draws.] Yn ystod y cyfnod, cafodd 119 o swyddi eu creu a 98 eu diogelu, ac mae'r ffigurau ar gyfer 2014-15 hyd at ddiwedd Rhagfyr eisoes yn uwch na hyn, ar 248 o swyddi. Rydym eisoes wedi clywed am Zip World a Bounce Below a sut y maent yn herio canfyddiadau o Gymru. Yn wir, mae'r rhain yn gynlluniau sydd wedi cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru, ac edrychaf ymlaen yr haf hwn at weld agoriad y gweithgaredd cyntaf o'i fath yn y byd yng Nghymru ar ffurf atyniad gweithgareddau dŵr mewndirol newydd Syrffio Eryri. O ran ymgysylltiad rhanbarthol, tynnodd Suzy Davies sylw at yr union fater hwn, ac rwy'n ymwybodol o arolwg ar-lein y blaid Geidwadol, sy'n cynnig gwyliau carafanau moethus pedair seren yn wobr am ei lenwi, ac rwy'n siŵr y bydd y Cyngor Carafanau Cenedlaethol a'r Clwb Carafanau, sy'n gwneud gwaith gwych yma yng Nghymru, yn hapus iawn â hynny. Rwy'n credu ei bod yn werth dweud bod y broses o ailstrwythuro ein gwaith ymgysylltu rhanbarthol wedi ei gwblhau i raddau helaeth gyda thimau bellach ar waith a'r bwrdd cynghori ar dwristiaeth bellach ag aelodau rhanbarthol hefyd. Bydd ei strwythur rhanbarthol yn cael ei gefnogi gan fforwm twristiaeth newydd, yn edrych ar amrywiaeth o sectorau a marchnadoedd twristiaeth penodol, a fydd yn cyflwyno adroddiadau i'r bwrdd cynghori ar dwristiaeth ac i mi, fel y bo'n briodol, gan sicrhau'n bendant na chaf fy ngwarchod rhag beirniadaeth adeiladol.

The Visit Wales UK and Ireland autumn marketing campaign had a strong focus on food and was the second phase of the £4 million marketing campaign, 'Have you packed for Wales?', and I am pleased to be able to report to Members today that responses to the campaign have exceeded targets. This week, we saw the launch of the 2015 Visit Wales spring campaign, with the release of the new 'Have you packed for Wales?' advert. I'd like to end by thanking members of the committee for their valuable report and by presenting our latest television advertisement, which is certainly helping Wales pack a very heavy punch as the best tourism destination on the planet.

Roedd ymgyrch farchnata Croeso Cymru ar gyfer y DU ac Iwerddon yn yr hydref yn canolbwyntio'n gadarn ar fwyd a dyma oedd ail gam yr ymgyrch farchnata gwerth £4 miliwn, 'A ydych chi wedi pacio ar gyfer Cymru?', Ac rwy'n falch o allu adrodd wrth yr Aelodau heddiw fod yr ymatebion i'r ymgyrch wedi rhagori ar y targedau. Yr wythnos hon, gwelsom ymgyrch Croeso Cymru ar gyfer gwanwyn 2015 yn cael ei lansio, gyda rhyddhau hysbyseb newydd 'A ydych chi wedi pacio ar gyfer Cymru?'. Hoffwn gloi drwy ddiolch i aelodau'r pwyllgor am eu hadroddiad gwerthfawr, a thrwy gyflwyno ein hysbyseb deledu ddiweddaraf, sy'n sicr yn helpu Cymru i wneud argraff gref iawn fel y cyrchfan twristaidd gorau ar y blaned.

16:02 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you.

Diolch yn fawr.

*Dangoswyd DVD. Mae'r trawsgrifiad mewn dyfynodau isod yn drawsgrifiad o'r cyfraniadau llafar ar y DVD. Mae'r cyflwyniad ar gael drwy ddilyn y linc hon:*

*A DVD was shown. The transcription in quotation marks below is a transcription of the oral contributions on the DVD. The presentation can be accessed by following this link:*

[Cyflwyniad DVD.](#)

[DVD presentation.](#)

*'Have you packed for Wales? Go to visitwales.com.'*

*'A ydych chi wedi pacio ar gyfer Cymru? Ewch i visitwales.com. '*

16:03 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Popcorn now? Thank you. I call on the Chair of the Enterprise and Business Committee, William Graham, to reply to the debate.

Popcorn yn awr? Diolch yn fawr. Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes, William Graham, i ymateb i'r ddadl.

16:03 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, acting Deputy Presiding Officer. Our report, I'm very pleased to say, has generated so much interest; we've had 10 speakers this afternoon. I won't attempt to do justice to their remarks. I'd like to concentrate, if I may, on the Deputy Minister's reply particularly. I think that, in time now, we'll see whether your ambition that you outlined this afternoon really comes to fruition. I will assure you of the committee's support and continuing scrutiny of your efforts in that respect. Clearly, you outlined correct and very necessary bright prospects for Wales, and the prospect of more major events, as you describe, clearly is of interest to us all, remarking, as you did, that a £61 million-contribution and 1,400 jobs are most significant on one event alone, and we look for very many more of those. Your ambition certainly is to be encouraged.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd dros dro. Mae ein hadroddiad, rwy'n falch iawn o ddweud, wedi creu cymaint o ddiddordeb; rydym wedi cael 10 o siaradwyr y prynhawn yma. Ni cheisiaf wneud cyfiawnder â'u sylwadau. Hoffwn ganolbwyntio, os caf, ar ymateb y Dirprwy Weinidog yn arbennig. Credaf, mewn amser, y byddwn yn gweld a fydd eich uchelgais a amlinellwyd gennych y prynhawn yma yn dwyn ffrwyth mewn gwirionedd. Byddaf yn sicrhau y bydd y pwyllgor yn eich cefnogi ac yn craffu'n barhaus ar eich ymdrechion yn hynny o beth. Yn amlwg, fe amlinelloch ragolygon disglair cywir ac angenrheidiol iawn ar gyfer Cymru, ac mae'r posibilrwydd o fwy o ddigwyddiadau mawr, fel rydych yn eu disgrifio, yn amlwg o ddiddordeb i ni i gyd, gan ddweud, fel y gwnaethoch, fod cyfraniad o £61 miliwn a 1,400 o swyddi yn arwyddocaol iawn o un digwyddiad yn unig, ac rydym yn edrych am lawer iawn mwy o'r rheini. Mae eich uchelgais yn sicr yn rhywbeth y dylid ei annog.

In terms of our tourism survey, may I assure the Deputy Minister that he has every chance of winning if he just completes and returns? [Laughter.] There will be no favouritism shown whatsoever. We are also grateful for his outlining the way in which now there will be constructive criticism offered to him directly as Minister. Hopefully, that will mean that you'll be able to act on those criticisms directly and quickly. One thing that the committee found in its inquiry was that, so often, there were good ideas, particularly from people in the tourism industry but, by the time they got to somebody to take that forward, we were a long time in between. So, we're very grateful to the Minister for his encouragement in that particular aspect.

O ran ein harolwg twristiaeth, a gaf fi sicrhau'r Dirprwy Weinidog fod ganddo bob siawns o ennill os yw'n ei lenwi a'i ddychwelyd? [Chwerthin.] Ni ddangosir unrhyw ffafriaeth o fath yn y byd. Rydym hefyd yn ddiolchgar iddo am amlinellu'r ffordd y bydd beirniadaeth adeiladol yn cael ei rhoi iddo'n uniongyrchol fel Gweinidog. Gobeithio y bydd hynny'n golygu y byddwch yn gallu gweithredu ar y beirniadaethau hynny yn uniongyrchol ac yn gyflym. Un peth a welodd y pwyllgor yn ei ymchwiliad oedd bod syniadau da i'w cael mor aml, yn enwedig gan bobl yn y diwydiant twristiaeth, ond erbyn iddynt gyrraedd rhywun a fyddai'n eu datblygu, roeddem yn treulio amser hir yn y canol. Felly, rydym yn ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am ei anogaeth yn hynny o beth.

Of those things that were mentioned, I think what one must mention, which is not in our report, is what John Griffiths said about the coastal path that will be vitally important, and the idea of an annual event certainly must be something that must be taken forward.

O'r pethau a gafodd eu crybwyll, rwy'n meddwl bod yn rhaid crybwyll yr hyn a ddywedodd John Griffiths, nad yw'n cael ei ddweud yn ein hadroddiad, am lwybr yr arfordir a fydd yn hollbwysig, ac mae'r syniad o ddigwyddiad blynyddol yn sicr yn rhywbeth y mae'n rhaid ei ddatblygu.

Clearly, you know, the industry is of major importance to Wales. Members have outlined extremely well the almost unique asset—or, in combination—that we have in Wales, with relatively short distances between one and another, particularly west Wales, of course, which is very well known for family holidays. And, in the north, also, we were struck, when we were there, that, within the last two years, there's been major investment in all sorts of holiday activities that simply did not exist a very short time ago—excellent for Wales and excellent for when we do our marketing campaign to show exactly what we have in all aspects of tourism and all parts of Wales. It's entirely appropriate for the committee to be reporting at this time.

Yn amlwg, wyddoch chi, mae'r diwydiant yn bwysig iawn i Gymru. Mae'r Aelodau wedi amlinellu'n eithriadol o dda yr ased unigryw fwy neu lai—neu'r cyfuniad unigryw o asedau—sydd gennym yng Nghymru, gyda'r pellteroedd cymharol fyr rhwng y naill a'r llall, yn enwedig yng ngorllewin Cymru, wrth gwrs, sy'n adnabyddus iawn fel lle ar gyfer gwyliau i deuluoedd. A phan oeddem yn y gogledd hefyd, cawsom ein taro gan y ffaith fod buddsoddiad mawr wedi'i wneud yn y ddwy flynedd ddiwethaf ym mhob math o weithgareddau gwyliau nad oeddent yn bodoli ond ychydig amser yn ôl—ardderchog i Gymru ac ardderchog ar gyfer pan fyddwn yn cynnal ein hymgyrch farchnata i ddangos yn union beth sydd gennym ym mhob agwedd ar dwristiaeth a phob rhan o Gymru. Mae'n gwbl briodol fod y pwyllgor yn cyflwyno ei adroddiad ar yr adeg hon.

We discussed this morning what we're going to do, as it were, as a legacy report for our committee, and I think I can assure the Assembly that one of those legacy aspects will be this particular report, and we'll try to offer more constructive criticism of the Minister over the next remaining period of the Assembly, so that we can really see that this vitally important industry is on a roll, with new events and new strategies—and you kindly demonstrated to us one of the interesting packages on television. Many of us will remember, not so long ago—well, a few years ago—you couldn't go to America without seeing the huge adverts for the Welsh Development Agency. Well, let us hope, in the future, that the adverts your department are preparing will be equally important, equally interesting and on every flight out of Wales.

Buom yn trafod y bore yma yr hyn rydym yn mynd i'w wneud, fel petai, o ran adroddiad etifeddiaeth ar gyfer ein pwyllgor, ac rwy'n meddwl y gallaf sicrhau'r Cynulliad mai un agwedd etifeddol fydd yr adroddiad penodol hwn, a byddwn yn ceisio cynnig beirniadaeth fwy adeiladol o'r Gweinidog dros y cyfnod sy'n weddill o'r Cynulliad, er mwyn inni weld yn iawn fod y diwydiant hanfodol bwysig hwn yn gwella, gyda digwyddiadau newydd a strategaethau newydd—ac yn garedig iawn, fe ddangosoch un o'r pecynnau diddorol ar y teledu i ni. Bydd llawer ohonom yn cofio adeg, heb fod mor bell yn ôl â hynny—wel,ychydig flynyddoedd yn ôl—pan na allech fynd i America heb weld yr hysbysebion anferth gan Awdurdod Datblygu Cymru. Wel, yn y dyfodol, gadewch inni obeithio y bydd yr hysbysebion y mae eich adran yn eu paratoi yr un mor bwysig, yr un mor ddiddorol ac ar bob taith awyr allan o Gymru.

16:06

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. The proposal is to note the Enterprise and Business Committee's report. Does any Member object? No. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch i chi am hynny. Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nac oes. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*The motion was agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:07

# 4. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Awtistiaeth

# 4. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Autism

Senedd.tv Fideo Video

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

We move on now to the debate by individual Members under Standing Order 11.21(iv). I call on Mark Isherwood to move the motion.

Symudwn ymlaen yn awr at y ddadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21 (iv). Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig y cynnig.

Cynnig NNDM5639 Mark Isherwood

Motion NNDM5639 Mark Isherwood

Cynnig bod Cynlliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn croesawu cyflawni cynllun gweithredu strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer anhwylder yn y sbectrwm awtistig.

1. Welcomes the achievement of the Welsh Government's autistic spectrum disorder strategic action plan.

2. Yn nodi bod angen gwneud mwy i ddiwallu anghenion plant ac oedolion sydd ag awtistiaeth yng Nghymru.

2. Notes that more needs to be done to meet the needs of children and adults with autism in Wales.

3. Yn credu y byddai gosod dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn arwain at fwy o eglurder ynghylch y gofal a'r cymorth y gall pobl ag awtistiaeth ei ddisgwyl.

3. Believes that placing specific duties on local authorities and health boards would lead to greater clarity on the care and support that people with autism can expect.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Deddf Awtistiaeth ar gyfer Cymru.

4. Calls upon the Welsh Government to introduce an Autism Act for Wales.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:07 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch. Autism is a developmental condition affecting some 30,000 children and adults in Wales, each in a different and unique way, plus, of course, their families and carers. The achievement of the Welsh Government's autistic spectrum disorder strategic action plan was and is welcome, but more needs to be done to meet the needs of children and adults with autism in Wales.

Diolch. Cyflwr datblygiadol yw awtistiaeth sy'n effeithio ar tua 30,000 o blant ac oedolion yng Nghymru, pob un mewn ffordd wahanol ac unigryw, yn ogystal ag ar eu teuluoedd a'u gofalwyr wrth gwrs. Roedd, ac mae'r gwaith o gyflawni cynllun gweithredu strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistig i'w groesawu, ond mae angen gwneud mwy i ddiwallu anghenion plant ac oedolion ag awtistiaeth yng Nghymru.

Placing specific duties on local authorities and health boards would lead to greater clarity on the care and support that people with autism can expect, and this motion therefore calls upon the Welsh Government to introduce an autism Act for Wales. It is, of course, recognised that this cannot be accommodated within this Assembly's remaining legislative timetable to 2016 and I therefore call on all parties to commit to an autism Act for Wales within their 2016 manifestos and to champion a refreshed autism strategy with teeth in the meantime.

Byddai gosod dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn arwain at fwy o eglurder o ran y gofal a'r cymorth y gall pobl ag awtistiaeth ei ddisgwyl, ac mae'r cynnig hwn, felly, yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Deddf awtistiaeth i Gymru. Wrth gwrs, cydnabyddir na ellir cynnwys hyn yn yr amserlen ddeddfwriaethol sy'n weddill ar gyfer y Cynulliad hwn hyd at 2016 ac felly galwaf ar bob plaid i ymrwymo i Ddeddf awtistiaeth ar gyfer Cymru yn eu maniffestos ar gyfer 2016 ac i hyrwyddo strategaeth awtistiaeth gadarnach wedi'i hadnewyddu yn y cyfamser.

At last week's meeting of the cross-party autism group, which I chair, Mark Lever, National Autistic Society—or NAS—chief executive highlighted that, although the autism spectrum disorder strategic action plan for Wales was a world first, autism didn't have a statutory identity in Wales, which means people are often not able to access effective support unless they have associated mental health problems or learning disabilities. Mark said that the NAS is happy to assist the Welsh Government where it can as it refreshes its autism strategy, but that it has serious concerns over the removal of ring-fenced funding, and about whether a refreshed strategy will be robust enough to make the changes we all want to see without being backed by legislation.

Yng nghyfarfod yr wythnos diwethaf o'r grŵp awtistiaeth trawsbleidiol rwy'n ei gadeirio, dywedodd Mark Lever, prif weithredwr y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol—neu'r NAS—er mai'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistig yng Nghymru oedd y cyntaf o'i fath yn y byd, nad oedd hunaniaeth statudol i awtistiaeth yng Nghymru, sy'n golygu nad yw pobl yn aml yn gallu cael cymorth effeithiol oni bai bod ganddynt broblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu cysylltiedig. Dywedodd Mark fod yr NAS yn hapus i gynorthwyo Llywodraeth Cymru lle y gall wrth iddi fynd ati i adnewyddu ei strategaeth awtistiaeth, ond bod ganddo bryderon difrifol ynglŷn â diddymu cyllid a glustnodwyd, ac ynglŷn â pha mor gadarn fydd strategaeth ar ei newydd wedd i wneud y newidiadau rydym i gyd am eu gweld os na chaiff ei chefnogi gan ddeddfwriaeth.

Mark added that, for Wales to reassert itself at the vanguard of autism, there needs to be an autism Act in Wales, giving people with autism the confidence that they will receive the support they need. NAS Cymru has asked for continuance of ring-fenced funding to bring certainty for people with autism and allowing local authorities to plan over the longer term. When I raised this issue with the health Minister, he assured me that his expectation was that local authorities should continue to commit their money to autism, and Members have been copied on his letter to each local authority stating this. Some local authorities have also agreed, in principle, to voluntarily ring-fence their money to spend on autism. However, this voluntary agreement is not universal, nor enforceable, and is only in place for the 2015-16 period. It is noted that money for mental health remains ring-fenced and understood that this is also the case with money for the Families First disability programme.

Er mwyn i Gymru ailddatgan ei safle ar flaen y gad ym maes awtistiaeth, ychwanegodd Mark fod angen Deddf awtistiaeth yng Nghymru sy'n rhoi hyder i bobl ag awtistiaeth y byddant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae NAS Cymru wedi gofyn am barhau'r cyllid a glustnodwyd er mwyn rhoi sicrwydd i bobl ag awtistiaeth a chaniatáu i awdurdodau lleol gynllunio yn y tymor hwy. Pan godais y mater gyda'r Gweinidog iechyd, rhoddodd sicrwydd i mi ei fod yn disgwyl i awdurdodau lleol barhau i neilltuo arian tuag at awtistiaeth, ac mae'r Aelodau wedi cael copi o'i lythyr at bob awdurdod lleol yn nodi hyn. Mae rhai awdurdodau lleol hefyd wedi cytuno, mewn egwyddor, i glustnodi arian yn wirfoddol i'w wario ar awtistiaeth. Fodd bynnag, nid oes cytundeb gwirfoddol cyffredinol ar hyn, nid yw'n orfodadwy, ac ar gyfer 2015-16 yn unig y mae'n weithredol. Nodir bod arian ar gyfer iechyd meddwl yn parhau wedi ei glustnodi a deellir bod hyn yn wir hefyd yng nghyswllt arian ar gyfer rhaglen anabledd Teuluoedd yn Gyntaf.

Wales was in the vanguard, but, since the launch of the April 2008 autism strategy for Wales, England has introduced a cross-cutting adult autism Act and statutory strategy; Northern Ireland has introduced an autism Act and statutory strategy; and Scotland has introduced an autism strategy with around £12 million to deliver it over four years, which is expected to pave the way for an autism Act there. The NAS's experience in England is that there's been a real step change in how the NHS and local authorities view autism and plan local services since the Act there became law. The NAS work on helping draw up the Act in England means that they would be a useful resource to identify how a Welsh Act would differ, learning from their experiences in England as well as in Scotland and Northern Ireland.

Roedd Cymru ar flaen y gad, ond ers lansio strategaeth awtistiaeth Cymru yn Ebrill 2008, mae Lloegr wedi cyflwyno Deddf drawsbynciol a strategaeth statudol ar gyfer oedolion ag awtistiaeth; mae Gogledd Iwerddon wedi cyflwyno Deddf awtistiaeth a strategaeth statudol; ac mae'r Alban wedi cyflwyno strategaeth awtistiaeth a thua £12 miliwn ar gyfer ei chyflwyno dros bedair blynedd, ac mae disgwyl iddi baratoi'r ffordd ar gyfer Deddf awtistiaeth yno. Profiad yr NAS yn Lloegr yw bod newid sylweddol gwirioneddol wedi bod yn y ffordd y mae'r GIG ac awdurdodau lleol yn edrych ar awtistiaeth ac yn cynllunio gwasanaethau lleol ers i'r Ddeddf ddod i rym. Mae'r gwaith yr NAS ar helpu i lunio'r Ddeddf yn Lloegr yn golygu y byddent yn adnodd defnyddiol ar gyfer nodi sut y byddai Deddf Gymreig yn wahanol, gan ddysgu o'u profiadau yn Lloegr yn ogystal ag yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

People with autism in Wales still face significant challenges and barriers, and they regularly express concerns to NAS and to the cross-partly autism group, such as the family last week referred to for having waited seven years for a child assessment. Three years after the strategy was introduced, NAS Cymru's report, 'The life we choose' reported that 53% of respondents said the process of diagnosis was painful; only a third of parents felt they had enough support when choosing their child's educational placement; and 51% of parents felt no processes were in place for employment and social care. The Wales Autism Research Centre report on children's autistic spectrum disorder diagnostic services in Wales identified concerns, including a postcode lottery, failure to consistently commission services and the lack of understanding by senior commissioning management.

Mae pobl ag awtistiaeth yng Nghymru yn dal i wynebu heriau a rhwystrau sylweddol, ac maent yn mynegi pryderon yn rheolaidd wrth yr NAS a'r grŵp awtistiaeth trawsbleidiol, megis y teulu y cyfeiriwyd atynt yr wythnos diwethaf y bu'n rhaid iddynt aros am saith mlynedd i gael asesiad plentyn. Dair blynedd ar ôl i'r strategaeth gael ei chyflwyno, roedd adroddiad NAS Cymru, 'Ein Bywyd - Ein Dewis' yn dweud bod 53% o'r ymatebwyr yn honni bod y broses o wneud diagnosis yn boenus; traean yn unig o rieni a deimlai eu bod yn cael digon o gefnogaeth wrth ddewis lleoliad addysgol ar gyfer eu plentyn; a theimlai 51% o rieni nad oedd unrhyw brosesau ar waith ar gyfer cyflogaeth a gofal cymdeithasol. Roedd adroddiad Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru ar wasanaethau diagnostig ar gyfer plant ag anhwylder yn y sbectrwm awtistig yng Nghymru yn nodi pryderon, gan gynnwys loteri cod post, methiant i gomisiynu gwasanaethau yn gyson a diffyg dealltwriaeth uwch-reolwyr comisiynu.

Short-term exclusions for pupils in the special educational needs category doubled in 10 years to 2012, and the 2013 report on children and young people educated outside the school setting, commissioned by the Welsh Government, found that 90% of children excluded or taught outside a school setting had special educational needs. Recent casework correspondence from Denbighshire social services stated that a child with autism would only be eligible for a service from the department if he or she experienced an additional physical or learning disability.

Dyblodd y nifer o waharddiadau tymor byr ymhlith disgyblion yn y categori anghenion addysgol arbennig dros y 10 mlynedd hyd at 2012, a gwelodd yr adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013 ar blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu y tu allan i leoliad yr ysgol fod anghenion addysgol arbennig gan 90% o'r plant a waharddwyd neu sy'n cael addysg y tu allan i leoliad yr ysgol. Nododd gohebiaeth ddiweddar ar waith achos gan wasanaethau cymdeithasol Sir Ddinbych y byddai plentyn ag awtistiaeth ond yn gymwys i gael gwasanaeth gan yr adran os yw ef neu hi yn dioddef o anabledd corfforol neu anabledd dysgu ychwanegol.

But ASD is a condition in its own right, and the autism strategy states

Ond mae anhwylder yn y sbectrwm awtistig yn gyflwr yn ei hawl ei hun, ac mae'r strategaeth awtistiaeth yn datgan na ddylai

'formal diagnosis...should be neither a pre-requisite for a full assessment of each person's wider needs nor should it be a reason for not intervening in a timely manner.'

'diagnosis ffurfiol... fod yn rhagofyniad ar gyfer cael asesiad llawn o anghenion ehangach pob person ac ni ddylai ychwaith fod yn rheswm dros beidio ag ymyrryd mewn modd amserol.'

At last September's north Wales meeting of the cross-party autism group, concerns were raised from the audience over support in Flintshire, particularly for families where multiple individuals have different needs. We were also told that adults were struggling to get appropriate diagnosis in the first instance. Positively, this has generated a proposed meeting with Flintshire County Council.

Yng nghyfarfod gogledd Cymru fis Medi diwethaf o'r grŵp awtistiaeth trawsbleidiol, mynegwyd pryderon gan y gynulleidfa ynghylch cymorth yn Sir y Fflint, yn enwedig i deuluoedd lle y mae gan fwy nag un unigolyn wahanol anghenion. Dywedwyd wrthym hefyd fod oedolion yn cael trafferth i gael diagnosis priodol yn y lle cyntaf. Ar nodyn cadarnhaol, mae hyn wedi arwain at gyfarfod arfaethedig gyda Chyngor Sir y Fflint.

Concerns were raised with me that, in breach of the autism strategy, Wrexham no longer had an ASD strategy group, early last year. After I intervened, I was told a new lead had been appointed and meetings would recommence. At last November's meeting of the cross-party autism group, an Ystradgynlais branch member representative told us that, while the strategy has had some success, on the whole, people are let down and angry that they have to fight so hard to get the support they need. She added that it's important that people with autism are no longer invisible to services and that she would wholeheartedly support an autism Act. Tydfil autism support group outlined the lack of provision in Merthyr, saying that autism shouldn't the postcode lottery and stated that it's essential the Welsh Government measure any benefits of the autism strategy by canvassing the views of those it was specifically meant to help and to respond by introducing legislation to ensure that autism services are delivered as intended.

Mynegwyd pryderon wrthyf nad oedd gan Wrecsam grŵp strategaeth ar gyfer anhwylder yn y sbectrwm awtistig yn gynnar y llynedd, yn groes i'r strategaeth awtistiaeth. Ar ôl i mi ymyrryd, dywedwyd wrthyf fod arweinydd newydd wedi'i benodi ac y byddai'r cyfarfodydd yn ailddechrau. Yng nghyfarfod mis Tachwedd y llynedd o'r grŵp awtistiaeth trawsbleidiol, dywedodd cynrychiolydd a oedd yn aelod o gangen Ystradgynlais wrthym, er bod y strategaeth hon wedi cael rhywfaint o lwyddiant ar y cyfan, fod pobl wedi siomi'u ac yn ddig eu bod yn gorfod ymladd mor galed i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Ychwanegodd ei bod yn bwysig nad yw pobl ag awtistiaeth yn anweledig i'r gwasanaethau mwyach ac y byddai hi yn llwyr gefnogi Deddf awtistiaeth. Soniodd grŵp cefnogi awtistiaeth Merthyr Tudful am y diffyg darpariaeth yno, gan ddweud na ddylai awtistiaeth fod yn ddarostyngedig i loteri cod post a dywedodd ei bod yn hanfodol fod Llywodraeth Cymru yn mesur unrhyw fuddion sy'n deillio o'r strategaeth awtistiaeth drwy ganfasio barn y bobl benodol yr oedd i fod i'w helpu ac i ymateb drwy gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod gwasanaethau awtistiaeth yn cael eu darparu yn ôl y bwriad.

A Blaenau Gwent representative said that autism services in the area are still very limited, that adult services are basically non-existent, that it's very frustrating as a parent to have to fight tooth and nail for your child to receive the services they so desperately need, and that it's time to make ASD a priority again.Asperger's pioneer David Malins called for consistency in support and said that people with autism deserve equal care and we need an autism Act for Wales. NAS Carmarthenshire and Pembrokeshire branches said that the strategy promised to deliver so much, but people are being pushed into further crisis, and that they are calling for an autism Act. The meeting voted unanimously in favour of calling for an autism Act.

Dywedodd cynrychiolydd o Flaenau Gwent fod gwasanaethau awtistiaeth yn yr ardal yn dal i fod yn gyfyngedig iawn, nad oedd gwasanaethau i oedolion yn bodoli i bob pwrpas, ei bod yn rhwystredig iawn fel rhiant wrth orfod ymladd i'r eithaf er mwyn i'w phlentyn allu cael y gwasanaethau sydd cymaint o'u hangen arno, a'i bod yn bryd gwneud anhwylderau yn y sbectrwm awtistig yn flaenoriaeth eto. Galwodd David Malins, sy'n arloeswr ym maes syndrom Asperger, am gysondeb yn y cymorth a dywedodd fod pobl ag awtistiaeth yn haeddu gofal cyfartal a bod arnom angen Deddf awtistiaeth i Gymru. Dywedodd NAS Sir Gaerfyrddin a changhennau Sir Benfro fod y strategaeth wedi addo cyflawni cymaint, ond mae pobl yn cael eu gwthio i argyfwng pellach, a'u bod yn galw am Ddeddf awtistiaeth. Pleidleisiodd y cyfarfod yn unfrydol o blaid galw am Ddeddf awtistiaeth.

At last week's cross-party autism group, Gwynedd and Anglesey Asperger/autism support group told us diagnosis is improving, but post-diagnosis support isn't available, and that an autism Act is needed to safeguard and strengthen services and ensure consistency and support. A Bridgend parent told us about the hope that followed the autism strategy, but how it hasn't achieved what it could have and that there is concern amongst local stakeholder groups in Bridgend about exactly where autism fitted in. Another parent has highlighted adults on the autistic spectrum, particularly those with high-functioning autism and Asperger's, wanting to work but denied employment due to bullying and lack of concern. He highlighted two German companies that only employ people diagnosed with Asperger's syndrome because, he said, they do not waste time, they're accurate, they're diligent and they get the job done.

Yn y grŵp trawsbleidiol ar awtistiaeth yr wythnos diwethaf, dywedodd grŵp cymorth Asperger/awtistiaeth Gwynedd ac Ynys Môn wrthym fod pethau'n gwella o ran rhoi diagnosis, ond nid oes cymorth ar gael ar ôl cael diagnosis, a bod angen Deddf awtistiaeth i ddiogelu a chryfhau gwasanaethau a sicrhau cysondeb a chymorth. Dywedodd rhiant o Ben-y-bont ar Ogwr wrthym am y gobaith a ddilynodd y strategaeth awtistiaeth, ond nad yw wedi cyflawni'r hyn y gallai fod wedi'i wneud a bod pryder ymysg grwpiau rhanddeiliaid lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ynglŷn â ble'n union roedd awtistiaeth yn perthyn. Mae rhiant arall wedi tynnu sylw at oedolion yn y sbectrwm awtistig, yn enwedig pobl ag awtistiaeth uchel-weithredol a syndrom Asperger, sydd eisiau gweithio, ond nad ydynt yn gallu gwneud hynny oherwydd bwlio a diffyg diddordeb. Tynnodd sylw at ddau gwmni yn yr Almaen sydd ond yn cyflogi pobl a gafodd diagnosis o syndrom Asperger am nad ydynt yn gwastraffu amser, meddai, ac maent yn fanwl gywir, yn ddiwyd ac yn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud.

Autism is neither a mental health nor a learning difficulty, but falls between stools as there's often nowhere else to go. An autism Act for Wales has to engage with the autistic community and needs to cross boundaries between health, social services, education, housing and the voluntary sector. Multidisciplinary autism teams are, therefore, needed. An autism Act needs to include diagnostic services, post-diagnostic support, awareness and training for professionals and design and delivery, getting the fundamentals in place first. As with the Autism Act 2009 in England, the duties imposed must be fixed, but a strategy as part of the Act should provide flexibility. People on the spectrum and their families are not convinced that things have changed significantly since the autism strategy was launched. An autism Act is therefore needed to bring about the changes needed and to put those changes on a statutory basis. After all, we can't ask children or adults to stop being autistic until services are in place for them.

Nid yw awtistiaeth yn anhawster iechyd meddwl nac anhawster dysgu, ond mae'n disgyn rhwng dwy stôl gan nad oes unman arall i fynd, yn aml. Rhaid i Ddeddf awtistiaeth ar gyfer Cymru ymgysylltu â'r gymuned awtistig a chroesi ffiniau rhwng iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, tai a'r sector gwirfoddol. Mae angen timau awtistiaeth amlddisgyblaethol felly. Mae angen i Ddeddf awtistiaeth gynnwys gwasanaethau diagnostig, cymorth ar ôl cael diagnosis, ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol a gwaith ar lunio a chyflwyno, i gael y sylfeini yn eu lle yn gyntaf. Fel gyda Deddf Awtistiaeth 2009 yn Lloegr, rhaid i'r dyletswyddau a osodwyd fod yn sefydlog, ond dylai strategaeth fel rhan o'r Ddeddf gynnig hyblygrwydd. Nid yw pobl yn y sbectrwm a'u teuluoedd yn argyhoeddedig fod pethau wedi newid yn sylweddol ers lansio'r strategaeth awtistiaeth. Felly mae angen Deddf awtistiaeth i sicrhau'r newidiadau sydd eu hangen ac i roi'r newidiadau hynny ar sail statudol. Wedi'r cyfan, ni allwn ofyn i blant neu oedolion roi'r gorau i fod yn awtistig tan y bydd gwasanaethau ar waith ar eu cyfer.

Today is my birthday, and Assembly support for this motion would be the best present I could receive. Diolch. Thank you.

Mae'n ben-blwydd arnaf heddiw, a chefnogaeth y Cynulliad i'r cynnig hwn fyddai'r anrheg orau y gallwn ei chael. Diolch. Diolch yn fawr.

16:17 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I put on the record that I am patron of the Blaenau Gwent autism group?

A gaf fi ei roi ar y cofnod fy mod yn un o noddwyr grŵp awtistiaeth Blaenau Gwent?

When the autism strategy was published in 2008, I think there was very great satisfaction, and I think there was great optimism and hope that a strategy had been put in place that not only placed Wales in a leading position, but would also ensure that people up and down the country would receive the support and services that they need and require. We know that the strategy itself was a good strategy. It's a strategy that was drawn up in conjunction with different groups of people who worked with those with autism, and it was something that had broad support across the country. But, we also know that the fault, if there is a fault, isn't necessarily with the strategy, but with the delivery of that strategy. As Mark has outlined, we are aware that, whilst we have a plan in place, delivery on that plan is at best patchy and at worst seriously deficient. We understand that there are people up and down the country who have to struggle and fight to get a statement and then struggle and fight again to receive services and support that should be theirs as a right. We cannot simply stand back and allow that situation to occur.

Pan gyhoeddwyd y strategaeth awtistiaeth yn 2008, rwy'n credu bod yna foddhad mawr iawn, ac rwy'n meddwl bod yna optimistiaeth fawr a gobaith fod strategaeth wedi cael ei rhoi ar waith a oedd nid yn unig yn gosod Cymru mewn sefyllfa flaenllaw, ond a fyddai hefyd yn sicrhau bod pobl ar hyd a lled y wlad yn cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Rydym yn gwybod bod y strategaeth ei hun yn strategaeth dda. Mae'n strategaeth a luniwyd ar y cyd â grwpiau gwahanol o bobl a oedd yn gweithio gyda rhai ag awtistiaeth, ac roedd yn rhywbeth a gâi gefnogaeth eang ar draws y wlad. Ond gwyddom hefyd nad ar y strategaeth y mae'r bai o reidrwydd, os oes bai, ond yn hytrach, ar y modd y cafodd y strategaeth ei chyflwyno. Fel yr amlinellodd Mark, er bod gennym gynllun yn ei le rydym yn ymwybodol fod y modd y cafodd y cynllun ei gyflwyno yn dameidiog ar y gorau, ac ar ei waethaf yn ddifrifol o ddiffygiol. Deallwn fod yna bobl ar hyd a lled y wlad sy'n ei chael hi'n anodd ac yn gorfod ymladd i gael datganiad, ac yna'n ei chael hi'n anodd ac yn gorfod ymladd unwaith eto i gael gwasanaethau a chymorth a ddylai fod yn hawl iddynt. Yn syml, ni allwn adael i'r sefyllfa hon barhau i ddigwydd.

Mark has already quoted people from Blaenau Gwent, and I spoke earlier today to Nicola Williams, who is the branch officer for NAS Cymru in Blaenau Gwent, and she was very clear—absolutely clear—that, whilst in Blaenau Gwent the strategy has led to an improvement over the last four years particularly, there are, and continue to be, very serious issues, both with children's services and with adult services. We have been waiting for the local authority for over two years to update its strategic action plan, and we are waiting, time and time again, for services to be provided. This is causing real difficulties and real problems for families in Blaenau Gwent and elsewhere.

Mae Mark eisoes wedi dyfynnu pobl o Flaenau Gwent, a siaradais yn gynharach heddiw â Nicola Williams, sef swyddog cangen ar ran NAS Cymru ym Mlaenau Gwent, ac roedd hi'n glir—yn gwbl glir—er bod y strategaeth ym Mlaenau Gwent wedi arwain at welliant dros y pedair blynedd diwethaf yn arbennig, mae yna broblemau o hyd, problemau difrifol iawn, gyda'r gwasanaethau plant a'r gwasanaethau i oedolion. Ers dros ddwy flynedd, rydym wedi bod yn disgwyl i'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynllun gweithredu strategol, ac rydym yn aros, dro ar ôl tro, i wasanaethau gael eu darparu. Mae hyn yn achosi anawsterau gwirioneddol a phroblemau gwirioneddol i deuluoedd ym Mlaenau Gwent ac mewn mannau eraill.

Now, it is not sufficient, and it is not acceptable, and it is not an adequate response, to simply say that this is the responsibility or the fault of a local authority, and therefore the local authority has to do better—'It's nothing to do with us'. We have a responsibility in this place. We have an absolute responsibility to ensure that the strategy and the strategic actions that we foresaw as a part of that strategy are actually delivered for families in reality. That means that we cannot walk away from it and say that it is simply 'a matter for local government—it is not a matter for us'. That means that we do need to take responsibility, and we do need to act, and we do, I believe, need to ensure that an autism Act appears on the legislative programme of the next Government, and we do need to ensure that that legislation has teeth and delivers for people and families across Wales. It's easy, and perhaps all too often we talk in terms of a statistical analysis of what we see in front of us, but it is too true to understand that people at the moment, in different parts of Wales—and I know from my own experience in Blaenau Gwent—are simply not receiving the services. Where they do receive services, it is a result, usually, because a parent has struggled for year after year after year to get access to those services. We cannot allow people to be in that position. We must not allow people to be in that position.

Yn awr, nid yw'n ddigon nac yn dderbyniol, ac nid yw'n ymateb digonol i ddweud yn syml mai cyfrifoldeb neu fai yr awdurdod lleol yw hyn, ac felly bod angen i'r awdurdod lleol wneud yn well—'nid yw'n ddim i wneud â ni'. Mae gennym gyfrifoldeb yn y lle hwn. Mae gennym gyfrifoldeb llwyr i sicrhau bod y strategaeth a'r camau strategol a ragwelwyd gennym yn rhan o'r strategaeth honno yn cael eu darparu ar gyfer teuluoedd go iawn. Mae hynny'n golygu na allwn droi cefn arno a dweud mai 'mater i lywodraeth leol ydyw, yn syml iawn—nid mater i ni'. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ni gymryd cyfrifoldeb, ac mae angen i ni weithredu. Yn fy marn i, mae angen i ni sicrhau bod Deddf awtistiaeth yn ymddangos ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth nesaf, ac mae angen i ni sicrhau bod dannedd gan y ddeddfwriaeth honno a'i bod yn cyflawni ar gyfer pobl a theuluoedd ledled Cymru. Mae'n hawdd, ac efallai ein bod yn siarad yn rhy aml yn nhermau dadansoddiadau ystadegol o'r hyn a welwn o'n blaenau, ond mae'n berffaith wir nad yw pobl ar hyn o bryd mewn gwahanol rannau o Gymru—ac rwy'n gwybod o fy mhrofiad fy hun ym Mlaenau Gwent—yn syml iawn yn cael y gwasanaethau. Lle y maent yn cael gwasanaethau, fel arfer mae'n dilyn ar ôl i riant orfod ymdrechu am flwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn i gael y gwasanaethau hynny. Ni allwn ganiatáu i bobl fod yn y sefyllfa honno. Rhaid i ni beidio â gadael i bobl fod yn y sefyllfa honno.

I would like to see an autism Act that does provide not only the responsibility for local authorities to deliver these services, but also provides the right of people to receive these services. So, I hope that we will be able—and I hope that the Minister, in responding to the debate—to give an undertaking that, certainly, on this side of the Chamber, we will ensure that an autism Act forms a part of our manifesto commitment. We need to ensure in the future that children and adults with autism can get a diagnosis and a timely diagnosis, without having to struggle and wait for year after year after year, but receiving the diagnosis that they require; that they have understanding amongst key professionals, whether in the school environment or elsewhere; and that local authorities do have additional duties—local authorities and health boards, I should say—to take the appropriate action to ensure that children and adults with autism get the support that they require. And then we need to ensure that that is funded. I know there are some issues at the moment around the funding of the strategy, and I know that that has led to difficulties for local authorities up and down the country. But we need to ensure that we deliver the duties and the rights.

Hoffwn weld Deddf awtistiaeth sydd nid yn unig yn rhoi cyfrifoldeb i awdurdodau lleol ddarparu'r gwasanaethau hyn, ond sydd hefyd yn darparu hawl i bobl gael y gwasanaethau hyn. Felly, rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu-ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl yn gallu-ymrwymo'n bendant ar yr ochr hon i'r Siambr i sicrhau bod Deddf awtistiaeth yn rhan o'n hymrwymiadau maniffesto. Mae angen i ni sicrhau yn y dyfodol y gall plant ac oedolion ag awtistiaeth gael diagnosis yn amserol, heb orfod ymdrechu ac aros am flwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn, ond eu bod yn cael y diagnosis sydd ei hangen arnynt; fod gweithwyr proffesiynol allweddol yn eu deall, boed yn amgylchedd yr ysgol neu mewn mannau eraill; a bod awdurdodau lleol â dyletswyddau ychwanegol-awdurdodau lleol a byrddau iechyd, fe ddylwn ddweud-i roi'r camau priodol ar waith i sicrhau bod plant ac oedolion ag awtistiaeth yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Ac yna mae angen inni sicrhau bod hynny'n cael ei gyllido. Rwy'n gwybod bod rhai problemau ar hyn o bryd o ran cyllido'r strategaeth, a gwn fod hynny wedi arwain at anawsterau i awdurdodau lleol ar hyd a lled y wlad. Ond mae angen inni sicrhau ein bod yn darparu'r dyletswyddau a'r hawliau.

16:22 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It may not surprise Members that I also rise to support this individual Member's motion led by Mark Isherwood. I have long supported the need for a more timely diagnosis for people with autism in Wales. Indeed, while I accept that there are some examples of good practice of diagnosis in Wales, experiences in my own constituency have been particularly difficult. Sadly, some children in Pembrokeshire, as Mark Isherwood said, are waiting up to seven years for a diagnosis, which is simply unacceptable. And because of that, there has been a huge impact on families across the county. For some small children in Pembrokeshire, this means that they can be approaching 11 years of age, and beginning secondary school, without having received an appropriate diagnosis. The NAS Pembrokeshire branch have also informed me that the local ASD team are only diagnosing two children a month, and have calculated that, if the team continues to diagnose at this rate, then the waiting list will soon be eight to nine years long, and that is simply unacceptable.

Efallai na fydd yn syndod i'r Aelodau fy mod innau hefyd yn codi i gefnogi'r cynnig Aelod unigol hwn sy'n cael ei gyflwyno gan Mark Isherwood. Rwyf wedi cefnogi'r angen am ddiagnosis mwy amserol i bobl ag awtistiaeth yng Nghymru ers amser maith. Yn wir, er fy mod yn derbyn bod rhai enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â diagnosis yng Nghymru, mae profiadau pobl yn fy etholaeth fy hun wedi bod yn arbennig o anodd. Yn anffodus, mae rhai plant yn Sir Benfro, fel y dywedodd Mark Isherwood, yn aros hyd at saith mlynedd i gael diagnosis, sy'n gwbl annerbyniol. Ac oherwydd hynny, mae'r effaith wedi bod yn enfawr ar deuluoedd ar draws y sir. I rai plant bach yn Sir Benfro, mae hyn yn golygu y gallant fod yn agosáu at 11 oed, ac yn dechrau yn yr ysgol uwchradd, heb fod wedi cael diagnosis priodol. Hefyd, mae cangen NAS Sir Benfro wedi fy hysbysu bod y tîm anhwylderau yn y sbectrwm awtistig lleol ond yn gwneud diagnosis ar gyfer dau blentyn y mis, ac os yw'r tîm yn parhau i wneud diagnosis ar y gyfradd hon, maent wedi mesur y bydd y rhestr aros yn wyth i naw mlynedd o hyd yn fuan, ac mae hynny'n gwbl annerbyniol.

Early intervention is, therefore, crucial in order to provide the appropriate support and to avoid long-term problems in the future. Indeed, as NAS Cymru tell us, early intervention for children with autism is crucial for their educational, emotional and social development, and for their long-term health.

Felly mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol er mwyn darparu'r cymorth priodol ac er mwyn osgoi problemau hirdymor yn y dyfodol. Yn wir, fel y mae NAS Cymru yn dweud wrthym, mae ymyrraeth gynnar ar gyfer plant ag awtistiaeth yn hanfodol o ran eu datblygiad addysgol, emosiynol a chymdeithasol, ac o ran eu hiechyd hirdymor.

I'm sure all Members will agree that diagnosing autism can be very complex, and that it will of course involve multi-agency and specialist assessments that must be carried out by experts in their field of work. Unfortunately, autism is a spectrum condition, which means that, while all people with autism share certain areas of difficulty, no two people with autism are exactly the same. So, I can very much appreciate that diagnosing autism, particularly in small children, is no easy task, but a seven-year wait is just unacceptable.

Rwy'n siŵr y bydd pob Aelod yn cytuno y gall diagnosis o awtistiaeth fod yn gymhleth iawn, ac y bydd, wrth gwrs, yn cynnwys asesiadau amlasiantaethol ac arbenigol sy'n rhaid eu cynnal gan arbenigwyr yn eu maes gwaith. Yn anffodus, mae awtistiaeth yn gyflwr sbectrwm, sy'n golygu, er bod pawb sydd ag awtistiaeth yn rhannu rhai meysydd o anhawster, ni fydd unrhyw ddau berson ag awtistiaeth yn union yr un fath. Felly, rwy'n llawn sylweddoli nad yw gwneud diagnosis o awtistiaeth, yn enwedig mewn plant bach, yn dasg hawdd, ond mae aros saith mlynedd yn gwbl annerbyniol.

Now, when the Welsh Government launched its ASD action plan in 2008 it was first among the UK nations to have an autism-specific strategy, but as I have said before in this Chamber, being first isn't the same as being first rate. Clearly, the implementation of that plan differs greatly across local authorities in Wales, and now the Welsh Government is removing the ring-fenced money that each local authority receives. As a result, there is a real danger that the gap in equity of services across Wales will be even wider than it currently is. I, therefore, support the calls for an autism Act for Wales, which would see duties placed on local authorities to make sure that every council is taking the right steps to give children and adults in Wales the care and support they deserve. Indeed, one of the objectives of this autism Act would be to improve understanding of autism among key professionals—something that I am particularly supportive of.

Yn awr, pan lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gweithredu ar anhwylderau yn y sbectrwm awtistig yn 2008, hi oedd y gyntaf o blith gwledydd y DU i gael strategaeth benodol ar gyfer awtistiaeth, ond fel y dywedais o'r blaen yn y Siambr hon, nid yw bod yn gyntaf yr un fath â bod o'r radd flaenaf. Yn amlwg, mae'r modd y caiff y cynllun ei weithredu yn wahanol iawn ar draws awdurdodau lleol Cymru, ac yn awr mae Llywodraeth Cymru yn cael gwared ar yr arian wedi'i glustnodi y mae pob awdurdod lleol yn derbyn. O ganlyniad, mae perygl gwirioneddol y bydd y bwlch o ran sicrhau gwasanaethau cyfartal ledled Cymru hyd yn oed yn fwy nag y mae ar hyn o bryd. O'r herwydd, rwy'n cefnogi'r galwadau am Ddeddf awtistiaeth i Gymru, a fyddai'n sicrhau bod dyletswyddau yn cael eu gosod i awdurdodau lleol wneud yn siŵr fod pob cyngor yn rhoi'r camau cywir ar waith er mwyn rhoi'r gofal a'r gefnogaeth y maent yn eu haeddu i blant ac oedolion yng Nghymru. Yn wir, un o amcanion y Ddeddf hon fyddai gwella dealltwriaeth o awtistiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol allweddol-rhywbeth rwy'n arbennig o gefnogol ohono.

As autism doesn't affect someone's physical appearance, the signs of whether a child has autism are shown in a pattern of behaviour that requires careful observation, particularly in a school setting. Figures show that more than one in 100 children are on the autism spectrum, so all schools should expect to teach some children with autism. It's, therefore, essential that the Welsh Government works closely with local schools to ensure that teachers and school staff have sufficient training so that they can recognise the signs of ASD amongst children. Perhaps, in responding to this debate this afternoon, the Minister could elaborate on how the Welsh Government is supporting education professionals in recognising the signs and symptoms of children with autism in the classroom.

Gan nad yw awtistiaeth yn effeithio ar ymddangosiad corfforol rhywun, mae'r arwyddion sy'n dangos a oes gan blentyn awtistiaeth i'w gweld mewn patrwm ymddygiad sy'n gofyn am arsylwi gofalus, yn enwedig mewn lleoliad ysgol. Mae ffigurau'n dangos bod mwy nag un o bob 100 o blant yn y sbectrwm awtistig, felly dylai pob ysgol ddisgwyl addysgu rhai plant ag awtistiaeth. Mae'n, hanfodol felly fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag ysgolion lleol i sicrhau bod athrawon a staff ysgolion yn cael hyfforddiant digonol er mwyn iddynt allu adnabod arwyddion o anhwylderau yn y sbectrwm awtistig ymysg plant. Efallai, wrth ymateb i'r ddadl hon y prynhawn yma, y gallai'r Gweinidog ymhelaethu ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo gweithwyr addysg proffesiynol i adnabod arwyddion a symptomau plant ag awtistiaeth yn yr ystafell ddosbarth.

Finally, acting Deputy Presiding Officer, I'd like to touch on one of the issues that was under the spotlight during the last Assembly, which was addressing the need to close the gap between strategy and policy for young people with autism in further education. I was privileged to be part of the Enterprise and Learning Committee when this issue was being scrutinised, and one of the issues that was touched upon was the role of Careers Wales, which plays an important role in the post-16 provision, providing counselling and support for all young people, especially those who have autism. Indeed, much of the evidence that was received highlighted that many people felt that Careers Wales advisers did not have sufficient knowledge to undertake their roles effectively. Given that it's been almost five years since that report, I would hope that the landscape for young people with autism in further education has changed, and, perhaps, in response to this debate, the Minister will specify exactly what implementation there has been of that committee's recommendations.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd dros dro, hoffwn grybwyll un o'r materion a oedd o dan y chwyddwydr yn ystod y Cynulliad diwethaf, sef mynd i'r afael â'r angen i gau'r bwlch rhwng strategaeth a pholisi ar gyfer pobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach. Cefais y fraint o fod yn rhan o'r Pwyllgor Menter a Dysgu pan wnaed gwaith craffu ar y mater, ac un o'r pethau a grybwyllwyd oedd rôl Gyrfa Cymru, sy'n chwarae rhan bwysig yn y ddarpariaeth ôl-16 drwy ddarparu gwasanaethau cwnsela a chymorth ar gyfer yr holl bobl ifanc, yn enwedig rhai ag awtistiaeth. Yn wir, amlygodd llawer o'r dystiolaeth a ddaeth i law fod llawer o bobl yn teimlo nad oedd gan gynghorwyr Gyrfa Cymru ddigon o wybodaeth i wneud eu gwaith yn effeithiol. O gofio ei bod bron yn bum mlynedd ers yr adroddiad hwnnw, byddwn yn gobeithio bod y dirwedd i bobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach wedi newid, ac efallai, mewn ymateb i'r ddadl hon, y gwnaiff y Gweinidog nodi'n union pa waith a wnaed ar argymhellion y pwyllgor hwnnw.

Across Wales, there is evidence, right the way through the education system, of a lack of support for children and young people with autism. Given the high prevalence of autism, that has got to change. Diagnosis delays of up to seven years are simply unacceptable in this day and age, and I sincerely hope the Minister will commit to an autism Act for Wales, which will ensure that adults and children living with autism in all parts of Wales receive the care and support that they deserve. Thank you, acting Deputy Presiding Officer.

Ar draws Cymru, mae tystiolaeth yr holl ffordd drwy'r system addysg o ddiffyg cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth. O ystyried y nifer uchel o achosion o awtistiaeth, rhaid i hynny newid. Mae oedi cyn cael diagnosis am hyd at saith mlynedd yn gwbl annerbyniol yn yr oes sydd ohoni, ac rwy'n mawr obeithio y bydd y Gweinidog ymrwymo i sicrhau Deddf awtistiaeth i Gymru, a fydd yn gwneud yn siŵr bod oedolion a phlant sy'n byw gydag awtistiaeth ym mhob rhan o Gymru yn cael y gofal a'r cymorth y maent yn ei haeddu. Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd dros dro.

16:27

## Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'm in support of the motion—excuse my voice, by the way. I'm in support of the motion before us, but I want to make three particular points that I think may have been overlooked. First of all, there doesn't seem to be any monitoring by the Welsh Government of how local authorities are supporting people with autism. Services across Wales, as we've heard, are patchy, and the system of annual funding does not allow local authorities to plan services on a long-term basis. We need consistency across Wales, so that people who suffer with autism are not subject to a postcode lottery.

Rwyf o blaid y cynnig—esgusodwch fy llais, gyda llaw. Rwyf o blaid y cynnig sydd gerbron, ond rwyf am wneud tri phwynt penodol y credaf eu bod wedi cael eu hanwybyddu o bosibl. Yn gyntaf oll, nid yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw waith monitro ar y modd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi pobl ag awtistiaeth. Fel y clywsom, mae gwasanaethau ledled Cymru yn anghyson, ac nid yw'r system o gyllido blynyddol yn caniatáu i awdurdodau lleol gynllunio gwasanaethau ar sail hirdymor. Mae angen cysondeb ledled Cymru, fel nad yw pobl sy'n dioddef o awtistiaeth yn ddarostyngedig i loteri cod post.

The second point I want to make is as a result of a letter I've received, actually, from the parent of an autistic child attending a school in Caerphilly. On the face of it, it looks as though this particular pupil's disorder is not being treated sympathetically by the school, so this raises the question of how well teachers are trained to deal professionally with each autistic pupil's individual and unique needs.

Mae'r ail bwynt rwyf am ei wneud yn deillio o lythyr a gefais gan riant plentyn awtistig sy'n mynychu ysgol yng Nghaerffili. Ar yr olwg gyntaf, nid yw'n edrych fel pe bai'r ysgol yn trin anhwylder y plentyn gyda chydymdeimlad, felly mae hyn yn codi cwestiwn ynglŷn â pha mor dda y mae athrawon yn cael eu hyfforddi i ymdrin yn broffesiynol ag anghenion unigol ac unigryw pob disgybl awtistig.

The third issue I want to raise concerns older people with ASD—autism spectrum disorder. People with autism don't eventually grow out of it. It remains with them into old age, and, with an increasingly ageing population in Wales, this is destined to become a serious challenge to the health and social care services. Yet I'm told by the National Autistic Society in Wales there is very little recognition of the services available for older people with autism, nor the skills and knowledge amongst health professionals to adequately support them. What services are in place to help older people with autism when parents are no longer with them or are unable to cope? We do need to include, in an autism Act, a duty on local authorities to collect the data on people over 65 with autism and use these figures to plan services.

Mae'r trydydd mater rwyf am ei godi yn ymwneud â phobl hŷn sydd ag anhwylder yn y sbectrwm awtistig. Nid yw pobl ag awtistiaeth yn tyfu allan ohono yn y pen draw. Mae'n parhau i fod gyda hwy wrth iddynt dyfu'n hŷn, a chyda'r cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru, mae hon yn mynd i fod yn her ddifrifol i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Eto i gyd, mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru yn dweud wrthyf mai ychydig iawn o gydnabyddiaeth a roddir i'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl hŷn ag awtistiaeth, a'r sgiliau a'r wybodaeth sydd gan weithwyr iechyd proffesiynol i roi digon o gefnogaeth iddynt. Pa wasanaethau sydd ar waith i helpu pobl hŷn sydd ag awtistiaeth pan nad yw eu rhieni gyda hwy bellach neu'n methu ymdopi? Mewn Deddf awtistiaeth, mae angen i ni gynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i gasglu'r data am bobl dros 65 oed sydd ag awtistiaeth a defnyddio'r ffigurau hyn i gynllunio gwasanaethau.

I know that some research has been carried out into the prevalence of autism in older people in Wales, but we surely need a much wider survey so that the extent of the situation is known, so that local authorities and the health boards can plan accordingly. Whilst we, of course, rightly focus our attention on the services available for children with autism, we do ignore at our peril the needs of the older people, and it is time for the Welsh Government to recognise their ongoing needs and to make sure that local authorities and health boards plan services for adults and particularly older people who will continue to suffer from autism.

Gwn fod rhywfaint o ymchwil wedi cael ei wneud ar nifer yr achosion o awtistiaeth ymysg pobl hŷn yng Nghymru, ond mae'n sicr fod arnom angen arolwg llawer ehangach er mwyn canfod graddau'r sefyllfa, er mwyn i awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd allu cynllunio yn unol â hynny. Er ein bod, wrth gwrs, yn iawn i ganolbwyntio ein sylw ar y gwasanaethau sydd ar gael i blant ag awtistiaeth, gwae inni anwybyddu anghenion pobl hŷn, ac mae'n bryd i Lywodraeth Cymru gydnabod eu hanghenion parhaus a gwneud yn siŵr fod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cynllunio gwasanaethau ar gyfer oedolion, a phobl hŷn yn arbennig, a fydd yn parhau i ddioddef o awtistiaeth.

16:30 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's a great privilege to take part in this important debate today, initiated by our colleague, Mark Isherwood, chair of the cross-party autism group. Under his chairmanship, I think it's fair to say that CPAG is one of the more dynamic of the cross-party groups. It meets here at the Assembly and, indeed, as we've heard, across Wales, providing a valuable forum for individuals and families across the country that are touched by autism. The attendance at last week's CPAG meeting, where the Minister for health and indeed, as we've heard, the chief executive of NAS at a UK level, Mark Lever, spoke is also a reflection of this, as well as the sterling efforts of NAS Cymru, which provides the secretariat for its activities.

Mae'n fraint fawr cael cymryd rhan yn y ddadl bwysig hon heddiw, a gychwynnwyd gan ein cydweithiwr, Mark Isherwood, cadeirydd y grŵp awtistiaeth trawsbleidiol. O dan ei gadeiryddiaeth, rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud bod CPAG yn un o'r mwyaf deinamig o'r grwpiau trawsbleidiol. Mae'n cyfarfod yma yn y Cynulliad ac ar draws Cymru yn wir, fel y clywsom, gan ddarparu fforwm gwerthfawr i unigolion a theuluoedd ledled y wlad sy'n cael eu heffeithio gan awtistiaeth. Roedd y nifer a fynychodd y cyfarfod CPAG yr wythnos ddiwethaf, lle y siaradodd y Gweinidog iechyd, ac fel y clywsom, Mark Lever, prif weithredwr NAS ar lefel y DU, yn adlewyrchu hyn hefyd, yn ogystal ag ymdrechion gwiw NAS Cymru, sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer ei weithgareddau.

I know from my postbag, my e-mail inbox and, indeed, also the attendance at my surgeries across Mid and West Wales, that there are serious shortcomings in the current provision for those with autistic spectrum disorder—from Haverfordwest to Carmarthen and, as we've heard, from Ystradgynlais to Newtown. These shortcomings in the implementation of the ASD strategy are feeding the clamour for an autism Act that could afford greater protection for autism services and for those who rely upon them.

Rwy'n gwybod o fy mag gohebiaeth, fy mewnflwch e-bost ac yn wir, drwy fynychu fy nghymorthfeydd ar draws y canolbarth a'r gorllewin yn wir, fod diffygion difrifol yn y ddarpariaeth bresennol ar gyfer y rhai sydd ag anhwylder yn y sbectrwm awtistig—o Hwlffordd i Gaerfyrddin ac fel y clywsom, o Ystradgynlais i Drenewydd. Mae'r diffygion hyn yn y modd y caiff y strategaeth anhwylderau yn y sbectrwm awtistig ei rhoi ar waith yn bwydo'r alwad am Ddeddf awtistiaeth a allai roi mwy o ddiogelwch i wasanaethau awtistiaeth ac ar gyfer y rhai sy'n dibynnu arnynt.

As Paul Davies has already stated, this is a particular issue in Pembrokeshire, and the NAS Cymru Pembrokeshire branch recently submitted a petition to the Petitions Committee over concerns about the waiting times for the diagnosis of autism, particularly in children in Pembrokeshire, and their unacceptable length. The committee has been in extensive correspondence with the former Deputy Minister for Social Services, Gwenda Thomas, and I would like at this point to acknowledge the energy that she committed to addressing the petitioners' concerns. We have, more recently, written to the Minister for health requesting an update on waiting times in the Hywel Dda health board area and, as committee Chair, I look forward to receiving a response shortly.

Fel y dywedodd Paul Davies eisoes, mae hon yn broblem benodol yn Sir Benfro, ac yn ddiweddar, cyflwynodd cangen Sir Benfro o NAS Cymru ddeiseb i'r Pwyllgor Deisebau ynghylch phryderon ynglŷn â'r amseroedd aros cyn cael diagnosis o awtistiaeth, yn enwedig ar gyfer plant yn Sir Benfro, a'u hyd annerbyniol. Mae'r pwyllgor wedi bod yn gohebu'n helaeth â'r cyn Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas, a hoffwn yn y fan hon gydnabod yr egni a roddodd hi i fynd i'r afael â phryderon y deisebwyr. Yn fwy diweddar, rydym wedi ysgrifennu at y Gweinidog iechyd yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am amseroedd aros yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda ac fel Cadeirydd y pwyllgor, edrychaf ymlaen at gael ymateb cyn bo hir.

I also know the extent of alarm across Wales that has been triggered by the Welsh Government's decision to remove the protection around ring-fenced funding for autism services delivered by our local authorities. The Minister may say that this is in line with the Welsh Government's policy of removing ring fencing for specific grants after a certain period of time, but it is a source of huge concern to parents that, without these protected funds, local autism service provision may be lost amongst other conflicting priorities. I am pleased to say that I've secured a personal undertaking from the leader of Powys County Council, Barry Thomas, to continue voluntarily to ring-fence its autism budget in 2015-16, and this is very much to be welcomed and commended. I shall be writing to other council leaders in Mid and West Wales, seeking their response to my call for such a voluntary ring-fencing. I would also be interested to hear from the Minister as to any feedback from other local authorities across Wales with regard to this.

Rwyf hefyd yn gwybod faint o ofn a achoswyd ledled Cymru gan benderfyniad Llywodraeth Cymru i gael gwared ar y diogelwch i arian wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth a ddarperir gan ein hawdurdodau lleol. Efallai y bydd y Gweinidog yn dweud bod hyn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru o gael gwared ar glustnodi arian ar gyfer grantiau penodol ar ôl cyfnod penodol o amser, ond mae'n destun pryder mawr i rieni y gallai'r ddarpariaeth o wasanaethau awtistiaeth lleol gael ei cholli ynghanol blaenoriaethau eraill sy'n gwrthdaro os nad yw'r cronfeydd hyn yn cael eu diogelu. Rwy'n falch o ddweud fy mod wedi sicrhau ymrwymiad personol gan arweinydd Cyngor Sir Powys, Barry Thomas, i barhau i glustnodi ei gyllideb awtistiaeth yn wirfoddol ar gyfer 2015-16, ac mae hyn i'w groesawu a'i ganmol yn fawr iawn. Byddaf yn ysgrifennu at arweinyddion cynghorau eraill yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, i ofyn am eu hymateb i fy ngalwad i fynd ati'n wirfoddol i glustnodi arian. Byddwn hefyd â diddordeb mewn clywed gan y Gweinidog ynghylch unrhyw adborth ar hyn gan awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru.

It is widely accepted that one of the weaknesses of the ASD strategy action plan was that last-minute funding announcements have often made it difficult for local authorities to make long-term service provision and plans. What consideration is the Welsh Government currently giving to the funding of autism services post 2016? Dirprwy Lywydd dros dro, families and individuals across Wales show enormous resilience in the face of the challenges that come with ASD. They're also, however, amongst the most vulnerable groups in our society, and I would contend that they deserve their entitlements to be enshrined in statute. I would urge colleagues across the Chamber to reflect positively on the case for an autism Act and to support this motion today.

Derbynnir yn eang mai un o wendidau cynllun gweithredu'r strategaeth anhwylderau yn y sbectrwm awtistig oedd bod cyhoeddiadau munud olaf ar gyllido yn aml wedi ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau a chynlluniau hirdymor. Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi ar hyn o bryd i ariannu gwasanaethau awtistiaeth ar ôl 2016? Ddirprwy Lywydd dros dro, mae teuluoedd ac unigolion ar draws Cymru yn dangos gwytnwch enfawr yn wyneb yr heriau a ddaw yn sgil anhwylderau yn y sbectrwm awtistig. Maent hefyd, fodd bynnag, ymhlith y grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, a byddwn yn dadlau eu bod yn haeddu cael eu hawliau wedi eu hymgorffori mewn statud. Byddwn yn annog cydweithwyr ar draws y Siambr i feddwl yn gadarnhaol ynglŷn â'r achos dros Ddeddf awtistiaeth ac i gefnogi'r cynnig hwn heddiw.

16:34 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I very much welcome the opportunity to contribute to this debate today, particularly as I am now a member of the Assembly's cross-party group on autism, which the Member for North Wales chairs and which met last week. I recall from the meeting, as has been mentioned, that Mark Lever praised the development of the Welsh Government's autistic spectrum disorder strategic plan, and pointed out that Wales was the first country in the world to have such a plan in place. Nonetheless, despite the good work that has been done, I agree that there is more that we must do in terms of supporting people with autism in Wales and their families.

Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl hon heddiw yn fawr iawn, yn enwedig gan fy mod bellach yn aelod o grŵp trawsbleidiol y Cynulliad ar awtistiaeth, sy'n cael ei gadeirio gan yr Aelod dros ogledd Cymru ac a gyfarfu yr wythnos diwethaf. Rwy'n cofio o'r cyfarfod, fel y crybwyllwyd, fod Mark Lever wedi canmol y gwaith o ddatblygu cynllun strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistig, a nododd mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i gael cynllun o'r fath ar waith. Serch hynny, er gwaethaf y gwaith da a wnaed, rwy'n cytuno bod mwy y mae'n rhaid inni ei wneud o ran cefnogi pobl ag awtistiaeth yng Nghymru a'u teuluoedd.

I've mentioned in this Chamber before that I firmly believe that one of the most important things that we can do is recognise, promote and support the work of parents of children with autism and other voluntary groups that do excellent work on the ground. On 2 April this year, World Autism Awareness Day, I will help to launch the Autism Heroes Awards in the Senedd. These awards were set up by my constituent Jo Salmon and her daughter Holly who has Asperger's syndrome. They recognise excellence achieved in the world of autism in Wales. Nominations closed on 31 December and this year's nominees will be announced at the Senedd launch event. The winners will be announced at Holly's Ball, a hugely successful annual event to be held in June and which will raise funds to support people with autism and their families.

Rwyf wedi crybwyll yn y Siambr hon o'r blaen fy mod yn credu'n gryf mai un o'r pethau pwysicaf y gallwn ei wneud yw cydnabod, hyrwyddo a chefnogi gwaith rhieni plant ag awtistiaeth a grwpiau gwirfoddol eraill sy'n gwneud gwaith ardderchog ar lawr gwlad. Ar 2 Ebrill eleni, Diwrnod Ymwybyddiaeth Awtistiaeth y Byd, byddaf yn helpu i lansio Gwobrau Arwyr Awtistiaeth yn y Senedd. Sefydlwyd y gwobrau hyn gan un o fy etholwyr, Jo Salmon, a'i merch Holly sydd â syndrom Asperger. Maent yn cydnabod rhagoriaeth a gyflawnwyd ym maes awtistiaeth yng Nghymru. Daeth y cyfnod enwebu i ben ar 31 Rhagfyr a bydd enwebeion eleni yn cael eu cyhoeddi yn y lansiad y Senedd. Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn ystod Holly's Ball, digwyddiad blynyddol hynod o lwyddiannus a gynhelir ym mis Mehefin ac a fydd yn codi arian i gefnogi pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd.

My point here, acting Llywydd, is that the efforts of volunteers and fundraisers in helping to raise awareness of autism needs to be recognised, and that the Welsh Government must complement this excellent work by people like my constituent Jo Salmon by engaging with them and working together to help address the needs of people with autism and their families.

Fy mhwynt yn y fan hon, Lywydd dros dro, yw bod angen cydnabod ymdrechion gwirfoddolwyr a rhai sy'n codi arian wrth helpu i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth, a bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ategu'r gwaith rhagorol hwn gan bobl fel fy etholwr, Jo Salmon, drwy ymgysylltu â hwy a chydweithio i helpu i fynd i'r afael ag anghenion pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd.

That said, however, the work of voluntary groups cannot replace the obligations of statutory bodies; it can only complement them. The ring-fenced funding provided by the Welsh Government to local authorities as part of the ASD strategic action plan was very valuable, and I know that organisations such as the National Autistic Society have been in discussions with the Welsh Government about the latter's review of the strategic action plan.

Wedi dweud hynny, fodd bynnag, ni all gwaith grwpiau gwirfoddol gymryd lle ymrwymiadau cyrff statudol; ni all ond eu hategu'n unig. Roedd y cyllid wedi'i glustnodi a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol fel rhan o'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistig yn werthfawr iawn, a gwn fod sefydliadau megis y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol wedi bod mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch adolygu ei chynllun gweithredu strategol.

I'm pleased that my own local authority, Labour-controlled Caerphilly County Borough Council, has committed to voluntarily ring-fencing funding for autism service provision through the 2015-16 financial year. Because the money is now based on a population formula, they actually have more money to spend on autism services. I hope that the Welsh Government will work with partner organisations to ensure that such arrangements are made permanent in the future.

Rwy'n falch dod fy awdurdod lleol fy hun, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a reolir gan Lafur, wedi ymrwymo i fynd ati'n wirfoddol i glustnodi cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau awtistiaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16. Gan fod yr arian bellach yn seiliedig ar fformiwla poblogaeth, mewn gwirionedd mae ganddynt fwy o arian i'w wario ar wasanaethau awtistiaeth. Gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud yn barhaol yn y dyfodol.

I would like to conclude, Llywydd, by welcoming this debate and the opportunity to take part. We have done a lot of good work on autism in Wales, but there is still more to be done. I think we can all agree on that. On the question of an autism Act, I'm not opposed to one as such, but I would need to be persuaded of the benefits of such legislation before deciding whether or not to support any proposals. The key question for me would be: how would such an Act improve the lives of people with autism and their families? Right now, I believe that the best way that we can do this is for the Welsh Government to work with local authorities, health boards and voluntary organisations to ensure that the ASD strategic action plan is improved upon and delivered, thus building on the good work that we have done already.

Hoffwn gloi, Lywydd, drwy groesawu'r ddadl hon a'r cyfle i gymryd rhan. Rydym wedi gwneud llawer o waith da ar awtistiaeth yng Nghymru, ond mae mwy i'w wneud o hyd. Rwy'n meddwl y gallwn i gyd gytuno ar hynny. O ran Deddf awtistiaeth, nid wyf yn gwrthwynebu cael un fel y cyfryw, ond byddai angen i mi gael fy mherswadio ynghylch manteision deddfwriaeth o'r fath cyn penderfynu cefnogi unrhyw gynigion ai peidio. Y cwestiwn allweddol i mi fyddai: sut y byddai Deddf o'r fath yn gwella bywydau pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd? Ar hyn o bryd, rwy'n credu mai'r ffordd orau o wneud hyn yw i Lywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau gwirfoddol i sicrhau bod y cynllun gweithredu strategol ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistig yn cael ei wella a'i gyflawni, gan adeiladu felly ar y gwaith da a wnaethom yn barod.

16:38 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you to Mark Isherwood for bringing forward this motion today, and I'm delighted to be able to support it.

Diolch i Mark Isherwood am gyflwyno'r cynnig hwn heddiw, ac rwy'n falch iawn o allu ei gefnogi.

Minister, the autistic spectrum disorder strategic action plan has been very useful in enabling stakeholders to benchmark the responses of Government, health boards and educational and social services. In a significant number of cases and places, it has focused minds, it has concentrated resources and it has delivered results.

Weinidog, mae'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistig wedi bod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer galluogi rhanddeiliaid i feincnodi ymatebion y Llywodraeth, byrddau iechyd a gwasanaethau addysgol a chymdeithasol. Mewn nifer sylweddol o achosion a lleoedd, mae wedi canolbwyntio meddyliau, wedi canolbwyntio adnoddau ac mae wedi sicrhau canlyniadau.

However—and there's always a 'however'—in far too many cases it has not been of help at all. Ninety six per cent of adults talk of a lack of services. Ninety six per cent of adults talk of a lack of professional understanding, inflexible systems and a lack of knowledge on how to access support. Almost a third of all adults who are diagnosed with autistic spectrum disorder have never had their needs assessed in terms of ongoing care and support by social services, or by a community health team.

Fodd bynnag—ac mae yna bob amser 'fodd bynnag'—mewn llawer gormod o achosion, nid yw wedi bod o gymorth o gwbl. Mae naw deg chwech y cant o oedolion yn sôn am ddiffyg gwasanaethau. Mae naw deg chwech y cant o oedolion yn sôn am ddiffyg dealltwriaeth broffesiynol, systemau anhyblyg a diffyg gwybodaeth ynglŷn â sut i ddod o hyd i gymorth. Nid yw bron i draean o'r holl oedolion sy'n cael diagnosis o anhwylder yn y sbectrwm awtistig erioed wedi cael asesiad o'u hanghenion o ran gofal a chymorth parhaus gan wasanaethau cymdeithasol, neu gan dîm iechyd cymunedol.

Children and young people appear to have an even rougher ride. People have bandied about quite a few examples, but I'm just going to give three additional ones. For example, in Pembrokeshire, there are 150 children waiting for a diagnosis; in Carmarthenshire, the waiting list is also some 200-odd long; and, in Ceredigion, there are 60 children at present waiting for a diagnosis. At the rate that Hywel Dda health board is able to match this need, these children are seven to eight years, as my colleague Paul Davies has already said, away from getting that definitive diagnosis.

Ymddengys bod plant a phobl ifanc yn cael eu trin yn waeth byth. Mae pobl wedi sôn am rai enghreifftiau, ond rwyf am roi tair enghraifft arall. Er enghraifft, yn Sir Benfro, mae yna 150 o blant yn aros am ddiagnosis; yn Sir Gaerfyrddin, mae tua 200 ar y rhestr aros yno hefyd; ac yng Ngheredigion, mae 60 o blant ar hyn o bryd yn aros am ddiagnosis. Ar y cyflymder y gall bwrdd iechyd Hywel Dda ateb y fath angen, fel y mae fy nghydweithiwr, Paul Davies, eisoes wedi ei ddweud, bydd yn saith neu wyth mlynedd arall cyn y caiff y plant hyn ddiagnosis pendant.

In another case that's come across my desk, in Carmarthen, a mother requested from the education department a different support worker because her child has got an interim autistic spectrum disorder diagnosis. That child, suffering as that child obviously does, wrote some very tough letters in childish language about their social worker and how much they hated them. Instead of getting support and follow through, she got a call from the police and the child is now under watch. Only two days ago, I had another mother who brought their child to my surgery to say that their child has had an interim diagnosis in Pembrokeshire. The child is six; the child now has to wait another year to have that finalised. Those are years ticking off of these very, very young lives.

Mewn achos arall a gyrhaeddodd fy nesg, yng Nghaerfyrddin, gofynnodd mam am weithiwr cymorth gwahanol gan yr adran addysg oherwydd bod ei phlentyn wedi cael diagnosis dros dro o anhwylder yn y sbectrwm awtistig. Am fod y plentyn hwnnw'n dioddef mewn modd sy'n amlwg, ysgrifennodd lythyron caled iawn mewn iaith blentynnaidd ynglŷn â'i weithiwr cymdeithasol a faint yr oedd yn eu casáu. Yn hytrach na chael cefnogaeth a chymorth dilynol, galwodd yr heddlu i weld y fam ac mae'r plentyn bellach dan oruchwyliaeth. Ddau ddiwrnod yn ôl, daeth mam arall â'i phlentyn i fy nghymhorthfa i ddweud bod ei phlentyn wedi cael diagnosis dros dro yn Sir Benfro. Mae'r plentyn yn chwech oed; yn awr, rhaid i'r plentyn aros blwyddyn arall i gael y diagnosis terfynol. Dyna flynyddoedd o'r cloc yn tician ar y bywydau ifanc iawn hyn.

I'm very keen to understand why we have such a disparity in the dynamics between schools and health boards, in terms of helping children who might have autism. When a school suspects the condition, we have a very slow response from health and social services to back this up. In Hywel Dda health board, we have to boilerplate it—we have to have paediatrics and paediatricians involved—which may well be clinical practice, but a lot of other organisations, or a lot of other areas, don't do that, and they can move forward and help people. So, there's a lack of consistency in how this is all delivered.

Rwy'n awyddus iawn i ddeall pam y mae gennym wahaniaethau o'r fath yn y ddeinameg rhwng ysgolion a byrddau iechyd, o ran helpu plant a allai fod yn awtistig. Pan fydd ysgol yn amau bod y cyflwr yn bresennol, mae ymateb y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn araf iawn i gefnogi hyn. Ym mwrdd iechyd Hywel Dda, mae'n rhaid inni ei gadarnhau'n derfynol gan bawb cyn symud ymlaen—rhaid cynnwys yr adran bediatreg a phaediatregwyr—ac efallai mai dyna yw'r arfer clinigol, ond mae llawer o sefydliadau eraill, neu lawer o feysydd eraill nad ydynt yn gwneud hynny, a gallant symud ymlaen a helpu pobl. Felly, mae diffyg cysondeb o ran y modd y caiff hyn oll ei gyflawni.

These examples translate across Wales. Only 34% of parents felt they had enough support when choosing their child's correct educational placement, and only 31% of parents with children aged 14 to 17 said that they had real help, because there were no processes in place to aid transition for their children from one phase of education to another. But, the most telling example, for me, is that only 16% of parents were satisfied with transition processes relating to social care. I know I've talked quite a bit about education, Minister, but I would be very keen to understand why we have this gulf between health and social care and education, on how we can help children and young people and adults with autism.

Caiff yr enghreifftiau hyn eu hailadrodd ar draws Cymru. Dim ond 34% o rieni a deimlai eu bod yn cael digon o gefnogaeth wrth ddewis lleoliad addysgol cywir ar gyfer eu plentyn, a dim ond 31% o rieni â phlant rhwng 14 i 17 a ddywedodd eu bod wedi cael cymorth go iawn, gan nad oedd unrhyw brosesau ar waith i gynorthwyo'u plant i bontio rhwng un cyfnod addysgol a'r llall. Ond i mi, yr enghraifft fwyaf trawiadol yw mai 16% o rieni'n unig a oedd yn fodlon â'r prosesau pontio mewn perthynas â gofal cymdeithasol. Gwn fy mod wedi siarad cryn dipyn am addysg, Weinidog, ond rwy'n awyddus iawn i ddeall pam y mae gennym y gagendor rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac addysg, o ran sut y gallwn helpu plant a phobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth.

But, how to move forward? Minister, may I suggest to you a couple of very, very quick points? I would like you to consider prioritising the review of the current strategy. It began in late 2012; it's still ongoing. Local authorities have been let off the hook, and adults, parents and children are in limbo. Minister, I'd like you to consider no more annual funding decisions, but give organisations the chance to plan and implement on a funding cycle that is longer than one year. Minister, I'd like you to consider placing specific duties on local authorities and local health boards. I believe that this would lead to greater clarity on the care and support of people with autism, in terms of assessment and diagnosis, data collection and service provision. I'd like you to consider introducing an autism Act, and look to England and Northern Ireland, which have done so, and learn lessons and improve on what they've already put in place. Finally, Minister, I'd ask you to look at cross read, to things like the additional learning needs Bill that's coming through, to ensure—

Ond sut y mae symud ymlaen? Weinidog, a gaf fi awgrymu un neu ddau o bwyntiau cyflym iawn, iawn i chi? Hoffwn i chi ystyried blaenoriaethu'r adolygiad o'r strategaeth bresennol. Dechreuodd ar ddiwedd 2012; mae'n dal ar y gweill. Mae awdurdodau lleol wedi cael eu gadael oddi ar y bachyn, ac mae oedolion, rhieni a phlant mewn limbo. Weinidog, hoffwn i chi beidio ag ystyried rhagor o benderfyniadau cyllido blynyddol, a rhoi cyfle yn hytrach i sefydliadau gynllunio a gweithredu cylch ariannu sy'n hwy na blwyddyn. Weinidog, hoffwn i chi ystyried gosod dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Credaf y byddai hyn yn arwain at fwy o eglurder ynghylch gofal a chymorth i bobl ag awtistiaeth, o ran asesu a diagnosis, casglu data a darparu gwasanaethau. Hoffwn i chi ystyried cyflwyno Deddf awtistiaeth, ac edrych ar Loegr a Gogledd Iwerddon, sydd wedi gwneud hynny, a dysgu gwersi a gwella ar yr hyn y maent hwy eisoes wedi ei roi ar waith. Yn olaf, Weinidog, hoffwn ofyn i chi ystyried darllen ar draws, i bethau fel y Bil anghenion dysgu ychwanegol sydd ar y gweill, er mwyn sicrhau—

16:43 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wind up, please.

Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

16:43 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—that that and the CAMHS strategy all knit together to provide these services. Thank you.

[Yn parhau.]—bod hwnnw a'r strategaeth CAMHS i gyd yn gweu gyda'i gilydd i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Diolch yn fawr.

16:44 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n debyg erbyn hyn fod pob un ohonom ni'n barod i gyfaddef nad yw'r sefyllfa'n dderbyniol. Rwy'n cofio pan ges i f'ethol yn y lle cyntaf i'r lle yma ein bod ni'n ymfalchïo yn y ffaith mai Cymru oedd y wlad gyntaf i gael strategaeth o ran awtistiaeth. Ac eto, wrth ddechrau mynychu cyfarfodydd y grŵp trawsbleidiol, roedd hi'n amlwg bod y rhan fwyaf o rieni ddim yn fodlon efo'r sefyllfa, ac yn dweud, i ddweud y gwir, fod yna ddim symud ymlaen o gwbl. Rwy'n cofio gofyn i Gwenda Thomas, pan oedd hi'n aelod, i ddod draw i Wrecsam i gyfarfod efo rhieni, lle roedden nhw'n dweud bod y fiwrocratiaeth a phob peth yn eu lle, ond nid oedden nhw'n gweld unrhyw wella o ran y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu ar lawr gwlad. Mae'r ffigurau sydd yn arolwg yr NAS braidd yn frawychus a dweud y gwir, o achos, hyd yn oed yn ystod y ddwy flynedd olaf yma, dim ond 10% o'r rhai sydd wedi cael diagnosis wedi cael y diagnosis o fewn dwy flynedd, ac ond 21% o bobl Cymru yn yr arolwg sy'n fodlon efo lefel y gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn. Felly, rwy'n derbyn paragraffau 1 a 2 o'r cynnig yma y prynhawn yma. Mae'n rhaid i ni dderbyn nad yw'r sefyllfa'n foddhaol, ond, eto, rwy'n meddwl fy mod i yn yr un garfan â Jeff Cuthbert, i ryw raddau, achos rwy'n meddwl bod yn rhaid i edrych ar draws Clawdd Offa i weld os yw Deddf awtistiaeth yn ei hun yn ddigon i wella'r sefyllfa.

I'm sure that all of us now are willing to admit that the situation is not satisfactory. I remember when I was first elected here that we were proud of the fact that Wales was the first country to have a strategy in terms of autism. And yet, when I started attending the cross-party group, it became clear that most parents weren't satisfied with the situation, and were saying, in all honesty, that there was no moving forward at all. I remember asking Gwenda Thomas, when she was a member, to come to Wrexham to meet parents, where they were saying that the bureaucracy and so on were in place, but they were not seeing any improvements in terms of the services that were being provided at the grass-roots level. The figures in the NAS survey are quite frightening, to tell you the truth, because even in the last two years, only 10% of those who've had a diagnosis have had the diagnosis within two years, and only 21% of the people of Wales in the survey are satisfied with the level of services they receive. Therefore, I accept paragraphs 1 and 2 of this motion this afternoon. We have to accept that the situation isn't satisfactory, but, again, I think I'm in the same group as Jeff Cuthbert really, because I think we have to look across the border to see whether an autism Act in itself is sufficient to improve the situation.

Os ydych yn edrych ar y Ddeddf 2009 yn Lloegr, ond dau nod oedd i'r Ddeddf: y cyntaf oedd sgwennu strategaeth, a'ch bod yn adolygu'r strategaeth yn rheolaidd, ac, ar ôl hynny, bod y Llywodraeth yn Lloegr yn derbyn ac yn sgwennu canllawiau statudol er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei gweithredu ar lawr gwlad. Felly, os mai dyna'r unig nod y Ddeddf fyddai'n cael ei chyflwyno yma yng Nghymru, beth sydd i wneud i ni oedi yn y cyfamser? Dyna'r pwynt. Mae yna berygl, os ydym yn dweud nad yw'n bosib i ni ddeddfu ymhellach cyn 2017, dywedwch, ein bod yn colli dwy flynedd arall. Nid wyf yn derbyn, a dweud y gwir—. Rwy'n meddwl bod gofyn i ni gadw'r cynghorau yma yn eu lle, hefyd, a gofyn cwestiynau iddyn nhw, achos, yn y pendraw, nid oes yn rhaid i chi gael cronfa arbennig ar gyfer yr hyn a'r llall: mae yna gyfrifoldeb ar y cynghorau yma.

If you look at the 2009 Act in England, there were only two aims to the Act: the first one was to write a strategy, and that you reviewed that strategy on a regular basis, and, after that, that the Government in England accepted and wrote statutory guidance in order to ensure that the strategy was implemented at a grass-roots level. Therefore, if that is the only aim of the Act that would be introduced here in Wales, what is there to delay us in the meantime? That's the point. There is a danger, if we're saying it's not possible to legislate further before 2017, for example, that we're losing a further two years. I don't accept, really—. I think that there is a need for us to keep these councils in their place and to ask them questions, because, ultimately, you don't have to have a special fund for this, that and the other: there is a responsibility on these councils.

Ces i fraw pan wnes i ofyn i gynghorau'r gogledd sut yn union oeddent yn gwario'r £40,000 yn lle cyntaf. Mae rhai o'r cynghorau yn cymryd £6,000 neu £7,000 o'r top ar gyfer biwrocratiaeth eu hunain, ar gyfer rheoli'r grant. Felly, ond £32,000 neu £33,000, yn rhai o'r cynghorau yma, oedd yn mynd i mewn i grantiau beth bynnag. Mae un cyngor yn codi £7,000 am weithredu'r grant, ac eto ond chwe grant a gafodd eu talu, gan gynnwys grantiau o, rwy'n meddwl, £10,000 a £6,000 I un o'u hysgolion eu hunain. Mae yna gwestiwn ynghylch a yw'r Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro'r ffordd y mae'r strategaeth yma yn cael ei gweithredu ar lawr gwlad. Rwy'n meddwl bod yn rhaid I ni ofyn I NAS, 'Os ŷch chi'n dweud mai unig ffordd y gallem wella'r sefyllfa ydy deddfu, beth yn union sydd wedi digwydd yn Lloegr ers 2009?' achos mai nhw wedi bod yn cynnal ymgyrch yn Lloegr, 'Push for Action', sydd yn dweud, hyd yn oed o dan y Ddeddf fanna, bod y sefyllfa yn creu tipyn o amheuon ynglŷn â gwasanaethau.

I got a fright when I asked councils in north Wales how exactly they were spending this £40,000 in the first place. Some of the councils are taking £6,000 or £7,000 off the top for their own bureaucracy, for managing the grant. So, only £32,000 or £33,000, in some of these councils, was going into grants in any case. One council is taking £7,000 to implement the grant, but yet only six grants were paid out, including grants of, I think, about £10,000 and £6,000 to one of their own schools. Therefore, we need to ask whether the Welsh Government has been monitoring the way this strategy is being implemented on the ground. I think we have to ask NAS, 'If you say that the only way we can improve the situation is by legislating, what exactly has happened in England since 2009?' because they have been running a campaign in England, 'Push for Action', which says that, even under the Act there, the situation creates some doubts over services.

Felly, rwy'n barod iawn i ymladd efo'r NAS o ran gwella sefyllfa'r bobl sydd yn awtistig yma yng Nghymru—mae'n rhaid i ni wneud hynny, o achos mae yna 25,000 ohonynt wedi'i gofrestru ar hyn o bryd, tua un o bob 10 o'n plant a phobl ifanc, ac mae'n debyg os ydych yn cyfrif yr holl deuluoedd sydd yn ymwneud a'r peth yma, mae dros 100,000 sydd yn dod o dan 'auspices' y strategaeth yma. Felly, mae'n rhaid i ni ofyn, os mai cyfrifoldeb y Llywodraeth ydy dweud—. Mae'n iawn cyhoeddi strategaeth, mae'n iawn i strategaeth fod ar silff, ond, a dweud y gwir, os nad yw'r strategaeth yn gwella sefyllfa pobl gyffredin, cwestiynu'r strategaeth y dylem fod yn ei gwneud, a gofyn i'r Llywodraeth wneud yn union y peth mae'r Ddeddf yn Lloegr yn gofyn am wneud, sef cynnal adolygiad o strategaeth yn y lle cyntaf, a hefyd cyhoeddi canllawiau statudol newydd ar gyfer y gwasanaeth yma.

So, I'm quite willing to fight with NAS in terms of improving the situation of autistic people in Wales—we have to, because there are 25,000 of them who've been registered, about one in every 10 of our children and young people, and, if you count all the families that are involved with this, there are probably over 100,000 that come under the auspices of this strategy. Therefore, we have to ask, if it's the responsibility of the Government to say—. It's right to publish a strategy, it's right for a strategy to be on the shelf, but, really, if the strategy doesn't improve the situation of ordinary people, we should be questioning the strategy, and asking the Government to do exactly what the Act in England ask for, which is to review the strategy in the first place and also publish new statutory guidelines for these services.

16:49

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n croesawu'r ffaith bod cynnig Mark Isherwood yn dechrau gyda'r gair 'croeso', ac yn falch o gefnogi ei argymhellion, ond, yn y cyfamser, fel mae bron pob siaradwr wedi ei ddweud yn barod, mae gwasanaethau da nawr, ac yn y blynyddoedd i ddod, yn holl bwysig. Heb os nac onibai, ac rwy'n siarad fel aelod o grŵp trawsbleidiol y Cynulliad ar awtistiaeth, nid codi ymwybyddiaeth yw'r broblem fwyaf. Nid ymwybyddiaeth ond strategaeth sydd wrth wraidd y drafodaeth yn sirol ac yn genedlaethol ynglŷn â'n gwasanaethau. Ac, fel ym mhopeth arall, diwedd y gân yw'r geiniog. Eleni, am y tro cyntaf, ni fydd yr arian a dderbynnir gan y cynghorau sir ar gyfer awtistaeth yn cael ei glustnodi yn statudol. Ond, fel y dywedodd Bill Powell a Jeff Cuthbert, mae Powys a Chaerffili wedi cyhoeddi ei bod yn clustnodi'r arian sy'n cael ei neilltuo ar bapur, os nad yn statudol, yn wirfoddol ar gyfer gwasanaethau. Yn sir Gâr, maent ar hyn o bryd yn trafod y pwnc. Dyma'r union fater yr ydym yn trafod heddiw, sef y strategaeth ac nid yr egwyddor. Mewn geiriau eraill, rydym yn trafod y ffordd orau o gyrraedd y nod yn hytrach na dilysrwydd y nod ei hunan. Yn fy marn i, gweithredu heb ddeddfu yw'r ffordd orau mewn byd delfrydol, ond, fel y byddai pob un ohonom yn cyffesu, nid ydym yn byw mewn byd delfrydol.

I welcome the fact that Mark Isherwood's motion begins with the word 'welcomes', and I'm pleased to support his recommendation, but, in the meantime, as almost all speakers have said already, good services now, and for the future, are crucially important. Without a shadow of a doubt, and I speak as a member of the Assembly's cross-party group on autism, raising awareness isn't the greatest issue facing us. It's not awareness but strategy that is at the heart of the debate on a county council and a national level in terms of autism services. And, as ever, it ultimately comes down to the funding. This year, for the first time, the funds provided to county councils for autism services will not be ring-fenced on a statutory basis. But, as Bill Powell mentioned, as did Jeff Cuthbert, Powys and Caerphilly have already announced that they are to allocate the funding provided on paper, if not statutorily, on a voluntary basis for autism services. In Carmarthenshire, they are currently discussing this issue. This is the exact issue that we are discussing today, namely the strategy rather than the principle. In other words, we are discussing how we can best reach our goals rather than questioning the validity of those goals themselves. In my view, in an ideal world, we should proceed without legislation, but, as each of us would be willing to admit, we don't live in an ideal world.

Y cwestiwn tyngedfennol yw: a yw partneriaeth a chydweithio yn ddigon i sicrhau dyfodol ein gwasanaethau ar gyfer awtistiaeth? Yn ddiweddar, rwyf wedi cael trafodaeth yn sir Gâr â'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru. Prif bryder y mudiad yw trin a thrafod y sawl unigolyn a chymdeithas y tu mewn i un ardal a darparu gwasanaethau cyson benbaladr Cymru. Roedd cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddod a'r gwahanol sefydliadau ac unigolion at ei gilydd yn lleol, felly, yn derbyn cymeradwyaeth y mudiad.

The crucial question is: are partnership and collaboration enough to ensure the future of our autism services? Recently, I have been in discussions in Carmarthenshire with NAS Cymru. The main concern of the organisation is discussing the many individuals and organisations within an area and ensuring consistent services across Wales. The Welsh Government's plans to bring all of these agencies and individuals together on a local basis, therefore, were applauded by the society.

Yn fy mhrofiad i, mae cydweithio rhwng gwasanaethau cynghorau yn hollbwysig. Mae gennym 22 o awdurdodau yng Nghymru ac yn ddiau dyma un enghraifft o sut y gall cydweithio rhwng awdurdodau fod o fudd i bawb, ac yn sicr yn y flwyddyn sydd i ddod. Diolch am y cyfle i gyfrannu. Edrychaf ymlaen yn eiddgar at glywed gweddill y ddadl heddiw ac ymateb y Gweinidog i'r galw am ddeddfu er mwyn i'r awdurdodau gydweithio.

In my experience, collaboration between council services is crucially important. We have 22 authorities in Wales and, without doubt, this is one way in which collaboration between authorities can benefit everyone, certainly in the year to come. Thank you for the opportunity to contribute. I look forward to hearing the rest of the debate and to hearing the Minister's response to the demand for legislation so that authorities can collaborate.

16:51

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

16:51

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Gadeirydd, a hoffwn i ddiolch i Mark Isherwood ac eraill sy'n cefnogi'r cynnig hwn am y cyfle i siarad am awtistiaeth. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i bob Aelod am eu cyfraniadau heddiw.

Thank you very much, Chair, and I would like to thank Mark Isherwood and others who've supported this motion for the opportunity to speak on autism. I am also grateful to every Member for their contributions today.

Rwy'n dechrau, fel yr oedd Keith Davies yn ei ddweud, gyda'r cynnig hefyd, trwy ganolbwyntio ar y llwyddiannau diweddaraf yn y maes hwn. Mae bron i saith mlynedd ers lansio'r cynllun arloesol, sef y cynllun gweithredu strategol Cymru ar gyfer anhwylderau sbectrwm awtistig ASD, ac, yn sicr, fel yr ydym wedi ei glywed yn ystod y ddadl, hwn oedd y cynnig cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig, os nad tu hwnt.

I would start, as Keith Davies said, with the motion itself, by concentrating on recent successes in this area. It is almost seven years since the launch of ground-breaking autistic spectrum disorder strategic action plan for Wales, and, certainly, as we have heard during this debate, this was the first proposal of its kind within the UK, if not further afield.

Mae ein cynllun gweithredu ASD cenedlaethol yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ddiwallu anghenion pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'n pennu cyfeiriad clir ar gyfer gwella gwaith comisiynu a darparu gwasanaethau. I gefnogi'r cynlluniau hyn, mae dros £12 miliwn o gyllid newydd wedi ei ddyrannu i wella bywydau pobl ag awtistiaeth yng Nghymru. O ganlyniad, mae gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol brif swyddog ASD, cynllun gweithredu ASD lleol, a grŵp rhanddeiliaid ASD, a chafodd cydgysylltydd ASD cenedlaethol ei benodi i gefnogi'r rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol i rannu gwybodaeth ac arferion da.

Our national ASD action plan notes how the Welsh Government is seeking to meet the needs of people with autism and their families and carers. It sets a clear direction for improving the commissioning and provision of services. In support of these plans, over £12 million of new money has been allocated to improve the lives of people with autism in Wales. As a result, each of our 22 local authorities now has an ASD lead officer, a local ASD action plan, and an ASD stakeholder group, and a national ASD co-ordinator has been appointed to support regional and national networks for the sharing of information and good practice.

Mae gwasanaeth diagnostig wedi ei ddatblygu i oedolion ledled Cymru, ynghyd â gwasanaeth cwnsela cyn ac ar ôl cael diagnosis. Rydym ni hefyd yn ariannu cynlluniau cymorth rhanbarthol i oedolion â syndrom Asperger ac oedolion ag awtistiaeth sy'n golygu y gallant weithredu ar lefel uchel.

Diagnostic services have been developed for adults the length and breadth of Wales, as well as counselling services before and after diagnosis. We also fund regional assistance schemes for adults with Asperger's syndrome and adults with high-functioning autism.

But, of course, Chair, as many Members have said, although real strides have been made since the launch of the strategy in 2008, there is always more to be done. We are presently working with a stakeholder group to refresh the ASD strategic action plan. Now, this was due to be completed in January of this year, but, at its last meeting before Christmas, the group advised me that they wished to develop a greater understanding of how the legislative changes in the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, and the additional needs reform that the Government will bring forward, will impact on its work. The interplay between the various parts of the jigsaw has been referred to by Paul Davies in his very thoughtful contribution, and by Angela Burns as well. For those reasons, I have agreed that the work of the stakeholder group should continue into this year, but, because there is a pressing need for action in some areas now, including diagnostic waiting times, transitions into adulthood and opportunities for training and employment, I don't intend to wait for the full work to be done. As Aled Roberts has said, there are very important things to get on with now, in advance of both a full refresh and any potential Act, to address those immediate issues, and I therefore still intend to publish an interim delivery plan before the end of March. That will—

Ond, wrth gwrs, Gadeirydd, fel y mae nifer o Aelodau wedi dweud, er bod camau go iawn wedi cael eu gwneud ers lansio'r strategaeth yn 2008, mae yna bob amser ragor i'w wneud. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda grŵp o randdeiliaid i adnewyddu'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistig. Yn awr, roedd hwn i fod i gael ei gwblhau ym mis Ionawr eleni, ond yn ei gyfarfod olaf cyn y Nadolig, dywedodd y grŵp cynghori wrthyf eu bod yn dymuno datblygu gwell dealltwriaeth o sut y mae'r newidiadau deddfwriaethol yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r diwygiadau anghenion ychwanegol y bydd y Llywodraeth yn eu cyflwyno, yn effeithio ar ei waith. Cyfeiriodd Paul Davies yn ei gyfraniad meddylgar iawn at y cydadwaith rhwng gwahanol rannau'r jig-so, ac Angela Burns hefyd. Am y rhesymau hynny, rwyf wedi cytuno y dylai gwaith y grŵp rhanddeiliaid barhau i'r flwyddyn hon, ond oherwydd bod angen dybryd am weithredu mewn rhai meysydd yn awr, gan gynnwys amseroedd aros am ddiagnosis, pontio i fywyd fel oedolyn a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a gwaith, nid wyf yn bwriadu aros i'r gwaith llawn gael ei wneud. Fel y dywedodd Aled Roberts, mae yna bethau pwysig iawn i fwrw ymlaen â hwy yn awr, cyn adnewyddu'n llawn ac unrhyw Ddeddf bosibl er mwyn mynd i'r afael â'r materion brys hynny, ac rwyf felly'n dal i fwriadu cyhoeddi cynllun cyflawni interim cyn diwedd mis Mawrth. Bydd hynny'n—

16:55 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, will you take an intervention?

Weinidog, a wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:55 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

16:55 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful to the Minister for taking the intervention and I really appreciate your comment about the cross-read across all the different pieces of legislation. But, at present, you're already consulting on the regulations that will underpin the Social Services and Well-being (Wales) Act, and yet those regulations make absolutely no mention of autism. So, how will that tie in with the ASD strategy, going forward?

Diolch yn fawr i'r Gweinidog am dderbyn yr ymyriad ac rwy'n gwerthfawrogi'n fawr eich sylw ynghylch darllen ar draws yr holl wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth. Ond ar hyn o bryd, rydych yn barod yn ymgynghori ar y rheoliadau a fydd yn sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac eto, nid yw'r rheoliadau hynny'n sôn o gwbl am awtistiaeth. Felly, sut y bydd hynny'n cyd-fynd â'r strategaeth anhwylderau yn y sbectrwm awtistig yn y dyfodol?

16:55 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Well, I need to remind Members that the regulations that we are consulting upon will come in two tranches. This is the first of two; there will be a further tranche later this year. There is also statutory guidance that will sit alongside that. If there are things that Members feel we ought to attend to as part of the consultation, then, of course, we'd be very keen to hear that too.

Wel, mae angen i mi atgoffa'r Aelodau y bydd y rheoliadau rydym yn ymgynghori yn eu cylch yn dod mewn dwy gyfran. Dyma'r gyntaf o ddwy; daw'r gyfran arall yn ddiweddarach eleni. Hefyd, mae yna ganllawiau statudol i fynd gyda hynny. Os oes pethau y mae'r Aelodau'n teimlo y dylem eu cynnwys yn rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn awyddus iawn i glywed hynny hefyd wrth gwrs.

In the interim delivery plan—

Yn y cynllun cyflenwi interim—

16:56 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, will you take another intervention?

Weinidog, a wnewch chi dderbyn ymyriad arall?

16:56 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I'm so sorry.

Mae'n flin iawn gen i.

Wrth gwrs.

Of course.

16:56 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog.

Thank you, Minister.

Do you agree with me that it's very important that we repeat this afternoon what has often been said in this Chamber? I agree absolutely with what has been said about delayed diagnosis; it is unacceptable. But we must send a clear message that the provision and delivery of service is not dependent on a diagnosis. Where it is established that there's a need for care and support, then either a child or adult must receive that support, whether there is a diagnosis or not, and the social services Act states that very clearly.

A ydych yn cytuno â mi ei bod yn bwysig iawn ein bod yn ailadrodd y prynhawn yma yr hyn sydd wedi ei ddweud yn aml yn y Siambr hon? Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedwyd am oedi cyn cael diagnosis; mae'n annerbyniol. Ond rhaid i ni gyfleu neges glir nad yw'r ddarpariaeth a darparu gwasanaeth yn dibynnu ar ddiagnosis. Lle y pennir bod angen gofal a chymorth, yna rhaid i'r plentyn neu'r oedolyn gael y cymorth hwnnw, pa un a gafwyd diagnosis ai peidio, ac mae'r Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol yn datgan hynny'n amlwg iawn.

16:56 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Chair, I've heard Gwenda Thomas give that message many times and very directly to local authorities and others who provide services for people with autism. Of course, it is unacceptable to me, as it was to Gwenda when she was the Deputy Minister, and as Paul Davies has said, when waiting times for diagnosis are unacceptably long. We're establishing a rapid reporting autism diagnostic task and finish group to bear down on long waits, but a service does not depend upon that being achieved. And for young people—for very young children, in particular—there are inevitably ways in which a diagnosis has to respond to their own developmental needs and it's never something that stays fixed at a point in time.

Wel, Gadeirydd, rwyf wedi clywed Gwenda Thomas yn rhoi'r neges sawl gwaith ac yn uniongyrchol iawn i awdurdodau lleol ac eraill sy'n darparu gwasanaethau i bobl ag awtistiaeth. Wrth gwrs, mae'n annerbyniol i mi, fel yr oedd i Gwenda pan oedd hi'n Ddirprwy Weinidog, ac fel y mae Paul Davies wedi dweud, pan fo'r amseroedd aros ar gyfer diagnosis yn annerbyniol o hir. Rydym yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen adrodd cyflym ar drefniadau gwneud diagnosis o awtistiaeth er mwyn lleihau amseroedd aros hir, ond nid yw gwasanaeth yn dibynnu ar gyflawni hynny. Ac ar gyfer pobl ifanc-ar gyfer plant ifanc iawn, yn arbennig-mae'n anochel fod yna ffyrdd y mae'n rhaid i ddiagnosis ymateb i'w hanghenion datblygiadol eu hunain ac nid yw byth yn rhywbeth sy'n aros sefydlog ar bwynt mewn amser.

Through the work of that group, we will respond to the second strand in today's motion. The third component focuses on the actions of local authorities and health boards. The refreshed ASD action plan will sit side-by-side with the duty set out in the Social Services and Well-being (Wales) Act to put citizens at the heart of decisions made about the services they receive, giving citizens a voice and helping them to improve their own lives, supporting people to achieve their own wellbeing, and working alongside the enormous efforts made by families and others celebrated this afternoon by Jeff Cuthbert.

Drwy waith y grŵp hwnnw, byddwn yn ymateb i'r ail elfen yn y cynnig heddiw. Mae'r drydedd ran yn canolbwyntio ar gamau gweithredu awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Bydd y cynllun gweithredu anhwylderau yn y sbectrwm awtistig ar ei newydd wedd yn sefyll ochr yn ochr â'r ddyletswydd a nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i roi dinasyddion yn y canol mewn penderfyniadau a wneir ynghylch y gwasanaethau a gânt, gan roi llais i ddinasyddion a'u helpu i wella eu bywydau eu hunain, cynorthwyo pobl i sicrhau eu lles eu hunain, a gweithio ochr yn ochr â'r ymdrechion enfawr a wneir gan deuluoedd ac eraill a gafodd glod gan Jeff Cuthbert y prynhawn yma.

Now, the Act places responsibilities on health boards and local authorities to establish regional leadership partnerships and jointly to assess the needs of their local populations. The first tranche of regulations and codes of practice underpinning the Act, as you've heard, is out for consultation. These, and the second tranche to follow later in the year, do indeed place specific duties on local authorities and health boards in both the planning and provision of care and support. And, as Gwenda Thomas has regularly reminded us, the Act is a people's Act. It quite certainly applies to both children and adults with autism and it tackles the issue of transition that Angela Burns quite rightly highlighted.

Yn awr, mae'r Ddeddf yn gosod cyfrifoldebau ar fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i sefydlu partneriaethau arweinyddiaeth rhanbarthol ac i gyd-asesu anghenion eu poblogaethau lleol. Mae'r gyfran gyntaf o reoliadau a chodau ymarfer sy'n sail i'r Ddeddf eisoes yn destun ymgynghoriad, fel y clywsoch. Mae'r rhain, a'r ail gyfran sydd i ddilyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn gosod dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn y gwaith o gynllunio a darparu gofal a chymorth. Ac fel y mae Gwenda Thomas wedi ein hatgoffa'n rheolaidd, Deddf y bobl yw'r Ddeddf. Mae'n bendant yn berthnasol i blant ac oedolion ag awtistiaeth fel ei gilydd ac mae'n mynd i'r afael â mater pontio y soniodd Angela Burns amdano yn gwbl briodol.

Let me say, just for a moment, Chair, if I could, something about transferring the ASD infrastructure grant into the revenue support grant. I know it's caused anxiety about the future commitment to the ASD action plan, but it does move us away from the annual funding issues that Members have mentioned. It is there; it is permanently in the RSG. My discussions with local authorities bear out what others have already said: they recognise the need for this money to go on doing the good work it has done already and, in my letter to them, I made it clear that my officials will be monitoring the way they use that money very carefully over the year ahead.

Gadewch i mi ddweud rhywbeth am eiliad, Gadeirydd, os caf fi, am drosglwyddo'r grant seilwaith anhwylderau yn y sbectrwm awtistig i mewn i'r grant cynnal refeniw. Rwy'n gwybod ei fod wedi achosi pryder o ran yr ymrwymiad i'r cynllun gweithredu ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistig yn y dyfodol, ond mae'n ein symud i ffwrdd oddi wrth y materion cyllido blynyddol y soniodd yr Aelodau amdanynt. Mae yno; mae'n barhaol yn y Grant Cynnal Refeniw. Mae fy nhrafodaethau gydag awdurdodau lleol yn cadarnhau'r hyn y mae eraill eisoes wedi'i ddweud: maent yn cydnabod yr angen i'r arian hwn fynd ar wneud y gwaith da y mae wedi'i wneud yn barod ac yn fy llythyr atynt, fe'i gwnes yn glir y bydd fy swyddogion yn monitro'r ffordd y maent yn defnyddio'r arian yn ofalus iawn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Finally, can I mention something about the Autism Act 2009, because it's been raised here by many Members? It was raised at last week's cross-party group meeting that I attended. I said to that group, as Mark Isherwood noted in opening, that there are issues of timing here. There's no practical possibility that a Bill could be taken through this Assembly in the time left before April 2016. Instead, the idea is one for all political parties here to investigate and to include, or otherwise, in their manifestos for 2016.

Yn olaf, a gaf fi gyfeirio at rywbeth ynglŷn â Deddf Awtistiaeth 2009, oherwydd ei fod wedi cael ei godi yma gan nifer o Aelodau? Cafodd ei godi yng nghyfarfod y grŵp trawsbleidiol a fynychais yr wythnos diwethaf.  Fel y nododd Mark Isherwood wrth agor, dywedais wrth y grŵp fod materion yn ymwneud ag amseru yn codi yma. Nid oes unrhyw bosibilrwydd ymarferol y gellid mynd â Bil drwy'r Cynulliad hwn yn yr amser sydd ar ôl cyn Ebrill 2016.Yn lle hynny, syniad ydyw i bob plaid wleidyddol yma ei ymchwilio a'i gynnwys, neu fel arall, yn eu maniffestos ar gyfer 2016.

I'm interested to hear from stakeholders, including, of course, NAS Cymru, about the benefits they believe an Act could bring, about how we learn from experience elsewhere in Wales how an Act could add value to the support already in place for the delivery of the ASD strategic action plan, and in underlining the shared ambition we all have to respond positively and personally to the needs of people with autism and their families here in Wales.

Mae gen i ddiddordeb mewn clywed gan randdeiliaid, gan gynnwys NAS Cymru wrth gwrs, am y manteision y maent yn credu y gallai Deddf eu creu, am y modd rydym yn dysgu o brofiad mewn mannau eraill yng Nghymru, ynglŷn â sut y gallai Deddf ychwanegu gwerth at y gefnogaeth sydd eisoes yn bodoli i gyflwyno'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistig, ac i danlinellu'r uchelgais a rennir gan bob un ohonom er mwyn ymateb yn gadarnhaol ac yn bersonol i anghenion pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd yma yng Nghymru.

17:00

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Rhodri Glyn Thomas to reply.

Diolch yn fawr. Rhodri Glyn Thomas i ymateb.

17:00

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Gadeirydd. Mae amser yn brin i gloi'r ddadl yma, ond a gaf i gyfeirio yn gyflym iawn at y cyfraniadau? Fe wnaeth Mark Isherwood agor y drafodaeth trwy osod her ger ein bron ni fel Aelodau o'r Cynulliad, a gofyn y cwestiwn: a yw'r strategaeth, heb ddeddfwriaeth y tu cefn iddi, yn ddigon cryf? Os nad oeddem ni'n credu hynny, roedd hi'n bwysig ein bod ni'n ceisio sicrhau bod yr alwad am Ddeddf yn bodoli ym maniffesto pob plaid wleidyddol. Fe gyfeiriodd e hefyd at y sefyllfa sydd yn bodoli trwy Gymru, sydd yn anghyson, ac fe awgrymodd e fod y sefyllfa yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig yn gryfach nag yw hi yng Nghymru.

Thank you very much, Chair. Time is scarce for me to close this debate, but may I refer very briefly to the contributions? Mark Isherwood opened the debate by placing the challenge before us as Members of the Assembly and asked the question: is the strategy, without legislation behind it, robust enough? If we didn't think so, it's important that we try to ensure that the call for legislation, an Act, is contained in every political party's manifesto? He also referred to the situation that exists throughout Wales, which is inconsistent, and he suggested that the situation in other countries in the United Kingdom is stronger than it is in Wales.

Fe wnaeth Alun Davies, yn gwbl gywir, gofnodi bod yna groeso mawr wedi dod i'r strategaeth yn y lle cyntaf, ond hwyrach ei fod yn amser i gwestiynu bellach a ydy'r ffordd y mae'r strategaeth yn cael ei gweithredu yn ddigonol ac ystyried ai Deddf yw'r ateb i hynny.

Alun Davies, quite rightly, noted that there was a warm welcome for the strategy in the first place, but perhaps it's now time to question whether the way in which the strategy is being implemented is sufficient, and to consider whether an Act is the answer to that.

Fe gyfeiriodd Paul Davies at y sefyllfa sydd yn bodoli yn sir Benfro ac yn ei etholaeth ef, a chyfeirio at sefyllfaoedd lle oedd yna ddiffygion o ran diagnosis ac o ran derbyn y gwasanaethau. Mae'n rhywbeth a ategwyd gan y rhan fwyaf o gyfranwyr, yn nodi o'n profiadau ni, o ran y bobl sy'n dod i'n gweld ni, fod y gwasanaethau yma yn anghyson ac yn annigonol.

Paul Davies referred to the situation in Pembrokeshire and in his constituency, and referred to situations where there are deficiencies in terms of diagnosis and in receiving the services. That was something echoed by the majority of contributors, all noting from our own experiences, from the people who come to see us, that these services are inconsistent and inadequate.

A gaf i ychwanegu at hynny hefyd fod y sefyllfa hyd yn oed yn waeth i'r bobl hynny sy'n ceisio gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg? I blant yn ein hysgolion, yn aml iawn, mae'r gwasanaeth yn llawer iawn llai sylweddol i Gymry Cymraeg, oherwydd bod yna lai ohonyn nhw. Ond, er bod yna lai o Gymry Cymraeg, mae hawliau'r unigolion hynny, yn blant ac yn oedolion, yr un, a byddwn i'n gofyn i'r Gweinidog, gyda'i gyd-Weinidogion, edrych yn fanwl iawn ar y sefyllfa honno.

May I add to that, as well, that the situation is even worse for those people trying to seek services through the medium of Welsh? For children in our schools, quite often, the service is far less substantial for Welsh speakers, because there are fewer of them. But, while there are fewer Welsh speakers, the rights of those individuals, as children and adults, are the same, and I would ask the Minister, with his ministerial colleagues, to look in detail at that situation.

Fe wnaeth Lindsay Whittle godi tri chwestiwn hollbwysig: y cwestiwn o fonitro, yn y lle cyntaf, ac mae'r Gweinidog wedi ymateb i hynny. Rŷm ni'n gobeithio, Weinidog, y byddwch chi'n gallu bwydo nôl inni yr hyn y bydd eich swyddogion chi'n ei wneud o ran monitro'r hyn sy'n digwydd ar lawr daear yng Nghymru. Fe gododd e gwestiwn pwysig hefyd o ran hyfforddiant—hyfforddiant i athrawon i allu adnabod symptomau pobl sydd ar y sbectrwm yma. Ond, mewn gwirionedd, mae'r angen hwnnw yn fwy nag athrawon. Mae angen cyffredinol i gael yr hyfforddiant hwnnw, yn aml iawn, hyd yn oed, mewn meddygfeydd. Nid yw'r arbenigedd hwnnw yn bodoli i adnabod symptomau'r sbectrwm yma, ac y mae mwy nag un, wrth gwrs, wedi nodi bod pob un achos yn unigryw ac nad oes modd cyffredinoli ynglŷn â'r cyflwr yma.

Lindsay Whittle raised three important questions: the question of monitoring, in the first place, and the Minister has responded to that. We hope, Minister, that you'll be able to feed back to us what your officers will be doing in terms of monitoring what is happening on the ground in Wales. He raised another vital question in terms of training — training for teachers to be able to identify symptoms of people who are on the spectrum. But, in reality, that need is more than just for teachers. There is a general need for such training, quite often, even, in doctors ' surgeries. That expertise doesn't exist to identify symptoms of this spectrum, and more than one person, of course, has indicated that each case is unique, and there is no way of generalising with this disorder.

Jeff Cuthbert, eto yn cyfeirio at yr hyn sy'n digwydd o fewn ei etholaeth e, yn pwysleisio cyfraniad hollbwysig gwirfoddolwyr sydd yn codi arian ac yn cydnabod yr hyn sy'n cael ei gyflawni. Dywedodd yntau y byddai angen ei argyhoeddi e ynglŷn â'r angen am Ddeddf ac mai'r peth pwysig oedd i ganolbwyntio ar weithredu'r strategaeth.

Jeff Cuthbert, again referring to what happens within his constituency, emphasised the vital contribution of volunteers who fundraise and he recognised what is being achieved. He also said that he remained to be convinced about the need for an Act, and that the important thing was to focus on implementing the strategy.

William Powell yn sôn am y sefyllfa sydd yn codi o ran yr arian yma a oedd yn benodol wedi'i roi ar gyfer gwasanaethau o fewn y strategaeth i awdurdodau lleol. Roeddwn i'n falch iawn o glywed yn sir Benfro, ac yng Nghaerffili ac mewn siroedd eraill, yn ôl y Gweinidog, fod yna fwriad i wneud hyn yn wirfoddol. Wrth gwrs, fe gododd y Gweinidog bwynt pwysig: o symud at system lle mae'r arian yn rhan o'r setliad cyffredinol, mae hynny'n ein cael ni allan o'r pwynt a gododd Angela Burns ynglŷn ag ariannu o flwyddyn i flwyddyn.

William Powell mentioned the situation that arises in terms of this money that was given specifically for services within the strategy to local authorities. I was very pleased to hear that in Pembrokeshire, in Caerphilly and in other counties, according to the Minister, the intention is to make this voluntarily. Of course, the Minister raised an important point: in moving to a system where the money is part of the overall settlement, that get us out of the position raised by Angela Burns about funding from year to year.

Hwyrach fod eisiau ystyried hynny a gweld hefyd fod yna bosibilrwydd bod yna fanteision i hyn, er bod angen bod yn wyliadwrus. Fe wnaeth Angela Burns hefyd sôn am nifer o bethau y gellid eu gwneud i symud ymlaen er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn weithredol, ac yn ategu, mewn gwirionedd, yr hyn a ddywedodd Aled Roberts: nid oes angen inni aros am ddeddfwriaeth; mae eisiau inni weithredu y strategaeth. Mae yna berygl bob amser ein bod ni'n sefyll yn ôl a dweud, 'Fe fydd popeth yn iawn pan ddaw Deddf'. Wel, fe ddywedodd pobl, 'Fe fydd popeth yn iawn pan ddaw strategaeth'. Fe wnaeth y Gweinidog, a Gwenda Thomas hefyd, y cyn-Ddirprwy Weinidog, y pwynt bod modd i'r gwasanaethau yma gael eu cyflwyno heb y diagnosis, ac weithiau bod yna rwystrau artiffisial yn cael eu gosod.

Perhaps there is a need to consider that and to see also that there is a possibility that there are advantages to this, although we need to be vigilant. Angela Burns also mentioned a number of things that could be done to move forward in order to ensure that the strategy is implemented, and was echoing, in fact, what Aled Roberts said: we do not need to wait for legislation; we need to implement the strategy. There is always a danger that we stand back and say, 'Everything will be fine when we get an Act'. Well, people said, 'Everything will be fine when we have a strategy'. The Minister, and Gwenda Thomas also, the former Deputy Minister, made the point that there is the means for these services to be introduced without a diagnosis, and perhaps there are artificial barriers being put up.

Gadeirydd, rwy'n meddwl ei bod wedi bod yn ddadl arbennig o dda. Mae'n dda bod yna gefnogaeth drawsbleidiol i'r alwad yma i edrych yn fanwl ar y strategaeth, gyda'r grŵp o randdeiliaid y mae'r Gweinidog wedi'i sefydlu. Mae'n dda clywed, hefyd, ei fod e yn bwriadu cyhoeddi cynllun interim. Nid yw e'n mynd i aros am yr adroddiad, ond mae yna her yma i bob un ohonom i sicrhau bod y bobl yma, yn blant, yn ieuenctid ac yn oedolion, yn cael y gwasanaethau y maen nhw'n eu haeddu yn yr iaith y maen nhw'n dymuno.

Chair, I think it has been an extremely good debate. It is great that there has been cross-party support for this call to look in detail at the strategy, with the stakeholder group that the Minister has established. It's good to hear, too, that he intends to publish an interim plan. He is not going to wait for the report, but there is a challenge here for each one of us to ensure that these people, children, young people and adults alike, get the services that they deserve in the language that they wish to have them.

17:06

**Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio o dan yr eitem tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## 5. Dadl Plaid Cymru: Y Diwydiant Amaeth

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 3 yn enw Paul Davies.*

## 5. Plaid Cymru Debate: The Farming Industry

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts, and amendment 3 in the name of Paul Davies.*

17:06

**Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 5 is the Plaid Cymru debate on the farming industry, and I call on Llyr Gruffydd to move the motion.

Eitem 5 yw dadl Plaid Cymru ar y diwydiant ffermio, a galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5671 Elin Jones

Motion NDM5671 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi:

1. Notes:

a) pwysigrwydd y diwydiant amaeth i economi, amgylchedd a chymunedau Cymru;

a) the importance of the farming industry to the economy, environment and communities of Wales;

b) yr argyfwng yn y sector llaeth sy'n deillio o ostyngiad yn y prisiau llaeth a delir i ffermwyr ac ansefydlogrwydd y gadwyn laeth;

b) the crisis in the dairy industry that has stemmed from a reduction in the milk prices that are paid to farmers and instability in the dairy chain;

c) yr ansicrwydd o ran y taliad sylfaenol sy'n deillio o ddiddymu Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) 2014 yn dilyn her barnwrol;

c) the uncertainty regarding the basic payments that has resulted from repealing the Common Agricultural Policy Basic Payment Scheme (Provisional Payment Region Classification) (Wales) Regulations 2014 following a judicial challenge;

d) y bleidlais yn Senedd Ewrop i roi'r pŵer i aelod-wladwriaethau i awdurdodi cnydau GM i aelod-wladwriaethau, a'r ffaith mai Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad yng Nghymru.

d) the vote in the European Parliament to give member states the power to authorise GM crops to member states, and the fact that the Welsh Government will be responsible for taking the decision in Wales.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

2. Calls on the Welsh Government to:

a) gweithio gyda'r gadwyn laeth a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i weithredu'n benodol i sicrhau cynaliadwyedd hyfyw y cynhyrchwyr llaeth;

a) work with the dairy chain and the UK Government to take specific action to ensure the viable sustainability of milk producers;

b) sicrhau adnoddau digonol ac amserlen gyraeddadwy i ddiogelu talu'r taliad sylfaenol ar 1 Rhagfyr 2015; ac

b) ensure that there are sufficient resources and an achievable timescale to ensure that the basic payment is paid on 1 December 2015; and

c) ail-ddatgan ei bwriad i gadw Cymru yn ddi-GM.

c) calls on the Welsh Government to restate its intention to keep Wales GM-free.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:06

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd dros dro. Mae'n bleser gen i gyflwyno'r cynnig yma yn enw Plaid Cymru. Fel pob pregeth dda, mae yna dri phen i'r cynnig yma ger ein bron ni y prynhawn yma: y sefyllfa y mae'r sector laeth yn ffeindio'i hun ynddo, wrth gwrs, ar hyn o bryd; yn ail, y sefyllfa o ran y taliadau sylfaenol a fydd yn cael eu gwneud o dan y polisi amaeth cyffredin diwygiedig; ac yn drydydd, y datblygiadau arwyddocaol yn Ewrop yr wythnos diwethaf, sydd ag oblygiadau, o bosib, i sefyllfa ddi-GM Cymru.

Thank you very much, acting Deputy Presiding Officer. It's a pleasure to move this motion in the name of Plaid Cymru. As with all good sermons, there are three issues that I'd like to cover on this motion before us this afternoon: first of all, the situation in which the dairy sector finds itself; secondly, the situation in terms of the basic payments that will be made under the reformed common agricultural policy; and thirdly, the significant developments in Europe last week, which will have implications for Wales's GM-free status.

Nawr, prin bod yna wythnos yn mynd heibio, neu mae rhywun yn teimlo mai prin wythnos sy'n mynd heibio, heb inni glywed bod yna gwmni arall yn torri y pris maen nhw'n ei dalu i'w cynhyrchwyr llaeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rŷm ni wedi gweld y pris yn syrthio o tua 34c y litr ar ddechrau 2014 i'r sefyllfa rŷm ni'n ffeindio'n hunain ynddi erbyn heddiw, lle mae rhai proseswyr prin yn talu mwy nag 20c y litr, sydd, wrth gwrs, yn sylweddol is na'r gost gynhyrchu.

Now, hardly a week goes by, or one feels as though hardly a week goes by, without our hearing that yet another company is cutting the price that they pay their milk producers. During the past year, we have seen the price falling, from around 34p per litre at the start of 2014 to the situation we find ourselves in today, where some processors are barely paying as much as 20p per litre, which is, of course, significantly lower than the cost of production.

Ers y gwanwyn diwethaf, mae prisiau 'commodity' llaeth byd-eang, wrth gwrs, wedi gostwng yn sylweddol, yn rhannol wrth i gyflenwad llaeth ar draws y byd gynyddu yn sylweddol, ac yn rhannol hefyd wrth i'r marchnadoedd mwyaf pwysig yn y byd arafu, yn arbennig yn Tsieina, a hefyd y gwaharddiad yn Rwsia, wrth gwrs, ar fewnforion o'r Undeb Ewropeaidd, sy'n cael effaith sylweddol o fewn Ewrop.

Since last spring, the global commodity price of milk, of course, has fallen sharply, partially as a result of milk supply increasing significantly on a global level, and partially as the most important markets in the world are slowing down, particularly in China, and also the prohibition in Russia, of course, on imports from the European Union, which is having a significant impact within Europe.

Nawr, nid oes gen i amheuaeth bod yna ddyfodol llewyrchus i'r sector laeth yn y tymor hirach. Yn sicr, cynyddu bydd y galw ar draws y byd dros y blynyddoedd i ddod. Yn wir, mae'r galw am laeth a chaws o fewn y Deyrnas Unedig hefyd yn dal i gynyddu, gyda lefel y cynnydd yn uwch yng Nghymru, fel mae'n digwydd, nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Mae canran y llaeth o'r Deyrnas Unedig sy'n dod o Gymru hefyd ar gynnydd. Mae mwy o ffermydd llaeth newydd yn dod ar-lein yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig—rhai ohonyn nhw'n gymdogion i fi, sydd wedi gwneud y penderfyniad i symud i mewn i laeth oherwydd eu bod nhw'n gweld y manteision mwy hirdymor, ond, wrth gwrs, mae gofid sylweddol iawn am gyflwr y sector ar hyn o bryd. Mae natur mwy anwadal y diwydiant yn mynd i fod yn rhywbeth y bydd yn rhaid i'r sector ddygymod ag e nawr, rwy'n meddwl, dros y blynyddoedd nesaf i ddod. Ond, yn y tymor byr, wrth gwrs, i nifer o ffermwyr llaeth, goroesi yw'r flaenoriaeth, a bydd goroesi ddim yn hawdd, oherwydd all ddim un busnes barhau i gynhyrchu ar golled am yn hir iawn.

Now, I have no doubt that there is a prosperous future for the dairy sector in the longer term. Certainly, demand will increase on a global level for the coming years. Indeed, the demand for milk and cheese within the United Kingdom is continuing to increase, with the level of increase higher in Wales, as it happens, than is the case in the rest of the United Kingdom. The percentage of the milk from the United Kingdom that is produced in Wales is also increasing. More new dairy farms are coming online in Wales than is the case in other parts of the United Kingdom—some of whom are neighbours of mine, who have made the decision to move into the dairy sector, because they see the more long-term benefits, but, of course, there is a very significant concern about the state of the sector at present. The more unpredictable nature of the industry is going to be something that we will have to cope with now, I think, over the next few years. But, in the short term, of course, for many dairy farmers, survival is the priority, and surviving won't be not easy, because no business can continue to produce at a loss for very long.

Tra bod y pris sy'n dod i mewn am laeth, fel rŷm ni'n gwybod, wedi gostwng, mae'r costau, wrth gwrs, sy'n mynd allan yn dal i fynd allan, a hefyd, yn aml iawn, yn dal i gynyddu. Ychwanegwch chi, wedyn, ohirio taliad eich siec llaeth am bythefnos, fel y gwnaeth First Milk, wrth gwrs, ynghyd â derbyn bil treth am y llynedd, fel y bydd nifer o ffermwyr yn ei wneud nawr dros y cyfnod nesaf yma, ac mae'r trafferthion 'cash flow' yna, sydd eisoes yn rhai difrifol, yn siŵr o ddwysáu. Rŷm ni hefyd yn gwybod fod cwotâu llaeth yn dod i ben yn y misoedd nesaf, a fydd yn debyg o arwain at fwy o gynhyrchiad llaeth ar draws Ewrop, ar yr union adeg y bydd yna fwy o laeth yn dod ar y farchnad beth bynnag, yn y gwanwyn—rhagor o orgyflenwad, sy'n awgrymu y bydd y trafferthion presennol yn parhau, ac eto, o bosib, yn dwysáu. Mae Rabobank ac eraill yn rhagweld na fydd y farchnad yn troi'r gornel tan o leiaf ail hanner y flwyddyn yma, ond wrth gwrs pan ddigwydd hynny, mae'n hanfodol bod y gwella pris yna yn cael ei basio ymlaen i'r cynhyrchwyr yn syth.

While the price being paid for milk has reduced, as we know, the costs, of course, going out continue to have to be paid, and very often are increasing. If you add to that, then, your cheque payment being deferred for two weeks, as First Milk did, of course, along with receiving your tax bill last year, as a number of farmers will be doing over the coming period, and those cash flow problems, which are already serious, are only set to get worse. We also know that milk quotas will be coming to an end over the next few months, which is likely lead to greater milk production across Europe, at the very time that there will be more milk coming on the market anyway, in the spring—more oversupply, which will mean that the current difficulties are set to continue, and may even intensify. Rabobank and others have predicted that the market will not turn the corner until at least the second half of this year, but of course when that happens, it is crucially important that that price increase is then passed on to the producers immediately.

Er mai marchnadoedd byd-eang a ffactorau 'global' sydd yn bennaf cyfrifol am y cwymp yn y prisiau a delir i ffermwyr, mae'r farchnad hynod gystadleuol y mae'r archfarchnadoedd, wrth gwrs, ac mae'r manwerthwyr mawr yn gweithredu oddi fewn iddi hefyd yn chwarae ei rhan. Dyna pam erbyn hyn, wrth gwrs, rŷm ni'n gallu prynu pedwar peint o laeth mewn nifer o'r archfarchnadoedd yma am ddim ond 89c—sefyllfa gwbl anghynaliadwy, yn fy marn I, ond un sy'n adlewyrchu cyflwr y gadwyn gyflenwi, a hefyd ddylanwad yr archfarchnadoedd. Ond dylanwad nid yn unig ar bris uniongyrchol llaeth, ond hefyd ar greu canfyddiad ehangach ymhlith y cyhoedd o beth yw gwerth gwirioneddol llaeth. Os ŷch chi'n arfer gweld bod llaeth yn rhad yn yr archfarchnadoedd, rŷch chi'n disgwyl iddo fo fod yn rhad ym mhob man, ac o hyd. Yr hyn maen nhw felly'n ei wneud yw dibrisio'r cynnyrch sydd ag oblygiadau wedyn, wrth gwrs, o safbwynt y cynhyrchwyr cynradd.

Although global markets and global factors are mainly responsible for the fall in prices paid to farmers, the highly competitive market that the supermarkets, of course, and the major retailers are working within also plays its part. That is why now, of course, you can buy four pints of milk in many supermarkets for just 89p—a situation that is entirely unsustainable, in my opinion, but one that reflects the state of the supply chain, and also the influence of the supermarkets. But that influence is not only on the direct price of milk, but also on creating a wider perception among the public of the real value of milk. If you get used to seeing milk for sale that cheaply in the supermarkets, you expect it to be cheap everywhere, so what they are doing is devaluing the product, and that has implications then, of course, for the primary producers.

Os yw'r archfarchnadoedd yn mynnu gweithredu fel hyn, yna mae'n rhaid iddyn nhw, wrth gwrs, ysgwyddo'r toriad yn y pris o'u 'margin' elw nhw eu hunain. Mae sawl un yn dweud eu bod nhw'n gwneud hynny'n barod, ond wrth gwrs rŷm ni'n dal i weld rhai manwerthwyr heb strwythurau prisio tryloyw, sydd yn gwneud yr atebolrwydd yna yn un anodd i ni fedru ei adnabod.

If the supermarkets insist on acting in this way, then they must, of course, shoulder the cut in price from their own profit margin. Many say that they are already doing that, but we're still seeing some retailers who don't have transparent pricing structures, which actually makes that accountability a difficult one for us to be able to identify.

Y llynedd, fe wnaeth y Gwir Anrh Alex Ferguson MSP adolygu'r cod ymarfer gwirfoddol ar gyflenwi llaeth, y 'dairy code', gyda'r bwriad o sicrhau bod y cod yn parhau i wella tegwch cytundebau ac yn creu mwy o dryloywder rhwng ffermwyr a phroseswyr yn y diwydiant llaeth. Nawr, mae Plaid Cymru wedi bod yn gyson yn ein galwadau ni i gryfhau'r cod, ac mi fyddem ni'n ategu hynny fan hyn heddiw. Nid y cod yw'r ateb, wrth gwrs, ond yn sicr, mae ganddo fe ran bwysig i'w chwarae. Er bod yr adroddiad gan Alex Ferguson wedi cael ymateb cymysg ar y cyfan, mae yna sawl argymhelliad pwysig rwy'n meddwl y dylid eu gweithredu. Un o'r rheini yw'r argymhelliad ynglŷn ag 'exclusivity'. Os yw ffermwr yn dymuno ehangu ei gynhyrchiant llaeth, yna mi ddylid caniatáu'r ffermwr hwnnw i werthu'r llaeth ychwanegol i brynwr arall, os nad yw'r prynwr presennol am gymryd y llaeth ar yr un telerau a'r un amodau.

Last year, the Rt Hon Alex Ferguson MSP reviewed the voluntary code of practice on the supply of milk, the dairy code, with a view to ensuring that it continues to enhance the fairness of contracts, and provides more transparency between farmers and processors in the dairy industry. Now, Plaid Cymru has been consistent in our demands for a strengthening of the code, and I would endorse that again here today. The code is not the solution, but it certainly has an important part to play. Although Alex Ferguson's report received a mixed response, on the whole, there are several important recommendation that I believe should be implemented. One of those is the recommendation on exclusivity. If a farmer wants to expand milk production, then that farmer should be allowed to sell the additional produce to another buyer, if the curent buyer does not want to take it on the same terms and conditions.

Mi hoffwn i glywed ymateb y Dirprwy Weinidog i rai o brif argymhellion yr adroddiad hwn. A ydy Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi nhw ac yn awyddus i'w gweld nhw'n cael eu gweithredu? Os ŷch chi, pa waith ŷch chi'n mynd i'w wneud gyda'r rhai sydd mewn sefyllfa i weithredu'r argymhellion hynny i weld newid yn digwydd?

I would like to hear the Deputy Minister's response to some of the main recommendations of that report. Does the Welsh Government support them and does it want to see them implemented? If so, what work will you do with those who are in a situation to implement those recommendations in order to see real change happening?

Yn yr un modd, mi oedd ymateb y Prif Weinidog ddoe i fy nghais i iddo ysgrifennu at DEFRA yn eu hannog nhw i dderbyn prif argymhellion adroddiad pwyllgor EFRA ar brisiau llaeth yn siomedig. Adeg sefydlu'r 'groceries code adjudictor', fe alwodd Plaid Cymru bryd hynny am rôl ehangach i'r ombwdsmon yma, gan sicrhau bod ganddi bwerau digonol I wneud gwahaniaeth I bob haen o'r gadwyn gyflenwi. Mae'r adroddiad rŷm ni wedi'I weld ddoe, wrth gwrs, bellach yn ei gwneud hi'n glir bod Plaid Cymru yn gwbl gywir yn yr alwad honno, a dyna bellach hefyd yw barn y pwyllgor seneddol perthnasol yn San Steffan. Nawr, fe ddywedodd y Prif Weinidog bod y Dirprwy Weinidog mewn trafodaethau cyson ar y materion yma, felly fe ofynnaf I chi heddiw: a wnewch chi ysgrifennu at DEFRA i'w hannog nhw I weithredu prif argymhellion yr adroddiad, er mwyn ehangu rôl y 'groceries code adjudicator', a hefyd, wrth gwrs, I wneud yn siŵr bod ganddi'r pwerau I sicrhau bod newid yn digwydd? Rŷm ni'n gwybod bod mwy o laeth yn rhoi dannedd cryfach I chi; wel, rhowch gyfrifoldeb am laeth a rhowch ddannedd cryfach i'r 'groceries code adjudicator' hefyd.

LIkewise, the First Minister's response yesterday to my bid for to him to write to DEFRA encouraging them to accept major recommendations of the EFRA committee report on milk prices was disappointing. When the groceries code adjudictor was established, Plaid Cymru called then for a broader role for this ombudsman, to ensure that the role had adequate powers to make a real difference to all levels of the supply chain. The report we saw published yesterday, of course, now makes it clear that Plaid Cymru was entirely right in that demand, and that is now also the view of the relevant parliamentary committee at Westminster. Now, the First Minister told us that the Deputy Minister was in regular discussions on this issues, so I would ask you today: will you write to DEFRA to encourage them to implement the main recommendations of the report, in order to enhance the role of the groceries code adjudicator, and also, of course, to make sure that she has the powers to ensure that change happens? We know that drinking milk gives you stronger teeth; well, give the groceries code adjudicator responsibility for milk and her role will have a better bite, also.

Mae llawer o'r ffactorau sy'n effeithio'r sector, wrth gwrs, y tu hwnt i gyfrifoldebau a chymhwysedd Llywodraeth Cymru. Yn amlwg, mae'n allweddol bod y Llywodraeth yn gwneud beth y gall hi. Rwy'n nodi'r ffaith bod y Dirprwy Weinidog, wrth gwrs, wedi comisiynu adolygiad o'r sector llaeth yng Nghymru, a hefyd y ffaith ei bod hi yn ddiweddar wedi cyfarfod â Syr Jim Paice, cadeirydd First Milk, i drafod sefyllfa'r cwmni. Mae'n bwysig nodi hefyd wrth gwrs, er bod First Milk yn prynu rhyw 8.4% o'r 'volume' llaeth ym Mhrydain, mae mewn gwirionedd yn gyfrifol am chwarter y 'volume' llaeth yng Nghymru. Felly, mae'n llawer mwy arwyddocaol, mewn gwirionedd, fel cwmni o safbwynt y sector yma yng Nghymru.

Many of the factors that affect the sector, of course, are beyond the competence and responsibilities of the Welsh Government. Clearly, it is crucial that the Government does what it can in this area. I note the fact that the Deputy Minister, of course, has commissioned a review of the dairy sector in Wales, and also the fact that she recently had met with Sir Jim Paice, the chair of First Milk, to discuss the situation of the company. It is also important to note of course, although First Milk purchases some 8.4% of the milk volume in Britain, in reality it is responsible for a quarter of the milk volume in Wales. Therefore, in reality, it is far more significant as a company in Wales, in terms of the sector here.

Mae angen dal i annog, wrth gwrs, fwy o brosesu lleol o laeth Cymreig. Mae nifer ohonom ni wedi codi o'r blaen, wrth gwrs, nad yw hi, mewn sawl ystyr, yn gwneud synnwyr o gwbl fod bron i hanner llaeth Cymru yn mynd allan o Gymru i gael ei brosesu: miliynau o alwyni o laeth yn gadael un o feysydd llaeth mwyaf Ewrop i gael ei brosesu, a miliynau o dunelli o gynnyrch llaeth, yn aml iawn, yn dod yn ôl, a'r gwerth ychwanegol hwnnw, wrth gwrs, a'r swyddi ychwanegol hynny yn cael eu colli i economi Cymru. Mae Plaid Cymru hefyd wedi bod yn glir ynglŷn â'n huchelgais ni o sicrhau caffael lleol. Mae'n rhaid troi pob carreg i sicrhau bod mwy o laeth Cymreig yn ffeindio ei ffordd i mewn i'r sector gyhoeddus, er enghraifft, yng Nghymru.

We must continue to encourage, of course, more local processing of Welsh milk. Many of us have raised in the past, of course, the fact that, in many respects, it makes no sense whatsoever that almost half the milk produced in Wales goes out of Wales to be processed: millions of gallons of milk leave one of Europe's largest milk fields to be processed, and millions of tonnes of dairy produce, very often, of dairy produce then coming back over the border, and that additional value and those additional jobs being lost to the Welsh economy. Plaid Cymru has also been clear on its ambition to ensure local procurement. We must leave no stone unturned in ensuring that more Welsh milk finds its way into the public sector, for example, in Wales.

Cwyn cyson gan rai o'r ffermwyr rwy'n siarad â nhw yw'r diffyg marchnata llaeth. Maent yn gweld yn aml, wrth gwrs, Hybu Cig Cymru yn gwneud gwaith clodwiw iawn o safbwynt y sector cig coch, ac yn awyddus i weld ymdrechion tebyg o safbwynt y farchnad laeth a chynnyrch llaeth o Gymru. Rwy'n deall bod y sefyllfa a'r cyd-destun yn wahanol mewn sawl ffordd, ond nid oes amheuaeth, yn fy marn i, y gellir gwneud mwy i annog pobl, a phobl Cymru yn enwedig, i yfed mwy o laeth ac i brynu mwy o gynnyrch llaeth.

A regular gripe from some of the farmers that I speak to is the lack of marketing of milk. They often see Hybu Cig Cymru doing excellent work in terms of the red meat sector and are therefore eager to see similar efforts in terms of the dairy sector and dairy produce from Wales. I understand that the situation and the context are different in many ways, but there is no doubt, in my view, that more could be done to encourage people, and the people of Wales in particular, to drink more milk and to buy more dairy produce.

Galwad cyson gan eraill, wrth gwrs, yw i ffermwyr llaeth fod yn fwy effeithlon, ac mae hynny'n her y mae'r sector yn ei derbyn â breichiau agored, ond mae hynny, yn aml iawn, yn mynnu buddsoddiad cyfalaf sylweddol—rhywbeth y mae nifer o ffermwyr wedi'i wneud, ac yn ei wneud, ond, i eraill, wrth gwrs, yn enwedig o dan yr amgylchiadau pris presennol, rywbeth sydd bron yn amhosibl yn y cyd-destun ariannol presennol. Dyna le mae, wrth gwrs, y cynllun datblygu gwledig yn medru helpu â chyfle inni weld, efallai, peth o'r 15% yma sydd wedi'i drosglwyddo o biler 1 i biler 2 yn dod yn ôl i'r diwydiant, ond, wrth gwrs, mae angen iddo fe fod ar gael cyn gynted ag y bo modd ac yn uniongyrchol i lefel y fferm—ei fod yn hygyrch i ffermwyr ac wedi'i gyfathrebu'n glir.

There is a consistent demand from others for dairy farmers to become more efficient, and that is a challenge that the sector accepts with open arms, but that often requires significant capital investment—something that many farmers have done, and are doing, but, for others, of course, particularly under the current price conditions, it is something that is virtually impossible in the current financial climate. That, of course, is where the rural development plan could assist and where there is an opportunity for us to see, perhaps, some of that 15% that has been transferred from pillar 1 to pillar 2 being returned to the industry, but, of course, it must be available as soon as possible and directly at farm level—so it must be accessible to farmers and communicated clearly and effectively.

Nid yw'r rhain, wrth gwrs, yn atebion i'r problemau ariannol byr dymor sy'n wynebu'r diwydiant. Rwy'n deall, mewn ymateb i hynny, fod DairyCo newydd ddechrau cynnig hanner diwrnod o gymorth ymgynghorol i helpu ffermwyr gyda phroblemau 'cash flow', ac mae hynny, yn naturiol, yn rhywbeth i'w groesawu.

Of course, these aren't solutions to the short-term financial problems facing the industry. I understand, in response to that, that DairyCo have just started to offer half a day's advisory service to assist farmers with cash flow problems, and that, of course, is something that we welcome.

Mae ail ran ein cynnig ni yn sôn am y drefn newydd o daliadau sylfaenol o dan y polisi amaeth cyffredin diwygiedig, a, mewn gwirionedd, y peth rwyf am ei glywed yw'r Llywodraeth yn esbonio yn union sut y ffeindiodd ei hun yn y fath bicil, â dweud y gwir. Rydym yn ymwybodol o sut mae'r her gyfreithiol, wrth gwrs, wedi taflu holl drefniadau'r taliad sylfaenol i'r awyr, ac mae yna gwestiynau sylfaenol y mae angen eu hateb: sut y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi datblygu cynllun fel hyn, a oedd, mewn gwirionedd, yn anghyfreithlon? Sut y gallai fod wedi mynd mor bell cyn dod i sylweddoli fod y dosbarthiad tir a'r ffin 400m yn wallus? Sut mae'r Dirprwy Weinidog, wrth gwrs, yn mynd i sicrhau yn awr fod y taliadau, nad oeddynt eisoes, yn ôl cyfaddefiad y Llywodraeth, yn mynd i gael eu talu'n llawn yn Rhagfyr eleni, o leiaf yn daliadau mor sylweddol ag sy'n bosib?

The second part of our motion mentions the new system of basic payments under the revised common agricultural policy, and, in reality, what I want to hear is the Government explaining exactly how it found itself in such a difficult situation. We understand how the judicial challenge has thrown all the arrangements for the basic payment into the air, and there are fundamental questions that need to be answered: how could the Welsh Government have developed a plan of this sort, which, in reality, was unlawful? How could it have gone so far before realising that the distribution and the 400m zone was flawed? How will the Deputy Minister now ensure that the basic payment, which, according to the Government, wasn't going to be paid in full in December this year anyway, will at least be as significant a payment as possible?

Yn olaf, mi oedd yna bleidlais, fel yr ydym yn gwybod, yn Senedd Ewrop yr wythnos diwethaf ar GMOs, sy'n golygu, wrth gwrs, y bydd yna benderfyniadau yn awr gan wledydd unigol ynglŷn â'r defnydd o gnydau GM. Mae DEFRA wedi cadarnhau yn ôl yng Ngorffennaf mae mater i Lywodraeth Cymru fydd hi i benderfynu ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru, ac rydym yn awyddus i ddefnyddio'r cyfle a fydd gan y Llywodraeth yn y ddadl yma heddiw i ategu ymrwymiad y Llywodraeth yma a Chynulliad Cymru i Gymru di-GM. Felly, mi edrychaf i ymlaen at gyfraniadau pawb, ac, wrth gwrs, mi fyddaf i'n ymateb ac yn gwneud rhai sylwadau ar y gwelliannau wrth gloi.

Finally, there was a vote in the European Parliament last week on GMOs, which means, of course, that decisions will be taken by individual member states on the use of GM crops. DEFRA confirmed in July that it will be a matter for the Welsh Government to decide what happens here in Wales. We are eager to take the opportunity that the Government will have in this debate today to endorse the Government's commitment and the Assembly's commitment to a GM-free Wales. So, I look forward to everyone's contribution, and, of course, I will respond and comment on the amendments in my closing speech.

17:18

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. There have been three amendments to the motion selected. I call on William Powell to move amendments 1 and 2 tabled in the name of Aled Roberts.

Diolch yn fawr. Cafwyd tri gwelliant i'r cynnig a ddewiswyd. Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:*

*Add as new sub-point at end of point 1:*

*y rôl ganolog y mae cynhyrchu bwyd yn ei chwarae yn y byd ffermio yng Nghymru o ystyried yr angen brys i ddiogelu'r cyflenwad bwyd.*

*the central role of food production in Welsh farming given the urgent need to safeguard food security.*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:*

*Add as new sub-point at end of point 2:*

*gweithredu mesurau rhagweithiol i hwyluso'r gwaith o gynllunio ar gyfer olyniaeth yn y sector ffermio, o ystyried proffil oedran ffermwyr yng Nghymru a'r angen i ddarparu mynediad i'r tir.*

*implement proactive measures to facilitate succession planning in the farming sector, given the age profile of farmers in Wales and the need to provide access to the land.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.*

*Amendments 1 and 2 moved.*

17:18

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro.

Thank you, acting Deputy Presiding Officer.

I very much welcome this debate this afternoon and rise to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwy'n croesawu'n fawr y ddadl y prynhawn yma ac yn codi i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

We believe that both the safeguarding of food security in Wales and the need to implement proactive measures to facilitate succession planning within the farming industry are of vital importance to protecting the Welsh farming sector. As we know, farming in Wales remains an almost exclusively inherited occupation. I had the pleasure of leading a short debate before Christmas on this topic, which explored the opportunities available for encouraging mobility within the sector and making the industry, as a whole, more accessible.

Rydym yn credu bod diogelu'r cyflenwad bwyd yng Nghymru a'r angen i weithredu mesurau rhagweithiol i hwyluso cynllunio ar gyfer olyniaeth yn y diwydiant ffermio yn hanfodol bwysig i amddiffyn y sector ffermio yng Nghymru. Fel y gwyddom, mae ffermio yng Nghymru yn parhau i fod yn alwedigaeth sydd bron yn ddieithriad yn cael ei hetifeddu. Cefais y pleser o arwain dadl fer cyn y Nadolig ar y pwnc hwn a oedd yn edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael i annog symudedd yn y sector a gwneud y diwydiant yn ei gyfanrwydd yn fwy hygyrch.

Share farming is one such opportunity, and I was delighted, in December, that the Deputy Minister termed this 'An area of common ground between us'. By providing a middle ground, whereby a farmer mature in years, who cannot afford to retire, can start to wind down without having to worry about making ends meet, share farming could, indeed, be one way in which Welsh agriculture can encourage mobility within the industry and give hope to those who are not following a family tradition of farming, but who, nevertheless, yearn for access to the land.

Mae ffermio cyfran yn un cyfle o'r fath, ac roeddwn wrth fy modd, ym mis Rhagfyr, fod y Dirprwy Weinidog wedi galw hwn yn 'dir cyffredin rhyngom'. Drwy ddarparu tir canol, lle y gall ffermwr sy'n mynd i oed, nad yw'n gallu fforddio ymddeol, ddechrau gwneud llai heb orfod poeni am gael dau ben llinyn ynghyd, gallai ffermio cyfran fod yn un ffordd yn wir y gall amaethyddiaeth Cymru annog symudedd o fewn y diwydiant a rhoi gobaith i rai nad ydynt yn dilyn traddodiad teuluol o ffermio, ond sydd, serch hynny, yn dyheu am gael gweithio ar y tir.

I would also like to take this opportunity, once again, to urge the Welsh Government to do more that lies within its power to explore the potential for developing share farming, which could offer hope for the future of the industry. Whilst I appreciate that the Welsh Government's rural development plan, which has already been referred to, aims to go some way to addressing the issue of the accessibility of farming, it is important to maintain a focus on how we use the funds of the RDP to secure things for the next generation. As has been called for by the FUW, it is critical that resources under the RDP are made available to all farmers as soon as possible and that funding is available and accessible to farmers. Indeed, those sentiments were echoed just last week by Dai Davies of Hybu Cig Cymru/Meat Promotion Wales, who appealed particularly for investment under the RDP to be concentrated on those measures where there are concrete outcomes that can be achieved, and I think that's an objective that we share. It's particularly important here in Wales, given the rurality of our country and the integral part that farming plays in the wider Welsh economy; such judicious use of RDP moneys is especially important, given the Welsh Government's decision, which is still a matter of bitter regret in many quarters, to cease dedicated support for those farmers who seek to make their living in Wales's most challenging and disadvantaged terrain.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn, unwaith eto, i annog Llywodraeth Cymru i wneud mwy o fewn ei phŵer i archwilio'r potensial ar gyfer datblygu ffermio cyfran, a allai gynnig gobaith i'r diwydiant yn y dyfodol. Er fy mod yn gwerthfawrogi bod cynllun datblygu gwledig Llywodraeth Cymru, y cyfeiriwyd ato eisoes, yn anelu at fynd beth o'r ffordd i fynd i'r afael â mater hygyrchedd ffermio, mae'n bwysig cynnal ffocws ar sut y byddwn yn defnyddio cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig i ddiogelu pethau ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Fel y galwodd Undeb Amaethwyr Cymru amdanynt, mae'n hanfodol bod adnoddau o dan y Cynllun Datblygu Gwledig ar gael i bob ffermwr cyn gynted ag y bo modd a bod cyllid ar gael yn hygyrch i ffermwyr. Yn wir, adleisiwyd y teimladau hyn yr wythnos diwethaf gan Dai Davies o Hybu Cig Cymru a apeliodd yn benodol am ganolbwyntio buddsoddiad o dan y Cynllun Datblygu Gwledig ar fesurau lle y gellir cyflawni canlyniadau pendant, a chredaf fod hwn yn amcan a rannwn. Mae'n arbennig o bwysig yma yng Nghymru, o ystyried natur wledig ein gwlad a'r rhan annatod y mae ffermio yn ei chwarae yn economi ehangach Cymru; mae defnydd doeth o'r fath o arian Cynllun Datblygu Gwledig yn arbennig o bwysig, o ystyried penderfyniad Llywodraeth Cymru, sy'n dal i fod yn destun gofid chwerw mewn nifer o fannau, i roi'r gorau i gymorth penodol i ffermwyr sy'n ceisio gwneud eu bywoliaeth ar y tir mwyaf heriol a than anfantais yng Nghymru.

In terms of the Conservative amendment, we are happy to support amendment 3. It is vital that we engage with all stakeholders on the new payment scheme and that the long-term viability of food production in Wales is secured. This is very much in line with our sentiments as a Welsh Liberal Democrat group.

O ran gwelliant y Ceidwadwyr, rydym yn hapus i gefnogi gwelliant 3. Mae'n hanfodol ein bod yn ymgysylltu â'r holl randdeiliaid ynglŷn â'r cynllun talu newydd a bod hyfywedd hirdymor cynhyrchu bwyd yng Nghymru yn cael ei ddiogelu. Mae hyn yn cyd-fynd yn llwyr â'n teimladau fel grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

One aspect that will contribute greatly to the future viability and the thriving of Welsh farming is a greater understanding of how central farming is to our national life, and that understanding needs to be extended also to our great cities as well as to the rural hinterland. In this context, I'd like to refer briefly to a number of initiatives that help to embed such an understanding. The success over the years of Open Farm Sunday and, more recently, the advent of 'Lambing Live' is most welcome in this connection, and the popularity of both bears testimony to the readiness of people across this country to embrace and understand the importance of the industry for us all. Indeed, recently, the Petitions Committee received a call from Radnorshire farmer, David Hardwick, on the Welsh Government to acknowledge the prime importance, the central importance, of global food security in our formulation of agricultural policy. He even called for the creation of a food security commissioner to safeguard that for the time to come.

Un agwedd a fydd yn cyfrannu'n fawr at hyfywedd a ffyniant ffermio yng Nghymru yn y dyfodol yw gwell dealltwriaeth o ba mor ganolog yw ffermio i'n bywyd cenedlaethol, ac mae angen ymestyn y ddealltwriaeth honno hefyd i'n dinasoedd mawr yn ogystal ag i gefn gwlad. Yn y cyd-destun hwn, hoffwn gyfeirio'n fyr at nifer o fentrau sy'n helpu i sefydlu dealltwriaeth o'r fath. Mae llwyddiant y Dydd Sul Fferm Agored dros y blynyddoedd a 'Lambing Live' yn fwy diweddar i'w groesawu'n fawr iawn yn y cyswllt hwn, ac mae poblogrwydd y ddau yn tystio i barodrwydd pobl ar draws y wlad i goleddu a deall pwysigrwydd y diwydiant ar ein cyfer ni i gyd. Yn wir, yn ddiweddar, cafodd y Pwyllgor Deisebau alwad gan ffermwr o Sir Faesyfed, David Hardwick, ar Lywodraeth Cymru i gydnabod pwysigrwydd mawr, pwysigrwydd canolog, diogelu'r cyflenwad bwyd yn fyd-eang wrth i ni fynd ati i lunio polisi amaethyddol. Roedd hyd yn oed yn galw am greu comisiynydd ar gyfer diogelu'r cyflenwad bwyd at y dyfodol.

Finally, I would like to commend the Cows on Tour initiative, which has been supported by young farmers in Glamorganshire today. Supported by former YFC national chair and now NFU group secretary, Kate Miles, it involves young farmers from this region undertaking school visits today in London to tell young people the farming story, based on their own experience. This will help, in turn, to further bridge the urban-rural divide that we know so much about. All of these initiatives are most welcome, but we need to see, in conclusion, a genuine commitment from the Welsh Government, reflected in policy, to take this industry forward. I commend this motion and our amendments.

Yn olaf, hoffwn ganmol menter Cows on Tour, a gefnogwyd gan ffermwyr ifanc yn Sir Forgannwg heddiw. Gyda chefnogaeth Kate Miles, sy'n gyn-gadeirydd cenedlaethol y Clybiau Ffermwyr Ifanc a bellach yn ysgrifennydd grŵp NFU, mae'n galluogi ffermwyr ifanc o'r ardal hon i ymweld ag ysgolion yn Llundain heddiw er mwyn adrodd stori ffermio wrth bobl ifanc, yn seiliedig ar eu profiad eu hunain. Yn ei dro, bydd hyn yn helpu i bontio'r bwlch rhwng y dref a'r wlad y gwyddom gymaint amdano. Mae pob un o'r mentrau hyn i'w croesawu'n fawr, ond i gloi, mae angen i ni weld ymrwymiad gwirioneddol gan Lywodraeth Cymru, wedi'i adlewyrchu yn y polisi, i symud y diwydiant yn ei flaen. Cymeradwyaf y cynnig hwn a'n gwelliannau.

17:23 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Russell George, to move amendment 3, tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Russell George, i gynnig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu is-bwyntiau newydd ar ddiwedd pwynt 2:*

*Add as new sub-points at end of point 2:*

*ymgysylltu ac ymgynghori'n ddigonol â rhanddeiliaid ynghylch y system dalu newydd yn dilyn diddymu Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) 2014; a*

*engage and consult sufficiently with stakeholders on the new payment system following the repealing of the Common Agricultural Policy Basic Payment Scheme (Provisional Payment Region Classification) (Wales) Regulations 2014; and*

*ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio gyda hwy i sicrhau hyfywedd tymor hir y gwaith o gynhyrchu bwyd a chynhyrchwyr bwyd yng Nghymru.*

*engage and work with stakeholders to ensure the long-term viability of food production and producers in Wales.*

*Cynigiwyd gwelliant 3.*

*Amendment 3 moved.*

17:23 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, acting Presiding Officer. I'm pleased to take part in this debate this afternoon—the third debate on farming in the space of just less than three months. That very fact alone, I think, illustrates the tough situation that confronts the farming industry in Wales and the need for the Welsh Government to take swift and meaningful action to support our farmers. This afternoon, I would like to focus my remarks on the common agricultural policy basic payments scheme and the dairy industry.

Diolch i chi, Lywydd dros dro. Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma—y drydedd ddadl ar ffermio mewn ychydig o dan dri mis. Rwy'n credu bod y ffaith honno ar ei phen ei hun yn dangos y sefyllfa anodd sy'n wynebu'r diwydiant ffermio yng Nghymru a'r angen i Lywodraeth Cymru roi camau cyflym ac ystyrlon ar waith i gefnogi ein ffermwyr. Y prynhawn yma, hoffwn ganolbwyntio fy sylwadau ar gynllun taliad sylfaenol y polisi amaethyddol cyffredin a'r diwydiant llaeth.

So, first, and in moving the amendment in the name of Paul Davies, it's essential, given the fact that the CAP basic payments scheme regulations have been repealed, that the Welsh Government engages and consults sufficiently with the industry on a new payment system. I have to say that I do believe the Deputy Minister has been doing that since the repeal in December. I should like to place on record my thanks to the Deputy Minister for arranging to speak with the spokespeople from each party straight after her statement in December, and I appreciate the time we had to speak with her officials and with her, and to question her at that time.

Felly, yn gyntaf, ac er mwyn cynnig y gwelliant yn enw Paul Davies, mae'n hanfodol, o ystyried y ffaith bod rheoliadau cynllun taliad sylfaenol y PAC wedi cael eu diddymu, fod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ac yn ymgynghori'n ddigonol gyda'r diwydiant ar system dalu newydd. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn credu bod y Dirprwy Weinidog wedi bod yn gwneud hynny ers y diddymiad ym mis Rhagfyr. Hoffwn gofnodi fy niolch i'r Dirprwy Weinidog am drefnu i siarad gyda llefarwyr o bob plaid yn syth ar ôl ei datganiad ym mis Rhagfyr, ac rwy'n gwerthfawrogi'r amser a gawsom i siarad â'i swyddogion a hithau, ac i'w holi ar y pryd.

I had some exchanges this afternoon with the Deputy Minister on this issue, and I have to say again that the Welsh Government has failed, I think, to instigate modelling work at a much earlier stage, which led to a position where neighbouring farmers with similar land would have been paid different rates. I think today's debate allows us—me, in any case—to perhaps flesh out some of the questions that I asked this morning.

Cefais rywfaint o sgwrs y prynhawn yma gyda'r Dirprwy Weinidog ar y mater hwn, ac mae'n rhaid imi ddweud eto bod Llywodraeth Cymru wedi methu â rhoi gwaith modelu ar y gweill ar gam llawer cynharach, rwy'n meddwl, ac arweiniodd hyn at sefyllfa lle y byddai ffermwyr cyfagos sy'n meddu ar dir tebyg yn cael eu talu ar gyfraddau gwahanol. Rwy'n credu bod y ddadl heddiw yn caniatáu i ni-i mi, beth bynnag-roi cnawd ar esgyrn rhai o'r cwestiynau a ofynnais y bore yma, o bosibl.

As I understand it, the judicial review of the moorlands area was launched by the Fairness for the Uplands group in September last year, but the Welsh Government only received legal advice advising them that the Welsh Government was unlikely to be successful in court just days before the case was due to be heard on 12 December. So, this means it took around three months for the Welsh Government to receive the advice that led them to pulling out of the court case at the eleventh hour.

Yn ôl a ddeallaf, lansiwyd yr adolygiad barnwrol o rostiroedd gan y grŵp Tegwch i'r Ucheldir ym mis Medi y llynedd, ond ni chyflwynwyd cyngor cyfreithiol i Lywodraeth Cymru yn eu cynghori y byddent yn annhebygol o fod yn llwyddiannus yn y llys tan ychydig ddyddiau cyn bod yr achos i'w glywed ar 12 Rhagfyr. Felly, golygodd ei bod wedi cymryd tua thri mis i Lywodraeth Cymru gael y cyngor a barodd iddynt dynnu allan o'r achos llys ar yr unfed awr ar ddeg.

The Deputy Minister has already stated that this now means that it's likely to impact on her ability to make payments in December, and that is just weeks after her statement saying the opposite. So, is this not directly attributable to the Welsh Government's failure to insist on being given detailed legal advice in September, rather than just days before the court case—meaning the loss of three months of crucial time during which alternative payment models could have been considered? And is it not the case that if the correct legal opinion in September had been presented, all the additional expenditure on the 100 stage 2 moorland appeals would not have been necessary?

Mae'r Dirprwy Weinidog eisoes wedi datgan bod hyn yn awr yn golygu ei fod yn debygol o effeithio ar ei gallu i wneud taliadau ym mis Rhagfyr, a daw hynny ychydig wythnosau yn unig ar ôl ei datganiad yn honni'r gwrthwyneb. Felly, onid yw hyn i'w briodoli'n uniongyrchol i fethiant Llywodraeth Cymru i fynnu cael cyngor cyfreithiol manwl ym mis Medi, yn hytrach na ddyddiau'n unig cyn yr achos llys—sy'n golygu colli tri mis o amser allweddol pan y gellid bod wedi ystyried modelau talu eraill? Ac onid yw'n wir, pe bai'r farn gyfreithiol gywir wedi'i chyflwyno ym mis Medi, na fyddai unrhyw angen wedi bod am yr holl wariant ychwanegol ar y 100 o apeliadau rhostir cam 2?

This is the only time, so far, that we've had a significant amount of time to question the Deputy Minister on this, and maybe the Deputy Minister has got some explanation behind this. But, I think it would be helpful if she could address these points to help move this forward.

Dyma'r unig dro, hyd yn hyn, inni gael amser sylweddol i holi'r Dirprwy Weinidog ynglŷn â hyn, ac efallai bod gan y Dirprwy Weinidog eglurhad ar y mater. Ond rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol pe gallai hi ymdrin â'r pwyntiau hyn er mwyn helpu i symud hyn yn ei flaen.

In the short time I've got left to talk about the dairy industry and the huge concerns that I think we're all aware of, I would agree with most if not all of what the Plaid spokesperson said in this regard. At this point as well, I should thank the Deputy Minister again for her visit with me to Meifod on Thursday to visit a dairy farm in my constituency. We had a tour and sat around the kitchen table and talked to a handful of dairy farmers, and I think that those are often the most productive meetings to have. Yes, of course, we discussed the farm-gate price and supermarkets, but the key issue for me that came out of that meeting was that farmers are not able to invest as they would like to to make their businesses more profitable. They want to make their businesses more profitable and I'm sure the Deputy Minister wants to see that as well, but they're hanging on to receive their single farm payments in order to pay the bills, and that just keeps their heads above water. I hope the Deputy Minister took away the same message as I did.

Yn yr amser byr sydd gen i ar ôl i siarad am y diwydiant llaeth a'r pryderon enfawr y credaf ein bod i gyd yn ymwybodol ohonynt, byddwn yn cytuno â'r rhan fwyaf, os nad y cyfan o'r hyn a ddywedodd llefarydd Plaid ar y mater hwn. Ar y pwynt hwn hefyd, hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog unwaith eto am ddod gyda mi i Feifod ddydd Iau diwethaf i ymweld â fferm laeth yn fy etholaeth. Cawsom ein tywys o gwmpas y fferm ac fe eisteddon ni wrth fwrdd y gegin i siarad â llond llaw o ffermwyr llaeth, ac rwy'n meddwl mai'r rheini'n aml yw'r cyfarfodydd mwyaf cynhyrchiol. Do, fe fuom yn trafod y pris wrth giât y fferm wrth gwrs, ac archfarchnadoedd, ond i mi y mater allweddol a ddaeth allan o'r cyfarfod hwnnw oedd nad oedd ffermwyr yn gallu buddsoddi fel y byddent yn hoffi er mwyn gwneud eu busnesau'n fwy proffidiol. Maent yn awyddus i wneud eu busnesau'n fwy proffidiol ac rwy'n siŵr bod y Dirprwy Weinidog am weld hynny hefyd, ond maent yn dal i ddisgwyl am eu taliad sengl er mwyn talu'r biliau, a dim ond cadw eu pennau uwchben y dŵr a wna hynny. Rwy'n gobeithio bod y Dirprwy Weinidog wedi dod oddi yno â'r un neges ag y clywais i.

I also met a dairy farmer, as it happens, this afternoon, who also provided me with the same experiences himself, except that what he did add was that he doesn't feel confident in the Welsh Government due to some of the decisions that they've made, largely being the decision to modulate pillar 1 payments at 15%, putting, as he believes, and as I do, Welsh farmers at a competitive disadvantage in the UK and across Europe.

Fel y mae'n digwydd, cyfarfûm â ffermwr llaeth y prynhawn yma hefyd, a mynegodd yntau yr un profiadau wrthyf. Ond yr hyn a ychwanegodd oedd nad yw'n teimlo hyder yn Llywodraeth Cymru o ganlyniad i rai o'r penderfyniadau a wnaethant, yn bennaf y penderfyniad i fodiwleiddio taliadau colofn 1 ar 15%, gan roi ffermwyr Cymru dan anfantais gystadleuol yn y DU a ledled Ewrop, fel y mae'n gweld pethau, a minnau hefyd.

I'm sorry I've run out of time, but I would hope that all Members can support our amendment today, which I think is fairly non-contentious.

Mae'n ddrwg gennyf fy mod wedi rhedeg allan o amser, ond byddwn yn gobeithio y gall pob Aelod gefnogi ein gwelliant heddiw, sy'n un eithaf annadleuol, rwy'n credu.

17:28

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Elin Jones, but before you do speak, I must point that there are a great number of speakers again for this debate, and so I would recommend that Members are brief.

Galwaf ar Elin Jones, ond cyn i chi siarad, rhaid imi nodi bod yna nifer fawr o siaradwyr eto yn y ddadl hon, felly hoffwn argymell i'r Aelodau fod yn gryno.

17:29

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro. Gyda'r eithriad o ryw argyfwng iechyd anifeiliaid, nid wyf yn credu y gallai cychwyn 2015 fod wedi bod lawer gwaeth i ffermwyr Cymru—ansicrwydd am y taliadau amaethyddol ac ansicrwydd prisiau'r farchnad yn cyd-fynd, ac ansicrwydd y diwydiant llaeth—nid o'ch gwneuthuriad chi, Ddirprwy Weinidog, ond mae'r ansicrwydd am y taliadau amaethyddol yn bendant o'ch gwneuthuriad chi. Mae ffermwyr yn cael eu cyhuddo yn aml iawn am weiddi fod y sefyllfa yn argyfyngus, ond nid wyf yn cofio y fath ansicrwydd a'r fath nerfusrwydd yn y sector laeth ag sy'n bodoli ar hyn o bryd. Nid yn unig fod prisiau yn isel, ond mae rhai ffermwyr yn cael gwybod gan eu proseswyr na fydd eu cytundebau llaeth nhw yn cael eu hadnewyddu, o bosib mor fuan â'r gwanwyn yma. Mae hyn yn ddatblygiad cwbl newydd yn y sector laeth. Mae angen ymateb Ewropeaidd i'r argyfwng penodol yma. Rwy'n clywed beth ddywedoch chi ynghynt, eich bod chi, Ddirprwy Weinidog, yn mynd i fod yn mynd i Gyngor y Gweinidogion ddechrau'r wythnos nesaf. Rwy'n gobeithio y clywn ni oddi wrthych chi mewn datganiad, yn dilyn hynny, am rai o ganlyniadau'r trafodaethau pwysig yna. Efallai, prynhawn yma, y gallwch chi amlinellu yn gyntaf inni beth yw'ch gofynion a'ch disgwyliadau chi o Lywodraeth San Steffan ac o Gyngor y Gweinidogion, wrth iddyn nhw gwrdd yr wythnos nesaf.

Thank you, acting Deputy Presiding Officer. With the exception of an animal health crisis, I don't think that the start of 2015 could have been much worse for Welsh farmers—uncertainty about agriculture payments and about market prices coinciding, and uncertainty in the dairy industry—not of your making, Deputy Minister, but the uncertainty about the agriculture payments are most definitely of your making. Famers are often accused for shouting that the situation is at crisis point, but I don't remember such uncertainty and such nervousness in the dairy sector as exists at the moment. Not only are prices low, but some farmers are being told by their processors that their milk contracts will not be renewed, and possibly as early as this spring. This is an entirely new development in the dairy sector. There is a need for a European response to this particular crisis. I heard what you said earlier, that you, Deputy Minister, are going to be going to the Council of Ministers at the beginning of next week. I hope we will hear from you in a statement, following that, about some of the results of the important discussions there. Perhaps, this afternoon, you can outline first what your requirements and your expectations are of the Westminster Government and the Council of Ministers, as they meet next week.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:30.*

*The Presiding Officer took the Chair at 17:30.*

## Elin Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Un sylw, hefyd, os caf i, ar eich llythyr chi inni brynhawn ddoe am eich cyfarfod chi gyda Jim Paice, First Milk. Yn y llythyr, rydych chi'n sôn eich bod chi wedi gofyn I gynghorwyr busnes a 'consultants' weithio gyda'r ffermwyr llaeth I drafod eu problemau llif arian a'u cynlluniau busnes nhw. O bosib, bydd hyn yn ddefnyddiol I rai, ond alla' I ddim llai na dychmygu sawl ffermwr llaeth yn tagu ar ei 'cornflakes' wrth wrando a chlywed am hyn—naill ai ar raglen Dei Tomos yn y bore neu ar 'Farming Today': fod 'consultants' yn mynd I gael gwaith ychwanegol, ac arian ychwanegol, I roi cyngor I ffermwyr ar ba mor wael yw eu sefyllfa llif arian nhw ar hyn o bryd a'u rhagolwg elw nhw, o gofio, yn y lle cyntaf, fod y 'consultants' hynny'n cael eu talu'n bennaf ac yn rhannol o'r pot modiwleiddio, sydd yn dod yn wreiddiol o'r arian uniongyrchol I ffermwyr.

One comment, also, if I may, on your letter to us yesterday afternoon about your meeting with Jim Paice, First Milk. In the letter, you mentioned that you have asked business advisers and consultants to work with dairy farmers to discuss their cash-flow problems and their business plans. Possibly, this will be useful to some, but I can imagine many dairy farmers choking on their cornflakes hearing about this—either on Dei Tomos's morning programme or on 'Farming Today': that consultants are going to get extra work, and additional money, to give advice to farmers on how bad their cash-flow and profit forecast situation is at the moment, given, in the first place, that the consultants are paid mainly and partly from the modulation pot, which stems originally from money available directly to farmers.

Rwyf eisiau symud ymlaen at y taliad sylfaenol, ac rwy'n gobeithio y cymrwch chi'r cyfle brynhawn yma, Ddirprwy Weinidog, i amlinellu inni pam yr ydych chi'n credu y trechwyd a diddymwyd y rheoliadau taliad sylfaenol gan farnwr o'r Uchel Lys yn dilyn her farnwrol. Rydym ni wedi clywed y Dirprwy Weinidog y prynhawn yma eisoes yn cadarnhau bod y Llywodraeth yn parhau i gefnogi'r polisi, er bod hwnnw yn amlwg yn annheg i ffermwyr dros 400m, a bod y polisi wedi methu'r profion 'proportionality' a chydraddoldeb o flaen barnwr Uchel Lys. Fe gafodd y Llywodraeth ddigon o rybuddion y llynedd oddi wrth Aelodau'r Cynulliad fan hyn am annhegwch y llinell 400m, yn enwedig unwaith yr oedd y Llywodraeth wedi penderfynu hefyd i beidio â chael taliad ANC uniongyrchol o dan biler 2. Mae yna ffermwyr 'persuasive' iawn yn fy etholaeth i, ac fe gwrddodd y Gweinidog ar y pryd gyda chriw o ffermwyr yng Nghwmystwyth, ac fe gwrddoch chi, Ddirprwy Weinidog, gyda chriw ohonyn nhw yn sioe Aberteifi y llynedd, i drafod annhegwch y llinell 400 metr yma. Anwybyddu'r drafodaeth honno a wnaethoch chi, ac fe aeth y ffermwyr yma i lys ac i her farnwrol ac fe enillon nhw, ac fe enillon nhw eu costau hefyd. Felly, mae yna risg enfawr nawr i'r gyfundrefn daliadau, ac i hynny fod yn deg ac i fod ar amser i ffermwyr Cymru, er cymaint addewidion gobeithiol y Prif Weinidog ddoe.

I want to move on to the basic payment, and I hope you will take the opportunity this afternoon, Deputy Minister, to outline for us why you believe that the basic payment regulations were defeated and repealed by a High Court judge following a judicial challenge. We have already heard the Deputy Minister this afternoon confirm that the Government continues to support the policy, although it is obviously unfair to farmers over 400m, and that it has failed the tests of proportionality and equality in front of a High Court judge. The Government had plenty of warnings last year from Assembly Members here about the unfairness of the 400m line, especially once the Government had also decided not to have an ANC direct payment under pillar 2. There are some very persuasive farmers in my constituency, and the Minister at the time met with a group of farmers in Cwmystwyth, touch you, Deputy Minister, met with a group of them in the Cardigan show last year to discuss the unfairness of the 400m line. You ignored that discussion, and the farmers went to court and to judicial challenge and won, and they also won their costs. So, there is a huge risk now to the payments system, and for that to be fair and on time for Welsh farmers, however much the First Minister made hopeful promises yesterday.

Mae gormod i'w golli bellach o adael y mater yma, yn fy marn i, i Lywodraeth yn unig, ac mae cyfrifoldeb ar y Cynulliad yma'n gyfan nawr i sgrwtineiddio pob ymgynghoriad, pob penderfyniad a phob deddfwriaeth gan y Dirprwy Weinidog ar daliadau amaethyddol yn ystod y flwyddyn yma. Ni allwn ni adael hyn i Lywodraeth yn unig i wneud y camgymeriadau eto eleni, ac rwy'n gobeithio y bydd y pwyllgor perthnasol—y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd—yn neilltuo digon o amser, a'r Cynulliad yma, i sgrwtineiddio penderfyniadau'r Dirprwy Weinidog eleni. Oherwydd nid oes dim byd pwysicach nawr i'r Dirprwy Weinidog na'r Cynulliad yma na chael y gyfundrefn taliad sylfaenol wedi'i sorto mas ac wedi'i dalu o fewn yr 11 mis nesaf. Mae'r cloc yn mynd 'tic toc', Ddirprwy Weinidog.

There is too much to lose now to leave this, in my opinion, for the Government only, and the Assembly as a whole has a responsibility now to scrutinise every consultation, every decision and every piece of legislation by the Deputy Minister on agricultural payments during this year. We cannot leave this to the Government alone to make mistakes again this year, and I hope that the relevant committee—the Environment and Sustainability Committee—will allocate enough time, and the Assembly, to scrutinise the Deputy Minister's decisions this year. Because there is nothing more important now for the Deputy Minister or the Assembly than to get the basic payment system sorted out and paid within the next 11 months. The clock is ticking, Deputy Minister.

17:33 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Milk and its by-products—milk powder, cream, butter and cheese—are now traded in the global marketplace, so as Llyr Gruffydd has already pointed out, if China fails to increase its imports by the 25% forecast a year ago, you don't need to be a pointy-headed economist to realise it has an impact on prices in Wales, the rest of the UK and Europe. Equally, the Russian ban on imports of dairy products in response to the ban on Russian oil and other products has that negative impact, as well a rush of highly subsidised US cheddar cheese production into Europe. So, without some form of quota system, farmers are at the mercy of the market and cushioned only by the CAP subsidies, which help them to stay in business. We have to, obviously, endeavour to support the wellbeing of Welsh farmers, but we cannot protect farmers from the vagaries of the market. The Welsh Government is only one small player in this world market. Worldwide production has gone up by 5%, whereas demand is only up by 2%. These are the basics, which make it inevitable that small-scale producers in Wales get stuffed, unless we have some mechanism to manage the market.

Mae llaeth a'i sgil-gynhyrchion-llaeth powdr, hufen, menyn a chaws-yn awr yn cael eu masnachu yn y farchnad fyd-eang. Felly, fel y mae Llyr Gruffydd eisoes wedi nodi, os yw Tsieina yn methu â chynyddu ei mewnforion 25% fel y rhagwelwyd flwyddyn yn ôl, nid oes angen i chi fod yn economegydd peniog i sylweddoli ei fod yn effeithio ar brisiau yng Nghymru, gweddill y DU ac Ewrop. Yn yr un modd, mae gwaharddiad Rwsia ar fewnforio cynhyrchion llaeth mewn ymateb i'r gwaharddiad ar olew Rwsia a chynhyrchion eraill yn cael yr un effaith negyddol, yn ogystal â fflyd o gynnyrch caws Cheddar wedi'i sybsideiddio'n helaeth o'r Unol Daleithiau i mewn i Ewrop. Felly, heb ryw fath o system gwota, mae ffermwyr ar drugaredd y farchnad ac ni chânt eu clustogi gan ddim heblaw cymorthdaliadau PAC, sy'n eu helpu i aros mewn busnes. Yn amlwg, mae'n rhaid inni ymdrechu i gefnogi lles ffermwyr Cymru, ond ni allwn ddiogelu ffermwyr rhag mympwyon y farchnad. Un chwaraewr bach yn unig yn y farchnad fyd-eang yw Llywodraeth Cymru. Mae cynhyrchiant ledled y byd wedi cynyddu 5%, tra bod y galw ond wedi cynyddu 2%. Mae'r rhain yn bethau sylfaenol, sy'n ei gwneud yn anorfod fod cynhyrchwyr ar raddfa fach yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd dros ben, oni bai bod gennym rywfath o fecanwaith i reoli'r farchnad.

What responsibility do the farming organisations have for advising their members to grab the opportunities and take the bonuses that wholesalers and processors were offering? Did they not realise that such uncontrolled expansion would inevitably lead to a crash, just as certainly as the binge in bank lending to the third world, the housing market and, indeed, the South Sea bubble have had or will have an inevitable outcome? What goes up comes down. So, what is to be done? We don't want to go back to the milk lakes and the butter mountains, and, indeed, the trend is in the opposite direction. The impending abolition of EU milk quotas is likely to make the competition from Germany and Ireland worse, not better.

Pa gyfrifoldeb sydd gan y sefydliadau ffermio am gynghori eu haelodau i fachu ar y cyfleoedd a chymryd y bonysau roedd y cyfanwerthwyr a'r proseswyr yn eu cynnig? Onid oeddent yn sylweddoli y byddai ehangu direolaeth o'r fath yn arwain yn anochel at gwymp, yr un mor sicr â bod sbri'r banciau'n benthyca i'r trydydd byd, y farchnad dai, ac yn wir, swigen Môr y De wedi arwain at ganlyniad anochel, neu'n mynd i wneud hynny? Mae'r hyn sy'n mynd i fyny yn dod i lawr. Felly, beth y gellir ei wneud? Nid ydym am fynd yn ôl at y llynnoedd llaeth a'r mynyddoedd menyn, ac yn wir, mae'r duedd i'r cyfeiriad arall. Mae diddymu cwotâu llaeth yr UE sydd ar fin digwydd yn debygol o wneud y gystadleuaeth o'r Almaen ac Iwerddon yn waeth, nid yn well.

Now, I was interested in what Leanne Wood told us earlier during questions to the environment Minister—that Gwynedd Council now sources all the ingredients for its school meals from local producers. If other local authorities had the commitment of Gwynedd, shortening the food miles and making the provenance and quality assurance easier to track, what impact could that have on prices for producers in Wales? Of course, another option for us in support of the milk producers in Wales is to back the name-and-shame campaign against supermarkets that are paying a mere 17p per litre as part of their market price war. The decision by other supermarkets—M&S, Waitrose, Tesco and Sainsbury's et cetera—to continue to pay UK farmers and processors at least enough to cover their costs is undoubtedly a good business decision, backed by the Women's Institute, a powerful organisation, which is indeed urging people to only buy milk with the red tractor logo. But I appreciate that that is not an option for the very poorest members of our community, who have to go for price.

Yn awr, roedd gennyf ddiddordeb yn yr hyn a ddywedodd Leanne Wood wrthym yn gynharach yn ystod y cwestiynau i Weinidog yr amgylchedd—fod Cyngor Gwynedd yn awr yn prynu ei holl gynhwysion ar gyfer ei brydau ysgol gan gynhyrchwyr lleol. Pe bai gan awdurdodau lleol eraill ymrwymiad Gwynedd, o ran byrhau milltiroedd bwyd a gwneud y tarddiad a sicrhau ansawdd yn haws i'w olrhain, pa effaith y gallai hynny ei chael ar brisiau i gynhyrchwyr yng Nghymru? Wrth gwrs, dewis arall i ni o ran cefnogi cynhyrchwyr llaeth yng Nghymru yw cefnogi'r ymgyrch enwi a chodi cywilydd ar archfarchnadoedd sy'n talu 17c y litr yn unig yn rhan o ryfel prisiau'r farchnad. Mae penderfyniad archfarchnadoedd eraill—M & S, Waitrose, Tesco a Sainsbury ac ati—i barhau i dalu o leiaf ddigon i ffermwyr a phroseswyr yn y DU allu talu eu costau yn ddi-os yn benderfyniad busnes da, sy'n cael cefnogaeth Sefydliad y Merched, sefydliad pwerus, sy'n llwyddo i annog pobl i beidio â phrynu llaeth heb logo'r tractor coch. Ond rwy'n sylweddoli nad yw hynny'n opsiwn i'r aelodau tlotaf yn ein cymunedau, sy'n gorfod ystyried y pris.

Why is it not possible for farmers, who are only being offered 17p per litre by their wholesalers, instead to consider selling their milk locally? What are the barriers to them doing so? There's certainly an appetite for locally produced products; it's the basis of The 25 Mile restaurant in Cardigan et cetera. This is something I hope the Welsh Government will back as part of a suite of actions for growing the food and drink industry to a £7 billion business.

Pam nad yw'n bosibl i ffermwyr, sydd ond yn cael cynnig 17c y litr gan eu cyfanwerthwyr, ystyried gwerthu eu llaeth yn lleol yn lle hynny? Beth yw'r rhwystrau iddynt wneud hynny? Mae awydd pendant am gynnyrch wedi'i gynhyrchu'n lleol; dyna yw sail Bwyty y 25 Milltir yn Aberteifi er enghraifft. Mae'n rhywbeth rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi yn rhan o gyfres o gamau gweithredu ar gyfer tyfu'r diwydiant bwyd a diod yn fusnes gwerth £7 biliwn.

17:38

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n ymddangos i mi ein bod ni'n tueddu, yn y lle yma, i drafod amaethyddiaeth bob tro y mae problem yn codi ar y gorwel, ac yn aml iawn, mae'r broblem wedi hen ddatblygu, ac mae hi wedi datblygu i fod yn rhywbeth sy'n bygwth cynhyrchwyr llaeth a chynhyrchwyr cig yng Nghymru. Rwy'n cytuno'n llwyr â'r hyn a ddywedodd Elin Jones, fod y sefyllfa sy'n ein hwynebu ni ar ddechrau 2015 hwyrach y sefyllfa fwyaf bygythiol sydd wedi wynebu'r diwydiant llaeth yng Nghymru erioed.

It appears to me that we tend in this place to discuss agriculture every time a problem arises or appears on the horizon, and very often the problem is too far developed and has developed into something that is a threat to dairy producers and meat producers in Wales. I agree entirely with Elin Jones's comments that the situation facing us at the beginning of 2015 is perhaps the greatest threat that has ever faced the dairy industry in Wales.

Mae'n rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, benderfynu a ydyn nhw am weld Cymru yn parhau i gynhyrchu llaeth. A ydyn ni am weld Cymru yn parhau i gynhyrchu cig? Os felly, mae'n rhaid i ni osod yr amodau yn eu lle er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae Jenny Rathbone yn gwbl gywir i ddweud na allwn ni adael i ffermwyr Cymru fod yn ddibynnol ar y farchnad ryngwladol. Gwlad fechan ydyn ni; nid oes gennym ni rymoedd o fewn y farchnad honno. Ond, mae yna beryg, rwy'n credu, ein bod ni'n tueddu i adweithio i sefyllfaoedd yn hytrach na bod yn rhagweithredol. Hynny yw, pam ydym ni yn ymateb ar hyn o bryd i argymhellion pwyllgor EFRA San Steffan? Oni ddylai fod yna argymhellion yn codi o'r lle yma? Pam ydym ni yn ceisio gosod pwysau ar Weinidogion yn Llundain i weithredu? Oni ddylai fod gennym ni gynlluniau clir yn y fan hyn ynglŷn â'r hyn rydym ni am ei weld yn digwydd, a'n bod ni'n gosod yr argymhellion hynny gerbron y Llywodraeth yn San Steffan? Mae'r diwydiant llaeth yn ddiwydiant hollbwysig i Gymru wledig, nid yn unig o ran y bobl sy'n cynhyrchu llaeth, ond y modd y mae'r diwydiant hwnnw yn bwydo i mewn i'r economi wledig. Ac os oes yna ffermwyr llaeth yn mynd allan o'r diwydiant, fe welwch chi hefyd bod yna swyddi eraill yn diflannu o'u cwmpas nhw ym mhob man.

The National Assembly for Wales and the Welsh Government have to decide whether they want to see Wales continuing to produce milk. Do we want to see Wales continuing to produce meat? If so, we must ensure that the conditions are in place to ensure that that can happen. Jenny Rathbone is entirely right in saying that we can't allow Welsh farmers to be dependent upon the international market. We are a small country; we don't have many powers within that market. But there is a risk, I think, that we tend to react to situations rather than being proactive. That is, why are we responding to recommendations made by the Environment, Food and Rural Affairs Committee in Westminster? Shouldn't there be recommendations arising from this place? Why are we trying to bring pressure to bear on Ministers in London to take action? Shouldn't we have clear plans in place here in terms of what we want to see happening, and shouldn't we put those recommendations to the Government in Westminster? The dairy industry is a crucially important industry for rural Wales, not only in terms of the milk producers, but also in the way that that industry feeds in to the rural economy. And if there are dairy farmers leaving the industry, you will also see other jobs disappearing everywhere as a result of that.

Rwy'n credu, Ddirprwy Weinidog, fod angen i'r Llywodraeth yma fod yn llawer iawn mwy pendant ac yn llawer iawn mwy creadigol yn y ffordd y maen nhw'n ymateb i hyn. Fe gawsom y sefyllfa hon ddwy flynedd yn ôl, lle daeth—ac rwy'n ddiolchgar—y cyn Weinidog i sir Gaerfyrddin i siarad gyda llond neuadd o ffermwyr yn y fan honno. Daeth rhyw 300 o ffermwyr llaeth ynghyd. Ond, dyma'r perygl: rydym yn cynnal y cyfarfodydd yma ac yn cynnal y dadleuon yma pan fo'r broblem yn bodoli, yn hytrach na'n bod yn edrych ymlaen.

I think, Deputy Minister, that this Government needs to be far more determined and far more creative in the way they respond to this. We had this situation two years ago, when —and I am grateful—the former Minister came to Carmarthenshire to speak to a hall full of farmers there. Some 300 dairy farmers had come together. But, this is the risk: we hold these meetings and we have these debates when the problem already exists, rather than looking to the future.

Rwyf am gyffwrdd ar un peth arall yn yr amser sy'n weddill i mi, sef yr hyn sy'n cael ei drafod ac sydd wedi cael ei benderfynu, bellach, o fewn yr Undeb Ewropeaidd ynglŷn â chnydau GM. Fe wnaeth Llyr Gruffydd gyfeirio at hyn ar y dechrau. Os ydym yn mynd i weld sefyllfa lle mae'r Deyrnas Unedig, fel aelod wladwriaeth, yn caniatáu i gnydau GM fodoli, mae hynny'n fygythiad enfawr i'r diwydiant amaeth yng Nghymru, oherwydd yr unig ffordd y mae'r diwydiant amaeth yng Nghymru'n gallu llwyddo ydy trwy bwysleisio'r ffaith ein bod ni'n cynhyrchu bwyd o'r safon uchaf a bod y rheolau o ran diogelwch a glendid yng Nghymru yn llymach nag y maen nhw yn unrhyw le arall. Ac unwaith rydych chi'n sôn am gnydau GM yn dod i mewn i hynny, rydych chi'n tanseilio'r union bethau sy'n gwneud cynnyrch o Gymru mor ddeniadol—ein bod ni'n gallu dweud bod y cynnyrch yma'n cael ei ddatblygu mewn gwlad sy'n wyrdd ac yn lân. Nid oes eisiau ichi fod yn arbenigwr ar farchnata i sylweddoli pa mor rymus yw gallu dadlau hynny.

I want to touch on one other issue in the time available to me, namely what is being discussed and decided upon within the European Union on GM crops. Llyr Gruffydd referred to this at the beginning. If we are going to see a situation where the UK, as a member state, allows GM crops, that is a huge threat to the farming industry in Wales, because the only way that the agriculture industry in Wales can succeed is by emphasising the fact that we produce food of the highest quality and that the rules on hygeine and safety in Wales are far more rigorous than they are elsewhere. And once you start to introduce GM crops, you undermine the very features that make Welsh produce so attractive—that we can say that the produce is developed in a country that is green and clean. You don't need to be an expert on marketing to understand how powerful it is to be able to make that argument.

Felly, Ddirprwy Weinidog, os yw Llywodraeth San Steffan wedi rhoi'r rhyddid yma i Lywodraeth Cymru benderfynu beth sy'n digwydd yng Nghymru, cymerwch y cynnig hwnnw â dwy law a dywedwch yn glir iawn, iawn wrth Lywodraeth San Steffan nad ydym am weld cnydau GM yng Nghymru. Ni allwn, yn anffodus, reoli'r hyn sy'n digwydd y tu hwnt i ffiniau Cymru na hyd yn oed ar y ffiniau—ac mae hynny'n fygythiad—ond o leiaf fe allwn ni sicrhau bod Cymru, sydd â hanes anrhydeddus iawn yn hyn, fel un o aelodau cyntaf y rhwydwaith rhanbarthau sy'n rhydd o GM, yn parhau â hynny, gan ein galluogi ni i farchnata ein cynnyrch yn fyd eang.

So, Deputy Minister, if the Westminster Government has given the Welsh Government the ability to decide what happens in Wales, take that offer up with both hands, grasp that and say very, very clearly to the Westminster Government that we don't want to see GM crops in Wales. We cannot, unfortunately, control what happens beyond Wales's borders or even on the borders—that is another threat—but at least we can ensure that Wales, which has a very honourable history in this, as one of the first members of the network of GM-free regions, continues with that, enabling us to market our produce on a global level.

17:43

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

As Rhodri Glyn Thomas has just said, the dairy industry is a vital part of the rural economy in Wales and links into a whole host of other areas of the economy and rural life.

Fel y mae Rhodri Glyn Thomas newydd ei ddweud, mae'r diwydiant llaeth yn rhan hanfodol o'r economi wledig yng Nghymru ac yn cysylltu â llu o feysydd eraill o'r economi a bywyd cefn gwlad.

There can be little doubt that supermarket milk price wars, coupled with the problem of red tape and the implications that have arisen following the latest round of CAP reforms, are crippling the dairy industry in Wales. A global increase in the production of milk, at the same time as there has been a drop in demand from countries such as China, and a ban on food imports in other countries such as Russia, is further impacting on our dairy farming communities.

Ni all fod fawr o amheuaeth fod rhyfeloedd prisiau llaeth yr archfarchnadoedd, ynghyd â phroblem biwrocratiaeth a'r goblygiadau yn sgil y rownd ddiweddaraf o ddiwygiadau PAC, yn niweidio'r diwydiant llaeth yng Nghymru. Mae cynnydd byd-eang mewn cynhyrchiant llaeth, ar yr un pryd â'r gostyngiad yn y galw o wledydd fel Tsieina, a gwaharddiad ar fewnforio bwyd mewn gwledydd eraill megis Rwsia, yn effeithio ymhellach ar ein cymunedau ffermio llaeth.

Farmers in my constituency of Monmouthshire are incredibly concerned that they will, ultimately, be driven out of business if they continue to receive unsustainably low prices. Let's face it: no business can survive at a loss for very long. It really is that simple a situation.

Mae ffermwyr yn fy etholaeth i, sef Sir Fynwy yn hynod o bryderus y bydd eu busnesau'n methu os ydynt yn parhau i gael prisiau anghynaliadwy o isel. Gadewch i ni wynebu'r ffaith: ni all unrhyw fusnes oroesi ar golled am amser hir iawn. Mae'n sefyllfa mor syml â hynny.

Now, as other speakers have said, milk prices are at their lowest level since 2007, and much of this is due to a number of large supermarket chains charging consumers very little for their milk, which, in turn, means that dairy farms are being more and more tightly squeezed. It's claimed that the minimum price a farmer can survive on is 30p a litre. However, as we've heard, according to the National Farmers Union, some of their farmers have witnessed a drop of 10p per litre for their milk over the last year. Worryingly, latest figures reveal that some dairy farmers are being paid for their milk as low as 20p per litre, and 17p per litre, as we've heard today.

Yn awr, fel y mae siaradwyr eraill wedi'i ddweud, mae prisiau llaeth ar eu lefel isaf ers 2007, ac mae llawer o hyn yn deillio o'r ffaith mai ychydig iawn y mae nifer o gadwyni archfarchnadoedd mawr yn ei godi ar ddefnyddwyr am eu llaeth, sydd yn ei dro'n golygu bod ffermydd llaeth yn cael eu gwasgu'n fwyfwy tynn. Honnir mai'r pris isaf y gall ffermwr oroesi arno yw 30c y litr. Fodd bynnag, fel y clywsom, yn ôl Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, mae rhai o'u ffermwyr wedi gweld gostyngiad o 10c y litr am eu llaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n destun pryder fod y ffigurau diweddaraf yn dangos bod rhai ffermwyr llaeth yn cael eu talu cyn lleied ag 20c y litr, a 17c y litr, am eu llaeth, fel y clywsom heddiw.

It cannot be right that supermarkets operating in Wales are apparently using milk as a loss leader in order to entice customers into their stores. So, what do we do now? I heard what you said, Rhodri Glyn, and you're probably right that it's a shame we only ever discuss these situations when they reach a crisis level, and it's a shame we hadn't dealt with this before, but we are where we are. The important thing now is to do what we can from here on to try to make the situation better. What is important is that we actively encourage the public to buy milk that is sustainable. I heard what Jenny Rathbone said about some of the poorer people in society not having that money, but we are talking here about pennies rather than anything more major than that. When you look at what people are prepared to pay for a bottle of water and then you look at the price of milk, you think there is something seriously wrong with the way the market is working. Now, I understand that there are farmers in contracts with stores such as Marks and Spencer, Tesco and Waitrose, which have agreed to pay farmers around 30p per litre. For other farmers, who are not fortunate enough to be supplying similar stores, it is not unknown to be paid less than 20p, as we've heard.

Ni all fod yn iawn fod archfarchnadoedd sy'n gweithredu yng Nghymru i'w gweld yn defnyddio llaeth i'w werthu ar golled er mwyn denu cwsmeriaid i'w siopau. Felly, beth a wnawn yn awr? Clywais yr hyn a ddywedoch, Rhodri Glyn, ac mae'n siŵr eich bod yn iawn ei bod yn drueni nad ydym yn trafod y sefyllfaoedd hyn cyn iddynt gyrraedd lefel argyfwng, ac mae'n drueni nad ydym wedi ymdrin â hyn o'r blaen, ond dyna'r sefyllfa rydym ynddi. Y peth pwysig yn awr yw gwneud yr hyn a allwn o hyn ymlaen i geisio gwneud y sefyllfa'n well. Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn mynd ati i annog y cyhoedd i brynu llaeth sy'n gynaliadwy. Clywais yr hyn a ddywedodd Jenny Rathbone am rai o'r bobl dlotaf yn y gymdeithas nad oes ganddynt yr arian hwnnw, ond rydym yn sôn yma am geiniogau yn hytrach nag unrhyw beth mwy na hynny. Pan fyddwch yn edrych ar yr hyn y mae pobl eisoes yn barod i'w dalu am botel o ddŵr ac yna'n edrych ar bris llaeth, fe fyddech yn meddwl fod rhywbeth mawr o'i le â'r ffordd y mae'r farchnad yn gweithio. Yn awr, rwy'n deall bod gan ffermwyr gontractau gyda siopau fel Marks and Spencer, Tesco a Waitrose, sydd wedi cytuno i dalu tua 30c y litr i ffermwyr. I ffermwyr eraill, nad ydynt yn ddigon ffodus i fod yn cyflenwi siopau tebyg, fel y clywsom, mae rhai'n cael llai nag 20c y litr.

However, as well as the slump in milk prices, I've also mentioned the problems dairy farmers are encountering with red tape and the implications that have arisen from the latest round of CAP reforms. As you will know, last year, the Welsh Government issued guidance on how the new regime of CAP reforms would be implemented in Wales. Part of the system includes a greening element. Unfortunately for dairy farmers in my constituency, this is proving difficult to comply with in practical terms. The NFU Cymru Monmouthshire county chairman Nigel Bowyer has stated,

Fodd bynnag, yn ogystal â'r cwymp mewn prisiau llaeth, soniais hefyd am y problemau y mae ffermwyr llaeth yn eu hwynebu gyda biwrocratiaeth a'r goblygiadau sy'n deillio o'r rownd ddiweddaraf o ddiwygiadau PAC. Fel y gwyddoch, y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ynglŷn â sut y byddai'r drefn newydd o ddiwygiadau PAC yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru. Mae rhan o'r system yn cynnwys elfen wyrddu. Yn anffodus i ffermwyr llaeth yn fy etholaeth, mae'n anodd cydymffurfio â hyn yn ymarferol. Mae cadeirydd sirol NFU Cymru Sir Fynwy, Nigel Bowyer, wedi datgan,

'In a county such as Monmouthshire, the greening element is causing significant problems as farmers attempt to meet the two or three crop rulings'.

'Mewn sir fel Sir Fynwy, mae'r elfen wyrddu yn achosi problemau sylweddol wrth i ffermwyr geisio bodloni'r ddau neu dri dyfarniad cnydau'.

There can be no doubt that CAP rules have broadly increased unnecessary bureaucracy to farming businesses, both in my constituency and across Wales. At a time when milk prices are in free fall, the added burden of agricultural reforms has not been welcomed, and these concerns need to be addressed.

Ni all fod unrhyw amheuaeth fod rheolau PAC yn gyffredinol wedi cynyddu biwrocratiaeth ddiangen i fusnesau ffermio, yn fy etholaeth i a ledled Cymru. Ar adeg pan fo prisiau llaeth yn disgyn drwy'r llawr, nid yw baich ychwanegol y diwygiadau amaethyddol wedi cael croeso, ac mae angen mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

I would, therefore, agree with the majority of speakers—the overwhelming majority—that this Welsh Government must work with the dairy chain, with the suppliers and, of course, with the UK Government to take specific action to ensure the viable sustainability of milk producers. That's what this is about: not a short-term fix, but a fix that is sustainable in the long term. Furthermore, the Welsh Government needs to engage with the wider farming communities regarding the latest CAP reforms. I appreciate the ball is not totally in your court with this one—there are non-devolved issues here—and dealing with supermarkets is no mean feat, but we've got to start somewhere, and the Welsh Government does have a voice and can have a powerful voice in this area. Farmers in my constituency and across Wales have many questions and many concerns, some of which have been mentioned in this debate today and some of which have not, but we urge the Welsh Government to get on with the job of making sure that the dairy industry in Wales is sustainable over the medium and long term.

Felly, byddwn yn cytuno â'r rhan fwyaf o'r siaradwyr—y mwyafrif llethol—fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r gadwyn llaeth, gyda'r cyflenwyr ac wrth gwrs, gyda Llywodraeth y DU i gymryd camau penodol i sicrhau cynaliadwyedd hyfyw cynhyrchwyr llaeth. Ymwneud â hynny y mae hyn: nid ateb tymor byr, ond ateb sy'n gynaliadwy yn hirdymor. Ar ben hynny, mae angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â'r cymunedau ffermio ehangach ynglŷn â'r diwygiadau PAC diweddaraf. Rwy'n sylweddoli nad yw'r mater yn llwyr yn eich dwylo chi—mae materion heb eu datganoli ar waith yma—ac nid yw ymdrin â'r archfarchnadoedd yn gamp hawdd, ond mae'n rhaid i ni ddechrau yn rhywle, ac mae gan Lywodraeth Cymru lais, a gall fod â llais pwerus yn y maes hwn. Mae gan ffermwyr yn fy etholaeth a ledled Cymru lawer o gwestiynau a llawer o bryderon. Mae rhai ohonynt wedi cael eu crybwyll yn y ddadl hon heddiw a rhai heb gael eu crybwyll, ond rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith o sicrhau bod y diwydiant llaeth yng Nghymru yn gynaliadwy yn y tymor canolig a'r tymor hir.

17:48

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I begin by drawing Members' attention to my entry in the register of interests that my husband is a partner in a farming business? Before moving on to my main contribution, I would like to echo the words of William Powell with regard to the petition submitted by my constituent Mr Hardwick of Lower Cantel with regard to food security. I remember once attending a lecture in Breconshire about the history of the county during the second world war, and a great deal of attention was paid to the fact that it was our ability to feed ourselves during that conflict that was absolutely crucial to the success of this nation in surviving: the fact that we could feed ourselves and were not reliant on food imports. I think it's incumbent upon all of us to remember how important a facility that is: the ability to feed your own people.

A gaf fi ddechrau drwy dynnu sylw'r Aelodau at fy nghofnod yn y gofrestr o fuddiannau fod fy ngŵr yn bartner mewn busnes ffermio? Cyn symud ymlaen at fy mhrif gyfraniad, hoffwn adleisio geiriau William Powell o ran y ddeiseb a gyflwynwyd gan fy etholwr Mr Hardwick o Lower Cantel mewn perthynas â diogelu'r cyflenwad bwyd. Rwy'n cofio mynychu darlith yn Sir Frycheiniog un tro am hanes y sir yn ystod yr ail ryfel byd, a rhoddwyd llawer iawn o sylw i'r ffaith mai ein gallu i fwydo ein hunain yn ystod y rhyfel oedd y ffactor cwbl allweddol a arweiniodd at lwyddiant y genedl hon i oroesi: y ffaith y gallem fwydo ein hunain heb fod yn ddibynnol ar fwyd wedi'i fewnforio. Rwy'n credu ei bod yn ddyletswydd ar bob un ohonom i gofio pa mor bwysig yw hynny: y gallu i fwydo eich pobl eich hun.

I'd like to focus on 1(c) and 2(b) of the motion as tabled. Now, CAP reform has never been easy, but each time change has come along, the farmers of Brecon and Radnorshire have done their best to respond to what Governments have asked of them. Key to that ability to respond has been to plan, on an individual farm-by-farm basis, for the changes that are about to hit. The situation we now find ourselves in today has made that planning all the more difficult, as if the reform wasn't going to be difficult anyway, because of the previous Minister's decision to move the maximum amount of money available from pillar 1 to pillar 2. It was already going to be challenging, but the decision, then, to create a moorland rate was positively devastating for some farmers in my constituency. Of course, it now turns out that the Welsh Government could not justify that particular policy announcement, even though, as Elin Jones has said earlier, they were warned in this Chamber that it was not fair, and, more importantly of all, they were warned by people in the industry that it was not fair. For those who did stick their heads above the parapet, I think they deserved better than to have public dressing downs in public meetings and to be told they should simply get off the land. It was not good enough.

Hoffwn ganolbwyntio ar 1(c) a 2(b) o'r cynnig fel y'i cyflwynwyd. Yn awr, nid yw diwygio'r PAC erioed wedi bod yn hawdd, ond bob tro y cafwyd newid , mae ffermwyr Brycheiniog a Sir Faesyfed wedi gwneud eu gorau i ymateb i'r hyn y mae Llywodraethau wedi gofyn iddynt ei wneud. Yn allweddol i'r gallu hwnnw i ymateb, roedd eu gallu i gynllunio, ar sail ffermydd unigol, ar gyfer y newidiadau a oedd ar fin eu taro. Mae'r sefyllfa rydym yn ei hwynebu heddiw wedi gwneud cynllunio o'r fath yn anos byth, fel pe na bai'r diwygio yn mynd i fod yn anodd beth bynnag, oherwydd penderfyniad y Gweinidog blaenorol i symud y swm uchaf o arian a oedd ar gael o golofn 1 i golofn 2. Roedd yn mynd i fod yn heriol yn barod, ond roedd y penderfyniad wedyn i greu cyfradd rhostir yn wirioneddol ddinistriol i rai ffermwyr yn fy etholaeth. Wrth gwrs, ymddengys bellach nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu cyfiawnhau'r cyhoeddiad polisi penodol hwnnw er eu bod, fel y dywedodd Elin Jones yn gynharach, wedi cael rhybudd yn y Siambr hon nad oedd yn deg, ac yn bwysicach fyth, cawsant eu rhybuddio gan bobl yn y diwydiant nad oedd yn deg. I'r rhai a fu'n ddigon dewr i leisio'r farn honno, rwy'n meddwl eu bod yn haeddu gwell na chael eu ceryddu'n gyhoeddus mewn cyfarfodydd cyhoeddus a chael rhywrai'n dweud wrthynt mai'r hyn y dylent ei wneud yn syml oedd symud oddi ar y tir. Nid oedd yn ddigon da.

Now, the reality is, a year later, we find ourselves back at the very beginning of this process, and I'd like to know from the Welsh Government how much money has been spent over the last year pursuing a policy that they could not and would not defend in front of a judge. Papers released and sent to us by the Deputy Minister today demonstrate that, in the end, faced with the evidence, Welsh Government could not defend their position. They could not claim that their decision had been proportionate and fair. How much money has been wasted over the last year in pursuing that policy decision and now the failure to be able to defend it?

Yn awr, flwyddyn yn ddiweddarach, y gwir amdani yw ein bod yn ôl ar gychwyn y broses hon, a hoffwn wybod gan Lywodraeth Cymru faint o arian sydd wedi ei wario yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar fynd ar drywydd polisi na allent, ac na wnaethant ei amddiffyn o flaen barnwr. Mae papurau a ryddhawyd ac a anfonwyd atom gan y Dirprwy Weinidog heddiw yn dangos nad oedd Llywodraeth Cymru yn y pen draw, yn wyneb y dystiolaeth, yn gallu amddiffyn eu safbwynt. Ni allent honni bod eu penderfyniad wedi bod yn gymesur a theg. Faint o arian sydd wedi'i wastraffu dros y flwyddyn ddiwethaf yn mynd ar drywydd y penderfyniad polisi hwnnw a bellach, y methiant i allu ei amddiffyn?

Perhaps most importantly to my constituents, papers e-mailed today confirm that the Deputy Minister is not in a position to be able to tell them when payments will be made in the new window. She is simply not able to do that at present, despite the fact that the First Minister, on numerous occasions over the last fortnight, has said it'll be paid when the window opens. Papers released by Government officials today say that is not the case. The First Minister cannot make those claims. Welsh Government officials say they cannot predict when payments will be made. I'm grateful that the Deputy Minister has forwarded information today, but I would ask her when the figures for the 'tunnelling' option will be made available for Members to see, because some of the figures we see about big losers within the industry are frankly scary under the other two options, and I think it's important that we have access to the third option.

Yn fwyaf pwysig i fy etholwyr efallai, mae papurau a e-bostiwyd heddiw yn cadarnhau nad yw'r Dirprwy Weinidog mewn sefyllfa i allu dweud wrthynt pa bryd y bydd taliadau'n cael eu gwneud yn y cyfnod talu newydd. Yn syml, nid yw'n gallu gwneud hynny ar hyn o bryd, er gwaethaf y ffaith fod y Prif Weinidog, ar sawl achlysur yn ystod y pythefnos diwethaf, wedi dweud y bydd yn cael ei dalu pan fydd y cyfnod talu yn dechrau. Mae papurau a ryddhawyd gan swyddogion y Llywodraeth heddiw yn dweud nad yw hynny'n wir. Ni all y Prif Weinidog wneud honiadau o'r fath. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn dweud na allant ragweld pryd y bydd taliadau'n cael eu gwneud. Rwy'n ddiolchgar fod y Dirprwy Weinidog wedi anfon gwybodaeth heddiw, ond hoffwn ofyn iddi pa bryd y bydd y ffigurau ar gyfer opsiwn y 'twnnel' ar gael i'r Aelodau ei weld, gan fod rhai o'r ffigurau a welwn ar gyfer collwyr mawr yn y diwydiant yn frawychus a dweud y gwir o dan y ddau opsiwn arall, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig fod y trydydd opsiwn fod yn agored i ni.

Can I turn to the issue of the young farmers movement, Presiding Officer? Following recent funding decisions by a number of funding bodies, there is a question mark over the funding for that national organisation. I know that the Deputy Minister has gone out of her way to make officials available to discuss the situation with officials from the YFC movement, and I am grateful to her for doing so, and I know that they are grateful to her for doing so, and they are positive with the approaches and the response that they have had. I wonder whether she would be in a position to update this Chamber on how she feels she can help that movement sustain its work across Wales, often providing services for young people in parts of rural communities that would not be covered, for instance, by youth services provided for by county councils. Much of the effort is delivered by volunteers and it's an organisation that really puts young people's decision making at the forefront. It's not adults who plan the activities or organise the activities; it really is young people working on behalf of young people. I'd be grateful for an update from the Deputy Minister.

A gaf fi droi at fater y mudiad ffermwyr ifanc, Lywydd? Yn dilyn penderfyniadau ariannu diweddar gan nifer o gyrff cyllido, mae marc cwestiwn dros y cyllid ar gyfer y sefydliad cenedlaethol hwn. Gwn fod y Dirprwy Weinidog wedi mynd allan o'i ffordd i sicrhau bod swyddogion ar gael i drafod y sefyllfa gyda swyddogion mudiad y Clybiau Ffermwyr Ifanc, ac rwy'n ddiolchgar iddi am wneud hynny. Gwn eu bod hwy'n ddiolchgar iddi am wneud hynny, ac maent yn gadarnhaol ynglŷn â'r dulliau gweithredu a'r ymateb a gawsant. Tybed a fyddai hi mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr ynglŷn â sut y mae hi'n teimlo y gall helpu'r mudiad i gynnal ei waith ar draws Cymru, yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc, yn aml mewn rhannau o gymunedau gwledig na fyddai'n cael eu cynnwys, er enghraifft, gan wasanaethau ieuenctid a ddarperir gan gynghorau sir. Mae llawer o'r ymdrech yn cael ei gwneud gan wirfoddolwyr ac mae'n sefydliad sy'n rhoi blaenoriaeth go iawn i benderfyniadau pobl ifanc. Nid oedolion sy'n cynllunio neu'n trefnu'r gweithgareddau; dyma enghraifft go iawn o bobl ifanc yn gweithio ar ran pobl ifanc. Byddwn yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Weinidog.

17:53 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'r sector llaeth, fel rydym wedi clywed, yn allweddol i'r economi amaethyddol yng Nghymru, yn cynhyrchu rhyw 30% a throsodd o ran gwerth. Mae'r sector yna yn byw o fewn marchnad fyd-eang, fel rydym wedi clywed eto hefyd, ond mae'n rhaid inni allu datblygu sefyllfa o bolisi ac o anogaeth i ddiwydiant Cymreig sydd yn ymateb i'n hamodau ni, ac sydd, ar yr un pryd, yn gallu ymdopi o fewn marchnad gynwyddau rhyngwladol sydd, ar wahanol adegau, yn dioddef oddi wrth anwastadrwydd a thueddiadau na ellir eu rhagweld. Ac felly, nid yw'r ffaith nad ydych yn gallu rhagweld marchnad, na'r ffordd y mae'n mynd i weithredu, yn ddigon o esgus dros ddweud, 'O, ie, mae'r farchnad wedi methu', neu, 'Nid ydym yn deall y farchnad yna'. Mae'n rhan o ddyletswydd economegwyr amaethyddol ac, yn wir, gwleidyddion sydd â diddordeb mewn amaethyddiaeth, mewn cynhyrchion amaethyddol, i geisio sicrhau bod y farchnad fwyd yn dod mor ddealladwy ag sy'n bosib, a'i bod yn gallu cael ei datblygu yn y ffordd sydd yn briodol.

The dairy sector, as we have heard, is crucial to the agricultural economy in Wales, producing some 30% or more in terms of value. That sector exists within a global market, as we have heard again this afternoon, but we must be able to develop a policy scenario and encouragement for Welsh industry that respond to our own conditions, and that, simultaneously, can cope within an international commodities market that, at different times, suffers because of trends that cannot be anticipated and uncertainty. And so, the fact that you cannot anticipate the market, or how it is going to behave, is not a sufficient excuse to say, 'Oh, yes, the market has failed', or, 'We don't understand that market'. It is part of the duty of agricultural economists and, indeed, politicians with an interest in agriculture, in agricultural produce, to try to ensure that the food market is as well understood as possible, and that it can be developed in a way that is appropriate.

Mae yna, rwy'n credu, lwybrau clir ymlaen i ni yng ngwledydd Prydain, ac yng Nghymru yn arbennig, yn y diwydiant llaeth ar hyn o bryd. Nid ydym wedi pwysleisio hanner digon ar ychwanegu gwerth. Rŷm ni'n dal i ddim ond troi y rhan fwyaf o'n llaeth yn llaeth hylifol—yn gwbl wahanol i'r rhan fwyaf o wledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd, lle mae yna lawer mwy yn mynd i gynnyrch caws—ac mae yna rannau o'r Deyrnas Unedig, wrth gwrs, lle mae'r patrwm yn gyfan gwbl wahanol. Mae Gogledd Iwerddon yn allforio 80% o'u cynhyrchion llaeth, ac mae'n rhaid inni ddatblygu'r ochr yna, yn enwedig mewn ardaloedd sydd yn dibynnu ar eu cyflogaeth o'r diwydiant llaeth.

I do think that there are clear pathways forward for us in the UK, and in Wales particularly, in the dairy sector at present. We haven't emphasised adding value nearly enough. We continue to turn most of our milk into liquid milk—unlike most other nations within the European Union, where much more milk goes to the production of cheese—and there are parts of the United Kingdom, of course, where the pattern is very different. Northern Ireland exports 80% of its dairy products, and we must develop that side of things, particularly in areas that are reliant for employment on the dairy industry.

Mae'n fraint arbennig imi i gael cynrychioli Hufenfa De Arfon, ger Chwilog, sydd ers 1938 wedi bod yn uned gydweithredol ac sydd wedi datblygu a llwyddo yn marchnata'u cynnyrch yn rhyfeddol. Nid oes angen imi hysbysebu menyn a chaws Dragon: mae o drwy'r Cynulliad yma, a phob man arall yng Nghymru. Ond, y peth sydd yn bwysig ydy bod Llywodraeth Cymru wedi dangos ei chefnogaeth i'r cwmni yma yn ddiweddar, drwy annog buddsoddiad, a chynnig buddsoddiad, o bron i £3 miliwn ar gyfer ystafell gaws newydd. Felly, mae'n bwysig ein bod ni'n dal i barhau amgylchiadau lle y gall cwmnïau fel hyn sicrhau cyflogaeth yn y Gymru wledig.

It is a particular privilege of mine to represent South Caernarfon Creameries, near Chwilog, which since 1938 has been a co-operative unit and has developed and succeeded in marketing its products successfully. I do not need to advertise Dragon butter and cheese: it is available in this Assembly, and everywhere else in Wales. But, what is important is that the Welsh Government demonstrated its support for this company recently, by encouraging investment, and providing investment, of almost £3 million for a new cheese production area. Therefore, it is important that we continue to ensure that conditions are in place where companies such as this can secure employment in rural Wales.

Wrth inni wynebu'r sefyllfa lle mae'r cap yn codi oddi ar gwotâu llaeth, rwy'n cofio yn rhy dda trafodaethau yn y 1970au a'r 1980au pan sefydlwyd y cwotâu llaeth. Felly, mae'n hen bryd i ni wynebu'r ffaith y bydd yna ragor o symudiadau yn y farchnad a all fod yn afresymol o orgynhyrchu ychwanegol yn y tymor byr, a'n bod ni'n barod wedyn i annog pobl ei bod hi'n werth i ddatblygu'r math o systemau llaeth sydd yn gweithio i Gymru yn amgylcheddol. Dyma'r pwynt pwysicaf un: mi gennym ni yng Nghymru y tirwedd gorau, y tywydd gorau, y glaw gorau a'r borfa orau, ac mae yna lechweddau yn agos i le rwy'n byw yn Nyffryn Conwy sydd yn enghreifftiol iawn o ansawdd y math o ddiwydiant llaeth cynaliadwy gyda mewnbynnau isel sydd yn gweithio yn arbennig i ni. Felly, gadewch i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n datblygu o fewn y farchnad ryngwladol gymhleth yma y math—

As we face a scenario where the cap will be removed from milk quotas, I recall only too well the negotiations in the 1970s and 1980s when milk quotas were first put in place. So, we must face the fact that there will be further shifts within the market that may be unreasonable in terms of overproduction in the short term, and that we are then ready and willing to tell people that it is worth while developing the kinds of milk systems that work for Wales on an environmental level. This is the most important point: we, in Wales, have the finest landscape, the best weather conditions, the best rain and the best pasture, and there are areas close to where I live in the Conwy valley that are exemplars of the quality of the kind of sustainable dairy industry with low inputs that works particularly well for us. So, let's make sure that we develop within this complex international market the type—

17:57 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. Although I entirely agree with the sentiment you express, without reservation, the concern with the end of milk quotas in April is that increased production is likely in both the Netherlands and Ireland, which will continue, and make the problem even more difficult for our farmers in Wales. Would you agree that we look for a solution from the Minister?

Diolch yn fawr iawn. Er fy mod yn cytuno'n llwyr â'r teimlad rydych yn ei fynegi, heb amheuaeth, y pryder gyda diwedd y cwotâu llaeth ym mis Ebrill yw bod mwy o gynhyrchu yn debygol yn yr Iseldiroedd ac Iwerddon, ac y bydd yn parhau, ac yn gwneud y broblem hyd yn oed yn anos i'n ffermwyr ni yng Nghymru. A fyddech yn cytuno y dylem edrych am ateb gan y Gweinidog?

17:57 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, my argument is precisely that we need to beat the Irish and the Germans and the Danes at their own game—and I'm up for it. [Laughter.]

Wel yn hollol, fy nadl yw bod angen i ni guro'r Gwyddelod a'r Almaenwyr a'r Daniaid ar eu gêm eu hunain—ac rwy'n barod iawn i wneud hynny. [Chwerthin.]

17:57 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely. [Laughter.] And the reality is that we've been doing it. Rhodri Glyn Thomas was absolutely right: we come here every time there is a crisis in agriculture and then we say how bad agriculture is. That's my experience of being a Member here for the last seven years; that's my experience of being a Minister here. The reality is that the dairy industry has actually been enormously successful. On average over the last 10 years, the average dairy farm has seen an increase in its income of 16.5%. Last year, it saw an increase in its income of 70%—in a year. How many other sectors, how many other industries, how many other businesses, in the teeth of the greatest recession that we've seen in our lifetimes, can say, 'We've had a 16.5% increase in profitability year on year on year on year'? How many other industries can say that 'We've seen a reduction'—possibly, depending on how you take it—'almost halving the number of producers, but we actually produce more of that raw material'? There is more milk produced today than 10 years ago with far fewer producers.

Yn hollol. [Chwerthin.] Ac mewn gwirionedd, rydym wedi bod yn gwneud hynny. Roedd Rhodri Glyn Thomas yn llygad ei le: rydym yn dod yma bob tro y bydd argyfwng mewn amaethyddiaeth ac yna rydym yn dweud pa mor ddrwg yw amaethyddiaeth. Dyna fy mhrofiad o fod yn Aelod yma dros y saith mlynedd diwethaf; dyna fy mhrofiad o fod yn Weinidog yma. Y gwir amdani yw bod y diwydiant llaeth wedi bod yn hynod o lwyddiannus mewn gwirionedd. Ar gyfartaledd, dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'r fferm laeth gyfartalog wedi gweld cynnydd yn ei hincwm o 16.5%. Y llynedd, gwelodd gynnydd yn ei hincwm o 70%—mewn blwyddyn. Faint o sectorau eraill, faint o ddiwydiannau eraill, faint o fusnesau eraill, yn nannedd y dirwasgiad mwyaf rydym wedi'i weld yn ystod ein hoes, sy'n gallu dweud, 'Rydym wedi cael cynnydd o 16.5% yn ein proffidioldeb flwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn'? Faint o ddiwydiannau eraill a all ddweud 'Rydym wedi gweld gostyngiad'—o bosibl, yn dibynnu ar sut rydych yn ei gymryd—'sydd bron â bod wedi haneru nifer y cynhyrchwyr ond rydym mewn gwirionedd yn cynhyrchu mwy o'r deunydd crai'? Mae mwy o laeth yn cael ei gynhyrchu heddiw nag a oedd 10 mlynedd yn ôl gan lawer llai o gynhyrchwyr.

That speaks of an industry that is reforming itself, that is more profitable, that is more efficient, and we should be enjoying that success, and we should be building on that success, not listening to the sort of debate we've had this afternoon. We should be working with that industry to look at how we can build that industry to be stronger than it is today in the future. That is exactly why we've built the biggest RDP in history: in order to achieve that, to work with investments in the future; in order to ensure, Rhodri Glyn, that we won't be having the same debate in two years as we had two years ago. We need to be able to do that, but you don't do that by willing the ends and voting against the means. That's the hard reality of it.

Mae hynny'n arwydd o ddiwydiant sy'n diwygio ei hun, sy'n fwy proffidiol, sy'n fwy effeithlon. Dylem fod yn mwynhau'r llwyddiant hwnnw, a dylem fod yn adeiladu ar y llwyddiant hwnnw, yn hytrach na gwrando ar y math o ddadl a gawsom y prynhawn yma. Dylem fod yn gweithio gyda'r diwydiant i edrych ar sut y gallwn ei adeiladu i fod yn gryfach yn y dyfodol nag y mae heddiw. Dyna'n union pam rydym wedi llunio'r Cynllun Datblygu Gwledig mwyaf mewn hanes: er mwyn cyflawni hynny, i weithio gyda buddsoddiadau yn y dyfodol; er mwyn sicrhau, Rhodri Glyn, na fyddwn yn cael yr un ddadl ymhen dwy flynedd ag a gawsom ddwy flynedd yn ôl. Mae angen inni allu gwneud hynny, ond ni wnewch hynny drwy ddyheu am y nod a phleidleisio yn erbyn y dull. Dyna'r realiti creulon.

So, we've seen a very successful industry developing in dairy over the last few years, and we should be supporting that. What we cannot do is to buck the market and ensure that what happens in Russia and China never affects us. Sir Jim Paice—I agreed with every word he said to the NFU this week. I agreed with him very often in office as well. What he was able to say was that it is not simply a matter of blaming supermarkets every time you see a price cut. All too often, that's a knee-jerk reaction here in this Chamber. So we need to be a bit more intelligent—

Felly, rydym wedi gweld diwydiant llaeth llwyddiannus iawn yn datblygu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a dylem gefnogi hynny. Yr hyn na allwn ei wneud yw mynd yn groes i'r farchnad a sicrhau bod yr hyn sy'n digwydd yn Rwsia a Tsieina byth yn effeithio arnom ni. Syr Jim Paice—roeddwn yn cytuno â phob gair a ddywedodd wrth yr NFU yr wythnos hon. Roeddwn yn cytuno ag ef yn aml iawn yn fy swydd hefyd. Yr hyn a allai ei ddweud oedd nad yw'n fater syml o feio archfarchnadoedd bob tro y gwelwch doriad yn y pris. Yn rhy aml, adwaith difeddwl yw hwnnw yma yn y Siambr. Felly, mae angen inni fod ychydig yn fwy deallus—

*Alun Ffred Jones a gododd—*

*Alun Ffred Jones rose—*

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

I can't give way at the moment, I'm afraid.

Ni allaf ildio ar hyn o bryd, yn anffodus.

[Continues.]—a bit more intelligent in the way we do that. We do need a groceries adjudicator that works. I regret the fact that the UK coalition Government has not given it the powers that the previous Labour Government wanted to give it and then enacted the powers it does have. It does require the powers to be there. It might well be that the dairy code does need the power of statute. I threatened to do that, if you remember, two years ago, and perhaps we do need to do that in the future, but not at the moment.

[Yn parhau.]—ychydig yn fwy deallus yn y ffordd rydym yn gwneud hynny. Mae arnom angen dyfarnwr bwydydd sy'n gweithio. Rwy'n gresynu at y ffaith nad yw Llywodraeth glymblaid y DU wedi rhoi'r pwerau y dymunai'r Llywodraeth Lafur flaenorol eu rhoi i'r swydd, a rhoi'r pwerau hynny mewn grym. Mae gofyn cael y pwerau hyn yno. Mae'n ddigon posibl fod angen grym statud ar y cod llaeth. Bygythiais wneud hynny, os cofiwch, ddwy flynedd yn ôl, ac efallai fod angen i ni wneud hynny yn y dyfodol, ond nid ar hyn o bryd.

On the issue of moorland, the policy over the reform of CAP had two main objectives. The first objective was to minimise disruption; the second objective was to minimise the administrative burden. The farming unions wanted us to introduce four payment regions—four payment regions. I remember being attacked by the NFU a year ago when we introduced only three. Had we introduced four, you can guarantee there would have been a judicial review long before the one which we saw before Christmas. Had we introduced four, we would have seen greater and bigger bureaucracy and a greater administrative burden. We introduced three because that minimised disruption. I came to this Chamber and said very clearly that there are 93 farm businesses in Wales, out of 18,000 claimants—18,000 claimants—who are affected badly by this. Of those, fewer than 20 were significantly affected by the changes. All of those farms happened to be in the Elan Valley—

Ar fater rhostiroedd, roedd dau brif amcan i'r polisi ar ddiwygio'r PAC. Yr amcan cyntaf oedd lleihau aflonyddwch; yr ail amcan oedd lleihau'r baich gweinyddol. Roedd yr undebau ffermio am i ni gyflwyno pedwar rhanbarth talu—pedwar rhanbarth talu. Rwy'n cofio'r NFU yn ymosod arnaf flwyddyn yn ôl wedi i ni gyflwyno tri yn unig. Pe baem wedi cyflwyno pedwar, gallwch warantu y byddai adolygiad barnwrol wedi cael ei gynnal ymhell cyn yr un a welsom cyn y Nadolig. Pe baem wedi cyflwyno pedwar, byddem wedi gweld mwy a mwy o fiwrocratiaeth a mwy o faich gweinyddol. Fe gyflwynon ni dri am fod hynny'n cyfyngu ar yr aflonyddwch. Fe ddes i'r Siambr hon a dweud yn glir iawn fod yna 93 o fusnesau fferm yng Nghymru, o'r 18,000 o hawlwyr—18,000 o hawlwyr—sy'n cael eu heffeithio'n wael gan hyn. O'r rheini, roedd llai nag 20 yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan y newidiadau. Mae pob un o'r ffermydd hynny yn digwydd bod yng Nghwm Elan—

*Antoinette Sandbach a gododd—*

*Antoinette Sandbach rose—*

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

I'm not going to give way.

Nid wyf yn mynd i ildio.

18:01

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No more interventions. We haven't got time.

Dim mwy o ymyriadau. Nid oes gennym amser.

18:01 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—and in Cwmystwyth, for some geographical reason I never really understood. The reality is that, for 18,000 farmers, this reform would've guaranteed their future and would not have had the impact on their businesses. The reality is now that many thousands of farmers, whatever the Minister does, are going to see a reduction in payments, and many hundreds of farm businesses do not have the certainty that they would've had previously, and that is not a good result for Welsh agriculture. When I look at the situation we're in today, I fear that we're not able now to deliver on our first objective, which was to minimise disruption to farming businesses. So, we should prioritise our second objective, which was to minimise the administrative burden. What I would say to you, Minister, is that this is now the time to introduce a single payment region for the whole of Wales—a single payment for every farm wherever they happen to be in Wales—and to focus on pillar 2, which, as we go back to what Dafydd Elis-Thomas and Rhodri Glyn Thomas said—

[Yn parhau.]—ac yng Nghwmystwyth, am ryw reswm daearyddol na ddeallais yn iawn. I 18,000 o ffermwyr, y gwir amdani yw y byddai'r diwygio wedi gwarantu eu dyfodol ac ni fyddai wedi cael effaith ar eu busnesau. Y realiti yn awr yw bod miloedd lawer o ffermwyr, beth bynnag y mae'r Gweinidog yn ei wneud, yn mynd i weld lleihad yn eu taliadau, ac mae llawer o gannoedd o fusnesau fferm heb y sicrwydd y byddent wedi'i gael yn flaenorol, ac nid yw hynny'n ganlyniad da i amaethyddiaeth yng Nghymru. Pan fyddaf yn edrych ar y sefyllfa rydym ynddi heddiw, mae arnaf ofn na allwn gyflawni ein hamcan cyntaf yn awr, sef lleihau aflonyddwch i fusnesau fferm. Felly, dylem flaenoriaethu ein hail amcan, sef lleihau'r baich gweinyddol. Yr hyn y byddwn yn ei ddweud wrthych, Weinidog, yw mai yn awr yw'r amser i gyflwyno un rhanbarth talu ar gyfer Cymru gyfan—taliad sengl ar gyfer pob fferm lle bynnag y mae'n digwydd bod yng Nghymru—ac i ganolbwyntio ar golofn 2, a fydd, os awn yn ôl at yr hyn y dywedodd Dafydd Elis-Thomas a Rhodri Glyn Thomas—

18:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Time's up.

Amser ar ben.

18:02 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—will actually secure the future of Welsh agriculture.

[Yn parhau.] —yn sicrhau dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru mewn gwirionedd.

18:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And very briefly, and finally, Antoinette Sandbach.

Ac yn fyr iawn, i gloi, Antoinette Sandbach.

18:02 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I do agree that we need to give the adjudicator more teeth, because it is absolutely clear that there is a loophole that the dairy contracts—. The contracts with the processors have created a loophole, and we need more teeth. But I do say indirectly to Alun Davies, but to the Deputy Minister, that, if that was the position, as he sought to argue it in this Chamber today, why was it then that Welsh Government were not prepared to go into the doors of the court and defend their position? And the reality is that they did not defend their position. It wasn't even a case of them losing in terms of the basic payment. It was a case of Welsh Government capitulating. So, clearly, there was either a major flaw in the legal advice that had been received up until that point or they realised—. That can be the only explanation. That can be the only explanation. The reality is that we know that there have been months of work on a computer payments system—a whole IT system put into place to deal with these new payments. All of that: gone. Farmers who are trying to do their business planning, because tenancies have been negotiated, bank loans have been negotiated, all on the basis of the payment rate that had been announced—gone out of the window. They are going into a financial year not knowing where they stand. Even worse, the livestock sector, which has suffered significantly from price volatility over the last 12 months and has not been in the position that the dairy sector has been in in terms of increasing profits, is going to be in the middle of lambing during the consultation that is going to be announced in March. They are going to be up to their eyeballs in their lambing sheds and will not be able to get to the NFU meetings or elsewhere. They are not going to be able to respond.

That is the concern, Minister, around the contingency planning, about the failure to listen in September when this judicial review was first launched. So, either there was a very, very serious flaw in your legal advice—. But it is farmers who are going to pay the price for that. And that is that, you know, it affects their finance, it affects their business, and, I'm sorry, I don't care how strong your RDP is, those investment decisions are better made by farmers on their farm, and I think you should seriously look at your modulation rate in the light of the chaos that this basic payment scheme is causing. You should relook at the 15% modulation and see if you should have a graduated scheme instead, because of the impact this complete farce will have on a major Welsh industry. Thank you, Presiding Officer.

Wel, rwy'n cytuno bod angen inni roi mwy o ddannedd i'r dyfarnwr, gan ei bod yn gwbl glir bod yna fwlch yn y contractau llaeth—. Mae'r contractau gyda'r proseswyr wedi creu bwlch, ac mae angen mwy o ddannedd. Ond rwy'n dweud yn anuniongyrchol wrth Alun Davies, ond wrth y Dirprwy Weinidog, os mai dyna oedd y safbwynt, fel y ceisiodd ei ddadlau yn y Siambr hon heddiw, pam felly nad oedd Llywodraeth Cymru yn barod i fynd at ddrysau'r llys ac amddiffyn eu safbwynt? A'r realiti yw na wnaethon nhw amddiffyn eu safbwynt. Nid oedd hyd yn oed yn fater ohonynt yn colli o ran y taliad sylfaenol. Roedd yn fater o Lywodraeth Cymru yn ildio. Felly, mae'n amlwg naill ai fod nam mawr yn y cyngor cyfreithiol a gafwyd hyd at y pwynt hwnnw neu eu bod wedi sylweddoli—. Dyna'r unig eglurhad a allai fod. Dyna'r unig eglurhad. Y gwir amdani yw ein bod yn gwybod bod misoedd o waith wedi ei wneud ar system daliadau gyfrifiadurol—system TG gyfan a roddwyd ar waith i ddelio â'r taliadau newydd hyn. Y cyfan ohono: wedi mynd. Ffermwyr sy'n ceisio gwneud eu gwaith cynllunio busnes, am fod tenantiaethau wedi cael eu trafod, benthyciadau banc wedi eu trafod, i gyd ar sail y gyfradd dalu a gyhoeddwyd—wedi mynd i'r gwellt. Maent yn mynd i mewn i flwyddyn ariannol heb wybod lle y maent arni. Hyd yn oed yn waeth, mae'r sector da byw, sydd wedi dioddef yn sylweddol oherwydd ansefydlogrwydd prisiau yn ystod y 12 mis diwethaf ac sydd heb fod yn y sefyllfa y bu'r sector llaeth ynddi o ran elw cynyddol, yn mynd i fod yng nghanol y tymor wyna yn ystod yr ymgynghoriad sy'n mynd i gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth. Maent yn mynd i fod hyd at eu clustiau yn eu siediau wyna ac ni fyddant yn gallu mynd i'r cyfarfodydd NFU nac i unman arall. Nid ydynt yn mynd i allu ymateb.

Dyna'r pryder, Weinidog, o ran y cynllunio wrth gefn, am y methiant i wrando ym mis Medi pan lansiwyd yr adolygiad barnwrol gyntaf. Felly, naill ai bod nam difrifol iawn iawn yn eich cyngor cyfreithiol—. Ond ffermwyr sy'n mynd i dalu'r pris am hynny. A dyna ni, wyddoch chi, mae'n effeithio ar eu cyllid, mae'n effeithio ar eu busnes, ac mae'n ddrwg gennyf, nid wyf yn poeni pa mor gryf yw eich Cynllun Datblygu Gwledig, byddai'n well i'r penderfyniadau buddsoddi hynny gael eu gwneud gan ffermwyr ar eu ffermydd, ac rwy'n meddwl y dylech edrych o ddifrif ar eich cyfradd fodiwleiddio yng ngoleuni'r anhrefn y mae'r cynllun taliadau sylfaenol yn ei achosi. Dylech ailedrych ar y modiwleiddiad 15% a gweld a ddylai fod gennych gynllun graddedig yn lle hynny, oherwydd yr effaith y bydd y ffars lwyr hon yn ei chael ar ddiwydiant pwysig yng Nghymru. Diolch i chi, Lywydd.

18:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister for Farming and Food, Rebecca Evans, to speak on behalf of the Government.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, Rebecca Evans, i siarad ar ran y Llywodraeth.

18:06 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Thank you, and I'd like to thank Plaid Cymru for tabling this motion today, because it provides me with a timely opportunity to remind Members of the breadth of work this Government is doing to take forward, support, and further strengthen the agricultural industry in Wales.

Diolch i chi, a hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r cynnig hwn heddiw, oherwydd mae'n rhoi cyfle amserol imi atgoffa'r Aelodau am ehangder y gwaith mae'r Llywodraeth hon yn ei wneud ar wella'r gwaith o ddatblygu, cefnogi a chryfhau'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru.

As I explained in my recent written statement, we hope to receive informal approval for our new RDP in the coming weeks, and it will be the largest and most ambitious in our history, and it'll support vibrant and successful rural businesses and communities, and a thriving natural environment. The RDP has been designed with growth and competitiveness as the defining principles, but with interventions that, in turn, impact positively on sustainability and social inclusion. This includes, for example, our support for newcomers to the industry, where the current young entrants support scheme has been a real success. We now need to take it to the next level through the RDP, and focus on entry into and exit from the industry will be critical to its success. I've therefore published an action plan to address the recommendations in Malcolm Thomas's independent review, 'The Next Generation into Farming'. Evidence suggests that mobility is a key driver in building an innovative, market-focused and profitable farming industry. That's why, of all of Malcolm Thomas's recommendations, arguably the joint opportunities platform will be viewed as the most important of all. That's why I've asked my officials to pursue implementation of that as speedily as possible.

Fel yr esboniais yn fy natganiad ysgrifenedig yn ddiweddar, rydym yn gobeithio cael cymeradwyaeth anffurfiol i'n Cynllun Datblygu Gwledig newydd yn yr wythnosau nesaf, a hwn fydd y cynllun mwyaf a'r mwyaf uchelgeisiol yn ein hanes. Bydd yn cefnogi busnesau a chymunedau gwledig bywiog a llwyddiannus, ac amgylchedd naturiol ffyniannus. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi ei gynllunio gyda thwf a chystadleurwydd yn egwyddorion sy'n ei ddiffinio, ond gydag ymyriadau sydd, yn eu tro, yn effeithio'n gadarnhaol ar gynaliadwyedd a chynhwysiant cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, ein cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant, lle y mae'r cynllun cefnogi newydd-ddyfodiaid ar hyn o bryd wedi bod yn llwyddiant go iawn. Mae angen i ni fynd ag ef i'r lefel nesaf yn awr drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig, a bydd canolbwyntio ar fynd i mewn i'r diwydiant, a gadael y diwydiant, yn hanfodol i'w lwyddiant. Felly, cyhoeddais gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn adolygiad annibynnol Malcolm Thomas, 'Denu Cenhedlaeth Newydd o Ffermwyr'. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod symudedd yn ysgogydd allweddol o ran adeiladu diwydiant ffermio arloesol sy'n broffidiol ac yn canolbwyntio ar y farchnad. Dyna pam, o holl argymhellion Malcolm Thomas, y gellid dadlau y bydd y platfform cyfleoedd ar y cyd yn cael ei ystyried fel y pwysicaf oll. Dyna pam rwyf wedi gofyn i fy swyddogion anelu i weithredu hynny cyn gynted ag y bo modd.

The Country Land and Business Association, the Farmers Union of Wales and National Farmers Union Cymru have all carried out work in this area recently, and they've looked at different models of joint ventures. I've been fortunate enough to visit some of these excellent examples myself, to see just how young people can enter the industry without the huge capital outlay associated with purchasing land. Continued partnership with the industry is key. The continued success of the Agri Academy initiative is another excellent example of collaborative working. It's inspired the next generation of rural leaders and entrepreneurs, providing young people with the information and knowledge to help them develop successful and profitable businesses for the future.

Mae Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru i gyd wedi gwneud gwaith yn y maes hwn yn ddiweddar, ac maent wedi edrych ar wahanol fodelau o fentrau ar y cyd. Rwyf i wedi bod yn ddigon ffodus i weld rhai o'r enghreifftiau ardderchog hyn fy hun, er mwyn gweld yn union sut y gall pobl ifanc fynd i mewn i'r diwydiant heb y gwariant cyfalaf enfawr sy'n gysylltiedig â phrynu tir. Mae parhau'r bartneriaeth â'r diwydiant yn allweddol. Mae llwyddiant parhaus y fenter Academi Amaeth yn enghraifft wych arall o gydweithio. Mae wedi ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr ac entrepreneuriaid gwledig, gan roi'r wybodaeth i bobl ifanc i'w helpu i ddatblygu busnesau llwyddiannus a phroffidiol ar gyfer y dyfodol.

The Deputy Minister for Skills and Technology and I will soon be responding to Professor Wyn Jones's report on the provision of learning delivered in further education colleges, and the relevance of that to farm businesses. Alongside this, we're already implementing 'Towards Sustainable Growth', our action plan for the food and drink industry 2014 to 2020. Our vision is one of green growth, where businesses are the custodians of our natural resources, and these businesses are both environmentally and socially responsible. We must produce food that is safe and that secures improvements in the health and vitality of the people of Wales.

Yn fuan, bydd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg a minnau'n ymateb i adroddiad yr Athro Wyn Jones ar y ddarpariaeth addysg mewn colegau addysg bellach, a pherthnasedd hynny i fusnesau fferm. Ochr yn ochr â hyn, rydym eisoes yn gweithredu 'Tuag at Dwf Cynaliadwy', ein cynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant bwyd a diod rhwng 2014 a 2020. Mae ein gweledigaeth yn un o dwf gwyrdd, lle y mae busnesau yn gwarchod ein hadnoddau naturiol, ac mae'r busnesau hyn yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol gyfrifol. Mae'n rhaid i ni gynhyrchu bwyd sy'n ddiogel ac sy'n sicrhau gwelliannau o ran iechyd a bywiogrwydd pobl Cymru.

Internationally, Wales is now outperforming the UK on food exports: up 10.7%, compared to 0.8% for the UK. Our ambition to grow sales in the food and drink sector by 30% to £7 billion by 2020 is ambitious, but, I believe, achievable. Securing food supplies for our nation will have to be done in the face of changing patterns of consumption, the impact of climate change, fluctuation in fuel prices and currency rates, because food is increasingly traded in global commodity markets, as we've already heard. Wales is well-suited to provide an increasing variety of food products, which can reduce UK dependence on imports. A balance must be found between feeding our own population alongside our export ambitions, or within environmental limits.

Yn rhyngwladol, mae Cymru yn awr yn gwneud yn well na gweddill y DU o ran allforion bwyd: 10.7% i fyny, o'i gymharu â 0.8% ar gyfer y DU. Mae ein huchelgais i weld cynnydd o 30% i £7 biliwn yn y sector bwyd a diod erbyn 2020 yn uchelgeisiol, ond rwy'n credu ei fod yn gyraeddadwy. Bydd yn rhaid diogelu'r cyflenwad bwyd ar gyfer ein cenedl yn wyneb patrymau defnydd sy'n newid, effaith newid yn yr hinsawdd, amrywiadau ym mhrisiau tanwydd a chyfraddau arian, am fod bwyd yn cael ei fasnachu'n gynyddol mewn marchnadoedd nwyddau byd-eang, fel rydym wedi clywed eisoes. Mae Cymru mewn sefyllfa dda i ddarparu amrywiaeth gynyddol o gynhyrchion bwyd, a allai leihau dibyniaeth y DU ar fewnforion. Rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng bwydo ein poblogaeth ein hunain ochr yn ochr â'n huchelgeisiau allforio, neu o fewn terfynau amgylcheddol.

I am, of course, all too aware of the problems facing the dairy sector, including the significant downward pressure on milk prices paid to dairy farmers over recent months and the First Milk payment delays. Members know that I met with the chairman of First Milk, Sir Jim Paice, last Thursday, to better understand how the cooperative had found itself in this position, and to satisfy myself that the suite of actions taken by First Milk will be enough to put them on a sound footing. Sir Jim assured me that he'd spoken to the banks in the light of their decision and had found them to be sympathetic to farmers' situations.

Wrth gwrs, rwy'n ymwybodol iawn o'r problemau sy'n wynebu'r sector llaeth, gan gynnwys y gwasgu sylweddol ar brisiau llaeth a dalwyd i ffermwyr dros y misoedd diwethaf a'r oedi yn nhaliadau First Milk. Bydd yr Aelodau yn gwybod fy mod wedi cyfarfod â chadeirydd First Milk, Syr Jim Paice, ddydd Iau diwethaf, er mwyn deall yn well sut y mae'r cwmni cydweithredol wedi cyrraedd y sefyllfa hon, ac i fodloni fy hun y bydd y gyfres o gamau a roddwyd ar waith gan First Milk yn ddigon i'w rhoi ar sail gadarn. Cefais sicrwydd gan Syr Jim ei fod wedi siarad â'r banciau yn sgil eu penderfyniad ac wedi gweld eu bod yn cydymdeimlo â sefyllfa'r ffermwyr.

Farming Connect, our support and advice service for Welsh farmers, is working closely with DairyCo in Wales to provide a complementary package of support to our dairy farmers during this critical period. However, price cuts have now created a situation on many dairy farms where the cost of production is greater than the price obtained for the product, and this can only partially be addressed through further reducing costs of production on-farm. Rhodri Glyn Thomas can be assured that this Government has been, and continues to be, fully committed to the long-term success of the Welsh dairy industry and there are a number of ways in which we are pursuing this.

Mae Cyswllt Ffermio, ein gwasanaeth cymorth a chyngor i ffermwyr Cymru, yn gweithio'n agos gyda DairyCo yng Nghymru i ddarparu pecyn cymorth atodol i'n ffermwyr llaeth yn ystod y cyfnod allweddol hwn. Fodd bynnag, mae toriadau yn y prisiau bellach wedi creu sefyllfa ar lawer o ffermydd llaeth lle y mae'r gost o gynhyrchu yn fwy na'r pris a gafwyd am y cynnyrch, a dim ond yn rhannol y gellir mynd i'r afael â hyn drwy leihau costau cynhyrchu ar y fferm ymhellach. Gall Rhodri Glyn Thomas fod yn sicr fod y Llywodraeth hon wedi bod, ac yn parhau i fod, yn gwbl ymrwymedig i lwyddiant hirdymor y diwydiant llaeth yng Nghymru ac rydym yn mynd ar drywydd hyn mewn nifer o ffyrdd.

In 2012, the Welsh Government established a dairy taskforce for Wales in response to the plan for milk recommendations. The taskforce continues to advise me on all matters relating to dairy. I've announced a review of the dairy sector in Wales, which is being led by Andy Richardson, and it will provide a strategic direction for the sector and, most importantly, its associated supply chain. The review is timely as the industry is entering another period of considerable change, with milk supply and the demand for dairy products rebalancing. The review is part of the Government's commitment to review progress on the plan for milk and the operation of the voluntary code in Wales. I can reassure Llyr Huws Gruffydd as well that I found the select committee's report a helpful addition to the debate. I've studied it, looked at the recommendations, and there's nothing in that report that I would take issue with. I responded to a question from your colleague Simon Thomas this morning, when I informed him that I'd be meeting with Liz Truss on Monday, so I'd certainly take forward these issues with her then. And that includes obviously the support for strengthening the role of the groceries code adjudicator to give it the teeth it needs to support our dairy industry in Wales.

Yn 2012, sefydlodd Llywodraeth Cymru dasglu llaeth ar gyfer Cymru mewn ymateb i'r cynllun ar gyfer argymhellion llaeth. Mae'r tasglu yn parhau i roi cyngor i mi ar yr holl faterion sy'n ymwneud â llaeth. Rwyf wedi cyhoeddi adolygiad o'r sector llaeth yng Nghymru, dan arweiniad Andy Richardson, a bydd yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer y sector ac yn bwysicaf oll, ei gadwyn gyflenwi gysylltiedig. Mae'r adolygiad yn amserol gan fod y diwydiant ar drothwy cyfnod arall o newid sylweddol, gydag ail-gydbwyso'r cyflenwad llaeth a'r galw am gynnyrch llaeth. Mae'r adolygiad yn rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i adolygu cynnydd ar y cynllun ar gyfer llaeth a gweithrediad y cod gwirfoddol yng Nghymru. Gallaf roi sicrwydd i Llyr Huws Gruffydd yn ogystal fy mod yn ystyried adroddiad y pwyllgor dethol yn ychwanegiad defnyddiol i'r ddadl. Rwyf wedi ei astudio, wedi edrych ar yr argymhellion, ac nid oes dim yn yr adroddiad y byddwn yn anghytuno ag ef. Ymatebais i gwestiwn gan eich cydweithiwr Simon Thomas y bore yma, pan ddywedais wrtho y byddwn yn cyfarfod â Liz Truss ddydd Llun, felly byddwn yn sicr yn bwrw ymlaen â'r materion hyn gyda hi bryd hynny. Ac mae hynny'n cynnwys y gefnogaeth i gryfhau rôl y dyfarnwr cod cyflenwi bwydydd i roi'r grym sydd ei angen ar y rôl i gefnogi ein diwydiant llaeth yng Nghymru.

Elsewhere, as I explained earlier, work has already begun on the alternative options for the basic payment scheme. I have to say that the EC was happy with our proposals from the start. The CAP data modelling group has already met, and will meet again, to be followed by a discussion at the CAP high-level group and the Wales biodiversity partnership steering group. The implications for making basic payment scheme payments in 2015 will be clearer after the modelling work is completed on the new options and they will be presented for consultation. As always, we aim to pay farmers as early in the payment window as possible, traditionally on 1 December, but how quickly we can do that will depend on which of the options I decide to take forward.

Mewn mannau eraill, fel yr eglurais yn gynharach, mae gwaith wedi dechrau eisoes ar yr opsiynau amgen ar gyfer cynllun y taliad sylfaenol. Mae'n rhaid imi ddweud bod y CE yn fodlon ar ein cynigion o'r cychwyn. Mae grŵp modelu'r data PAC eisoes wedi cyfarfod, a bydd yn cyfarfod eto, i'w ddilyn gan drafodaeth yn y grŵp PAC lefel uchel a grŵp llywio partneriaeth bioamrywiaeth Cymru. Bydd y goblygiadau ar gyfer gwneud taliadau'r cynllun taliadau sylfaenol yn 2015 yn gliriach ar ôl cwblhau'r gwaith modelu ar yr opsiynau newydd a byddant yn cael eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad. Fel bob amser, rydym yn anelu at dalu ffermwyr cyn gynted ag y bo modd yn y cyfnod talu, yn draddodiadol ar 1 Rhagfyr, ond bydd pa mor gyflym y gallwn ei wneud yn dibynnu ar ba un o'r opsiynau y byddaf yn penderfynu ei ddatblygu.

Stakeholders agree that, as far as possible, the twin guiding principles of minimising disruption through the move to area-based payments, and recognising the character of land through those payment rates, should continue to inform the development of the new BPS arrangements. And I believe that we're all united in wanting to take forward a pragmatic approach, working towards the best possible outcome for the Welsh farming industry as a whole.

Mae rhanddeiliaid yn cytuno y dylai'r ddwy egwyddor arweiniol o leihau aflonyddwch drwy symud at daliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd, a chydnabod cymeriad tir drwy'r cyfraddau talu hynny barhau i lywio datblygiad trefniadau cynllun y taliad sylfaenol newydd cyn belled ag y bo modd. Ac rwy'n credu ein bod oll yn gytûn yn ein hawydd i symud ymlaen mewn modd pragmataidd, gan weithio tuag at y canlyniad gorau posibl ar gyfer y diwydiant ffermio yng Nghymru yn ei gyfanrwydd.

On GM crops, the European Parliament vote last week will provide Wales with the necessary tools to maintain our precautionary and restrictive approach towards GM crops by allowing us to control their future cultivation in Wales. This change in the law will allow the Welsh Government to demand that a GM applicant limits the geographical scope of an EU GM crop authorisation to exclude Wales. Should this demand not be granted, then we can adopt further measures restricting or prohibiting the GM crop cultivation. These further measures may include such things as environment or agriculture policy, socioeconomic impact, public policy or the avoidance of GM contamination in other products. We have campaigned for several years to have socioeconomic issues included as important factors in the consideration of GM crop approvals; I am pleased now that these are finally recognised.

Ar gnydau GM, bydd pleidlais Senedd Ewrop yr wythnos diwethaf yn rhoi'r adnoddau angenrheidiol i Gymru allu cynnal ein hymagwedd ragofalus a chyfyngol tuag at gnydau GM drwy ganiatáu i ni reoli'r broses o'u tyfu yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd y newid yn y gyfraith yn caniatáu i Lywodraeth Cymru alw ar ymgeisydd GM i gyfyngu ar gwmpas daearyddol cnwd GM a awdurdodwyd gan yr UE i eithrio Cymru. Os na chydymffurfir â'r alwad, yna gallwn fabwysiadu mesurau pellach yn cyfyngu ar dyfu cnydau GM neu'n eu gwahardd. Gall y mesurau pellach gynnwys pethau fel polisi'r amgylchedd neu amaethyddiaeth, effaith economaidd-gymdeithasol, polisi cyhoeddus neu osgoi halogiad GM mewn cynnyrch arall. Rydym wedi ymgyrchu ers nifer o flynyddoedd i gael materion economaidd-gymdeithasol wedi'u cynnwys yn ffactorau pwysig wrth ystyried cymeradwyaeth i gnydau GM; rwy'n falch yn awr fod y rhain yn cael eu cydnabod o'r diwedd.

In the coming weeks, my officials will be working with the other UK administrations to establish the details of this proposal and how it will be administered in the UK and the EU. One important aspect will be establishing cross-border arrangements with England to ensure that Welsh farmers are protected from any possible contamination should GM crops be grown across the border. So, in summing up, Presiding Officer, I'm supporting today's motion because, while agriculture in Wales continues to face a number of challenges, the industry is ready and able to face them with the full support of this Government. By working together, strengthening our plans and building long-term resilience, we are supporting an industry that is ready to take on these challenges and is open to embrace the future and the opportunities it will bring.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, bydd fy swyddogion yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sefydlu manylion y cynnig hwn a sut y caiff ei weinyddu yn y DU a'r UE. Un agwedd bwysig fydd sefydlu trefniadau trawsffiniol â Lloegr i sicrhau bod ffermwyr Cymru yn cael eu diogelu rhag unrhyw halogiad posibl os caiff cnydau GM eu tyfu ar yr ochr arall i'r ffin. Felly, Lywydd, i grynhoi, rwy'n cefnogi'r cynnig heddiw, oherwydd er bod amaethyddiaeth yng Nghymru yn parhau i wynebu nifer o heriau, mae'r diwydiant yn barod ac yn abl i'w hwynebu gyda chefnogaeth lawn y Llywodraeth hon. Drwy weithio gyda'n gilydd, cryfhau ein cynlluniau ac adeiladu cydnerthedd hirdymor, rydym yn cefnogi diwydiant sy'n barod i wynebu'r heriau hyn ac sy'n agored i groesawu'r dyfodol a'r cyfleoedd a ddaw yn ei sgil.

18:14

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Llyr Huws Gruffydd to reply to the debate.

Llyr Huws Gruffydd i ymateb i'r ddadl.

18:14

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

A gaf i ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r ddadl adeiladol iawn y prynhawn yma, er gwaethaf efallai beth mae rhai pobl yn ei feddwl am ddadleuon o'r fath? Yn sicr, mae e'n gyfle i ni wyntyllu rhai o'r materion sydd wedi bod yn faterion sy'n pwyso'n drwm ar feddyliau ein hetholwyr ni, ac, yn sicr, mae hynny'n rhan bwysig o'r rôl rydym yn ei chwarae fel Aelodau.

May I thank everyone who's contributed to this very constructive debate this afternoon, despite what some people may say about such debates? Certainly, it is an opportunity to air some of those issues that have been of great concern to our constituents and, certainly, that's an important part of the role that we, as Members, play.

A gaf i ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei hymateb i'r ddadl? Mae'n galonogol eich bod chi am godi mater y 'groceries code adjudicator'. Mae hynna'n sicr i'w groesawu, oherwydd mae'n rhywbeth y mae Plaid Cymru wedi bod yn dadlau amdano ers dros ddwy flynedd. Rŷch chi hefyd wedi cadarnhau y byddwch chi yn cydnabod cymeriad, neu 'character of the land', rwy'n credu y dywedoch chi, pan fydd hi'n dod i edrych ar fodel newydd o ddaliadau. Rwy'n cymryd bod hynny'n awgrymu na fyddwch chi'n cymryd cyngor y cyn-Weinidog i greu un rhanbarth ar gyfer taliadau yng Nghymru.

May I thank the Deputy Minister for her response to the debate? It's encouraging that you do want to raise the issue of the groceries code adjudicator. That's certainly something we welcome, because it's something that Plaid Cymru has been arguing for for more than two years. You've also confirmed that you will recognise the character of the land—I think those were your words—when it comes to looking at a new model of payments. I assume that that means that you won't be taking the advice of the former Minister to create one region for payments in Wales.

Ond, mi oedd Alun Davies yn iawn, efallai, yn ein hatgoffa ni ein bod ni nawr yn wynebu marchnad llawer mwy anwadal, mwy 'volatile', nag, efallai, rŷm ni wedi arfer ag ef yn y sector laeth yma yng Nghymru. Oherwydd natur fewnol y farchnad, efallai, ym Mhrydain, rŷm ni wedi cael ein hamddiffyn rhag hynny, i raddau, ac mae yna angen i allu dygymod â'r croeswyntoedd ehangach hynny yn well, o safbwynt y sector. Ond, nid yw hynny, wrth gwrs, yn gwneud y storom y mae hi yn ei chanol ar hyn o bryd yn ddim haws delio â hi, o safbwynt goroesi'r problemau llif arian ac yn y blaen.

But, Alun Davies was, perhaps, right in reminding us that we are now facing a market that is far more volatile than, perhaps, has been the case in the past in the dairy sector here in Wales. Because of the internal nature of the market, perhaps, within Britain, we have been protected from that, to a certain extent, and there is a need to be able to cope with the crosswinds that are affecting us now, in relation to the sector. But, of course, that doesn't make the storm currently being experienced any easier to deal with, in terms of surviving these cash flow problems and so on.

Rwyf am ddiolch i Dafydd Elis-Thomas am ein hatgoffa ni, wrth gwrs, fod y dirwedd a'r tywydd gorau gennym ni yn y fan hyn ar gyfer diwydiant llaeth cynaliadwy, a mewnbynnau isel, ac mae hynny yn gynsail cryf iawn inni barhau i adeiladu sector llwyddiannus arno.

I want to thank Dafydd Elis-Thomas for reminding us, of course, that the landscape and the weather that we have here are the finest possible for a sustainable dairy industry, and low inputs, and that is a very strong foundation on which we can continue to build a successful sector.

O safbwynt y gwelliannau sydd wedi'u gosod, mi fyddwn ni yn cefnogi y tri gwelliant. Yn sicr, o safbwynt diogelwch bwyd, mater o ddyddiau sydd gennym o safbwynt diogelwch bwyd yn y wlad yma ar hyn o bryd, o gymharu, wrth gwrs, ag wythnosau, os nad llawer hirach, y pellach rŷch chi'n mynd yn ôl. Mae angen, rwy'n meddwl, ryw fath o chwyldro bwyd yn y wlad yma erbyn hyn, lle'r ydym yn ailgysylltu pobl â'u ffynhonnell fwyd, a gwneud llawer mwy i annog pobl i dyfu eu bwyd eu hunain ac i gymryd cyfrifoldeb am y bwyd y maen nhw'n ei fwyta.

From the point of view of the amendments tabled, we will be supporting the three amendments. Certainly, from the point of view of food security, it's a matter of days that we have in terms of food security in this country at present, compared with, of course, weeks, if not a lot longer the further back you go. I do think we need some kind of food revolution in this country, where we do reconnect people with the source of their food, and we need to do far more to encourage people to grow their own food and to take responsibility for the food that they consume.

O safbwynt yr ail welliant, wrth gwrs, mae olyniaeth yn bwnc pwysig, ac o ran cynllunio olyniaeth, mae gennym ni wersi i'w dysgu o'r Iwerddon, yn hynny o beth, lle mae yna hwyluswyr yn mynd i ymweld â ffermydd i drafod materion olyniaeth, sydd, wrth gwrs, yn gallu bod yn bwnc sensitif ac anodd iawn i'w drafod ymhlith teuluoedd fferm, yn aml iawn. Mi allem ni wneud tipyn i efelychu hynny, rwy'n siŵr, yn ogystal, wrth gwrs, ag edrych ar sefyllfaoedd treth ac yn y blaen, sydd yn gallu bod yn rhwystrau ymarferol iawn hefyd mewn sawl cyd-destun.

From the point of view of the second amendment, of course, succession is an important issue, and in terms of succession planning, we have lessons to learn from Ireland, in that regard, where facilitators visit farms to discuss issues of succession, which can, of course, be a very sensitive and difficult issue to discuss among farming families, very often. There's a great deal we can learn from Ireland in that regard, as well as looking at the positions in terms of taxation and so on, which can be practical barriers in many contexts.

O safbwynt y trydydd gwelliant, wel, mi fyddem ni'n disgwyl dim llai, wrth gwrs, nag ymgysylltiad digonol, ac ystyrlon hefyd, wrth gwrs, fel rhan o unrhyw broses o edrych ar fodelau talu newydd. Ond, mae'r pwynt a wnaethpwyd ynglŷn â gwneud hynny yn ystod cyfnod ŵyna, rwy'n meddwl, yn un dilys iawn, ac nid yw'n adlewyrchu'n dda iawn ar y Llywodraeth ei bod hi'n ffeindio'i hunan yn y fath sefyllfa.

In terms of the third amendment, well, we would expect no less, of course, than full and adequate engagement as part of any process of looking at new payment systems. But, the point made on doing that during the lambing period is a very valid one indeed, I think, and it doesn't reflect well on the Government that it finds itself in such a situation.

Felly, a gaf i ddiolch i chi i gyd am eich cyfraniadau? Rwy'n croesawu'r awgrym y bydd yr Aelodau yn cefnogi y cynnig yma heddiw, ac rwy'n gobeithio, wrth edrych ymlaen at weld cyhoeddi adolygiad o'r sector llaeth, y gallwn ni hefyd weld, ochr yn ochr â hynny, gyhoeddi cynllun gweithredu, a fydd yn cael ei gefnogi ag adnoddau hefyd. Diolch yn fawr.

So, may I thank you all for your contributions? I welcome the suggestion that Members will support this motion this afternoon, and I do hope, in looking forward to seeing the publication of the review of the dairy sector, that we will also see, along with that, the publication of an action plan, which will be supported by resources also. Thank you.

18:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does anyone object? [Objection.]. Object. I move this to voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

18:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It was agreed that voting would take place at the end of business, but before the short debate. So, I intend to move straight into the votes. Does anyone object to that? No. Fine.

Cytunwyd y byddai pleidleisio yn digwydd ar ddiwedd y busnes, ond cyn y ddadl fer. Felly, rwy'n bwriadu symud yn syth at y pleidleisio. A oes unrhyw un wrthwynebu i hynny? Nac oes. Iawn.

18:18

## 6. Cyfnod Pleidleisio

## 6. Voting Time

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The first set of votes, then, is the debate by individual Members under Standing Order 11.21. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Mark Isherwood. Open the vote. Close the vote. In favour 29, 21 abstentions, none against. Therefore, the motion is carried.

Y gyfres gyntaf o bleidleisiau, felly, yw'r ddadl gan Aelod unigol o dan Reol Sefydlog 11.21. Galwaf am bleidlais ar y cynnig, a gyflwynwyd yn enw Mark Isherwood. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid 29, 21 yn ymatal, nid oes neb yn erbyn. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 29, Yn erbyn 0, Ymatal 21.*

*Motion agreed: For 29, Against 0, Abstain 21.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NNDM5639.

Result of the vote on motion NNDM5639.

18:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to vote on the Plaid Cymru debate on the farming industry. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Elin Jones. Now, if the proposal is not agreed, we'll vote on the amendments to the motion. So, open the vote. Close the vote. In favour, 33, no abstentions, 17 against. Therefore, the motion is carried.

Symudwn ymlaen yn awr i bleidleisio ar ddadl Plaid Cymru ar y diwydiant ffermio. Galwaf am bleidlais ar y cynnig, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Yn awr, os nad yw'r cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau i'r cynnig. Felly, agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. O blaid, 33, neb yn ymatal, 17 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 33, Yn erbyn 17, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 33, Against 17, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5671.

Result of the vote on motion NDM5671.

18:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. We now move on to the short debate.

*Daeth Angela Burns i'r Gadair am 18:20.*

*Angela Burns took the Chair at 18:20.*

18:20 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I ask you to leave the Chamber with courtesy for the Members staying for the short debate?

A gaf fi ofyn i chi adael y Siambr gan ddangos cwrteisi tuag at yr Aelodau sy'n aros ar gyfer y ddadl fer?

18:20

## 7. Dadl Fer: Dangos y Faner Goch i Gylchffordd Cymru—Amlinellu'r Pryderon am Brosiect Cylchffordd Cymru

## 7. Short Debate: Giving the Circuit of Wales the Red Flag—Outlining the Concerns around the Circuit of Wales Project

Senedd.tv Fideo Video

**Angela Burns** Bywgraffiad Biography

I'd like to call on Antoinette Sandbach to speak on the topic of her choice. Antoinette Sandbach.

Hoffwn alw ar Antoinette Sandbach i siarad ar y pwnc o'i dewis. Antoinette Sandbach.

18:20 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm grateful to have secured this short debate on giving the Circuit of Wales the red flag. I have chosen this subject in response to communication regarding the environmental impact of the track, the public funding that it has received and might receive in the future, and the apparent lack of transparency around the project. I have agreed to give Rhun ap Iorwerth and William Powell AM a minute of my time.

Rwy'n ddiolchgar am y ddadl fer hon ar roi'r faner goch i Cylchffordd Cymru. Rwyf wedi dewis y pwnc hwn mewn ymateb i ohebiaeth ynglŷn ag effaith amgylcheddol y trac, y cyllid cyhoeddus y mae wedi'i gael ac a allai ei gael yn y dyfodol, a'r diffyg tryloywder sydd i'w weld mewn perthynas â'r prosiect. Rwyf wedi cytuno i roi munud o fy amser i Rhun ap Iorwerth a William Powell AC.

I recognise in this debate the wonderful picture painted by William Graham AM previously in a debate on this subject, and I realise that the revitalisation of the south Wales valleys is important. I'm keen to see jobs created in Wales, but they must be sustainable, long-term and not have a detrimental effect on the environment.

Rwy'n cydnabod yn y ddadl hon y darlun gwych a beintiwyd gan William Graham AC mewn dadl ar y pwnc yn flaenorol, ac rwy'n sylweddoli bod adfywio cymoedd de Cymru yn bwysig. Rwy'n awyddus i weld swyddi'n cael eu creu yng Nghymru, ond mae'n rhaid iddynt fod yn gynaliadwy yn y tymor hir a pheidio ag effeithio'n niweidiol ar yr amgylchedd.

One of the main concerns is the loss of common land at the site and what the arrangements for replacements would be. The proposed site builds upon over 521 acres of moorland. The developers describe this land as poor-quality upland moor. This is a questionable analysis of this area, which consists of a mosaic of blanket bog, a variety of heathland and several varieties of grass pasture. It's not only the flora that will be destroyed by the land, but the site is also a site of importance for nature conservation and a key site for dragonflies. It helps preserve a broad, healthy range of wildlife and supports red grouse, three types of owl and a variety of other flora and fauna, whose habitats would be lost if the project goes ahead.

Un o'r prif bryderon yw colli tir comin ar y safle a beth fyddai'r trefniadau ar gyfer tir cyfnewid. Mae'r safle arfaethedig yn adeiladu ar fwy na 521 o erwau o rostir. Mae'r datblygwyr yn disgrifio'r tir fel rhostir mynyddig o ansawdd gwael. Mae'n ddadansoddiad amheus o'r ardal, sy'n cynnwys brithwaith o orgors, amrywiaeth o rostir a sawl amrywiaeth o laswellt pori. Nid yn unig y planhigion a fydd yn cael eu dinistrio gan y tir, ond mae'r safle hefyd yn safle pwysig ar gyfer cadwraeth natur ac yn safle allweddol ar gyfer gweision y neidr. Mae'n helpu i gynnal ystod eang ac iach o fywyd gwyllt ac yn cynnal y rugiar goch, tri math o dylluan ac amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid eraill y bydd eu cynefinoedd yn cael eu colli os yw'r prosiect yn mynd yn ei flaen.

This land will be freed up by deregistering the land as common land and re-designating common land elsewhere. A number of organisations have made representations objecting to this decision. The land that has been proposed as a replacement is of an entirely different nature, much more developed, with pre-existing pathways, and is woodland in the main, as opposed to the open wild moorland that it is replacing.

Bydd y tir yn cael ei ryddhau drwy ei ddadgofrestru fel tir comin ac ail-ddynodi tir comin mewn mannau eraill. Mae nifer o sefydliadau wedi cyflwyno sylwadau yn gwrthwynebu'r penderfyniad hwn. Mae'r tir sydd wedi ei gynnig fel tir cyfnewid o natur gwbl wahanol, yn llawer mwy datblygedig, gyda llwybrau sy'n bodoli eisoes, ac yn cynnwys coetir yn bennaf, yn hytrach na'r rhostir gwyllt agored y mae'n cymryd ei le.

One large piece of the common land is being replaced with seven sites. Six are owned by Blaenau Gwent council, and one, which is more than a third of the total exchange land, is leased by the Welsh Government through NRW and is part of Wentwood forest in Monmouthshire, which is more than 30 miles away from the site. All those sites already have public access and therefore no new public access is being created by this deregistration and these new proposals.

Bydd saith safle yn cymryd lle un darn mawr o dir comin. Mae chwech yn eiddo i gyngor Blaenau Gwent, ac mae un, sy'n fwy nag un rhan o dair o gyfanswm y tir cyfnewid, ar brydles gan Lywodraeth Cymru drwy Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n rhan o goedwig Coed Gwent yn Sir Fynwy, sy'n fwy na 30 milltir i ffwrdd o'r safle. Mae mynediad cyhoeddus i'r holl safleoedd hynny eisoes, felly nid oes mynediad cyhoeddus newydd yn cael ei greu yn sgil y dadgofrestru a'r cynigion newydd hyn.

E-mails released under a Freedom of Information Act request in January of this year have highlighted that the developers have paid NRW £25,000 for management of Wentwood forest, although they manage it, again, already. This, surely, must be considered a conflict of interest from the statutory consultee who initially opposed this development and then did a u-turn in circumstances where there'd been a meeting with the then-Minister and the developer, which had been undocumented and for which there were no minutes.

Mae negeseuon e-bost a ryddhawyd yn sgil cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ym mis Ionawr eleni wedi tynnu sylw at y ffaith bod y datblygwyr wedi talu £25,000 i Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli coedwig Coed Gwent, unwaith eto, er eu bod eisoes yn ei rheoli. Yn sicr, rhaid ystyried bod hyn yn enghraifft o wrthdaro buddiannau gan yr ymgynghorai statudol a oedd yn gwrthwynebu'r datblygiad hwn ar y cychwyn ac a wnaeth dro pedol mewn amgylchiadau lle y cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Gweinidog ar y pryd a'r datblygwr, na chafodd ei gofnodi ac ni chadwyd cofnodion ohono.

Given NRW's dramatic u–turn, I would question whether it is appropriate for a body of this sort to receive payment of funds in that way. There is an argument that the land swap proposed is not fair compensation for the land being lost, because it's already subject to public access. It's also some distance—over 30 miles away in some cases—from those that currently enjoy the common land on foot, but they'll lose the right on horseback to do it, and the Welsh Government, which is the leaseholder of part of the exchange land is the decision maker on many of the issues in this development and it cannot, therefore, demonstrate the independence that it should do. It has a clear conflict of interest.

O ystyried tro pedol dramatig Cyfoeth Naturiol Cymru, byddwn yn cwestiynu a yw'n briodol i gorff o'r math hwn dderbyn taliadau yn y ffordd hon. Mae yna ddadl nad yw'r tir cyfnewid arfaethedig yn ddigolllediad teg am y tir a gollir, gan ei fod eisoes yn agored i'r cyhoedd. Mae hefyd gryn bellter i ffwrdd—dros 30 milltir i ffwrdd mewn rhai achosion—oddi wrth y bobl sy'n mwynhau cerdded y tir comin ar hyn o bryd, ond byddant yn colli'r hawl i farchogaeth ar gefn ceffyl, a Llywodraeth Cymru, sef deiliad y brydles ar ran o'r tir cyfnewid, sy'n penderfynu ar lawer o'r materion sy'n codi yng nghyswllt y datblygiad hwn, felly ni all ddangos yr annibyniaeth y dylai ei dangos. Mae yma wrthdaro buddiannau amlwg.

The Countryside Council for Wales recommended that nobody should live more than 400m from a natural accessible green space. Only 65% of people within Blaenau Gwent live within that 400m of accessible natural green space. Just earlier, we heard John Griffiths calling for open access land and yet, here, we have the Welsh Government agreeing to a land swap that will actually reduce the amount of public access to land.

Argymhellodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru na ddylai neb fyw ymhellach na 400m o fan gwyrdd naturiol hygyrch. Dim ond 65% o bobl Blaenau Gwent sy'n byw o fewn 400m o fan gwyrdd naturiol hygyrch. Yn gynharach, clywsom John Griffiths yn galw am dir mynediad agored ac eto, yma, mae gennym Lywodraeth Cymru yn cytuno i gyfnewid tir a fydd mewn gwirionedd yn cyfyngu ar faint o fynediad cyhoeddus i dir sydd ar gael.

The then-Minister for the environment, Alun Davies, said two years ago: it's one of my highest priorities to improve the local environment for our most disadvantaged citizens. It's clear from an environmental view that this race circuit will not achieve this priority.

Ddwy flynedd yn ôl, dywedodd Alun Davies, sef Gweinidog yr amgylchedd ar y pryd: un o fy mlaenoriaethau pennaf yw gwella'r amgylchedd lleol ar gyfer ein dinasyddion mwyaf difreintiedig. O safbwynt yr amgylchedd, mae'n amlwg na fydd y gylchffordd hon yn cyflawni'r flaenoriaeth honno.

The other issues also highlighted as a concern relate to the national park. The impact on the bordering Brecon Beacons National Park in terms of noise, light, traffic, ecological and visual impact, which in the view of Gwent Wildlife Trust, will negatively affect the park's special qualities and the purpose for which it was designated. During the construction phase, Gwent Wildlife Trust have estimated a total of 842 lorry movements per day will occur, adding considerably to the air pollution, noise and light impact. In 2013, the Brecon Beacons National Park was designated as an international dark-sky reserve, an internationally recognised award that pledges to preserve clear skies and eliminate light pollution. This project could have a severe impact on this designation, and harm that designation for the Brecon Beacons National Park. So, when there's talk about jobs, it's at a cost, potentially, of jobs elsewhere.

Mae'r materion eraill y mynegwyd pryder yn eu cylch yn ymwneud â'r parc cenedlaethol. Ym marn Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, mae'r effaith ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n ffinio â'r tir, o ran sŵn, golau, traffig, effaith ecolegol a gweledol, yn effeithio'n negyddol ar nodweddion arbennig y parc a diben ei ddynodi. Yn ystod y cyfnod adeiladu, mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent wedi amcangyfrif y bydd cyfanswm o 842 o symudiadau lori y dydd yn digwydd, gan ychwanegu'n sylweddol at effaith llygredd aer, sŵn a golau. Yn 2013, dynodwyd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn warchodfa awyr dywyll ryngwladol, dyfarniad a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n addo cadw awyr glir a dileu llygredd golau. Gallai'r prosiect hwn gael effaith ddifrifol ar y dynodiad, a niweidio'r dynodiad ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Felly, wrth sôn am swyddi, mae'n bosibl y byddai ar draul swyddi mewn mannau eraill.

The whole development is not in keeping with the character of the area and could create a precedent for developments in areas bordering on other parts of the national parks. I feel this quote from the Brecon Beacons National Park to the Minister responsible for planning sums up their views very well. It said that it is a controversial scheme, it will irreparably affect sites of scientific, nature, conservation and historic/archaeological interest and is directly adjacent to a designated area of landscape importance.

Nid yw'r datblygiad cyfan yn gweddu i gymeriad yr ardal a gallai greu cynsail i ddatblygiadau mewn ardaloedd sy'n ffinio â rhannau eraill o'r parciau cenedlaethol. Rwy'n teimlo bod y dyfyniad hwn gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio yn crynhoi eu barn yn dda iawn. Dywedodd ei fod yn gynllun dadleuol, bydd yn effeithio mewn modd na ellir ei adfer ar safleoedd o ddiddordeb gwyddonol, safleoedd natur a chadwraeth a safleoedd o ddiddordeb hanesyddol/archaeolegol, ac mae'n union gerllaw ardal ddynodedig o bwysigrwydd tirweddol.

There are other environmental concerns: the loss of peat soils. The Welsh Government have recently been advocating the protection of such areas, and I know that the then-Minister, Alun Davies, talked endlessly about the restoration of blanket bogs, but, in this case, it appears that that doesn't apply. Evidence provided to a board meeting in NRW in September 2013 stated that the construction would result in the disturbance or loss of over 700,000 cu m of peat and peaty soils. This loss has implications for carbon sequestration and releases of carbon dioxide to the atmosphere. The proposed carbon payback time of the carbon mitigation measures is up to 89 years. Gwent Wildlife Trust believe that carbon emissions arising from the development have been underestimated and, although the emissions arising from peat loss, extraction and removal from the site have been estimated in the planning application, none of the other sources of greenhouse gas emissions arising from construction and operation of the development have been taken into account. These include the commuting of employees, building materials, construction vehicles and running the events themselves.

Mae yna bryderon amgylcheddol eraill: colli priddoedd mawn. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn dadlau yn ddiweddar dros ddiogelu ardaloedd o'r fath, a gwn fod y Gweinidog ar y pryd, Alun Davies, wedi siarad yn ddiddiwedd am y gwaith o adfer gorgorsydd, ond yn yr achos hwn, mae'n ymddangos nad yw hynny'n berthnasol. Roedd tystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer cyfarfod o fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Medi 2013 yn dweud y byddai'r gwaith adeiladu yn arwain at aflonyddu ar, neu golli dros 700,000 cu m o fawndiroedd a phridd mawnog. Mae i'r golled hon oblygiadau o ran dal a storio carbon a rhyddhau carbon deuocsid i'r atmosffer. Amser ad-dalu carbon arfaethedig y mesurau lliniaru carbon yw hyd at 89 o flynyddoedd. Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent yn credu bod yr amcangyfrif o'r allyriadau carbon sy'n deillio o'r datblygiad yn rhy isel ac er bod yr allyriadau sy'n deillio o golli mawn, a'i godi a chael gwared ohono o'r safle wedi eu hamcangyfrif yn y cais cynllunio, nid oes yr un o'r ffynonellau eraill o allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o adeiladu a gweithredu'r datblygiad wedi cael eu hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys gweithwyr yn cymudo, deunyddiau adeiladu, cerbydau adeiladu a chynnal y digwyddiadau eu hunain.

The third concern I have is the cost to the public purse and value for money. I know that the Deputy Minister stated in response to William Graham before Christmas that the Circuit of Wales aims to attract 750,000 visitors per year within three to five years of start-up. I would question how this figure has been arrived at and whether or not it will ever happen. The 6,000 jobs proposed have already been pooh-poohed, as I would put it, or had scorn poured on them by Professor Garel Rees, the chair of the Welsh Automotive Forum, who told BBC Wales's 'Week In, Week Out' programme that the prediction of new jobs created by this investment was overly optimistic, and it would create no more than 1,000 jobs.

Y trydydd pryder sydd gennyf yw'r gost i'r pwrs cyhoeddus a gwerth am arian. Gwn fod y Dirprwy Weinidog wedi nodi mewn ymateb i William Graham cyn y Nadolig fod Cylchffordd Cymru yn anelu i ddenu 750,000 o ymwelwyr y flwyddyn o fewn tair i bum mlynedd i gychwyn. Byddwn yn cwestiynu sut y cyrhaeddwyd y ffigur hwn ac a fydd byth yn digwydd. Eisoes, mae'r 6,000 o swyddi arfaethedig wedi cael eu hwfftio, fel y byddwn i'n ei roi, ac yn destun dirmyg yr Athro Garel Rees, cadeirydd Fforwm Moduro Cymru, a ddywedodd wrth raglen BBC Wales, 'Week In, Week Out', fod y rhagfynegiad o swyddi newydd a grëir gan y buddsoddiad hwn yn rhy optimistaidd, ac na fyddai'n creu mwy na 1,000 o swyddi.

The project has so far received a £2 million grant from Welsh Government, but the detail of this has been shrouded in secrecy. The total cost of the project as of August last year is said to be £315 million. This is already up from the initial £280 million. The development company, in August 2014, were still in the market for £200 million of investment, and said that in publicly available documents. They have also said in publicly available documents that they would like to raise 10% of the investment, so £30 million, from Welsh Government grants, and that they have applied for those grants. The Welsh Government issued a statement yesterday that futher public money would be conditional on all the public sector financing being in place, but Welsh Government have not outlined the risk of that financing, because it is quite clear that the MotoGP championship and Dorna have said to the Circuit of Wales that, if they are not able to run the race in 2016, then they will withdraw the rights from Circuit of Wales and the future options will no longer be valid. Now, given that there is a planning inquiry in March and Circuit of Wales themselves have estimated that they were due to start work in December or January, and that it would be a minimum 18-month build for the project, it casts severe doubt on whether or not they're going to be able to run the race in 2016. If they don't run the race in 2016, they lose all the options and the rights, and this circuit doesn't go ahead. So, Minister, I want an assurance from you that you think it's worth the upfront environmental cost and damage, because one delay, one problem with the project on site, one difficulty with the construction puts the whole project at risk, and I don't think that is worth the price.

Mae'r prosiect hyd yn hyn wedi cael grant o £2 filiwn gan Lywodraeth Cymru, ond mae'r manylion ynglŷn â hyn wedi cael eu cadw dan len o gyfrinachedd. Fis Awst y llynedd, dywedwyd y byddai cyfanswm cost y prosiect yn £315 miliwn. Roedd hyn eisoes yn uwch na'r £280 miliwn cychwynnol. Ym mis Awst 2014, roedd y cwmni datblygu yn dal yn y farchnad am £200 miliwn o fuddsoddiad, a dywedodd hynny mewn dogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd. Maent hefyd wedi dweud mewn dogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd y byddent yn hoffi codi 10% o'r buddsoddiad, £30 miliwn, o grantiau gan Lywodraeth Cymru, a'u bod wedi gwneud cais am y grantiau hynny. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ddoe yn dweud y byddai arian cyhoeddus pellach yn amodol ar gael yr holl arian sector cyhoeddus yn ei le, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi amlinellu'r risg sydd ynghlwm wrth yr arian hwnnw, gan ei bod yn gwbl glir fod pencampwriaeth MotoGP a Dorna wedi dweud wrth Cylchffordd Cymru, os nad ydynt yn gallu cynnal y ras yn 2016, yna byddant yn tynnu hawliau Cylchffordd Cymru yn ôl ac ni fydd yr opsiynau ar gyfer y dyfodol yn ddilys mwyach. Yn awr, o gofio bod ymchwiliad cynllunio ym mis Mawrth a bod Cylchffordd Cymru eu hunain wedi amcangyfrif eu bod i fod i ddechrau gweithio ym mis Rhagfyr neu fis Ionawr, ac y byddai'r gwaith adeiladu ar y prosiect yn cymryd 18 mis fan lleiaf, mae'n amheus tu hwnt a ydynt yn mynd i allu cynnal y ras yn 2016. Os nad ydynt yn cynnal y ras yn 2016, maent yn colli'r holl opsiynau a hawliau, ac nid yw'r gylchffordd yn mynd i ddigwydd. Felly, Weinidog, rwyf am gael sicrwydd gennych eich bod yn meddwl ei fod yn werth y gost a'r difrod amgylcheddol ymlaen llaw, oherwydd bod un cyfnod o oedi, un broblem gyda'r prosiect ar y safle, un anhawster gyda'r gwaith adeiladu yn rhoi'r prosiect cyfan mewn perygl, ac nid wyf yn meddwl ei fod yn werth y pris.

At the moment, the £2 million provided by Welsh Government appears to have resulted in the 2015 MotoGP world championship being held in Donington Park. Great news for Donington Park, but Welsh Government money is being used to subsidise an event at an English racetrack, and it seems to me that this is a questionable use of public funds—and why there is that need for transparency, why the business case should be out in the public domain, and the due diligence should be in the public domain, and not only that, but the terms of Dorna's contract with the Circuit of Wales and confirmation as to whether or not—. I want to see what due diligence Welsh Government has done around running the race in 2016 and the ability on the current timetable to construct a circuit that will need to pass all the race tests before it can be raced on by 2016.

Ar hyn o bryd, ymddengys fod y £2 filiwn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at gynnal pencampwriaeth MotoGP y byd 2015 ym Mharc Donington. Newyddion gwych i Barc Donington, ond mae arian Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i sybsideiddio digwyddiad ar drac rasio yn Lloegr, ac mae'n ymddangos i mi fod hwn yn ddefnydd amheus o gronfeydd cyhoeddus-a'r rheswm pam y mae angen tryloywder, pam y dylai'r achos busnes fod yn gyhoeddus, a pham y dylai'r diwydrwydd dyladwy fod yn gyhoeddus, ac nid yn unig hynny, ond mae telerau contract Dorna gyda Cylchffordd Cymru a chadarnhad pa un a-. Rwyf am weld pa ddiwydrwydd dyladwy a ddangosodd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynnal y ras yn 2016 a'r gallu yn ôl yr amserlen bresennol i adeiladu cylchffordd y byddai angen iddi basio'r holl brofion rasio cyn y gellid cynnal rasys arni erbyn 2016.

The current contract offered for the race, for the world championship, is for five years with the further option of five, but that option presumably lies with Dorna rather than with Circuit of Wales. One of the premier racing circuits of the world, Belgium's Spa-Francorchamps realised a €700 million loss for the grand prix weekend in 2014, despite attracting an 80,000-crowd for the race day alone. This circuit receives considerable financial support from the regional Walloon government. If a top class well-attended event like this makes such a loss, what hope is there for a smaller, lesser established circuit such as the proposed track at Ebbw Vale.

Mae'r contract cyfredol a gynigir ar gyfer y ras, ar gyfer pencampwriaeth y byd, am bum mlynedd gydag opsiwn pellach o bum mlynedd arall, ond opsiwn i Dorna yw hwnnw yn ôl pob tebyg yn hytrach na Cylchffordd Cymru. Wynebodd un o brif gylchffyrdd rasio'r byd, Spa-Francorchamps yng Ngwlad Belg, golled o €700 miliwn yn sgil y penwythnos grand prix yn 2014, er i'r digwyddiad ddenu 80,000 o dorf ar ddiwrnod y ras yn unig. Mae'r gylchffordd honno'n cael cymorth ariannol sylweddol gan y llywodraeth Walwnaidd ranbarthol. Os yw digwyddiad o'r safon uchaf sy'n denu presenoldeb da fel hwn yn gwneud colled o'r fath, pa obaith sydd i gylchffordd lai o faint, a llai sefydledig megis y trac arfaethedig yng Nglyn Ebwy.

The whole project has been dogged by a lack of transparency, and I would like to pay tribute to the work that Friends of the Earth Cymru, the Open Spaces Society and Gwent Wildlife Trust has done over the last twelve months to bring some of the issues to wider attention. I'm not against the project in principle. I know motor sport is loved by millions, and to have a venue hosting international events anywhere in Wales would be welcome, but not at the cost of £30 million and not at the environmental cost of this project, and I hand over to my colleagues.

Mae'r prosiect cyfan wedi dangos diffyg tryloywder, a hoffwn dalu teyrnged i'r gwaith y mae Cyfeillion y Ddaear Cymru, y Gymdeithas Mannau Agored ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent wedi ei wneud dros y deuddeg mis diwethaf i ddod â rhai o'r materion i sylw ehangach. Nid wyf yn erbyn y prosiect mewn egwyddor. Rwy'n gwybod bod miliynau o bobl yn dwli ar chwaraeon modur, a byddai cael lleoliad ar gyfer cynnal digwyddiadau rhyngwladol yn unrhyw le yng Nghymru yn rhywbeth i'w groesawu, ond nid ar gost o £30 miliwn, ac nid ar gost amgylcheddol y prosiect hwn, ac rwy'n trosglwyddo i fy nghydweithwyr.

18:33

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Rhun ap Iorwerth.

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth.

18:33

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Chair. I don't necessarily want a red flag, and I don't want to be seen to red flag any economic development project. I don't consider it my place perhaps as a representative of a constituency the other side of Wales. I don't see it as my role as shadow economy Minister wishing to see economic growth in Wales to try to pull the rug under a potentially lucrative and successful project, but I will sound a note of caution. This is an area in which there is considerable competition within the UK as it is, and motor sport is exhilarating and it offers real economic growth potential, but there's only so much to go around. So, I ask for assurances that Government takes steps to protect investment it has already made in motor sport in Wales. The Anglesey Circuit has already secured Government investment. It's a circuit without match in terms of the mix of views and facilities. I look forward hopefully to welcoming the Deputy Minister there very soon to see the facilities for himself and to talk about the exciting possibility of bringing part of the Wales Rally GB there. But, if there is to be added competition within Wales, I would suggest that there would have to be mitigating measures taken to protect our current motor sports assets in Wales, so I'd ask for the assurance of that from the Deputy Minister.

Diolch, Gadeirydd. Nid wyf o reidrwydd eisiau baner goch, ac nid wyf am gael fy ngweld yn codi'r faner goch ar unrhyw brosiect datblygu economaidd. Nid wyf yn ystyried mai dyna fy lle i o bosibl fel cynrychiolydd etholaeth ar yr ochr arall i Gymru. Nid wyf yn gweld mai fy rôl i fel Gweinidog economi yr wrthblaid sy'n dymuno gweld twf economaidd yng Nghymru yw ceisio rhoi diwedd ar brosiect a allai fod yn broffidiol ac yn llwyddiannus, ond rwy'n mynd i leisio gair o rybudd. Dyma faes lle y ceir cystadleuaeth sylweddol o fewn y DU fel y mae, ac mae chwaraeon modur yn gyffrous ac yn cynnig potensial twf economaidd go iawn, ond hyn a hyn o arian sydd ar gael. Felly, rwy'n gofyn am sicrwydd fod y Llywodraeth yn rhoi camau ar waith i ddiogelu buddsoddiad y mae eisoes wedi'i wneud mewn chwaraeon modur yng Nghymru. Mae Trac Môn eisoes wedi sicrhau buddsoddiad gan y Llywodraeth. Mae'n gylchffordd heb ei thebyg o ran y gymysgedd o olygfeydd a chyfleusterau. Edrychaf ymlaen at groesawu'r Dirprwy Weinidog yno yn fuan iawn, gobeithio, i weld y cyfleusterau drosto'i hun ac i siarad am y posibilrwydd cyffrous o ddod â rhan o Wales Rally GB yno. Ond os oes cystadleuaeth ychwanegol yng Nghymru, byddwn yn awgrymu y byddai'n rhaid rhoi mesurau lliniaru ar waith i ddiogelu ein hasedau chwaraeon modur presennol yng Nghymru, felly byddwn yn gofyn am y sicrwydd hwnnw gan y Dirprwy Weinidog.

18:34

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. William Powell—a very fast one minute.

Diolch yn fawr. William Powell—munud gyflym iawn.

18:35

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. I'm grateful to Antoinette Sandbach for bringing forward this short debate today. In the light of her remarks, I suppose I need to declare an interest in the matter in that I'm a former member of the Brecon Beacons National Park Authority, and recently became chair of the project board of the Dark Skies project.

Diolch yn fawr. Rwy'n ddiolchgar i Antoinette Sandbach am gyflwyno'r ddadl fer hon heddiw. O ystyried ei sylwadau, mae'n debyg fod angen imi ddatgan buddiant yn y mater yn fy mod yn gyn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac yn ddiweddar ces fy ngwneud yn gadeirydd bwrdd prosiect Awyr Dywyll.

However, I share the views that Rhun ap Iorwerth has expressed. I don't wish to be the bearer of a red flag here, but I think it's really important that we have a greater understanding of the viability of this project before major additional public funds are committed. Also, I think it's really important that we have the active involvement of the Brecon Beacons National Park Authority in issues around the environmental impact and any mitigation, and that we have due regard to the needs of the graziers who are potentially adversely affected by this proposal.

Fodd bynnag, rwy'n rhannu'r farn y mae Rhun ap Iorwerth wedi ei mynegi. Nid wyf yn dymuno chwifio'r faner goch yma, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn inni gael gwell dealltwriaeth o hyfywedd y prosiect hwn cyn ymrwymo llawer o arian cyhoeddus ychwanegol. Hefyd, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn inni gael cyfranogiad gweithredol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn materion yn ymwneud â'r effaith ar yr amgylchedd ac unrhyw fesurau lliniaru, a'n bod yn rhoi sylw dyledus i anghenion y porwyr sydd o bosibl yn cael eu heffeithio'n niweidiol gan y cynnig hwn.

18:35 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I call upon the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism to reply to the debate—Ken Skates.

Diolch yn fawr. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i ymateb i'r ddadl—Ken Skates.

18:36 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

Thank you. I do think that it's a shame that this short debate has been tabled today with a negative view of the Circuit of Wales, following what was a very positive debate that we had on the subject shortly before Christmas, in which the Circuit of Wales was celebrated as the most significant investment in automotive infrastructure in the UK in the last 50 years. So, let me begin by addressing the concerns and the issues that have been raised both here today and previously with the Minister for Economy, Science and Transport.

Diolch yn fawr. Rwy'n credu ei bod yn drueni bod y ddadl fer hon wedi'i chyflwyno heddiw gyda golwg negyddol ar Cylchffordd Cymru, yn dilyn y ddadl gadarnhaol iawn a gawsom ar y pwnc ychydig cyn y Nadolig, lle y dathlwyd Cylchffordd Cymru fel y buddsoddiad mwyaf sylweddol o ran y seilwaith moduro yn y DU dros y 50 mlynedd diwethaf. Felly, gadewch imi ddechrau drwy fynd i'r afael â'r pryderon a'r materion a godwyd yma heddiw ac yn y gorffennol gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

The Heads of the Valleys Development Company Ltd have submitted their section 16 application to the Planning Inspectorate for the deregistration of common land. The application is currently being processed by the Planning Inspectorate and a public inquiry is expected to be held in March. With regard to funding for the project, we have awarded the Heads of the Valleys Development Company £2 million of grant support to date. Any further Welsh Government support is conditional on the company securing all of the necessary private sector investment. Details of that offer remain commercial in confidence.

Mae Cwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd Cyf wedi cyflwyno eu cais adran 16 i'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer dadgofrestru tir comin. Mae'r cais yn cael ei brosesu ar hyn o bryd gan yr Arolygiaeth Gynllunio a disgwylir y caiff ymchwiliad cyhoeddus ei gynnal ym mis Mawrth. O ran cyllid ar gyfer y prosiect, rydym wedi dyfarnu gwerth £2 filiwn o gymorth grant i Gwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd hyd yn hyn. Mae unrhyw gymorth pellach gan Lywodraeth Cymru yn amodol ar lwyddiant y cwmni i sicrhau'r holl fuddsoddiad angenrheidiol o'r sector preifat. Mae manylion y cynnig hwnnw yn parhau i fod yn fasnachol gyfrinachol.

As William Graham AM outlined in the previous debate, we acknowledge there are concerns about the site with regard to its impact upon the environment. The development will comply with the Welsh Government's nature recovery plan and will include a series of mitigation programmes, most notably the creation of enhanced habitats, priority species and improved grazing to promote the biodiversity of the area.

Fel yr amlinellodd William Graham AC yn y ddadl flaenorol, rydym yn cydnabod bod pryderon ynglŷn â'r safle o ran ei effaith ar yr amgylchedd. Bydd y datblygiad yn cydymffurfio â chynllun adfer natur Llywodraeth Cymru a bydd yn cynnwys cyfres o raglenni lliniaru, a'r mwyaf amlwg o'r rhain yw creu cynefinoedd gwell, rhywogaethau â blaenoriaeth a gwella pori er mwyn hybu bioamrywiaeth yr ardal.

In addition to solar generation, the site design includes onsite wind and hydro energy generation. Water will be pumped to high-point reservoirs allowing it to be released for hydro-generated energy. Environmental designing will provide a renewable energy scheme that will deliver a fixed-price energy solution.

Yn ogystal â chynhyrchu solar, mae'r cynllun safle yn cynnwys cynhyrchu gwynt ac ynni dŵr ar y safle. Bydd dŵr yn cael ei bwmpio i gronfeydd dŵr uchel i'w ryddhau ar gyfer cynhyrchu ynni dŵr. Bydd dylunio amgylcheddol yn cynnig cynllun ynni adnewyddadwy a fydd yn darparu ynni am bris sefydlog.

We've been able to provide the Heads of the Valleys Development Company Limited with financial support towards the cost of achieving planning consent and progressing the project to financial close, as there are huge benefits to be realised by the Circuit for Wales.

Rydym wedi gallu rhoi cymorth ariannol i Gwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd Cyfyngedig tuag at y gost o sicrhau caniatâd cynllunio a symud y prosiect yn ei flaen i'w derfyn yn ariannol, gan fod manteision enfawr i'w gwireddu gan Cylchffordd Cymru.

18:38 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Minister give way?

A wnaiff y Gweinidog ildio?

18:38 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

18:38 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for giving way. I hear what you're saying, Minister, but, at the same time, you have to recognise you're talking about between 500,000 and 700,000 tonnes of peat being removed. And, as Antoinette Sandbach mentioned, a period of 89 years is predicted for you to get those carbon dioxide emissions back. Eighty-nine years is a long time to expect Members of this Chamber to wait around to see whether your policies are successful, do you not think?

Diolch i chi am ildio. Clywaf yr hyn rydych yn ei ddweud, Weinidog, ond ar yr un pryd, mae'n rhaid i chi gydnabod eich bod yn siarad am symud rhwng 500,000 a 700,000 o dunelli o fawn. Ac fel y crybwyllodd Antoinette Sandbach, rhagwelir y bydd yn cymryd cyfnod o 89 mlynedd i chi ad-dalu'r allyriadau carbon deuocsid hynny. Mae wyth deg naw o flynyddoedd yn amser hir i ddisgwyl i Aelodau'r Siambr hon aros i gael gweld a yw eich polisïau yn llwyddiannus, oni chytunwch?

18:38 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The £280 million capital investment programme will build a world-class international motor sports racing track, with an adjacent automotive and high-technology cluster, and aims to achieve significant and wide economic benefits for Wales and the deprived region of Ebbw Vale in particular.

Diolch yn fawr. Bydd y rhaglen buddsoddi cyfalaf £280 miliwn yn adeiladu trac rasio chwaraeon modur rhyngwladol o'r radd flaenaf, gyda chlwstwr moduro ac uwch-dechnoleg cyfagos, a'i nod yw sicrhau manteision economaidd sylweddol ac eang ar gyfer Cymru a rhanbarth ddifreintiedig Glyn Ebwy yn benodol.

The innovative scheme will transform 830 acres of land in Blaenau Gwent into high-quality motor sport activity, commerce and entertainment, regenerating the area by providing significant opportunities in job creation, tourism, and research and development. It aims to attract 750,000 visitors per year within three to five years of start-up. The development will be a major addition amongst Europe's front-ranking motor sport facilities, and will be designed to host international events such as MotoGP, the Superbike World Championship, the Motocross World Championship and the World Touring Car Championship. Through their training—

Bydd y cynllun arloesol yn trawsnewid 830 erw o dir ym Mlaenau Gwent yn weithgaredd, masnach ac adloniant chwaraeon modur o ansawdd uchel, gan adfywio'r ardal drwy ddarparu cyfleoedd sylweddol o ran creu swyddi, twristiaeth, ac ymchwil a datblygu. Ei nod yw denu 750,000 o ymwelwyr y flwyddyn o fewn tair i bum mlynedd i gychwyn. Bydd y datblygiad yn ychwanegiad o bwys ymysg cyfleusterau chwaraeon modur blaenllaw Ewrop, a bydd yn cael ei gynllunio i gynnal digwyddiadau rhyngwladol megis MotoGP, Pencampwriaeth y Byd Superbike, Pencampwriaeth y Byd Motocross a Phencampwriaeth World Touring Car. Drwy eu rhaglen hyfforddi—

18:39 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

18:39 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No.

Na wnaf.

18:39 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you be taking any interventions?

A fyddwch yn cymryd unrhyw ymyriadau?

18:39 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No. Through their training and recruitment programme, the Circuit of Wales is also working closely with colleges and have actively engaged other graduates and student organisations such as the Swansea committee of the Institution of Civil Engineers Wales, who have recently delivered an evening lecture outlining the current construction proposals for the Circuit of Wales.

Na fyddaf. Drwy eu rhaglen hyfforddi a recriwtio, mae Cylchffordd Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda cholegau ac wedi mynd ati i ymgysylltu â sefydliadau graddedigion a myfyrwyr eraill megis pwyllgor Abertawe o Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru, a gyflwynodd ddarlith gyda'r nos yn ddiweddar yn amlinellu'r argymhellion adeiladu presennol ar gyfer Cylchffordd Cymru.

As Deputy Minister with responsibility for culture, sport and tourism, I will continue to support the construction of such an exceptional project in Wales.

Fel y Dirprwy Weinidog sydd â chyfrifoldeb dros ddiwylliant, chwaraeon a thwristiaeth, byddaf yn parhau i gefnogi'r gwaith o adeiladu prosiect mor eithriadol yng Nghymru.

18:39 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, and that bring today's proceedings to a close.

Diolch i chi, a daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:39.*

*The meeting ended at 18:39.*